
Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



# GEORGE HEYCOCK

## A'i Amserau.

GAN EDW. MATTHEWS, EWENY.

ABERTAWY:
ARGRAFFWYD GAN J. ROSSER, HEOL HEATHFIELD.

Pris Swllt.]

# GEORGE HEYCOCK

## A'I AMSERAU.

GAN EDWARD MATTHEWS.

ABERTAWY:
CYHOEDDWYD GAN JOSEPH ROSSER, HEOL HEATHFIELD.

BIBLIOTHECA · BODLEIANA

BODLEIAN
18 1 1914
LIBRARY

## AT EIN DARLLENWYR.

ADDAWASOM, wedi marw George Heycock, ddyfod â llyfr allan yn cynwys ei fywyd a'i amserau; ac yr ydym yn awr yn ei gyflwyno i'ch sylw. Ymddangosodd y rhan fwyaf yn y *Traethodydd;* ond yn gymaint nad oedd hwnw yn myned i ddwylaw ond ychydig, a chan fod y werin yn ei geisio ar ei ben ei hun, heb orfod prynu y *Traethodydd* am flynyddau, daethom i'r penderfyniad o'i anfon allan yn y ffurf bresenol.

Er mwyn dylyn y cymeriad, yr ydym wedi gorfod myned drwy lygredigaethau yr oes ddiweddaf, yn wylmabsantau a phob peth; ond cofier nad oes dim mwy o ddrwg mewn myned ar ol gwylmabsantau Cymru, er mwyn desgrifio, nag oedd darlunio ymladdfeydd a rhedegfeydd Groegaidd i'r dyben o ddarlunio y naill beth a'r llall mewn ymdrechfeydd Cristionogol. Gobeithio y gwel y darllenydd nerth gras yn gorchfygu y pechadur mwyaf rhyfygus, a thrwy hyny weled y posiblrwydd o achub y pechadur penaf. Yn gymaint ag i Saul yr erlidiwr a George Heycock gael eu hachub, y mae gobaith am bwy bynag sydd yn teimlo ei drueni. Nid ydym yn gwybod am un peth mwy effeithiol i beri i ddynion i obeithio yn nhrugaredd Duw, na gweled hen bechaduriaid mawrion ac aflan wedi eu cipio a'u dwyn i ddyogelwch.

Yn nghymeriad y dyn hwn yr ydych yn gweled cymeriad goruchwyliaethau dwyfol, er llunio rhyw feddwl gwyllt fel ei eiddo ef i fywyd tragywyddol. Yn ei argyhoeddiad dwfn, ei ofnau mawrion, ei symlrwydd diaddurn yn ceisio gweddio ac ymbil am drugaredd, y gwelir Ysbryd Duw yn dechreu ymsymud yn gadwedigol ar feddwl dyn,

ac yn ei ffurfio drwy ras i fywyd annhraethadwy a gogoneddus. Yr ydym yn gobeithio y bydd llawer mor llygadgraff a gweled egwyddorion mawrion yr efengyl yn ymweithio yn y cymeriad hwn, ac y bydd canoedd yn gweled oferedd pleserau y bywyd hwn wrth edrych ar ei fywyd dechreuol.

Y mae edrych ar ddyn yn ymlwybro trwy y bywyd hwn o dan ddylanwad gwahanol egwyddorion, yn werth ei astudio yn dda. Gwelir egwyddorion a thwyll pechod yn ei holl ffurfiau a'i liwiau aruthrol yn ymweithio allan, a thrwy hyny cadarnheir tystiolaeth yr ysgrythyrau am ei echryslonrwydd annghydmarol. O dan ddylanwad gras hefyd y gwelir yr egwyddorion grasol yn tori allan yn ffrwyth gogoneddus mewn tymher ac ymarweddiad, y rhai sydd yn addfedu yn raddol i hinsawdd mwy cydnawsol â'u natur na'n daear ni. Fel hyn y gwelir tystiolaethau y Bibl yn cael eu gwireddu yn ngwahanol gymeriadau dynion.

Wrth edrych i fywyd ac amserau GEORGE HEYCOCK, gwelir fod pechod yn ddrwg cymdeithasol; ei fod yn dystrywio cyrph, cysur, a heddwch teuluol a gwladwriaethol, heblaw pentyru euogrwydd erbyn dydd o gyfrif; a bod crefydd yn welliant cymdeithasol, yn gysur a thangnefedd teuluol, ac yn darpar dyn i wynfyd byth.

Os darllenir y fuchdraeth a ganlyn o dan yr ystyriaethau uchod, yr ydym yn hyderu y gwna ei darllen weinyddu lles ac adeiladaeth. Beth bynag, yr ydym, mewn modd gostyngedig, yn ei gyflwyno i'r cyhoedd i'r perwyl hwn.

# GEORGE HEYCOCK A'I AMSERAU.

## PENOD I.

CYMERIADAU mawrion sydd yn cyfansoddi hanesyddiaeth. Hwynt-hwy sydd yn rhoddi genedigaeth a bodolaeth i amgylchiadau mawrion a rhyfeddol; canys wrth ddarllen hanes y *dyn*, rhaid i ni ddarllen hefyd am yr hyn a wnaeth efe, yn nghyda'r canlyniadau o hyny. Felly, y mae amser byr, ïe, oes o ychydig o flynyddoedd, yn esgor ar bethau mawrion, ac yn fynych yn effeithio ar holl oesoedd y byd. Y mae yn anmhosibl, chwi welwch, dyweyd nemawr am y dyn, heb fyned at y gweithredoedd a wnaeth efe. Os sonir am Syr Isaac Newton, eir at gyfnod newydd a phwysig mewn astronomyddiaeth; ac os am Johnson, nodir ef allan yn dysgleirio yn nghanol mwg a thân, yr hwn sydd yn gosod y byd i fyned mewn brys mwy nag arferol, fel pe byddai am gyrhaedd pen ei daith yn gynt na'r amcan dechreuol. Nid oes neb yn siarad llawer am Milton heb fyned at *Paradise Lost*, nac am Oliver Cromwell heb fyned at y *Commonwealth*. Chwi glywsoch am y Doctor Owen, ond yn benaf mewn cysylltiad â'i weithiau duwinyddol; am Whitfield mewn cysylltiad â'i bregethu rhyfeddol; ac am Harri o Exeter fel trawslywodraethwr uchel-eglwysaidd, ac aflonyddwr heddwch yr enwad y perthyna iddo. Yr ydych yn adwaen Duw wrth ei waith; a dyn hefyd a adwaenir wrth ei weithredoedd yntau. Y mae y dyn o fewn, a holl hynodrwydd ei feddwl, yn dyfod yn ddarllenadwy yn ei weithredoedd. Y mae y rhai a'i hadwaenant ef yn dda yn darllen bron holl agweddau ei feddwl a theimladau ei galon. Y dyn, gan hyny, a'r hyn a wnaeth efe, sydd yn cyfansoddi prif hanesion ein byd ni. Y mae gan bob pentref ei wron, yr hwn sydd yn ei fyd bychan ef yn gynllun trwyadl o wroniaid bydoedd mwy. Ac fel y mae rhai uchelwyr yn bobl anhynod ddigon, felly y mae rhai mewn sefyllfaoedd cyffredin neu isel yn bobl hynod iawn. Y mae George Heycock, yr hwn yr ydym yn bwriadu, trwy gymhorth, adrodd ychydig o'i hanes, yn teilyngu, yn ein barn ni, ryw ychydig o le yn nghronicl yr oesoedd.

Ar lethr mynydd uchel a thra ardderchog, yr hwn sydd yn edrych i lawr yn fawreddus ac annibynol ar donau arianaidd Hafren yn golchi ei droed, y mae tŷ bychan, dibwys ynddo ei hun, ond bythgofiadwy fel lle genedigol ein harwr hwn. Ganwyd yno amryw o blant iachus a dianaf, y rhai a fu fyw yn onest, a weithiasant yn galed am eu bara beunyddiol, ac a fuant feirw yn y diwedd, ac heb fod nemawr yn eu hadwaen y tu hwnt i derfynau eu plwyf genedigol. Y mae yn debyg mai George yn unig a fwriadwyd i wneyd gorchestion, ac ymddysgleirio yn ei oes a'i genedlaeth. Dygwyddodd rhyw beth tra hynod ar ddydd ei

enedigaeth—hyny yw, hynod yn myd y menywod. Yr ydym yn annghofio yn awr beth ydoedd yn berffaith; ond beth bynag, yr oedd yr holl hen wragedd drwy y gymydogaeth yn cyduno mai arwydd o ryw hynodrwydd yn nglŷn â'r plentyn ydoedd. Gellid meddwl na ddarfu iddynt gamsynied y tro hwn gymaint a llawer gwaith. Ganwyd gwryw, beth bynag; y mae hyn yn ddigon amlwg; a mawr oedd llawenydd ei fam, yn gymaint a bod pethau mawrion yn cael eu darogan gan ei chyfeillesau, y rhai a ddaethant yn nghyd i'w chysuro, ac i yfed *tea*. O ran corph, yr oedd rhyw beth yn fwy anfanteisiol ynddo ef na'r plant eraill, yn gymaint ag iddo ddyfod i'r byd ag un goes yn llai na'r llall. Yr oedd efe yn ddyn esgyrnog wedi iddo dyfu i fyny, yn lluniaidd ei gorph, cryf ei wneuthuriad, golygus, dewr ei olwg, a hoenus yn mhob ystyr, ond yn unig y goes, fel y soniasom. Yr oedd y goes hon yn ferach na'r llall, ac yn mhob ystyr yn llai, fel yr oedd bob amser yn yr arferiad o gerdded wrth lawffon gadarn. Yr oedd hyn dipyn yn anffortunus, a bu yn brofedigaeth iddo ef y rhan fwyaf o'i oes, yn enwedig y rhan hono o honi a dreuliodd yn y cnawd; onide, yr ydym yn meddwl iddo ddyfod i gymod yn agos berffaith â'r aelod hon wedi iddo gael crefydd. Wedi y cwbl, y mae yn fwy tebyg i'r anmherffeithrwydd corphorol hwn droi allan yn fwy o fantais nag o anfantais mewn llawer ystyr. Cafodd fwy o fanteision dysg o herwydd hyn; bu yn hŵy yn yr ysgol na'r plant eraill, ac na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion; a'r canlyniad fu, ei fod yn well ysgolhaig na nemawr yn yr un sefyllfa y dyddiau hyny. Yr oedd coleg mewn lle a elwid Twll yn y wal, heb fod yn mhell o'r ardal lle yr astudiodd yn llwyddianus amryw o flynyddoedd. Ysgrifenai law ragorol, yr ydoedd yn fedrus fel cyfrifydd, a dechreuodd astudio Lladin gyda'r bwriad o fyned yn feddyg. Ond ryw fodd neu gilydd, trodd rhod rhagluniaeth ffordd arall, a daeth rhyw beth—nid ydym yn cofio yn awr yr amgylchiad—ar ei ffordd, fel y rhwystrwyd ef rhag myned yn *ddoctor*.

Ar ol edrych ychydig eilwaith oddeutu, yr oedd pob peth yn dangos fod yn rhaid myned yn rhyw beth, ac felly daeth i'r penderfyniad yn sydyn o ymuno â chymdeithas anrhydeddus St. Crispin, lle yr hynododd ei hun yn fawr; a pharhaodd yn aelod cyfrifus a defnyddiol am y rhan fwyaf o'i oes. Nid yn hir wedi iddo dyngu llw o ffyddlondeb i St. Crispin, y bu cyn dyfod allan yn gyhoeddus fel blaenor y fyddin yn mhob drygioni ac ystranciau melldigedig. Yr oedd ynddo yn ddios gyneddfau naturiol cryfion; yr oedd ei gof yn ddiarebol, ei ddawn siarad bron yn ddiderfyn, yn nghyda pheth anferth o'r peth y mae y bobl yn ei alw yn *wit*, fel ag yr ydoedd yn alluog i dwyllo y rhan fwyaf o ddynion, ïe, dynion a gyfrifid yn gall iawn, gan eu gwneyd yn ffyliaid heb iddynt feddwl, a pheri iddynt gredu celwyddau anfad; canys dywedai gelwydd mor sobr a difrifol a phe buasai yn dyweyd y gwir goreu erioed; chwi a allasech dyngu ei fod yn

berffaith deimladol o'r amgylchiadau a adroddai, pan nad oedd y cwbl yn ddim ond celwyddau noethion o'i gaboliad ef ei hun.

Ei holl hyfrydwch yn yr amser hwn oedd gosod menywod i ymrafaelio, a holl ddynion y gymydogaeth yn benben â'u gilydd, trwy ddyweyd celwydd wrth un am y llall. Byddai mor sobr uwchben hyn a dim a welsoch erioed; ac ni buasai neb yn meddwl wrth ei glywed yn siarad nad oedd yn cydymdeimlo â'r pleidiau o eigion ei galon. Yr oedd yn dyfeisio pethau fel hyn, yn nghyda'r ffordd oreu i'w cario allan yn effeithiol. Astudiai yn fanwl, yn ddiamheu, y celwyddau mwyaf tebyg i gymeryd gyda y gwahanol bersonau, a'r rhai tebycaf i osod y cymydogion yn erbyn eu gilydd. Yr ydoedd yn dalentog ac yn ddoniol gyda hyn; dangosai feddwl galluog, llygad craff, a doniau uwchlaw y cyffredin yn mhell, hyd yn oed wrth ddyfeisio celwyddau, a'r dull o'u cymhwyso. Canys dywedai gyda'r teimlad mwyaf tyner, tebygid, fel pe buasai yn cydymdeimlo i'r byw â'r gwahanol bartïon, a chyda y difrifoldeb mwyaf. Yr oedd peryglon mawr yn ei gelwyddau ef, o ganlyniad, canys yr oeddent yn effeithio fel y gwirioneddau puraf. Y mae llawer un yn dyweyd celwydd mor annghelfydd a noeth, fel nad oes berygl yn y byd i neb ei gredu byth, ac felly nid yw yn gwneyd drwg i neb ond y pechadur ei hun; nid yw yn medru asio y pethau yn dda, na'u llyfnhau; eithr y mae yn hawdd i bawb weled rhwng y cysylltiadau, nes nad allant ond dirmygu y crefftwr. Ond am George, byddai yn asio ei gelwyddau gyda y fath gywreinrwydd, a'u lliwio drosodd mor ardderchog, a'u cymhwyso mewn modd mor debyg i gymeryd, fel yr oeddynt, y rhan fynychaf, fel pylor yn tanio cymdeithas drwyddi oll. Bu llawer o ganlyniadau annghysurus droion mewn teuluoedd a thrwy yr holl gymydogaeth yn gyffredinol, yn unig o herwydd ystranciau drwg a melldigedig George. Byddai yn rhy faith i ni adrodd ar hyn o bryd am yr holl ymladdau rhwng gwŷr a gwragedd, benywod â'u gilydd, yn nghyda dynion o bob oed a graddau, a achoswyd yn gwbl drwy ei ddyfais a'i gelwyddau. Gwelwyd ar y twyn, o flaen y *Somerset House*, fwy nag unwaith ymladdau rhwng menywod, pryd y byddai y *poker* a'r gefeiliau yn chwareu, a Mari'r gôf yn defnyddio y *teakettle*, gan daflu trwy ei big ddwfr berwedig yn ddiwahan ar bob cnawd. Nid oedd dim yn achosi y cwbl o'r cythrwfl hwn, ond yn unig rhyw ystoriau a ddywedodd George yn nghylch cariadon Pegi fach o'r Constant, a Mari merch y gôf.

Ond i adael pethau fel hyn, a myned yn y blaen, canys pe gollyngem i adrodd yr holl fanylion yn nghylch yr holl bethau a wnaeth efe yn y llwybrau hyn, nid ydym yn tybied y cynwysai yr holl bapyrleni yn Nghymru yr adroddiadau; eithr tybiwn fod yr hyn a ddywedwyd yn ddigon i roi cipolwg i'r darllenydd ar natur y cymeriad; a gall y cyfryw a ewyllysiont ymhelaethu yn eu meddyliau ar y materion. Y mae yn wir fod gan George dad a mam yn fyw, ac yn cadw cartref cysurus; ond yn anaml y byddai efe yno, canys yn wirioneddol y dafarn oedd ei artref ef;

yno y byddai bob amser y gallai yn rhyw fodd, oblegyd pob ceiniog a enillai, a llawer gyda hyny yn wir, a dreuliai am gwrw. Mewn cysylltiad â'r lleoedd hyn enillodd enwogrwydd fel prif ymladdwr y plwyf, os nid y wlad yn gyffredin, fel yr adnabyddid ef yn mhell ac agos wrth yr enw George y *bruiser*. Yr ydym yn cofio, pan y darfu i ni gael adnabyddiaeth o hono gyntaf, fod yn weledig olion cyfansoddiad cryf annghyffredin; yr oedd ei freichiau yn ymddangos fel gyrdd o faintioli anferth yn crogi wrth ei gorph, fel pe buasai Rhagluniaeth wedi ei fwriadu i ymladd â rhyw greaduriaid gwylltion, neu i'w dal a'u dyfetha. Meddyliasom lawer gwaith wrth ei weled mai gwae y dyn hwnw a elai o dan ei ddyrnodion. Bu llawer o Gymry a Saeson yn ceisio rhoi ei gefn i lawr, eithr gorchwyl caled y darfu i bawb ffeindio hyny. Buasai yn adrodd weithiau, mewn modd cyfeillgar, am ei ymladdfeydd; ar yr un pryd gallasech weled arwyddion gofid yn ei wynebpryd, ac wrth ddybenu dywedai yn aml, "Y fath ffwl yr wyf wedi bod!" Yr ydym yn cofio un tro,—nis gwyddom beth ddarfu arwain at hyny yn bresenol—ei glywed ef yn dywedyd am ymladdfa a gymerodd le ar gae cyfagos, lle y cafodd y gloesion mwyaf mewn cysylltiad ag ymladd yn ei oes. Yr oedd wedi dyosg yn noeth i'r croen, heb ddim ond y llodrau. Dechreuodd yr ymladdfa yn agos yn nghanol y cae, a churo dihafarch fu am dymhor, yn ol ac yn y blaen. Ond o'r diwedd daeth yr ymdrech ofnadwy i fan lle yr oedd llwyn mawr crwn o eithin yn tyfu, pryd y cafodd y *bruiser* ergyd gan ei wrthwynebydd yn rhyw le tua'r drydedd ais, nes yr ydoedd yn cwympo yn sybyrthol, baglau i fyny, i ganol y llwyn eithin, heb ddim ond croen noeth yn amddiffyn. "Yr wyf fi yn meddwl," meddai, "mai'r loes fwyaf a gefais yn fy oes oedd hono." Nid ydym yn meddwl fod yn angenrheidiol i ni dreulio llawer o amser i geisio perswadio y darllenydd yn nghylch gwirionedd y dystiolaeth hon; canys pan y meddylir ei fod yn noethlymyn, ac yn syrthio gyda'r fath ruthr, ac yntau yn ddyn pwysig hefyd, i ganol llwyn o eithin pigog, gallwn gasglu yn rhesymol nad oedd y gwely yn un esmwyth iawn. Bid a fyno, codwyd ef oddiyno mor gynted ag y gallesid, yn goch drosto gan waed, ac ugeiniau o bigau yr eithin wedi eu tori yn ei gnawd, y rhai, medd efe, oedd yn llosgi fel tân poeth. Er hyn i gyd, ni throdd ei gefn, ond ymladdodd wed'yn fel llew, gan guro ei wrthwynebydd nes oedd yn gwaeddi cyn y diwedd.

Er fod George wedi dyfod yn un o brif enwogion ei oes fel ymladdwr, er hyny yr oedd amryw o brif gampau y werin yn gyfryw nad oedd yn bosibl iddo ef gyrhaedd enwogrwydd ynddynt, o herwydd fod yn rhaid rhedeg, a bod yn gyflym mewn cysylltiad â hwynt; a hyny nis gallasai efe wneyd o herwydd ei goes, fel y crybwyllasom o'r blaen. Yr oedd gyda'r bêl droed a'r bando yn y *rear* o ddigon; nis gallasai eu dylyn o herwydd ei goes, fel nad oedd gwiw iddo ef siarad â Ianto Cound a Twm y teiliwr, mewn cysylltiad â'r bêl ddu a'r bando. Fel hyn, chwi a welwch, yr oedd ei goes yn brofedigaethus iddo; canys gyda hwy

yr oedd ei galon, ond fod yr aelodau yn pallu. Yr unig enwogrwydd a gyrhaeddodd gyda'r campau yr oedd traed yn hanfodol i'w cyflawniad, oedd sel drostynt, a ffyddlondeb i fod yn nghanol y *daplas*. Nid oedd ei ffyddlonach dan yr haul yn ddiamheu; a phe buasai bod yn ffyddlon yn enill y gamp, buasai yn ddios yn un o'r prif enillwyr, canys yr oedd efe gyda hwy yn ddiorphwys yn ol hyd ei goes; ac yr ydym yn meddwl yn gydwybodol y buasai yn well ganddo adael y goes ar ol na methu bod yn eu mysg. Ond y mae yn debyg nad yw ffyddlondeb yn ddigon er sicrhau y campau hyn; o ganlyniad ni ragorodd ynddynt.

Y mae yn dyfod i'n cof yn awr am ryw noson pan yn eistedd wrth y tân yn nhŷ un o'r cyfeillion, yr arweiniodd rhyw ymddyddanion ef yn y blaen i adrodd ei *dramp* gyntaf o gartref, sef ei ymadawiad â'i ardal enedigol i chwilio am waith. Yr oedd yn eistedd ar gadair o flaen y tân, ac yn pwyso ei ên ar glop y llawffon, ac yn myned dros yr holl hanes mewn trefn, o'i gychwyniad hyd ei ddychweliad yn ol. Adroddai yr hanes mewn teimladau digon gofidus ar brydiau, ac weithiau chwarddai, ac eilwaith suddai i dristwch, a'r dagrau yn llanw ei lygaid mawrion i'r ddau ymyl. Y mae yn debyg mai nid o un hoffder yr oedd yr apostol Paul yn adrodd hanes ei hen bechodau gynt, gan ddywedyd wrth y bobl ei fod ef wedi bod yn gablwr, yn erlidiwr, yn drahaus, a llawer o bethau cyffelyb; ond yn hytrach i ofidio uwchben ei ynfydrwydd, ac i roddi mawredd ar y gras a'i hachubodd ef oddiwrth ei bechodau. Pan yr oedd y *bruiser* yn dechreu adrodd ei gychwyniad o gartref, dyma Mrs. Williams, boneddiges y tŷ, yn rhwystro yr ystori drwy ofyn, "Pa faint sydd oddiar hyny, George?" "Pa faint? aroswch chi'; o brysur yr wyf yn methu cofio yr amser yn dda; ond yr wyf yn cofio hyn yn burion, mai y diwrnod yr oedd Wat Ievan a Chati'r Crydd yn myned i briodi oedd hi; oblegyd yr oedd y briodas yn myned o'n blaen tua'r eglwys, a nhw droison i lawr i hewl y fynwent, a phryd hyny y darfu i fi eu pasio. A wyddoch chi', Mrs. Williams, beth yw oedran plentyn hynaf Wat a Chati? gallwn ddweyd amcan wedi hyny." "Pw, pw," ebe rhyw gyfaill gerllaw, "y'mlaen â chwi, George; nid gwaeth rhyw lawer am yr amser." "Am na, yr wyf fi yn methu gweled fod ryw bwys mawr yn hyny hefyd," ebe yntau; "ond beth bynag, dyna'r pryd oedd hi, y diwrnod priododd Wat a Chati, gwaith yr oeddynt yn cerdded bob cam o'm blaen i'r eglwys; yr wyf yn cofio gystal a doe." Beth bynag am hyn, y mae yn gofus genym ei fod yn dyweyd iddo daro ffwrdd ar ben boreu, mewn undeb â Ianto Cound, heb wybod yn y byd i ba le, ond chwilio am gryddion yn rhyw le, a cheisio cael y rhan a ddygwyddai o'r da yn y fan hono. Crydd oedd y Cound hefyd, a bachgen gwisgi, campwr bron difaeddu ar y bêl; pa un ai ar do, neu yn erbyn y mur; ac nid oedd yn llai enwog fel arwr y bêl ddu hefyd. Yr oedd Cound gyda hyny yn rhedegwr mawr, ac fel dawnsiwr agos yn ddigyffelyb. Yr ydym yn cofio Cound yn uchder ei ogoniant pan oeddem ni yn

wan a phenfelyn, a'r nod uchaf yn ein huchelgais yr amser hwnw oedd cyrhaedd ei fedrusrwydd yn y campau. Gobeithio y gwnewch faddeu i ni, ddarllenwyr, am grwydro fel hyn hefyd; cael ein tynu a wnaethom, braidd heb yn wybod i ni ein hunain, gan adgof o'r hen amseroedd. Ond dyna, siarad yr oeddem am gychwyniad Cound a'r *bruiser* i'w *tramp* cyntaf.

Cychwynasant, fel y dywedasom, i edrych allan am waith; a theithiasant yn ddyfal; hyny yw, aethant mor gyflym byth ag y gallasai George deithio, canys yr oedd ei goes yn rhwystr mawr iddo gerdded yn mhell; ac am gyflymdra, yr oedd hyny allan o'r cwestiwn. Daethant o'r diwedd yn agos at bentref, lle yr oeddynt yn gobeithio fod gweithdy cryddion, lle y gallasent gael ychydig o waith, ac felly gwneyd eu hunain yn barod i gychwyn yn y blaen wed'yn. Yr oedd yn brydnawn erbyn hyn, ac yr oedd eisiau meddwl rhyw beth yn nghylch y nos, a pha le i letya. Dan gerdded a chydymddyddan am hyn yr aethant yn y blaen, nes o fewn chwarter milldir i'r pentref, pryd y disgynodd rhyw swn ar glust George, ac y safodd yn sydyn fel taro dwylaw yn nghyd, gan ddywedyd, "Aros, Ianto, fi ddala am gini fy mod yn clywed swn y delyn yn rhyw le." "Pw," ebe y llall, "*nonsense*, dere yn y blaen, nid oes dim yn y byd ond rhyw swn yn dy glust." "Fachgen, paid siarad; mi mentra 'mywyd fod y delyn yn chwareu yn rhyw le; ryfeddwn i flewyn nad yw Mabsant y Wig yn dechreu." Wrth fyned yn y blaen, o gam i gam, daeth yn ddigon amlwg mai swn gwirioneddol y delyn a ddisgynodd ar glust ein gwron, oblegyd yr oeddynt wedi nesâu ac wedi dyfod i'w swn yn gyflawn; ac er eu bod wedi cerdded erbyn hyn gryn bymtheg milldir, er hyny i gyd yr oedd yn effeithio gwylltineb ar eu coesau blinedig. George, o dan effeithiau a dylanwad swynol y miwsic, a neidiodd megys yn annghydwybodol o bob peth, ac a darawodd *jig* ar ganol y ffordd; ond o herwydd annghyfartalwch ei goesau, ac yntau wedi annghofio hyny ar y pryd o dan ddylanwad y delyn, syrthiodd ar ei hyd i'r clawdd, nes y bu agos a thori ei wddf; ond trwy gynorthwy ei gyfaill, daeth allan yn ddiangol heb gael nemawr o niwed, ond yn unig trochi mewn llaid yn y pwll. Yn mlaen yr aethant at y dafarn, a thyna lle yr oedd y rhialtwch fawr, yr holl wlad wedi dyfod yn nghyd, fel yr oedd yn ddigon amlwg erbyn hyn fod y mabsant wedi dechreu. Yr oedd prif ddawnswyr y fro wedi ymgynull yn nghyd o bob cwr; holl ieuenctyd a blodau yr ardaloedd mewn llawn rhwysg, ac yn eu dillad goreu, yn barod i ymgystadlu â'u gilydd. Yn nghanol gwisgiadau heirdd y meibion, a sidanau ardderchog y merched, yr oedd ein gwron yn sefyll ar dir lled anfanteisiol, yn enwedig wedi iddo ymdrochi felly yn y clawdd. Yr oedd bron pawb yn edrych arno fel ysgymunbeth, yn rhyw grwydryn digymeriad, ac yn troi eu llygaid arno gyda dirmyg a gwawd. Ond wrth iddo siarad ychydig â hwn a'r llall, gwelwyd ei fod yn rhyw beth y tu hwnt i'r cyffredin, fel y daeth amryw i'r penderfyniad mai gwr boneddig ydoedd wedi ei dori i lawr. Wedi enill

sylw fel hyn, a llygaid pawb yn dyfod i edrych arno, y mae yn dechreu chwareu ryw ystranciau, trwy daflu y goes fach ar draws ei wàr, ac ymdreiglo fel pêl yma a thraw, fel y daeth yn fuan yn destun siarad a sylw mawr yr holl gymdeithas. Daeth i'r golwg y tro hwn yn hynod mewn *jigio*, er ei holl anfanteision o herwydd ei goes. Yr oedd wedi dysgu rhyw *step*, nid ydym ni yn deall yn iawn pa fath ydoedd, ond yr oedd yn fath o ddynwarediad ar glap maen melin, fel y daeth allan o'r neuadd yn anrhydeddus, ac yn destun rhyfeddod i bawb, canys nid oedd neb yn mhlith yr holl ddawnswyr a allasai ymgystadlu ag ef. Agorodd hyn ddrws eang iddo ef a'i gyfaill gael digon o gwrw am dri diwrnod yn rhad ac yn rhodd; yr oedd pawb yn ddigon boddlawn i'w hanrhegu â'r ddiod er mwyn eu cwmni difyr. Fel hyn y buont hyd ddiwedd y fabsant, yn canu, yn dawnsio, ac yn gwneyd pob ystranciau, ac yn cael digon o beth i yfed am eu gwasanaeth.

O ïe, buom bron ag annghofio; yn ysbaid yr amser hwn yr ydym yn meddwl y daeth George i'r golwg fel *fortune teller* o fedr ac enwogrwydd. Yr ydym yn deall ei fod wedi arfer peth ar y gorchwyl hwn cyn yn awr, ond nid oedd wedi ymegluro yn iawn, ac enill sylw cyffredinol hyd yn mabsant y Wig. O'r cyfnod hwn, yr ydym yn coelio, yr edrychid arno yn gyffredinol gan wreng a boneddig fel *dyn hysbys*. Deallwyd ei fod yn deall ychydig o Ladin, drwy ei fod yn taflu allan ambell frawddeg nad oedd neb yn deall; a'r farn gyffredinol oedd y dyddiau hyny y gallasai pwy bynag ag oedd yn medru yr iaith hono, arglwyddiaethu ar fyd yr ysbrydion. Wedi i George weled ei fod wedi effeithio crediniaeth ynddynt am ei alluoedd i gonsurio, dymunodd ar i'r cwmni ei esgusodi am o gwmpas deg mynyd neu chwarter awr o bellaf, ac y dangosai efe y diafol iddynt yn sefyll ar ei ben ar ganol y parth. Yr oedd llawer mewn braw, yn enwedig y boneddigesau; ond beth bynag, yr oedd rhai â chalon mwy dewr yn dyweyd y byddai yn dda ganddynt hwy ei weled. Tynodd ei lyfr allan o'i logell, a cherddodd yn araf i'r ystafell nesaf, a chlywid ef yn darllen, neu ryw beth, ac weithiau yn ocheneidio yn drwm, fel yr oedd hyd yn oed y rhai ag oedd wedi caniatau iddo fyned, a'r rhai oedd yn proffesu y carasent weled y diafol, wedi edifarhau, ac yn ymddangos yn brudd ac ofnus iawn. Yr oedd yn dygwydd bod yn ddiwrnod gwresog iawn, a'r clêr llwydion allan yn finteioedd, ac yn blino yr anifeiliaid yn druenus; ond beth bynag, yn sydyn, fel taro dwylaw yn nghyd, dyma ryw beth yn y clôs tu cefn i'r tŷ, fel taranau o ran swn ar y cyntaf, ond wed'yn yn fwy tebyg i ruthro, a chwythu, a rhuo, fel pe buasai eirth, dywalgwn, a llewod o gwmpas y lle. Dyma yr holl gwmpeini yn gwelwi, y cedyrn galon yn colli eu nerth, ac yn ymddangos fel pe na byddai ysbryd mwyach ynddynt; yr oedd eu gliniau yn curo yn nghyd, gan ddysgwyl y diafol i mewn gan ruo a'u llyncu hwynt yn fyw. Dacw Miss Jones mewn llewyg, ac yn syrthio ar fynwes Llewelyn; dyna eto Miss Evans o'r Fferm yn llesmeirio, ac yn cwympo wrth ochr y ford fawr;

wele eto Bess y dafarnwraig, yr hon oedd yn lled dew, yn cwympo fel derwen ar ganol y parth. Bobl anwyl, y mae pawb yn llewygu! Gyda hyn dyma Ianto Cound, cyfaill y consuriwr, yn bloeddio allan gydag awdurdod, "George, cau y llyfr, fachgen, a dod hwynt i lawr gynta gelli; y mae'r dynion yn methu dal." Dyma George yn dyfod allan gyda'r sobrwydd mwyaf, ac yn dymuno ar bawb i fod yn dawel—y buasai yn gosod yr holl lu i lawr cyn pen tri mynyd; ei fod wedi caniatau iddynt fyned i'r gwartheg a dau ebol cyn dyfod i'r tŷ, ond y bwriai efe hwynt allan o'r rhai hyny yn fuan. Felly y bu, canys yr oedd y creaduriaid erbyn hyn wedi ymwthio i'r beudai i'r cysgod, ac yn cael llonydd gan y clêr llwydion, ac o ganlyniad yn rhoi llonydd i bawb. Wedi rhoddi ychydig o ddwfr oer ar wynebau y boneddigesau, a gwneyd tipyn o awyr â napcynau, dadebrasant o'u llesmair, a bu tawelwch mawr. Oddiar hyn sefydlwyd cymeriad ein harwr fel consuriwr a *fortune teller* blaenaf ein hardaloedd.

Pe baem yn myned i adrodd yr holl bethau a wnaeth efe yn y gelfyddyd hon, y mae yn anhawdd iawn gwybod pa bryd y dybenem; ond fel y dywedasom eisoes, nid ydym yn meddwl fod yn 'angenrheidiol i ni fyned at fanylion, ond yn unig adrodd cymaint ag a roddo gipolwg i'r darllenydd o'r cymeriad, ac iddo ef, os ewyllysia, fanylu yn ei fyfyrdodau. Beth bynag, wedi y pethau hyn, daeth yn adnabyddus yn agos a phell o dan yr enw George y *consuriwr*, ac yr oedd yn wrthddrych a berchid bron yn annaearol, rhag ei ofn. Gwelid ef yn gorwedd am oriau mewn cae cyfagos, â'i wyneb i fyny, a dau neu dri o lyfrau yn agored o'i gwmpas, ac un arall yn ei law, fel pe buasai mewn ymdrafodaeth helaeth â bydoedd anweledig. Byddai y bobl yn ymgrynhoi o gylch y cloddiau a'r perthi, gan ymlusgo mor ddystaw ag y gallasent i edrych a welent ryw beth; ac yr oedd rhai yn barod i wneyd eu llw, yn enwedig Nansi Singleton a Bess Jones, eu bod yn gweled lluniau anghenfilaidd anferthol fel yn codi o'r ddaear o'i gwmpas. Yr oedd ei ddylanwad yn y wlad o herwydd y pethau hyn bron yn beryglus i gymdeithas, canys pa beth bynag a ddywedai ac a orchymynai, yr oedd ufudd-dod yn sicr; oblegyd yr oedd pawb yn ddiwahan yn credu fod George yn gonsuriwr, ac am hyny y gallasai drafod pawb fel y mynai.

Yr oedd dyn syml iawn yn y gymydogaeth, yn grefyddwr, o'r enw Cound eto, ond nid Ianto Cound ddim, er yn berthynas agos iddo, yr hwn oedd yn ceisio dyfalu beth oedd i'w wneyd i atal y gelfyddyd ddieflig hon, lleihau dylanwad y consuriwr, a rhyddhau y gymydogaeth oddiwrth bla mor ddirfawr. Y mae yn debygol fod Cound wedi meddwl llawer uwchben y cwestiwn hwn, os nid wedi gweddio peth hefyd, canys yr oedd yn eithaf cyfarwydd yn y llyfr santaidd, am hyny yn gwybod fod yn anmhosibl cael y rhywogaeth hon allan ond trwy ympryd a gweddi. Beth bynag, yr oedd Cound yn teimlo angenrheidrwydd am gynghor oddiwrth ryw ddyn call a gwybodus ar fater mor dywyll; ac aeth yn syth un diwrnod at ysgolfeistr deallus, i roi y

mater ger bron, a chael ychydig o ymgynghoriaeth. Y mae hwnw, er maint ei ddealltwriaeth mewn cyfrinion, yn cael ei daro i dipyn o *study*, ac yn methu rhoddi gwybodaeth eglur pa fodd i ddifodi yr ysbryd a'r gallu consuriol. Dywedodd pe gallesid deall rhyw dro fod George ar y weithred o gonsurio, a myned y fynyd hono a'i drywanu â chyllell bigfain nes cael allan waed, y buasai hyny yn dyfod ag ef fel dyn arall; ond wed'yn, mai peth anhawdd iawn fyddai gwybod yn sicr pa bryd y byddai yn cyflawni y weithred, ac ni byddai y moddion yn effeithiol un amser arall. Yr oedd y *schoolmaster* dysgedig yn eistedd o flaen y ddesg, a Cound yn sefyll uwch ei ben â'i het yn ei law, fel dyn yn dysgwyl yn bryderus am ddehongliad o ryw ddirgeledigaethau dyfnion; ond yn rhyw fodd nid oedd gweledigaeth eglur. Dyna Mr. Davies eto fel yn suddo i astudiaeth ddyfnach nag o'r blaen; y mae yn rhoddi ei law chwith o dan ei ben, yn cau ei lygaid, ac yn gwneyd ffurf go hir ar ei wyneb, a Cound yn edrych gyda'r symlrwydd mwyaf, gan ystyried yn sicr fod y gwr doeth yn awr mewn cymundeb uniongyrchol â'r duwiau; nid oedd anadl braidd yn cerdded, pan yn sydyn y neidiodd Mr. Davies ar ei draed, ac y dywedodd ei fod yn cofio ei dad yn dywedyd fod ei dadcu, tad ei fam, yn sicrhau pe ceid gafael ar lyfrau consuriwr a'u llosgi ar wendid y lleuad, fod yn anmhosibl i hwnw wneyd dim byth mwy yn y ffordd hono. Wel, yn awr, y peth nesaf i feddwl oedd, pa fodd i gael gafael ar y llyfrau. Yr oedd Cound yn deall yn burion fod yr hen wraig, mam George, mewn cymaint o ofid a neb oblegyd y gonsuriaeth yma, ac fe allai y gallai hi gael cyfle i ddod o hyd i'r llyfrau, ac felly ar wendid nesaf y lleuad gwneyd tonffagl o honynt, a rhyddhau y gymydogaeth helbulus oddiwrth ddylanwad yr ysbrydion aflan. Dywedwyd yr holl ddirgeledigaethau wrth yr hen wraig, ac addawodd hithau wneyd ei goreu i gael gafael ar yr oraclau. Aeth yn union at gistan George, lle y cedwid ei brif drysorau; ond er ei gofid yr oedd o dan glo. Aeth eilwaith ac eilwaith, ond o dan glo yr oedd yn aros o hyd, fel y digalonwyd hi yn mron yn nghylch y llwybr hwn, gan fod y consuriwr yn rhy ofalus am ei drysorau i neb allu eu cymeryd ymaith.

Ond ryw ddiwrnod, pan oedd George yn meddwi ar hyd y tafarndai, ac wedi gadael yr allwedd yn esgeulus yn y clo, dyma yr hen wraig yn cael gafael ar yr oraclau. Un llyfr oedd yn dygwydd bod i mewn yn bresenol, ar amlen yr hwn yr oedd llythyrenau mawrion cochion, canys yr oedd ei ditl, ac felly yn y blaen, wedi ei argraffu ag inc coch. Yr oedd hefyd luniau annaearol arno, yn edrych yn mhob dull a modd yn echrydus; ac un o honynt, yr hwn oedd yn sefyll megys yn y canol, ac yn fwy na'r lleill, yn codi ei law i fyny ac yn ysgyrnygu ei ddanedd yn wyneb Jupiter. Edrychodd yr hen wreigan yn ddyfal arno, ond yn methu cydio ynddo; y mae yn teimlo ei llaw fel yn gwywo, a'i haelodau fel yn curo yn nghyd; y mae yn tybio ei bod yn gweled ysbryd yn myned heibio o flaen ei hwyneb, ac y mae hyny

yn gwneyd i flew ei chnawd sefyll; y mae yn syrthio yn ol i'r gadair oedd wrth erchwyn y gwely, a bron yn llesmeirio. Dacw y chwys yn mhen tipyn yn tori drosti fel dwfr oer; y mae ei gwefusau yn wyn, a'i gruddiau fel pe na byddai ynddynt ddafn o waed mwyach; y mae yn rhoi rhyw un ysgrech echrydus, ac yn llesmeirio. Gyda hyn y mae gwraig y tŷ nesaf yn clywed y swn, yn rhedeg i mewn, ac i fyny â hi i'r llofft, pan y cafodd yr hen wraig megys heb ysbryd mwyach ynddi. Wedi cymhwyso ati y driniaeth gyffredin ac arferol, hi a ddadebrodd megys o gwsg tawel, a gwelai yn sefyll ger ei bron, ac yn ei chynorthwyo, Mari y bais goch, fel ei gelwid, a Chati'r crydd. Fel y gellwch ddeall, mae yr ymddyddan yn dechreu am y llyfr a'r llythyrenau cochion, a'r lluniau rhyfeddol, yn nghyda'i effeithiau marwol ar y cyfansoddiad. Dyma Cati'r crydd yn edrych i mewn i'r *box*, gyda gwddf estynedig, ac yn tynu yn ol yn sydyn fel pe buasai yn gweled rhyw beth; ond yn ymgynyg eilwaith, eithr yn tynu yn ol wed'yn, ac fel pe byddai ofn yn enill tir bob tro. Y mae yn methu, er pob ymdrech yn y byd, gydio yn y llyfr a'i ddwyn allan i oleuni. A pha beth a fuasai neb gwell o'i ddwyn allan, a datod ei seliau ef? canys nid oedd neb yno a allasai ei ddarllen, na neb yn y plwyf ychwaith, yr ydym yn coelio. Y mae Mari y bais goch yn anturio yn y blaen, ac yn ymdroi o gwmpas, fel yn gwneuthur ei hun yn barod i edrych ar y weledigaeth aruthr, ac yn estyn ei phen fel twrcan ar y gwlaw, ar fedr gwneyd yn fwy gwrol a rhagorol na Chati; ond pan y daeth y llythyrenau cochion i'r golwg, gyda'r lluniau anadnabyddus, rhoddodd ysgrech oeraidd, ac enciliodd fel pe buasai wedi ei saethu. Yn fuan y mae yr hen wraig ei fam fel pe bai yn cael rhyw hyder a chryfder oddiwrth ei chrefydd, sef oddiwrth y meddwl, os ydoedd yn cyflawni gweithred dda, a'i dyben yn gywir wrth wneyd hyny, y gallasai ar dir da ddysgwyl cynorthwyon. Ymgryfhaodd, gan hyny, ac ymaflodd yn ofnus yn y llyfr; canys er iddi gael ychydig nerth, yr ydoedd yn mhell o fod heb ofn a braw yn llwyr. Wel, dyma y tair yn troi eu hwynebau tua'r grisiau, i'r dyben o fyned a'r llyfr a'i roi yn nghadwraeth Cound. Y mae yr hen Mrs. Heycock yn myned yn gyntaf â'r llyfr yn ei llaw ddeheu, a Mari a Chati yn ei dylyn; ac y mae yn rhaid dyweyd, yr oedd golwg ofnus a thost arnynt oll. Pan yr oedd Mrs. Heycock tua chanol y grisiau, a Mari ar y ris uchaf ond un, canys Mari oedd yr olaf yn dygwydd bod, dyna ryw greadur byw, yn debyg i gath, yn cyffwrdd â choes Mari, nes iddi golli pob hunanfeddiant ar unwaith; bloeddiodd mewn dychryn ofnadwy; nid oedd mwyach rym yn ei haelodau; syrthiodd am draws Cati, a Chati a Mary am draws Mrs. Heycock, nes oedd y tair yn dyfod i lawr i'r grisiau fel taranau, ac yn llesmeirio ar ganol y porth.

Och, y fath helbul! beth sydd i'w wneyd yn awr? Y mae y brawd Cound yn clywed, a dyma ef yn dechreu cenglu ei hun, ac yn rhedeg i'r lle. Yr oedd y tŷ erbyn hyn bron yn llawn, a'r benywod yn tywallt dwfr ar wynebau gwelwlas y gwragedd

llesmeiriedig. Y mae Cound, er yn ddyn lled gryf, yn colli ei rym; y mae fel pe bai ei wroldeb yn ffoi, a'i adael yntau bron yn egwan. Wedi i'r gwragedd ddadebru, ac adrodd yr holl bethau a wnaethid, a'r llyfr a'r llythyrenau cochion a'r lluniau haerllug yn agored ar y llawr o flaen ei lygaid, y mae yn teimlo ei enau a'i dafod fel yn crasboethi, ei gnawd a'i galon yn pallu, ac yn dymuno ar ryw un ddyfod â chwpanaid o ddwfr. Wedi yfed dracht, ac ireiddio ychydig ar ei enau llosgedig, adferwyd ychydig nerth, a phenderfynodd ymysgwyd a cheisio bod yn *ddyn* yn ngwydd y gynulleidfa; canys erbyn hyn yr oedd y tŷ yn orlawn o wŷr a gwragedd hefyd. Yr oedd ein cyfaill Cound yn gyfarwydd yn y Gymraeg a'r Saesoneg—yn medru darllen yr ieithoedd hyn yn rhwydd ac eglur, ac ystyrid ef yn y gymydogaeth yn ysgolhaig, Ond erbyn edrych ar y llyfr, nis gallasai ddarllen un gair, ac nis gwyddai pa dafodiaith yn y byd ydoedd. Dechreuodd ei ddwylaw grynu, llanwyd ef drachefn ag ofn a braw, a dywedodd wrth Mrs. Heycock, "Cerddwch ag ef yn ol i'r gist lle y cawsoch ef, canys y mae rhyw ddrwg mewn cysylltiad ag ef, a gwell yw i ni adael rhwng George ag ef, na myned i beryglu ein hunain yn mhlith ysbrydion drwg." Felly gosodwyd yr oracl yn ol yn ddystaw yn y gistan, gan adael rhwng ei berchenog ag ef; canys yr oedd pawb yn ofni gwneyd dim iddo. Aeth Cound allan dan godi ei ddwylaw a'i olygon i fyny i'r nef, a dywedyd, "Wel, wel, fe fydd y bachgen yna yn sicr yn mhlith cythreuliaid; y mae efe wedi ymwerthu iddynt eisoes." Bu yr helynt hwn yn adnabyddus drwy yr holl wledydd oddiamgylch, a bu yn foddion i sefydlu cymeriad ein gwron fel consuriwr yn uwch nag erioed. Pan glywodd George yr hanes, ymffurfiodd ei wyneb yn y wedd fwyaf difrifol ag oedd yn bosibl, canys yr ydoedd yn fedrus ar hyny, a dywedodd fod yn ddrwg iawn ganddo glywed i'r fath anffawd ddygwydd, ond ei fod yn teimlo ei hun yn ddiolchgar, yn gymaint a'u bod wedi bod mor annoeth ag ymhel â'r llyfr, na fuasai pethau gwaeth wedi dygwydd. "Pe buasent," eb efe, "ond agor y llyfr yn y bumed tu dalen ar ugain, lle y mae Lucifer yn cydio yn nghyrn yr hwrdd, buasai wedi darfod am danynt oll; canys ni buasai yn bosibl eu cadw rhag cael eu darnio yn chwilfriw, yn gymaint nad oedd neb yn y lle yn gwybod y ffordd i'w roddi i lawr." Erbyn hyn yr oedd pawb yn teimlo yn falch ac yn gysurus wrth feddwl am eu gwaredigaethau rhyfeddol, wedi bod yn ymyl y fath beryglon aruthrol. Yr ydym yn cofio ei glywed ef yn myned dros yr hanes uchod, ac yn chwerthin o ddifrif am ben ofergoeledd dynion, ac yn dywedyd am y llyfr hwnw mai hen Almanac Ffrengaeg ydoedd a gafodd gan ryw Ffrencyn o forwr a fu yn aros yn y porthladd gerllaw.

Y mae yn rhaid dychwelyd eto. Yr ydym yn teimlo ein bod yn cael ein tynu ymaith i ddylyn ein harwr yn rhy bell, fe allai, ac eto y mae yn anhawdd gwrthsefyll y brofedigaeth. Gobeithio y cydymdeimla ein cyfeillion â ni y tro hwn, gan ystyried ein bod wedi cael ein harwain i anialwch, ac yn ceisio dyfod allan

yn y ffordd oreu y gallom, ar hyd ffyrdd pur ansathredig. Yn mabsant y Wig, onide, y gadawsom ein cyfaill George? Ië, dyna lle yr ydoedd yn y cornel, yr ydym yn cofio, yn canu "Mentra Gwen," ac yn tynu sylw, ac yn enill parch yr holl gymdeithion, Beth bynag, fe ddarfyddodd y fabsant; ond fel yr oedd hono yn darfod, dyma un arall yn dechreu mewn pentref cyfagos, ac felly ffwrdd yr aethant i hono; ac o fabsant i fabsant y buont am dair wythnos neu fis, heb daro ergyd, na chymaint a gwneyd un esgid. Y mae amser maith yn dyfod i ben o'r diwedd, ac felly fe ddarfyddodd y mabsantau, fel ag yr oedd yn rhaid meddwl am weithio rhyw gymaint eilwaith. Yr oedd ei ddillad wedi myned yn garpiog, a'i draed drwy ei esgidiau erbyn hyn, ac fel yr afradlawn wedi treulio y cwbl ond un swllt. Yr oedd yn well o swllt yn sicr na'r afradlawn, canys dywedir fod hwnw "wedi treulio y cwbl." Yr oedd swllt cyfan, y mae yn wir, gan George heb ei dreulio, ac y mae yn nerth hwnw yn taro allan i'r byd mawr i chwilio am waith. Cafodd hanes am siop cryddion mewn lle a elwir St. Ffagans, o gwmpas deg milldir yn y blaen o'r man lle yr oedd. Teithiodd yn ddyfal tuag yno; ac wedi dyfod i'r lle yr oedd eisiau gweithiwr, cytunodd i fyned yno dranoeth. Ond nid oedd yn bosibl iddo ddechreu gweithio tra yr oedd y swllt yn ei logell; am hyny aeth i'r dafarn rhag ei flaen, a gwariodd bob ceiniog ag oedd yn ei elw yn gyntaf; felly yr oedd erbyn hyn yn hollol fel y mab afradlon, "wedi treulio y cwbl." Boreu dranoeth aeth at ei waith, heb damaid o fwyd, na ffordd yn y byd i'w gael; gweithiodd yn frysiog, ond yr oedd chwant bwyd yn dyfod arno, ac heb olwg ar dameidyn o un lle i'w ddiwallu. Pryd ciniaw a ddaeth, a'r dynion eraill yn ymbarotoi i gychwyn, ond yr oedd efe yn ddigyffro ac yn llonydd iawn. Gofynodd y meistr a oedd efe ddim yn myned i giniaw, pryd y deallwyd nad oedd ganddo ef yr un ciniaw ar ei gyfer, na modd i'w gael. Dyma Joseph, yr hwn oedd yn ddyn gwyllt, ond hynod garedig, yn taro ei law yn ei boced, ac yn estyn swllt iddo ar gyfrif ei waith, ac yn gorchymyn iddo fyned i brynu rhyw beth i'w fwyta yn union. Gwasanaethodd hyn iddo hyd dranoeth, pryd yr oedd ychydig o sylltau yn dyfod yn ddyledus iddo oddiwrth ei waith, ac felly y gwaredwyd ef rhag marw o newyn, er dechreu o hono fod mewn eisiau. Dyfeisiodd Samuel Drew lwybr i'w gadw rhag teimlad arteithiol newyn tra yn gweithio pâr o esgidiau, drwy glymu yr arffedog yn dyn am ei ganol; ond ni chlywsom i George gael ymgyrchfa at y llwybr hyn. Yn fuan wedi iddo ddyfod ychydig uwchben ei draed, fel y dywedir, dechreuodd hynodi ei hun yn ddirfawr yn y lle hwn mewn cysylltiad â'r cymeriadau gwaethaf yn y plwyf. Yr oedd Twm o'r Castell yn fachgen hoew, ac yn benymladdwr a champwr cyn dyfodiad ein gwron i'r ardal; ond wedi hyny aeth dan gwmwl tew yn fuan, canys nid oedd yn gallu sefyll mwy na phlentyn o flaen y *bruiser*. Gosodwyd George ar ben y rhestr yn fuan, yn frenin yr holl gampwyr; ac nid hir y bu cyn i'w glod gerdded

drwy yr holl bentrefi cymydogaethol fel y cyfryw. Ofnid ef fel ymladdwr, ac arswydai pawb ef fel dyn hysbys a *fortune teller;* mewn gwirionedd, yr oedd ei awdurdod bron yn hollol, ac o ganlyniad yn beryglus. Byddai y tafarnwyr yn rhoi diod iddo yn rhad, o herwydd ei ddylanwad i dynu pobl ato lle bynag y byddai; canys yr oedd fel celain yn tynu yr holl eryrod o bob cwr; i'r man lle yr oedd efe y byddent yn sicr o ymgasglu. Efe oedd crwth a thelyn y tafarndai, *sport* a chrechwen yr yfwyr, enaid a bywyd y cwmpeini; nid oedd dim ond bri a llawenydd yn teyrnasu lle y byddai efe. George Heycock oedd y cwbl, gan wryw a benyw, hen ac ieuanc, gwreng a boneddig; efe oedd y bachgen ag oedd yn cadw bywyd a gwresogrwydd yn y gwaith.

Yr oedd Joseph, ei feistr y pryd hyn, yn wr crefyddol, ac yn ddyn syml a da iawn, ond yn rhyw beth gwyllt yn ei ffordd, fel y dywedasom o'r blaen, ac hefyd yr oedd dau neu dri o weithwyr crefyddol gydag ef ar y pryd. Yn wyneb fod Joseph a'r gweithwyr eraill yn clywed am ystranciau melldigedig George, yr oedd yn naturiol iawn i feddwl eu bod yn tori ato, ac yn ceisio rhoi rhyw air o gynghor iddo, yr hyn oedd yn bur ddiflas gan ein gwron, canys llwybr rhydd a dirwystr yn ei ffordd yr oedd efe am gael. Pan y buasai rhyw beth mawr wedi dygwydd, a Joseph yn dechreu ceryddu, er mwyn tori awch y cerydd, a'i dynu oddiwrth y mater, byddai y *bruiser* yn codi dadl yn erbyn crefydd a gwirionedd y Bibl. Yr oedd efe drwy hyn yn tynu Joseph oddiwrth yr ymladdfa, y dawnsio, neu ryw ystranc arall a gyflawnwyd, i ddadl yn nghylch y pethau hyn. Nid oedd nemawr o ddoniau dadleuol gan Joseph, nac amynedd ychwaith i ddal yn hir yn wyneb ei wrthwynebu, oblegyd yr ydoedd fel tân mewn pylor, yn fflam wyllt, ac yn drwst ofnadwy. Yr oedd y *bruiser* yntau mor araf a'r dydd hir, neu y dwr rhewedig, a dywedai gelwydd gyda'r un pwys ac arafwch a phe buasai y gwir goreu yn yr holl fyd. Ryw foreu, ar ol ystorm echrydus y nos o'r blaen yn y dafarn, dyma Joseph yn ei alw i gyfrif yn ddifrifol iawn, gan broffesu mai ei les amserol a thragywyddol oedd mewn golwg, ac yn dyweyd wrtho fod ei sefyllfa yn ofnadwy yn wyneb y Bibl; "oblegyd," meddai, "beth pe bait yn marw yn bresenol, yn mha le, tebygit ti, y byddai dy lety?" "Yn mha le?" ebe George; "clywch y dyn, oes bosibl iddi fod yn llawer gwaeth na lle yr wyf fi yn lletya yn awr? oblegyd yr wyf fi yn credu fod canoedd, os nid peth miloedd, o chwain yn ymborthi ar fy nghnawd bob nos." "Rhag dy gywilydd, George," ebe Joseph, gyda sel dau ddyblyg; "yr wyt ti yn cablu gair y gwirionedd; ti ddeui iddi o'r diwedd." "Gair y gwirionedd! *nonsense* i gyd," meddai y *bruiser;* "nid yw y Bibl ond rhyw beth y mae dynion drwg wedi ei gaboli yn nghyd i dwyllo y byd. A ddarfu i chwi ddim darllen erioed waith Shing-sangffa? Fe ysgrifenodd hwnw chwech mil o flynyddoedd o flaen Adda, ac y mae eich Bibl chwi yn dyweyd mai Adda oedd y dyn cyntaf." Gyda hyn y mae Joseph yn neidio i fyny oddiar y *seat,* fel dyn

gwyllt a gwallgof, ac yn taro ei ben yn erbyn cronglwyd y gweithdy, canys yr oedd yn lled isel, yr hyn a'i gwnaeth yn saith gwaeth ei dymher. Rhedodd allan i'r beilu, gan waeddi, "George, y mae arswyd arnaf fod o dan yr un gronglwyd a thi." Ond dyna, byddai yn waith anorphen i ni fyned dros haner y dadleuon hyn, am hyny y mae yn rhaid i ni fyned rhagom.

Yn gymaint a bod George yn weithiwr bron digyffelyb, yr oedd awydd yn Joseph am ei gadw er y cwbl, canys yr oedd yn gwneyd lles i'w fasnach; eithr yr oedd y *bruiser* allan o'i elfen naturiol, ac yn dymuno cael rhyw le yn fwy cydweddol â'i archwaeth a'i arferion. Un diwrnod rhoddodd rybudd o'i fwriad i ymadael; ond o herwydd ei ddeheurwydd, cynygiodd Joseph iddo bedair ceiniog y pâr yn fwy am ei waith nag yr oedd yn rhoi i neb arall; ond ni arosai George er dim; yr oedd wedi penderfynu myned i le arall. Nis gallasai oddef unrhyw gadwynau; yr oedd yn rhaid iddo gael ei ffordd yn rhydd i ddylyn ei lwybrau gwyllt ac annuwiol. Yr oedd cysur dynol a chyfrifoldeb allan o'r cwestiwn; nid oedd efe wedi meddwl am ddim o'r natur hyny, ac ni fu yn nod erioed o flaen ei lygaid; y cwbl oedd mewn amcan oedd rhialtwch o bob natur—"*a short life and a merry one.*" Y mae afon Lai yn rhedeg trwy bentref St. Ffagans, ac ar y lan, yr ochr arall i dŷ Joseph, yr oedd siop arall, yn yr hon yr oedd yr ymgynulliad rhyfeddaf o gymeriadau a fu yn y byd erioed. Fe ddichon wrth chwilio y byd o'r bron, canys y mae yn un mawr iawn, y ceir ychydig o'r rhai cyffelyb; ond nid ydym yn credu fod un man o fyd erioed wedi gweled gyda'u gilydd, yr un amser, ac yn yr un lle, eu tebyg. Nid oedd neb ag oedd yn meddwl rhyw beth am gyfrifoldeb yn myned o fewn canllath i ddrws y tŷ, os oedd yn bosibl, oblegyd yr oeddynt yn daclau mor arswydus; yr oedd yn anhawdd gwybod beth fuasai y canlyniad. Dyma lle yr oedd synagog satan; yma yr oedd yn trigo; yn ddiau yr oedd uffern y pryd hyn fel pe buasai wedi sefydlu ei *head quarters* ar lan yr afon Lai, yn mhentref St. Ffagans. Er nad elai un dyn a fyddai yn teimlo un parch iddo ei hun yn agos i'r lle, dyma y fan lle y byddai yr holl oferwyr yn ymgynull, fel yr oedd y lle y rhan fynychaf bob nos, yn enwedig yn y gauaf, yn orlawn. Yr oedd bechgyn a merched y pentref a'r pentrefydd cylchynol yn ymgynull yno, ac yn wir hen wŷr a gwragedd hefyd yn draphlith gyda hwy. Yr oedd Dafydd o'r Crefft, er fod ei ên yn crynu gan henaint, ac yn ymgynal wrth ddwy ffon, yn un o'r cyntaf yno bob nos, a'r diweddaf yn myned oddiyno. Adroddai Dafydd am gampau er ys triugain mlynedd a deg yn ol, yn nghydag enwau y prif gampwyr a'r prif ymladdwyr yr oes hono, yr hyn oedd yn creu dyddordeb nid bychan i'r ieuenctyd. Yr oedd Modryb Bess hefyd yn hen, ac yno yn gryn fynych, yr hon oedd wedi bod yn rhosyn hardd yn ei dydd, ond fod tegwch e bryd wedi gwywo er ys blynyddoedd lawer, ac wedi gadael y grudd yn grebychaidd a llwyd. Byddai Modryb Bess yn hoff iawn o adrodd am y gwyl-mabsantau, yn enwedig yn Penmarc a

Llancarfan, yn nghydag enwau y merched ag oedd y pryd hyny yn dop y ddawns, ac hefyd am eu cariadon. Yr oedd Modryb Cate o'r Grindwn wedi ei magu yn uwch i fyny yn y sir, ac yn arfer desgrifio ardderchawgrwydd y daplas haf a gynelid ar Donyrefail a Mynydd Llanbed, lle y byddai rhyw filoedd yn ymgrynhoi yn flynyddol i ddawnsio, a llawer o bethau eraill yr ydym yn methu a chofio yn awr, yn yr awyr agored. Yr oedd yr hen wraig, Modryb Cate, wedi bod yn un lân hoew, a hynod *smart* ar ei throed; ond yr oedd hithau wedi gwywo er ys blynyddoedd lawer, ac yn cerdded wrth lawffon yn bur gloff; er hyny ni welsoch erioed y fath beth: pan y byddai un o'r cryddion yn canu y crwth, byddai aelodau yr hen fenyw yn fywyd bob tipyn, ac yn dilyn y dôn i'r dim. Fe allai fod digon wedi ei ddyweyd i ddangos natur y sefydliad; er hyny fe oddef ein darllenwyr i ni ddywedyd yn mhellach, mai oddiyma yr oedd yr holl gelwyddau yn myned allan ag oedd yn gosod y cymydogaethau ar dân, yn nghyda chaneuon am wahanol bersonau, nes peri fod y byd o gwmpas braidd yn benbleth.

Dechreuasom ddyweyd, os ydym yn cofio yn dda, fod yr ymgynulliad mwyaf rhyfedd yn y byd o gryddion yn y lle hwn; yr oedd rhyw hynodrwydd corphorol ac eneidiol yn perthyn i bob un. Yr oeddynt yn mhell o fod yn ddynion cyffredin mewn dim, ac o'r gymdeithas hon yr oedd George wedi bod yn bur sychedig am ddyfod yn aelod; ac yr oedd y gymdeithas mewn cryn syched hefyd am ei gael yntau i'r undeb. Beth bynag, gadawodd ei feistr crefyddol, ac aeth yr ochr arall i'r afon, a chytunodd am bedair ceiniog y pâr lai nag oedd Joseph yn gynyg iddo; dim yn y byd ond er mwyn cael bod yn mhlith yr enwogion hyn mewn drygioni. Yr oedd yn eithaf boddlawn i weithio am lai o arian, ond cael llwybr rhydd a digerydd i fyw yn benrhydd a melldigedig. Fel y dywedasom, yr oedd hynodrwydd mawr yn perthyn i'r holl gryddion yn y lle hwn o'r blaen, ond yn awr mae yn ymddangos fel pe bai wedi ei berffeithio. Yr oedd felly, pe na buasai dim ond eu coesau; canys hyd yr ydym yn cofio, nid oedd un dyn o honynt yn berchen dwy goes gyfan a dinam, ac felly, cyfenwid hwynt oll yn ol rhyw anffawd oedd ar eu coesau. Yr oedd rhestr yr enwau ar lyfr y meistr, hyd yr ydym yn cofio—ac os ydym yn camsynied, yr ydym yn sicr o gael ein hargyhoeddi, yn gymaint a bod y *document* hwnw yn llaw y gwr o Stockland—yn sefyll fel y canlyn:—Wil Goesgymhwys, Jack Goesgam, Dïo Droedglwb, Phil Naillgoes, a George Goesfach. Peth hynod ddigon i gynifer o ddynion ymgrynhoi i'r un lle, mor anafus o ran eu coesau. Ond deallwch, pell ydym oddiwrth wneyd un sylw anmharchus oblegyd hyn; canys os felly oedd ewyllys y Llywydd, ni ddylem edrych ar hyn gydag un diystyrwch. Ar yr un pryd, nid ydym yn tybied mai o benarglwyddiaeth y Creawdwr y daeth y nam ar lawer o honynt, eithr ei fod yn ganlyniad naturiol bywyd ofer. Heblaw y coesau, yr oedd pethau hynod yn feddyliol yn perthyn i bob un; a chryn dalent hefyd, ond yn unig fod y talentau hyny

yn cael eu hafradu o ddiffyg rhoddi cyfeiriad mwy priodol iddynt.

Yr oedd Wil Goesgymhwys yn gantor bron digyffelyb; efe oedd yn canu "Y Ferch o'r Scer," a "Chefnydfa," oreu o bawb. Dywedir fod llawer un wedi penderfynu ymofyn gwragedd o dan effeithiau y caniadau hyn. Yr oedd Jack Goesgam yn rhigymwr a phrydydd cywrain, ac efe oedd yn danfon allan englynion a chaneuon am bobl y gymydogaeth, nes oedd y cwbl yn fynych bron a myned yn benben o benbwygilydd. Yr oedd Dïo Droedglwb yn ddeonglwr breuddwydion, a Phil Naillgoes yn delynwr medrus; efe yn gyffredin oedd yn chwareu y delyn yn ngwylmabsantau y gymydogaeth. Yr oedd George Goesfer, fel y gwyddoch eisoes, yn ymladdwr ac yn gonsuriwr. Wel, gallem feddwl fod yn anhawdd cael gafael ar y fath gynulliad o gyrph ac eneidiau o fewn terfynau cred. Yr oedd ychydig o bob peth yn myned yn y blaen, chwi a welwch, fel ag yr oedd y siop gryddion hon yn cyfarfod ag archwaeth y rhan fwyaf o bawb yn y wlad, ond yr ychydig ddynion sobr a syml, ac nid oedd y nifer yn fawr o'r rhai hyn. Yr oedd yma ychydig o ganu i'r sawl oedd yn hoff o hyny, ychydig o brydyddu i gyfarfod â'r archwaeth hono, ychydig o beroriaeth i ddifyru y cerddorion, ychydig o egluro ac esbonio ar freuddwydion y nos er boddhau y coelgrefyddol, ac ychydig o ddyweyd *fortunes* er cysur i'r rhai ag oedd yn dysgwyl eu cysur yn y dyfodol. Dyma'r man am dani!

Y mae yn gof genym ei glywed ef yn adrodd i'r holl deulu hyn fyned gyda'u gilydd un dydd Sul i bentref o gwmpas dwy filldir i bant, i dafarn lle y byddai cryn ymgynulliad, i gael treulio diwrnod o rialtwch ac yfed. Ar ol bod yno am gryn dipyn, a llawer yn cwympo i mewn atynt yn barhaus, yr oedd y digrifwch yn myned fwyfwy, a'r yfed yn myned rhagddo yn fwy hwylus. Yr oedd yn anhawdd cadw Wil rhag arfer ei ddawn i ganu yn gyhoeddus, er mai Sabbath ydoedd; yr oedd am ganu un tro o leiaf cyn ymadael ar y "Ferch o'r Scer" a "Chefnydfa." Yr oedd yr hen dafarnwr yn anfoddlawn, nid o un parch i'r Sabbath, ond ofn rhag i hyny arwain i ofid, ac y clywai y swyddogion. Beth bynag, yn ffrwgwd yr aeth rhwng Wil a'r tafarnwr, y pryd y cododd George i gyfryngu, ac o bwrpas yn cadw y tafarnwr yn ol, i'r dyben o'i losgi yn y tân, canys yr oedd â'i gefn ar y tân eisoes. Gwaeddai Mr. Jones allan yn groch pan yr oedd yn cael ei forddwydydd yn dechreu rhostio, a George yn dal wrtho, gan ddywedyd, "Ni chewch fyned yn y blaen yn wir, Mr. Jones; pwyllwch ac arafwch, a gadewch y ffwl yn llonydd." Yr oedd y *bruiser* cyfrwysddrwg yn cymeryd arno wneyd caredigrwydd â'r hen frawd, ac felly o dan rith cymwynasgarwch yn ei bobi o flaen y tân. Yn y diwedd aeth yn rhy dwym; cymerodd aden côb y tafarnwr dân, a thyma ef yn neidio yn y blaen gyda bloedd ddychrynedig, a'r fflamiau erbyn hyn bron yn amgylchynu ei berson. Aeth un allan a'r llall allan yn y cythrwfl echrydus, nes y gadawsant George yn unig; ond ni thybiodd ein gwron am

foment na buasent yn dychwelyd yn mhen rhyw getyn ar ol i'r ystorm dawelu ychydig. Wedi diffodd y tân, a phethau yn dychwelyd i ryw gymaint o dawelwch drachefn, dechreuodd George feddwl am ddychweliad ei gyfeillion, ond yn aneffeithiol, canys yr oeddent wedi bwriadu chwareu ryw gnac, fel y dywedir, ag ef y diwrnod hwnw. Yn sicr, yr oedd y mater yn dechreu myned yn bwysig, canys yr oedd y cyfrif yn drwm iawn, a llogell George yn ysgafn, fel yr oedd y digrifwch er ys meityn yn dechreu troi yn alar. Gwnaeth George esgus i fyned allan, ond yr oedd Mr. Jones i fyny â'r ystranc, ac mewn cysylltiad â'r gwas a'r forwyn, ymaflwyd ynddo, a rhowd ar ddeall nad oedd efe i ymadael oddiyno hyd oni thalai yr hatling eithaf. Nid gwiw oedd dywedyd nad oedd dim arian, ac y byddai yn sicr o ddyfod i dalu yr wythnos nesaf. "Yr arian neu eu gwerth," ebe y tafarnwr, gan ymaflyd yn dŷn yn ei goler. Cyn ymado oddicartref yr oedd George wedi cael neisied gwddf, neu napcyn—beth gelwch chwi ef?—*first-rate* gan ei fam, yn goffadwriaeth am dani. Sidan India ydoedd, mae yn debyg, ac yr oedd y rhai hyny yn ddrudion iawn yn y dyddiau hyny. Bid a fyno, yr oedd hono am ei wddf. Y tafarnwr, yn gweled hon yn un o'r pethau mwyaf gwerthfawr, a ymaflodd ynddi, ac a'i datododd oddiam ei wddf yn un o'r pethau cyntaf. Yr oedd George yn dymuno, er mwyn pob peth, am gael cadw hono, gan mai rhodd ddiweddaf ei fam anwyl ydoedd cyn ymado o gartref, ac y carai fod hono gydag ef yn dychwelyd adref, fel arwydd ei fod yn cario yn ei fynwes barch i'w anwyl fam. Tyngodd Mr. Jones yn haerllug. Gobeithio y cymerir ni yn esgusodol am beidio adrodd y geiriau bryntion, yn enwedig ar bapyr glân fel hwn. Beth bynag, fe dyngodd yn echrydus, a thyngu oedd bron y cwbl ag oedd yn gallu ei ddyweyd; efe a fynai y napcyn, serch iddo ef a'i fam fyned i ——. Gan fod cynifer o'i ddeutu, gorfu i'r *bruiser* roi i mewn; cymeryd y neisiad oddiam ei wddf a wnaethant, a'i siaced fach hefyd, a phâr o esgidiau newydd oddiam ei draed; felly gollyngasant ef i'w ffordd yn haner noeth, ac yn gywilyddus i ddianc megys â chroen ei ddanedd. Llawenydd annhraethadwy oedd yn mhlith y cryddion wrth weled y *bruiser* yn dyfod adref mewn dull felly, ac hyfrydwch calon pob un oedd peidio talu ceiniog byth i ryddhau y dillad. Dyna y lle y gadawyd hwynt hefyd gan George; canys er ei fod yn enill arian da, eto nis gallasai feddwl am droi ychydig heibio, a bod heb ryw gymaint lai o gwrw am ychydig wythnosau.

Nid hir ar ol hyn yr ydym yn cael ei hanes yn ymadael â St. Ffagans, ac yn teithio o bentref i bentref, a'i wyneb yn ol tuag adref. Y mae yn gweithio, fe allai, am bythefnos mewn un pentref, a rhyw beth cyffelyb yn y llall, yn ymladd yn ddychrynllyd, ac yn curo y gwŷr goreu yn mhob plwyf; yn dychwelyd adref o'r diwedd, yn haner noeth ac yn glwyfau i gyd. Wedi pob peth, yr oedd ei fam yn cynesu ato ac yn ei ymgeleddu, er fod lluaws yn dywedyd wrthi am beidio. Ond yn rhyw fodd nis

gallasai beidio; yr oedd yn sychu ei glwyfau â'i dagrau, ac yn cusanu ei wyneb chwyddedig fel pe buasai dyddiau mabandod wedi ail dywynu. O, peidiwch rhyfeddu; peth angerddol iawn yw teimlad mam; trueni na bai llawer mab a merch yn gwybod yn well pa fodd i'w barchu. Wedi golchi ei friwiau fel hyn â dwylaw tyner mam, y mae yn addaw gwella ei foes, a throi dalen newydd; ond yn fuan yr ydym yn ei gael yn dechreu arfer ei hen gastiau cynddrwg ag erioed. Yn gymaint a bod llawer o ofergoeledd y pryd hwnw yn meddyliau dynion, ac yn hawdd i ddyn cyfrwys wneuthur iddynt gredu unrhyw beth yn nghylch ysbrydion, canwyllau cyrph, &c., i ddychrynu pobl, arferodd bob diwydrwydd yn y ffordd hono. Byddai yn myned yn ysbryd yn fynych iawn, ac elai allan yn y nos â rhyw offeryn ganddo, â'r hwn y taflai wreichion o dân, nes peri dychryn a braw yn yr holl gymydogaeth. Bu tymhor pan nad elai neb braidd allan yn y nos gan ofn a dychryn; ac nid yn unig yn ofni myned allan, ond yr oeddynt yn crynu yn fynych hyd yn oed rhwng muriau eu tai. Byddai weithiau ryw ysgrechfeydd annaearol a dychrynllyd yn myned heibio am haner nos, a llawer o fenywod yn llewygu yn eu gwelyau, ac yn sicr rhai gwŷr hefyd; os nid yn llewygu yn llwyr, yn chwysu yn domen. Cododd Twm mab Pegan o'i wely wrth glywed ysgrechfeydd a gruddfanau dychrynllyd ar gyfer ffenestr ei ystafell, i edrych beth a allasai fod; canys yr oedd efe yn bur gryf, ac yn annghredadyn hyd yn awr am ymddangosiad ysbrydion o gwbl. Eithr llwyr argyhoeddwyd ef o'i gamsyniad, a chostiodd hyn yn ddrud iddo hefyd. Gwelai ryw beth tebyg i fod dynol, ond yn fwy ei faintioli, canys tybiai ei fod yn ddeuddeg troedfedd o hyd o leiaf, ac yn chwythu tân gwyllt allan o'i enau. Syrthiodd Thomas, er ei fod yn ddyn cryf, yn wysg ei gefn, gan dybied weled o hono ysbryd; ac ni chynygiodd byth mwy ddadleu yn erbyn y cyfryw beth. O herwydd ystwythder y goes fach, yr oedd wedi dyfeisio i daflu hono am ei wàr yn gyntaf, a'r llall ar ei hol, ac yna ymdreiglo ar hyd y llawr fel pêl fawr, gyda chyflymdra annghredadwy, ac yn y fynyd ymryddhau o'r ffurf ryfedd hono, a chodi ac ymddangos mewn ffurf hollol wahanol. Bu yr ystrywiau hyn yn agos i fod yn angau i amryw o bersonau. Clywsom ef yn adrodd iddo gyfarfod â merch ar noson bur dywyll, pryd y gwnaeth ryw leisiau annymunol nes iddi ddychrynu yn ddirfawr; trodd ei gwyneb mewn dychryn i edrych, pan y chwibanodd yn rhyw fodd rhwng ei fysedd, yn hollol wahanol i bob chwibaniad a glywyd mewn byd daearol; dyma y lodes yn cymeryd at ei thraed, a'i chalon yn curo gan fraw, y pryd y syrthiodd George i lawr, gan daflu y coesau am y wàr ac ymdreiglo fel pêl ddu heibio iddi, nes oedd y fenyw yn syrthio i lawr ac yn methu myned yn mhellach, ac yn ymddangos fel pe na byddai enaid mwyach ynddi. Tynodd ei hysgrechfeydd y cymydogion i'r lle, ond yr oedd yr ysbryd wedi diflanu o'r golwg. Tro diflas oedd hwn, oblegyd ofnid am amser maith y buasai canlyniadau pwysig

iddo; ond trwy driniaeth ofalus a medrus y Doctor Llewelyn adferwyd hi eilwaith i'w hiechyd cynefin.

Nid ydym yn rhoddi ond ychydig engreifftiau o lawer a allesid roddi, ond hwyrach y bydd yr ychydig hyn yn ddigon i roddi cipolwg ar y cymeriad. Dylyn rhyw fywyd o'r natur hon y bu, yn ol ac yn y blaen ar hyd y wlad, am amser maith. Dygwyddodd i'w dad daro wrth yr hen enwogion Methodistaidd, Siencyn Penhydd a Daniel o'r Constant, a chafodd grefydd; ac yn ol yr hanes grefydd dda iawn hefyd. Byddai yn gweddio yn ei dŷ—sef cadw dyledswydd, fel y dywedir—a byddai George, o barch iddo, yn ymddwyn bob amser yn weddus yn yr addoliad teuluaidd; ond yr oedd can dywylled am bethau crefydd a neb yn nghanolbarth Affrica; canys pan oedd ei dad yn gweddio ac yn cwyno o herwydd ei elynion, byddai yn tybio mai rhyw rai oedd yn frwnt wrth yr hen wr yn y gwaith lle yr oedd ei orchwyl. Un boreu, pan oedd ei dad yn cwyno yn fwy nag arferol o herwydd ei elynion, wedi myned allan tyngodd George y talai efe iddynt cyn hir am beidio gadael yr hen wr ei dad yn llonydd—y gwyddai efe pwy oeddynt o'r goreu. Penderfynodd fyned i'r dafarn nos dranoeth i'w cyfarfod, a dechreuodd edliw iddynt eu bod yn erlid ei dad yn y gwaith—ei fod wedi clywed yr hen wr yn achwyn arnynt ddwywaith neu dair, ac yn rhaid nad oedd neb ond hwy i fod felly. Yr oedd y dynion yn gwadu gwirionedd yr haeriad; eithr nid gwiw gwadu, yr oedd yn rhaid iddynt sefyll o'i flaen ef; ond hwy a'i hadwaenent yn rhy dda, ac am hyny wele hwy yn crynu ger ei fron. Curodd ryw ddau neu dri yn ddidrugaredd, a rhybuddiodd hwynt ar berygl eu bywyd am beidio ymhel â'i dad. "Os clywaf ef yn cwyno o'ch plegyd eto, myn ——," eb efe, "mi a'ch lladdaf yn farw." Pan y meddylir am ddyn fel hyn, wedi treulio llawer o flynyddoedd, ïe, a blynyddoedd goreu ei oes, heb feddwl nemawr o ddim am grefydd, ond yn dylyn pob rhyw oferedd, ac yn myfyrio ar gynlluniau i ymwneyd â melldith, y mae yn naturiol meddwl ei fod yn hynod dywyll ac anwybodus am grefydd a phethau yr efengyl. Beth bynag, yr oedd yr Arglwydd wedi meddwl ei achub, y mae yn debyg; ac i'r dyben hwnw efe a'i cymerodd i'w law ei hun, i'w ddysgu a pheri iddo ddeall. Arweiniodd ef o amgylch drwy yr anialwch mawr, lle yr oedd seirph ac ysgorpionau, creigydd a phyllau, nes dyfod ag ef i'w bwyll ac i oleu dydd, i ddeall pwy ydoedd y Goruchaf, ac i grefu am drugaredd ger ei fron. Yr oedd bod Duw yn cymeryd y *bruiser* mewn llaw, i'w wareiddio a'i waredu oddiwrth ei bechodau anferth, gan roddi lle iddo yn ei dŷ ac yn mhlith y plant, yn synu pawb. Yr oedd hyd yn oed y saint, yn gystal a'r pechaduriaid, yn agos a bod mewn dyryswch yn nghylch y mater hwn. Eithr yr oedd yr Arglwydd yn dewis egluro yn hyn mai nid ei feddyliau ef yw ein meddyliau ni, ac nid ein ffyrdd ni yw ei ffyrdd ef. "Canys fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi." Y

mae yn gwestiwn genym a feddyliasai neb ar y ddaear—er ys llawer o flynyddoedd, bid a fyno—am i'r *bruiser* gael ei achub o gwbl; canys yr oedd pawb yn ddiwahan wedi ei roi ef i fyny i dân tragywyddol, ond yn unig aros yr amser penodol i ddiafol ei gipio a myned ag ef yn gorphorol i'w le ei hun.

Felly yn ddiau oedd y meddwl cyffredinol mewn byd ac eglwys am George. Yr oedd ei ddedfryd fel hyn wedi ei selio eisoes yn marn y werin. Ond y mae yn debyg mai nid rhyw feddyliau felly oedd meddyliau Duw, eithr i'r gwrthwyneb yn hollol. Byddwn yn dysgwyl yn fynych am i ryw ddyn prydferth ag sydd yn gwrando yn gyson, ac yn yr Ysgol Sabbathol, a chydag agos bob rhan o waith yr Arglwydd, ddyfod yn nes, ac ymuno â'r eglwys, ac y mae ei le wedi ei wneyd yn barod er ys llawer dydd; eto nid yw yn dyfod er hyny, ac fe allai y ceir ef yn marw yn y fel yna, heb ddyfod o gwbl. Fe ddichon fod rhai wedi bod yn gweddio dros hwnw wrth ei enw, ac wedi tywallt ambell ddeigryn yn ei achos, gan ddymuno yn fawr ei weled, am y gallai fod o ddefnydd annghyffredin gyda'r achos. Eithr am George, och! ac arswyd rhagddo; nid oedd neb yn meddwl am y fath flaidd atgas a chreulawn i ddyfod byth i rodio yn mhlith yr ŵyn gwirion. Ond rhyfedd byth! y mae y rhai a ddysgwyliwyd yn wyneb rheswm dynol yn cael eu gadael, a'r *bruiser* mawr yn cael ei argyhoeddi a'i ddychwelyd; a dyma ef o'r diwedd yn dechreu troi ei wyneb at yr Arglwydd! Synodd y saint, chwaithach y pechaduriaid, nes yr oeddynt yn methu deall beth i ddywedyd na pheth i wneyd. Braidd nad oeddynt yn ei ofni yn fwy nag yr ofnwyd Saul yr erlidiwr, ac yn dywedyd gyda syndod dirfawr, Onid hwn yw George? fel pe buasai yn anmhosibl i Dduw â'i hollalluog fraich gydio ynddo a dyfod ag ef i'w iawn bwyll. Y gwir yw, yr oedd pawb yn agos a dyfod i'r penderfyniad nad oedd yn bosibl i Dduw wneyd dim â George ond ei ddamnio byth. Mewn gwirionedd, yr oedd yn ofynol fod ffydd fawr annghyffredin gan ddyn yn nhrefn gras cyn y gallai gredu yn rhwydd fod hyd yn oed yr efengyl ei hun yn cynwys digon o nerth i ddofi dyn fel hwn, a ffurfio ei gymeriad yn gydweddol â'i natur a'i hansawdd ei hun. Gan fod hynodrwydd mawr mewn cysylltiad â'i droedigaeth, fel y gellid dysgwyl, wrth ystyried pa fath gymeriad ydoedd, rhaid i ni gymeryd amser a phwyll wrth edrych am hyny, onide ni a wnawn gam â'n gwrthddrych, beth bynag am y darllenydd. Nid moddion a goruchwyliaethau gweinion oedd yn ofynol at lorio ryw gawr fel hwn, a'i wneyd fel plentyn bychan; a throi blaidd gwancus a chreulawn, a'i wneyd fel oen diniwed.

BODLEIAN LIBRARY

## PENOD II.

Yn y benod o'r blaen gadawyd George mewn anialwch mawr erchyll, a thywyllwch dudew, yn arwain yn y blaen fyddinoedd haerllug y pwll diwaelod; ar yr un pryd, awgrymasom fod dorau y wawr fel pe byddent ar ymagor, a llewyrch Haul Cyfiawnder ar dywynu ar y fro gaddugol lle yr ydoedd yn byw. Gallesid meddwl, pan adawsom ef yn y benod flaenorol, fod rhyw swn fel yr eiddo Duw hollalluog yn symud yn rhyw le, neu raiadr yn disgyn o ryw le uwch na'r Niagara, neu ddaeargryn yn siglo y ddaear drwyddi, nes ysgwyd yr hen garcharau cedyrn, nes oedd rhwymau pawb yn rhyddion. Y mae cyfnewidiad mawr ar y drws.

Ond cyn myned at hyny yn bresenol, fe ddichon y bydd yn dra angenrheidiol dyweyd gair neu ddau yn nghylch ei fynediad i'r sefyllfa briodasol, yn gymaint ag y bydd yn rhaid i ni cyn y diwedd gyffwrdd ag enw y wraig; a rhyw beth digon chwithig fydd hyny, fel y gellid meddwl, heb ddywedyd yn gyntaf ei fod yn briod. Darfu iddo briodi cyn cael crefydd, ac wrth gwrs fe ddewisodd wraig oedd fel yntau yn ddigrefydd hefyd; felly yr oedd eu harchwaeth ill dau y pryd hwnw, fel nad oedd dim "ysbryd yn rhyfela yn erbyn y cnawd" mewn dim, ond pob peth yn hwylus a rhwydd yn rhyddredeg yn ei drefn naturiol ei hun. Y mae yn wir fod ychydig o helynt wedi bod yn nghylch y cysylltiad hwn; ond nid dim croes rhwng cnawd ac ysbryd, ond rhyw beth yn nghylch y gwahaniaeth sydd rhwng dynion â'u gilydd yn y fuchedd hon. Yn awr, yr oedd Sophia yn lodes brydferth, lanwedd, hoewdeg, a gwych dros ben, blodau ei dydd, a balchder ei rhieni; ac yn ol barn ei pherthynasau, o uwch gwaedoliaeth na'r *bruiser*. Yr oedd y pethau hyn, fe welir, yn bethau y dylesid eu hystyried yn bwysig, fel na byddai annghyfatebolrwydd rhwng y pleidiau, a hyny yn rhwystr iddynt droi yn gysurus mewn cymdeithas. Heblaw hyny hefyd, yr oedd y dull o fywyd ag yr oedd George yn arwain yn ddigon i beri i unrhyw ddynion arswydo i'w merch fod mewn cysylltiad ag ef. Danfonwyd hi i ffordd i Loegr, lle y bu am amser maith—rai blynyddau, os ydym yn cofio yn dda—fel y tybiwyd yn gyffredinol fod pob cysylltiad wedi darfod, a chariad wedi diffodd yn y ddwy galon, a holl beryglon ieuad annghymarus wedi eu dileu am byth. Beth bynag, y mae y tymhor yn dyfod—ac yn wir, nid dysgwyliad bychan oedd am dano—i Sophia ddyfod adref i ymweled â'i pherthynasau. Hi a ddaeth; ac er ei bod yn un o flodau y dyffryn cyn ymadael, eto yr oedd y fath *improvements* yn rhyw fodd neu gilydd wedi cymeryd lle ynddi yn Lloegr, fel yr oedd yn gorddysgleirio yn mhlith y merched. Yr oedd yn gallu siarad Saesoneg mor bert, ac yn gallu plygu mor foneddigaidd, ac yn medru taflu golwg mor fenywaidd a *ladylike*, fel yr oedd rhai yn ei charu, a llawer iawn yn ei chenfigenu, yn mhlith y rhywog-

aeth deg. Beth bynag, nid oedd dau feddwl yn y plwyf nad oedd pob cysylltiad rhwng y *bruiser* a hithau yn anmhosibl mwy; canys os oedd rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt yn nhyb y bobl *cyn* y symudiad i Loegr, yr oedd yn awr yn ymddangos yn annhraethol, fel y buasai yn edrych fel ieuo ŷch ac asen o bethau y byd. Ond y mae yn debyg mai rhyw beth rhyfedd yw cariad. Mae y bobl fwyaf dysgedig a doeth ryw sut wedi methu ei ddeall i berffeithrwydd. Y mae dyfroedd lawer yn methu ei foddi, a hin oeraidd yn methu ei rewi. Y mae Llundain ardderchog a threfydd Lloegr yn methu ei ddileu. Dyma y lodes wedi dychwelyd, er ei holl ddillynder, gyda'r hen wreichionen yn ei chalon, yn ol i Gymru eto. Y mae cariad wedi methu cwympo ymaith er y cwbl; rhyfedd yw ei barhad a'i rym; fflam angerddol sydd iddo, y mae yn debyg. Y mae ein harwr yn troi ei wyneb at Sophia eto, er syndod i hen ac ieuanc, tlawd a chyfoethog, gwreng a boneddig. "O'r ffoles," ebe Mari Smith, "y ferch ag sydd yn cael faint a fyno o gynygion, yn siarad â'r hen —— cloff yna!" "O!" ebe hon, ac "O!" ebe y nesaf; un yn rhoi ysgrech yma, a'r llall acw, a phawb o'r rhywogaeth yn cyduno i gondemnio Sophia a'i hymddygiadau yn derbyn George i'w ffafr. "Os priodi George yr wyt ar fedr wneuthur," ebe Thomas y gôf, "mi ddywedaf gymaint a hyn wrthyt; byddai yr un peth i ti briodi y cythraul ar unwaith, a myned i uffern i fyw."

Y mae yn rhaid cyffesu fod y dywediadau hyn yn rhai heilltion ddigon, ac yn ddigon i beri i un fenyw yn mron grynu yn ei chroen, a rhoi pob meddwl am briodi i fyny yn dragywydd; ond fel y dywedasom, rhyw beth cryf iawn yw cariad; y mae yn dal ei ffordd drwy ddwr a thân, ac yn byw, ryw fodd, y tu draw iddynt. Dywedent hwy a fynont, George oedd y dyn. Pan yr oedd Mari Jones wedi methu llwyddo i'w pherswadio drwy ddywedyd am oferedd, ymladdfeydd, a segurdod George, cyfeiriodd ei sylw at ei berson, a'i goes fer a main, gan ddywedyd, "Pe bai y dyn goreu yn y plwyf, ni wn i ddim beth yr wyt yn ei weled arno; edrych ar y goes fach yna, ferch; gwel y fath greadur anosgeddig ydyw." "Y mae yn wir," ebe Sophia, "fod ychydig o anffawd yn y fan yna, ac eto nid yw y man gwaethaf yn hagr iawn. Eithr edrych ar y goes arall; mi wnaf fy llw nad oes un bachgen yn mhlwyf Margam a all ddangos coes mor bert a hona." Yr oedd, y mae yn rhaid cyffesu, y goes arall yn lluniaidd a hardd iawn; gan hyny pa bryd bynag y cyfeiriai rhyw un sylw Sophia at y goes fach, byddai hithau yn ddioed yn galw ei sylw yntau at y goes fawr; canys os oedd dipyn o *drawback* mewn un, yr oedd mwy na *redeeming qualities* yn y llall. Y mae yn dyfod i'n cof am Byron, yr hwn, fel ein harwr, a fu mewn llawer profedigaeth oblegyd un o'i goesau, canys yr oedd yntau wedi dygwydd dod i'r byd ag un o'i aelodau yn anhardd. Ond y brofedigaeth fwyaf tanllyd a gafodd erioed oddiwrthi, eb efe, oedd sylw anmharchus a wnaeth boneddiges ieuanc arni, ac yntau ar y pryd â llonaid ei galon o gariad ati. Dygwyddodd i'r *hen*

Lord Byron fod mor anffortunus a lladd ei gymydog, Mr. Chaworth, wrth ymladd *duel.* Miss Chaworth, merch y boneddwr uchod, oedd y foneddiges yr ydym yn son am dani, yr hon oedd o gwmpas deunaw oed pan y daeth y bardd i gydnabyddiaeth gyntaf â hi, ac yntau yn rhyw le o gwmpas un ar bymtheg ar y pryd. "*It is almost superfluous,*" medd yr hanesydd, "*to state that she was beautiful, fascinating, and amiable.*" Y mae yn debyg mai un o flodau Ysgotland, os nid y blodeuyn harddaf a ddarfu i'r tir hwnw gynyrchu, oedd Miss Chaworth, ac yr oedd wedi suddo yn ddwfn iawn i galon Byron ieuanc. Yn chwanegol at y cariad ag oedd yn ei galon ef tuag ati, yr hyn a fuasai yn cynyrchu cysur personol a theuluol, buasai eu hundeb, meddai efe, yn foddion i wellhau clwyfau, ac iachau drwg-deimladau, drwy ba rai y tywalltwyd gwaed gan ei hen dad, yn uno tiroedd meithion yn nghyd, ac yn sicr, wedi uno yn un galon ddau o bersonau, y rhai nad oedd yn annghyfartal mewn dyddiau. Ond beth a fu y canlyniad? Yr ydoedd efe y pryd hyn yn anadnabyddus yn nheml gogoniant, yn gymaint a'i fod mor ieuanc, a dalenau ei enaid cyfoethog heb eu dadblygu eto. Yn ofer yr ymgeisiodd beri i'r ferch ardderchog feddwl yn ffafriol am dano yn ei chalon, ac yr oedd chwerwder yn cynyddu fwyfwy yn ei ysbryd wrth feddwl fod ei droed anffortunus yn rhwystr anorfod ar ei ffordd i ymgystadlu â'r lluaws boneddigion ag oedd yn ymdrech am law Miss Chaworth. Yr oedd Miss Chaworth yn medru dawnsio yn bert, ond nis gallasai Byron ddawnsio o herwydd ei goes. Yr oedd hyn bron yn tori ei galon, canys yr oedd yn cael ei orfodi i eistedd i lawr yn ddystaw a diflas, tra y byddai rhyw ddyeithrddyn yn cydio yn y llaw, ac yn arwain trwy y ddawns yr hon yr oedd ei galon yn garu, a'i lygaid yn canlyn drwy ei holl symudiadau. Fel hyn yr oedd pethau yn bod, ac nid oedd dim i'w wneyd ond cario y groes, a dwyn y baich. Eto, er hyn oll, yr oedd y groes yn bren garw yn aml, a'r baich yn drwm annyoddefol yn fynych. Yr amgylchiad mwyaf teimladwy ac annyoddefol y bu Byron ynddo erioed o herwydd ei goes oedd, pan y clywodd ei anwyl Mary Ann Chaworth yn dywedyd wrth rai yn y cwmpeini, gyda dirmyg ac ysgydwad pen tra arwyddocaol, "*Do you think that I could care anything for that lame boy?*" "Yr oedd yr araeth hon," fel y mae efe yn ei galw, "fel ergyd o ddryll yn myned trwy fy nghalon." Er ei bod yn hwyr, ffwrdd ag ef mewn mynyd o'r tŷ hwnw, ac heb fod yn gwybod yn iawn i ba le yr oedd yn myned, rhedodd yn ei hurtwch llwyr ei ben; ond fel y dygwyddodd, arweiniodd Rhagluniaeth ef i Newstead, ei artref ei hun; ac yno mewn gofid a theimladau tra cymysgedig y cuddiodd ei ben mewn dirgelwch a dystawrwydd. Gwelir mai nid yr unig un ag sydd wedi bod mewn profedigaethau oblegyd ei goes yw ein harwr; y mae eraill, y mae yn debyg, wedi cyfranogi yn helaeth o'r un profiadau, a than yr un amgylchiadau. Yr oedd llawer o bethau Byronaidd yn y *bruiser* mewn corph a meddwl; nid ydoedd yn ddyn yn

ei gwyn. Bu mewn profedigaeth ganwaith i fellditbio Duw a marw; ond yr oedd yn gweled eilwaith pe buasai yn ei ladd ei hun na fuasai hyny ddim yn gwella y clwyf, a diffodd y tân, ond yn peri i'r clwyf fod yn waeth, a'r tân i losgi yn danbeidiach. Bu yn gwaeddi gyda'r Salmydd yn aml, "I ba le yr âf oddiwrth dy Ysbryd, ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd? Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr, yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw. Pe dywedwn, Diau y tywyllwch a'm cuddia, yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch. Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti." Y mae ffoi o ŵydd ac o afael Duw tragywyddoldeb yn dyfod yn anobeithiol yn y teimlad, ac felly y mae y cawr yn rhuo, ond yn methu ffoi. Y mae y "tân ysol" fel pe bai yn dyfod yn nes ato o hyd, fel nad oes dim yn y golwg ond gorfod "preswylio gyda llosgfeydd tragywyddol" yn oes oesoedd. Pa ryfedd fod y llew yn rhuo, ac yn ysgwyd y cadwynau ag oedd yn ei ddal, yn yr olwg ar uffern yn agor ei safn yn anferth, ac yn myned i'w lyncu yn fyw? Beth bynag, o dan yr holl amgylchiadau dychrynllyd hyn, nid yw yn teimlo yr un duedd i syrthio ar ei liniau ac ymbil am drugaredd ger bron y Bod anfeidrol, yn erbyn yr hwn yr ydoedd wedi pechu, ac i'r hwn yr ydoedd yn rhwymedig.

Y mae efe yn troi i geisio meddyginiaeth at ryw grachfeddygon, y rhai, wrth drin ei glwyfau, a'u gwnaethant yn saith gwaeth; yr oedd y feddyginiaeth cynddrwg a'r clwyf. Y mae yn penderfynu gwneyd ei oreu i ymryddhau ryw fodd yn llwyr oddiwrth y gofidiau hyn am gyflwr a byd tragywyddol; ond er ymdrech a phob peth, yr oedd yr adnod fechan wedi glynu yn ei galon, fel yr oedd yn anmhosibl cael ganddi ollwng ei gafael. Yr oedd swn "Ein Duw ni sydd dân ysol," yn terfysgu y galon ddydd a nos, ac yn taflu yr holl dŷ i ddyryswch. Y mae tân wedi ei gyneu yn mynwes y pen-campwr; ac y mae yn awr yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn Immanuel a'i deyrnas, ac yn dechreu symud ei holl fyddinoedd i ymladd yn erbyn Iachawdwr y byd. Ni fyn gael ei achub; y mae yn penderfynu dileu holl argraffiadau y gwirionedd santaidd oddiar ei feddwl. Bu mewn ymladdfeydd caled â llawer o'i gyd-greaduriaid cyn hyn, eithr yn awr y mae yn penderfynu ymladd ornest ag Arglwydd nef a daear, ac alltudio pob meddwl am y cyfryw Fod allan o'i enaid am byth. Y mae yn dechreu ymsymud eto o dafarn i dafarn, dan rwygo a rhegu; ac ymddengys fel pe byddai saith cythraul ynddo, gwaeth na'r cyntaf. Tyngai yn fwy aml ac yn fwy haerllug; ymladdai yn fwy tebyg i gythraul wedi newydd ei ollwng yn rhydd oddiwrth y gadwyn uffernol, nag i ddyn. Er hyn oll, ac ar ol hyn oll, yr oedd yr adnod fechan, "Ein Duw ni sydd dân ysol," yno o hyd, ac yn llosgi yn annyoddefol hefyd. Yr oedd rhyw beth arno, ond ni fynai gyffesu wrth neb, eithr ceisio ei feistroli, a dyfod allan o'r frwydr hon wedi gorchfygu Arglwydd y lluoedd

Yr oedd y cymydogion yn gwybod o'r goreu fod rhyw beth arno nad oedd yn arferol o fod, neu ynte fwy o'r peth oedd yn arferol o fod—un o'r ddau. Y mae yn debygol nad oedd neb yn meddwl mai y Bibl oedd yn ei aflonyddu, ond yn hytrach ei fod wedi ei feddianu gan yr ysbryd drwg yn fwy llwyr, neu fel y dywedent, "wedi ymwerthu yn llwyr i ddiafol." Yr oedd yn gweled, eb efe, "Ein Duw ni sydd dân ysol," mewn llythyrenau mawrion tanllyd o flaen ei lygaid lle bynag yr elai. Nid yn unig eu bod yn deimlad ofnadwy yn y meddwl, "ond yr oeddwn," meddai, "yn eu gweled yn dân coch o flaen fy llygaid." Beth bynag am hyny, y mae yn ddigon amlwg ei fod yn ymylu ar wallgofrwydd anfeddyginiaethol, ac mewn perygl bob dydd oddiwrtho ei hun. Gan ei fod yn flin iawn, ac yn methu cysgu nemawr o ddim er ys wythnosau lawer, penderfynodd fyned i dref Castellnedd o bwrpas i geisio meddwi ei hun yn ddideimlad, i edrych a fyddai modd iddo gysgu wedi hyny. Yfodd lawer cyn hyn aml noson, ond yn rhywfodd nid oedd yn effeithio meddwdod fel arfer, am hyny gwnaeth ei feddwl i fyny i wneyd ymdrech i roi ei hun i gysgu yn dawel. Dacw efe yn ymaflyd yn ei ffon—yr hen geffyl pren, fel y dywedai—yn taro i bant, ac yn cerdded tua saith milldir er mwyn meddwi i farwolaeth, os oedd bosibl. Nid ydym yn gwybod beth a allasai fod yr amcan wrth fyned mor bell, canys yr ydoedd yn myned heibio i ddigon o dafarndai, tebygem ni, cyn ei fod haner y ffordd; ond beth bynag, dyna fel y bu. I Gastellnedd yr aeth, a dechreuodd ar y gorchwyl o yfed yn ddiarbed, ond yn methu meddwi. Syndod! ïe, syndod yn wir. Beth, cwrw ddim yn meddwi? Y mae hyn fel pe dywedech nad yw dwfr ddim yn boddi, neu dân ddim yn llosgi. Wel, yn wir y mae yn rhyfedd, ond fel hyn y bu; canys yfodd dair awr yn ddiarbed, yn wahanol i'r dull arferol o yfed; eto yr oedd meddwdod yn awr fel pe buasai yn cilio draw oddiwrth yfed, neu fel pe na buasai yr un cysylltiad na pherthynas rhyngddynt. Yn lle gallu meddwi, dychrynfeydd sydd yn cynyddu yn ei gydwybod; y mellt fel yn myned yn fwy tanbaid, llais yr udgorn fel pe buasai yn codi uwch, uwch, a'r holl fynydd yn ymddangos fel pe bai ar dân. Yr oedd "Ein Duw ni sydd dân ysol," meddai, mewn llythyrenau mawrion tanllyd bron wrth bwys ei wyneb, fel y bu agos a thynu ei gyllell am draws ei wddf. Ond yn lle hyny galwodd am lasaid o wirod. Penderfynodd, os darfu iddo fethu meddwi ar gwrw, y gwnai gwblhau yr amcan drwy yfed *brandy*. Yfodd, ac yfodd eilwaith am oriau, nes yr yfodd gymaint ag oedd yn ddigon i feddwi saith neu wyth o ddynion cryfion; ond yn ddieffaith,—yr oedd meddwdod fel pe buasai yn cilio oddiwrtho, a dychrynfeydd cydwybod euog yn myned fwy-fwy. Clywsom ef yn dywedyd mai un o'r pethau rhyfeddaf a deimlodd yn ei fywyd oedd methu meddwi er gwneyd pob ymdrech yn y byd i'w wneyd. Yn wir, yr oedd hyn yn rhyfedd; ac y mae yn anhawdd iawn cyfrif am y cyfryw beth, eto y mae yn wirionedd perffaith. Gorfod oedd arno ddychwelyd adref y

noson hono eilwaith yn sobr, ac heb y teimlad lleiaf o gwsg, a Duw yn "dân ysol," yn llosgi ac yn difa yn y meddwl. Ar y ffordd wrth ddychwelyd penderfynodd eilwaith droi i dafarn, yr hwn oedd wrth ochr y ffordd, i gwblhau ei amcan, os oedd bosibl yn y byd, canys yr oedd wedi myned yn rhy ofnadwy a dychrynllyd i fyw yn hŵy yn y boen hyn. Gyda'r amcan hyn trodd i mewn i'r dafarn grybwylledig; ond wedi iddo fyned i mewn drwy y drws, dychrynodd, methodd ddyweyd un gair, a gwelai y cwbl o fewn can ddued a'r gloyn, yn dywyllwch eithaf, heb un llewyrch o oleuni yn tywynu. Meddyliodd ei fod yn teimlo ei goesau yn ei ollwng, a bod y ddaear yn agor ei safn yn anferth, fel y penderfynodd y byddai yn uffern cyn nemawr o fynydau. Trodd allan heb alw am ddim, ac adref yr aeth yn unionsyth, yn gruddfan mewn dychryn a braw. Hyd yn hyn nid oedd wedi meddwl am weddio a cheisio maddeuant, eithr rhyfela â Duw hyd yr eithaf.

Yr oedd y *cholera* cyntaf fu yn ein gwlad y pryd hyn yn gwneyd galanasdra echrydus ar fywydau, ac yr oedd pawb yn eu teimladau yr amser hwn yn byw yn mro "marwolaeth a chysgod angau." Wedi dychwelyd o George adref y noson hono, a myned i'r gwely, gan obeithio y cai gysgu bellach, a thrwy hyny gael ychydig o esmwythad o'i boen, mor gynted ag y gorweddodd tybiodd ei fod yn teimlo y *cholera* yn ymaflyd ynddo, a bod y cwbl drosodd am byth. Neidiodd o'r gwely, a gwaeddodd, "Sophi, y mae'r dolur angeuol wedi ymaflyd ynof; mi fyddaf yn ddyn marw cyn nemawr o amser!" Dyma y pryd y meddyliodd am weddio fel yr unig feddyginiaeth; syrthiodd ar ei ddeulin, a bloeddiodd allan gymaint byth ag y gallai am i Dduw gymeryd trugaredd arno, ac os oedd yn meddwl lladd ei gorph, am weled bod yn dda achub yr enaid i fywyd tragywyddol. Yr oedd Sophi erbyn hyn wedi codi yn ei heistedd yn y gwely mewn dychryn a braw, ac er na chafodd ar ei meddwl i weddio ei hunan, yr oedd yn curo ei dwylaw pan oedd ei phriod wrthi, ac yn gwaeddi allan, "Sticia, George; sticia, George, gwna dy oreu!" Y mae yn ddigon tebyg ei fod, druan, yn gwneyd goreu y gallai, canys yr oedd mewn helbul blin, ac yn teimlo yn wirioneddol yr angen am drugaredd. Dyma y weddi gyntaf yn nhŷ George; a gweddi ryfedd ydoedd; ond nid hon oedd yr olaf, oblegyd tŷ gweddi y gelwid y tŷ hwn mwyach.

Wedi rhyw gymaint o amser o dywydd blin, ymdrech i weddio, a cheisio esmwythad i'w feddwl terfysglyd, ac yn methu mewn modd yn y byd ei gyrhaedd, ond yn hytrach yn myned waeth waeth, gwnaeth benderfyniad i droi ei wyneb at bobl yr Arglwydd oedd dan yr enw o Fethodistiaid Calfinaidd, yn ymgynull mewn capel cyfagos. Yno yr aeth fel dyn gwyllt, ac yn haner gwallgof, heb wybod beth i'w wneyd, na pha beth i'w ddyweyd. Yn wir, nid oedd y bobl dda hyny nemawr yn gallach nag yntau; canys tarawyd hwynt oll â syndod pan y gwelsant ef,ac aethant mor hurt ag anifeiliaid direswm; nid oeddynt

hwythau yn gwybod beth i'w ddyweyd, na pha beth i'w wneyd ychwaith. Yr oedd dyfodiad George mor ddyeithr ac mor annysgwyliadwy iddynt a phe codasai un oddiwrth y meirw, neu o drigfanau yr ysbrydion aflan. Pwy dan haul fuasai yn breuddwydio gweled George y *bruiser*, George y tyngwr, George y meddwyn, ïe, George y blaidd, yn dyfod i ofyn am le yn mhlith yr ŵyn? Yr oedd ei ymddangosiad yn eu plith fel ymddangosiad Saul yr erlidiwr yn mysg y dysgyblion, ac yn cynyrchu yr unrhyw effeithiau. "O Arglwydd," meddai pawb, "ni a glywsom lawer am y gwr hwn, faint o ddrygau a wnaeth efe i'th saint di. Ac yma y mae ganddo awdurdod oddiwrth yr archoffeiriaid i rwymo pawb sydd yn galw ar dy enw di." Felly y dywedodd Ananias, a rhyw beth cyffelyb yr oedd yr holl bobl yn meddwl am wrthddrych ein hanes pan y trodd efe ei wyneb gyntaf atynt. Yr oedd yn yr hen Ddyffryn ddewrion yn y ffydd, y rhai, meddir, nad oeddynt yn prisio am wyneb un dyn, ac edrychid arnynt fel cewri yn y dyddiau hyny; eto yn rhyw fodd, yr oeddynt oll yn ymddangos fel gwŷr cedyrn wedi colli eu nerth yn wyneb ymddangosiad George yn eu plith. Yn mysg y gwroniaid hyn yr oedd un o'r enw William Rees, yn wron o hyd pan y byddai pawb ar lawr; eithr yn awr yr oedd efe wedi colli ei wrolder arferol, ac yn barod i encilio i'r cysgod, pe medrai. Y mae William Rees, serch hyny, yn gryfach na'r lleill drwy y cwbl, ac o'r diwedd mae yn codi, yn ymysgwyd, yn cenglu ei hun, ac yn dywedyd, "Wel, fechgyn, y mae yn rhaid myned yn y blaen; nid gwiw i ni edrych ar ein gilydd, a myned yn bendrwm; codwn, ac awn at y gwaith." Yr oedd George yn sefyll, dan bwyso ar ei ffon yn debyg i ddyn wedi dianc oddiwrth y gwylliaid, ac ni wyddai, debygem, ar y pryd pa un ai sefyll ai eistedd yr ydoedd. "Och!" ebe pawb, "beth sydd i ni a wnelom â thi?" Beth bynag, y mae y gwron William Rees yn anturio o'r diwedd, ac yn tori ato, gan ddywedyd, "George, beth ddaeth a thi i'r fan hyn?" Edrychodd y *bruiser* yn wyllt iawn ar bawb o gwmpas y capel, a throdd y llawffon o gwmpas ei ben ddwywaith, fel pe buasai wedi ei daro yn fud, ac heb allu siarad dim. Synodd pawb, fel nad allasent symud o'u lleoedd. Gyda hyn dyma floedd annaearol yn dyfod allan, nes yr oedd yr holl dŷ yn crynu; "William Rees, William Rees, y mae rhyw beth yn fy lladd!" Och, dyma deimlad! anmhosibl yw ei ddesgrifio; yr oedd gwyneb pawb yn laswyn, a bron yn llesmeirio. Dacw George yn edrych o gwmpas eto, yn troi y llawffon eilwaith o gwmpas ei ben, a'r floedd fawr yn dyfod allan fel taran drachefn, "William Rees, y mae rhyw beth yn fy lladd; y mae rhyw beth yn fy lladd!" Y mae y gwron William Rees yn colli ei nerth arferol; y mae y bloeddiadau dychrynllyd yn cynyrchu rhyw effeithiau dyeithr, nes oedd blew ei gernau yn sefyll, a'i goesau fel yn ymollwng dano. Er hyn i gyd, y mae ein hewythr William yn gwneyd ymosodiad, ac yn ceisio gwneyd ei oreu, ac yn llwyddo hefyd, yn weddol, o'r diwedd. Y mae yr hen frawd yn cael anadl ac adferiad nerth,

ac yn gofyn yn araf deg, "George bach, fe allai y dywedi wrthym beth sydd yn dy ladd." "Beth sydd yn fy lladd?" ebe yntau; "William Rees, rhowch ryw help i fi; dyma fi bron yn uffern! y mae satan yn fy llindagu y foment hon; y mae bron yn fy lladd; ac yr wyf finau yn methu credu fod un Duw yn bod i fy helpu." Yr oedd pawb erbyn hyn yn argyhoeddedig fod rhyw beth ofnadwy am ei achos tragywyddol ar feddwl George, nes yr oedd cydymdeimlad ag ef wedi eu meddianu oll yn llwyr. Yr oedd difrifoldeb yn ddarllenadwy yn ei holl agweddiad, ac yn deimladwy oddiwrth ei eiriau. Y mae y brawd ffyddlawn William Rees yn dechreu symud yn nes ato, a chan edrych yn ei wyneb yn siriol, dywedodd, "George, mae Duw yn bod, fachgen, ac y mae yn yr ymyl, ac yn barod i dy helpu, fel na chaiff y cythraul, er ei holl rym uffernol, byth dy ladd!" Pryd hyn yr oedd yr hen Ddyffryn yn fyw i gyd, ac ambell i "Fendigedig" yn dyfod o ryw le yn nghyfeiriad y pwlpud. "Wllliam Rees," ebe ein harwr, "yr y'ch chwi yn dyweyd fod Duw yn bresenol, a'i fod yn y fan yma yn awr; gwelwch yn dda, William, ei ddangos ef i mi, ac yna credaf ynddo yn y fynyd; ïe, cyn symud o'r fan hyn yn awr."

Taflwyd y cyfan i ddyryswch am dipyn, pawb yn methu deall pa fodd y gwnelsid i argyhoeddi George fod Duw, a'i fod ef yn ei ymyl. Ond y mae y brawd William Rees yn dyfod i'r maes eilwaith, ac yn gofyn, "A fuost ti yn darllen y Bibl ryw bryd? a wyddost ti beth y mae hwnw yn dyweyd am Dduw, ac am ei hollbresenoldeb?" "Yr wyf wedi darllen peth ar y Bibl Saesoneg," medd George; "ond a wyddoch chwi, William, a oes rhai o Fiblau Peter i'w cael yn awr?" A chan daro ei law yn ei logell, a thynu dau benadur allan, y mae yn dywedyd, "Dyma ddau *sovereign*, y rhai a roddais heibio tuag at gael *clock;* mi a'u rhoddaf yn awr am un o Fiblau Peter." Wedi hir ymddyddan o'r natur hyn, ac heb ryw weledigaeth eglur, meddyliwyd mai y peth goreu fyddai ei adael i gael lle yn y tŷ ar brawf, i edrych beth a wnai y Brenin mawr ag ef; gan obeithio y delai mewn ychydig amser i well trefn, ac y rhoddai y Creawdwr mawr ffurf gwell ar ei feddyliau.

Wedi i'r swn fyned allan fod y *bruiser* wedi myned yn grefyddwr, fel y gallesid dysgwyl, y mae cawodydd o ddirmyg yn ymarllwys am ei ben; efe oedd testun y tafarndai a'r gwylmabsantau drwy yr holl wlad. "Y mae George wedi myned yn grefyddwr," meddai un; tyngai y llall na fyddai efe ddim yn grefyddwr yn hir—mai gyda hwy y byddai efe eto cyn nemawr o wythnosau. "Pe baem yn gwybod pa bryd y byddai yn gweddio, aem i'r cwrdd o bwrpas i'w glywed," meddent. Pan y byddai yn myned heibio i ryw dwr o fechgyn, yr oedd mewn profedigaeth dost yn gyffredin, canys yr oeddynt yn chwerthin, ac yn taflu pob math o ddirmyg ag oedd yn bosibl ar y crefyddwr newydd. Ebe rhyw fachgen, "Yr wyf yn methu deall pa fodd y gadawodd William Rees y —— i fyned i mewn i'r *society;* y mae efe yn

sicr o wneyd rhyw ddrwg yno cyn bo hir." Byddai George yn awr yn gweddio yn ei dŷ, a rhyfedd yr helbul oedd arno gyda hyny, yn gymaint a bod yr holl gymydogaeth yn ei gymeryd y fath syndod, a'i hen gyfeillion yn ymgrynhoi o amgylch y tŷ i'r dyben o'i glywed a'i wawdio. Os byddai rhyw lanciau gerllaw pan y byddai efe yn dechreu gweddio, galwent ar y lleill i ddyfod yno gynta' gallent, i glywed George yn gweddio. "Dewch yma, hawyr," ebe'r bachgen gogyfer a'r ffenestr, "y mae Heycock yn gweddio." Dyna lle byddai un yn rhedeg ar ol y llall, fel pe byddai y weledigaeth fwyaf erioed. Fe allai, gyda hyn, y byddai careg yn dyfod drwy y ffenestr at ei ben; ac un tro neu ddau, lluchiwyd cŵn a chathod i mewn ar yr awr weddi, nes dyrysu yr addoliad bron yn llwyr. Yr oedd yn dygwydd un boreu, pan yr oedd George yn gweddio, fod hwch a pherchyll wedi dyfod o rywle i gyfer y ffenestr, y rhai a luchiwyd i mewn drwy y ffenestr, porchellyn ar ol porchellyn, nes yr oedd y tŷ yn haner llawn o berchyll, a'r hen hwch yn ddychrynllyd o sarug, yn agor ei phen, ac yn ymddangos yn benderfynol i lyncu pawb i fyny yn fyw. Yr oedd y llanciau erbyn hyn wedi gwneyd y goreu o'u traed, a gadael George yn y brofedigaeth a'r helynt fwyaf rhyfedd a welsoch erioed yn nghanol y perchyll. Dinystriwyd y weddi wrth bob rheswm; ac nid yn unig hyny, ond yr oedd ein harwr mewn perygl mawr rhag i'r hen hwch dori i mewn i'r ystafell, a gwneyd difrod, y mae yn anhawdd gwybod pa faint, ac fe allai beryglu bywyd y teulu hefyd. Yr oedd yr olwg ar George yn brasgamu o un man i'r llall, gan geisio dal y perchyll, yn ddigon rhyfedd; ond yr oedd hyny yn darfod pan y meddylir bod eu hysgrechfeydd yn cynhyrfu yr hen hwch oddiallan fel nad oedd y teulu yn ddiberygl. Bu ein gwron bron a thyngu y pryd hwnw yn nghanol y moch bach; ond ymataliodd, a chadwodd yn bur oddiwrth hyny. Wedi llwyddo i gael y perchyll allan, ac adferu heddwch drachefn, teimlai George yn ei galon duedd gref i fyned allan a rhoi cosfa ddihafarch i'r cyfeillion hyny; ond daeth y gair fel taranfollt i'w feddwl, "Gwyn ei fyd y gwr sydd yn goddef profedigaeth: canys pan fyddo profedig, efe a dderbyn goron y bywyd, yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef." Enciliodd i'r cysgod am ychydig nes i dân y brofedigaeth ddiffodd, ac yna aeth yn y blaen gyda ei alwedigaeth fel arferol. Yr oedd amcan yn ddiamheu yn ei hen gyfoedion i'w dynu i brofedigaeth, oblegyd yr oeddynt yn benderfynol yn eu meddyliau nad allasai byth oddef y pethau hyn, ac y caent wledd hyfryd yn ei gwymp. Eithr sefyll a wnaeth, er syndod i bawb. Er ys ychydig yn ol, y dyn diweddaf fyddai efe i neb gymeryd y fath ryddid gydag ef; nid oedd neb a fuasai yn anturio felly; ac os gwnai, byddai mor sicr o gael eithaf maethgen a'i fod yn fyw. Er y cwbl, o drugaredd, yn y blaen yr aeth ein gwron; er gwaethaf lluchio cŵn a chathod, coed, ceryg, a pherchyll.

Yr oedd George yn awr yn grefyddwr diwyd a ffyddlawn, yn mynychu pob moddion o ras yn gyson a difwlch; eithr y mae yn

rhaid cyffesu fod yr olwg arno yn ddigon chwithig, yn rhywbeth tebyg i ebol gwyllt heb ei docio erioed, newydd ei gyrchu oddiar ben un o fynyddoedd uchaf y wlad, ac heb fod Rarey y dofwr wedi bod erioed uwch ei ben. Yr oedd hen glemiau maswedd ac oferedd yn ddigon amlwg yn ei berson; hen ddulliau y dafarn heb eu dileu o'i gyfansoddiad; mewn gair, yr oedd fel y frân ddu yn mhlith y colomenod. Yn mhen ychydig o amser awd i ymddyddan ag ef eilwaith yn yr eglwys i edrych ar ba dir yr ydoedd, ac a oedd rhyw argoel ei fod yn dyfod i'r goleuni am bethau ysbrydol. Byddai y cyfeillion yn gobeithio yn gryf fod y Creawdwr, yr hwn oedd wedi dwyn y dryblith i drefn a phrydferthwch yn y greadigaeth gyntaf, erbyn hyn wedi gwneyd rhyw drefn ar feddwl cymysglyd yr hen ymladdwr. William Rees, yr hwn oedd fel oracl y gymdeithas grefyddol yn yr amser hwnw, a gododd i fyny, ac wedi peth pesychu, yn nghyda gwneyd ychydig o ragddarpariadau eraill, gofynodd i Heycock am ddyweyd ychydig o'i helynt yn bresenol. Nid rhyw oleuni mawr oedd ar y mater eto; lled gymysglyd oedd pethau yn mynwes ein harwr; yr unig beth oedd yn amlwg oedd ei fod yn teimlo ei hun yn golledig, a bod rhyw beth yn ei ladd o hyd, ond ni wyddai yn y byd pa fodd y gallesid ei gadw. Yr oedd yn foddlawn gwneyd pob peth oedd yn ei allu er mwyn bod yn gadwedig; a byddai yn ddiolchgar iawn iddynt am gyfarwyddyd pa fodd i wneyd. Wedi bwrw llawer o ymadroddion ato, y rhai nad oedd efe yn eu dirnad yn dda, cododd y brawd William Rees drachefn, a dywedodd, "Yn awr, George, ti wyddost pan y bydd rhywun yn *listio* yn filwr, ei fod yn dyosg yr hen ddillad, ac yn gwisgo y dillad cochion; ac y mae George Rex, fel y gwyddost, yn ysgrifenedig ar goler y *goat*. Yn awr, y mae yn rhaid i tithau, cofia, ddyosg yr hen ddillad yr oeddit yn arfer eu gwisgo, a chael pâr o ddillad newydd, ac enw y Brenin yn ysgrifenedig arnynt." Edrychodd ein harwr yn hyll iawn; agorodd ei lygaid yn anferth, ac ymddangosai mewn teimladau synedig a chymysglyd, fel pe buasai mewn dyryswch mawr yn nghylch rhyw beth; ond yn y diwedd torodd allan a dywedodd, "William Rees, y mae yn ddrwg genyf ddyweyd ei bod yn hytrach yn gyfyng ar fy amgylchiadau ar hyn o bryd, fel nad oes genyf arian i'w prynu; ond yr arian cyntaf a ddaw i'm llaw i, a gaiff fyned am danynt. Mi a'u mynaf, beth bynag yn y byd a gostiant." Gyda hyn y mae Thomas Robert yn neidio ar ei draed, i'r dyben o egluro y mater, canys yr oedd yn canfod fod y brawd William Rees yn siarad uwchlaw amgyffredion ei ddysgybl, ac o herwydd hyny ei fod o dan argraffiadau cyfeiliornus a pheryglus, gan ei fod yn cymeryd pob peth yn naturiol a dynol, ac nid yn gyfriniol ac ysbrydol. "Nid felly, George," ebe ein hewythr Thomas; "nid dillad fel yna y mae'r brodyr yn feddwl, eithr dillad crefydd; buchedd newydd, byw yn y byd mor debyg ag y gallom i'n Harglwydd Iesu Grist, dylyn ei ôl ef, a bod enw Brenin Sïon i'w weled yn amlwg yn ein holl ymarweddiad, fel y gallo y byd

ddarllen yn eglur ein bod yn filwyr o dan faner y groes." "Ho, felly," ebe George; "o'r goreu, Thomas Robert; mi wnaf fi fy eithaf i wneyd fel yna, chwi gewch weled." Yr oedd y cyfeillion yn bur dyner, ar y cyfan, a gobeithient ar ol yr ymddyddanion hyn y delai yn fwy i'r goleu, ac yn gydnabyddus yn y man â'r brawddegau ac â'r cymhariaethau a ddefnyddid mewn *societies* er egluro pethau mawrion teyrnas nefoedd; canys yr oedd efe hyd yn hyn, fel y gellir gweled, yn bur annghynefin â'r ysbrydol oedd mewn pethau. Yr oedd efe yn gnawdol eto, ac yr oedd yn rhaid iddo wrth "laeth, ac nid bwyd cryf."

Yr oedd ei brofedigaethau yn aml, fel y crybwyllasom, a chryn beth oedd ei weled yn gallu sefyll yn eu gwyneb gystal; yr oedd hyny yn dangos ei fod o dan deimladau pwysig, ac wedi ffurfio penderfyniad cryf iawn i ymgais am fywyd tragywyddol. Y mae yn ddigon tebyg fod yr Arglwydd yn ei arwain drwy dywyllwch, a ffyrdd anadnabyddus, i beri iddo ddeall, gan ei ddwyn drwy "dân a dwfr i le diwall." Meddyliwyd yn angenrheidiol cymeryd Heycock mewn llaw eilwaith ryw *society*, i roddi ychydig o wersi newyddion iddo, a cheisio ei ffurfio i dipyn o drefn grefyddol; canys yr oedd pentyru gormod o bethau am draws eu gilydd yr un noson, yn hytrach yn anfanteisiol i'w gof a'i amgyffredion, ac felly yr oeddent yn "rhoddi gorchymyn ar orchymyn, llin ar lin, ychydig yma ac ychydig acw." Bu cryn ymddyddan y noson hon, ac ymgais nid bychan i godi y truan o'r pridd tew a'r clai tomlyd, canys yr oedd yn ymddangos ei fod yn ddwfn iawn yno. Yr ydoedd yn ymylu ar anobaith, bron yn myned i ddyweyd fod ei bechodau yn ormod i'w maddeu, ac mai dyn colledig ydoedd, heb obaith am Geidwad. Daeth y cyfeillion â llawer o ddawn a medrusrwydd i'r maes y noson hon i geisio dangos Ceidwad, fel y mae yn cael ei egluro yn yr efengyl; eithr wedi y cwbl methasant yn un wedd ei ddangos i feddwl terfysglyd a bron anobeithiol ein harwr. Cododd yr hen frawd Thomas Robert, yr hwn oedd yn un o'r gwroniaid yn y ffydd, a gofynodd, "A wyt ti ddim yn teimlo dy hun yn well, ac yn fwy cysurus yn dy feddwl, wedi yr ymddyddanion sydd wedi bod gan dy frodyr yma?" "O nag wyf," ebe yntau, "un tipyn erioed; yr wyf yn myned waethwaeth, yr wyf cyn ddued ag uffern; yr wyf yn ofni bod yn mhlith cythreuliaid cyn y boreu fory. Beth a wnaf?" "Wel, fy machgen i," ebe yr hen wr, "nid oes dim i'w wneyd ond ceisio myned i'r llwch, a gweddio am drugaredd. Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd, fel yr ydym yn darllen yn ei air; ac os gelli di fyned i'r llwch, yr ydwyt yn sicr o'i gyfarfod yno, a bydd yn ddiamheu gystal a'i air hefyd; canys ni fwriodd ymaith neb erioed a aeth â'i enau i'r llwch i edrych a oedd gobaith." A'r cyfryw ymadroddion y bu y cyfeillion caredig yn ceisio ei ddyddanu, hyd y gallai wrando; a gweddiwyd yn daer drosto gan y brawd oedd yn dybenu y cyfarfod.

Wrth fyned adref y noson hono yr oedd George yn ymdrechu ei oreu i astudio y gwahanol ymadroddion a ddefnyddiwyd yn y

gymdeithas grefyddol; eithr yr oedd yn methu dyfalu pa beth oedd y gair "llwch" a ddefnyddiwyd, yr hyn oedd yn dra phwysig iddo ef, yn gymaint a bod yn rhaid iddo ef fyned a'i enau yno, fel y dywedai yr hen frawd, ac y byddai yno yn sicr o lwyddo i gael trugaredd. Nid oedd y gair "llwch" o arferiad cyffredin yn y cylch y bu efe yn troi, eithr rhyw lygriad o'r gair, ac felly yr oedd yn dygwydd bod yn anneallus iddo ef. Eithr, yn gymaint a bod y fath bwys yn y peth, penderfynodd fynu gwybod, drwy ryw foddion neu gilydd, beth oedd ystyr y gair "llwch." *Dictionary* oedd yn rhaid gael, a phendefynodd fyned i Gastellnedd at lyfrwerthwr cyfrifol oedd mewn masnach yno i chwilio am Eiriadur Cymraeg a Saesoneg. Beth bynag, tra yn y cyfyngdra meddwl hwn yn nghylch y gair "llwch," ac yn bwriadu myned i Gastellnedd mor gynted ag oedd yn bosibl, yn ddamweiniol ac annysgwyliadwy, cyfarfyddodd â Thomas y gôf, yr hwn oedd yn ddyn deallus iawn mewn pethau o'r fath, ac yn cael ei adael yn dipyn o brydydd, os nid *bardd* yn wir. Beth bynag am hyny, yr oedd yn ddyn o wybodaeth eang yn nghylch tarddiad geiriau, a phethau o'r fath hyny. Byddid yn ei ystyried yn awdurdod yn mhlith y Cymreigyddion, a braidd nad ystyrid ef gan y cyffredin yn eirlyfr perffaith ynddo ei hun. Felly yr oedd llawenydd George yn annhraethol pan ddygwyddodd iddo gyfarfod â Thomas mor annysgwyliadwy, yn y dyryswch hwn. Agorodd ei lygaid yn lletach nag arferol, a dywedodd gyda nerth a bywiogrwydd, "Myn dyn, Thomas, ni bu erioed gystal genyf dy weled ag heddyw, canys yr oeddwn yn y drafferth fwyaf erioed o ran fy meddwl." "Beth yw'r mater, fachgen?" ebe'r llall. "Wel, a oeddit ti yn y *society* pwy noson yma, ac a glywaist ti nhw yn dyweyd fod yn rhaid i ddyn fyned i'r llwch? Yn awr, yr oeddwn yn meddwl myned i'r dre' heno, i brynu *Dictionary*, i edrych beth yw'r gair "llwch," canys yr wyf yn methu dyfalu beth ydyw. Ni ddaeth i fy nghof am danat ti, onide buaswn wedi dyfod atat; mawr gystal sydd genyf dy gyfarfod! canys gwn y gelli di egluro y gair, a dywedyd wrthyf ei ystyr. Gair Cymraeg ydyw, onide Thomas?" Ymgrynhodd Thomas ei wefusau, chwyddodd allan, a lledodd ei ysgwyddau, a gosododd un droed o flaen y llall, ac ymddangosodd yn mhob modd fel yn gwneyd rhagddarpariaeth i fyned yn nghyd â gorchwyl pwysig. Wedi cael ei hun fel hyn i ffurf ac agwedd weddus, a theilwng o ddyn mawr a gwybodus, y mae yn dechreu rhagymadroddi er gosod pethau mewn goleu priodol cyn myned i mewn i'r cwestiwn. Wedi gwneyd sylw manwl a dysgedig ar y gair "llwch" yn ei dadogaeth, a'i wahanol gysylltiadau, y mae yn dyweyd fod y Saeson yn ei gyfieithu yn "*dust*." Erbyn hyn yr oedd George yn y goleu yn berffaith, ac yn llamu ar un goes fel un wedi cael "ysglyfaeth lawer," gan ddywedyd, "Fachgen, ai yr un peth â *dust* ydyw? pw, pw, yr wyf yn gwybod beth ydyw yn awr yn burion." Wedi cael y gair Saesoneg unwaith, efe oedd ben, canys fel y dywedasom yn y benod o'r blaen,

bwriadwyd ef i fod yn *ddoctor* yn moreu ei oes, ac felly codwyd ef mewn ysgol dda, fel yr ydoedd yn un o'r Saeson goreu yn yr ardal. "Dyna, dyna, Thomas," eb efe, "nid oes yn rhaid i ti gymeryd rhagor o drafferth, mi wn beth yr oeddynt yn feddwl yn berffaith yn awr."

Er i George druan ddeall y gair "llwch," y mae yn ymddangos wedi y cwbl nad oedd wedi deall *ysbrydolrwydd* y gair, a'r synwyr yn mha un y defnyddiwyd ef yn y gyfeillach eglwysig, gan yr hen frodyr crefyddol. Yr oedd yn anhawdd iawn ei gael ef i ddeall pethau ond yn eu hystyr naturiol; nid oedd yn gallu myned i mewn i'r dirgeledigaethau hyd yn hyn, a'u hysbrydoli hwynt. Y mae llawer yn medru ysbrydoli pob peth ag sydd yn y Bibl—y coed, y ceryg, yr haiarn, y pres, y padellau, y rhawiau, yr hoelion, yr edau, y cnapiau, ac hyd yn oed yr esgidiau a wisgai y brenin Solomon; ond am George, druan, yr oedd efe yn methu ysbrydoli dim. Yr oedd hyn yn golled. Beth bynag, wedi dyfod o hyd i wir ystyr y gair "llwch," aeth yn nghyd ag astudio y frawddeg, "myned i'r llwch, a rhoi y genau yn y llwch, ac oddiyno weddio a cheisio maddeuant a heddwch y Goruchaf." Gwelai y peth erbyn hyn yn ddigon amlwg; nid oedd tywyllwch yn y byd mewn cysylltiad â'r mater mwyach, ac nid oedd dim i'w wneyd ond edrych allan am le cyfleus i wneyd hyn. Yr oedd yn dygwydd bod yn bur sych yn yr haf, fel yr oedd digon o "lwch" bron yn mhob man, yn enwedig ar yr heolydd a'r tomenau lludw; ond nid oedd y lleoedd hyny yn gyfleus i gael llonydd i orwedd ynddo, oblegyd byddai ceffylau a chludau yn myned heibio ar hyd y ffordd, fel y byddai yn angenrheidiol i ddyn godi yn aml, hyd yn oed yn nghanol ei weddi, neu ynte fod yn ddibris o'i fywyd, yr hyn nad allesid gymeradwyo mewn modd yn y byd. Byddai y tomenau lludw hefyd yn bur annghyfleus, gan eu bod mor agos i'r tai, cymaint o dramwy yn ol ac yn y blaen gan y trigolion, ac yn wir, lluaws o foch yn ymdreiglo yno. Yr oedd peth arall hefyd wedi taro i feddwl George, sef fod y "llwch" yn hytrach yn fach yn y lleoedd a nodwyd, i ymdreiglo ynddo yn ddihafarch; ac am hyny fod yn angenrheidiol edrych allan am ryw le mwy cyfleus, gyda mwy o gyflawnder o lwch. Wedi ffurfio y penderfyniad hwn, aeth allan i wneyd ymchwiliad, a nodi allan fan priodol i gael cyflawni y ddyledswydd grefyddol grybwylledig; canys yr oedd brys arno, o herwydd ei dywydd blin. Ac, yn gymaint a bod y brawd yn sicrhau, ond iddo wneyd hyn, y byddai yn ddios yn cyfarfod â Duw mewn heddwch a maddeuant, nid oedd digon o frys i fod, i'r dyben o gyrhaedd y fath amcan goruchel, a chael mwynhad o'r bendithion anmhrisiadwy, y rhai yn unig a allasai roi tawelwch a gorphwysfa i'w enaid cythryblus.

O dan y mynydd uchel, yr hwn sydd fel pinacl ardderchog, yn estyn ei wddf fel pe bai mewn cariad â'r ser fry, ar ael y bryn, heb fod yn mhell o'r Groeswen, y canfyddai gae llethrog, wedi ei aredig a'i fraenaru, ac yn lle cyfleus a phriodol yn mhob ystyr i

fyned trwy ei ddyledswyddau crefyddol er mwyn derbyn heddwch y Goruchaf. Dacw ef yn dringo i fyny, drwy nerth y llawffon, ac yn mhen tipyn, wele ef yn cyrhaedd y tir dymunol. Nid oedd dim i'w derfysgu; yr oedd unigolrwydd yn teyrnasu yn ddystaw a phruddaidd ar y llethr, oddigerth ambell waith fod seiniau melusber yr uchedydd yn tori ar y dystawrwydd. Wel, dyna George wedi cael digon o lwch o'r diwedd; dyma lon'd cae o'i flaen, a thyma yntau yn ei ganol. Gorweddodd yn y rhŷch, a'i wyneb i lawr, gosododd ei enau yn y llwch, fel y dywedai Thomas Robert; cododd y llwch ar ei ben, trodd ar ei ochr, wedi hyny ar ei gefn, ac yn mhob ffordd, er mwyn ymdreiglo yn llwyr ynddo, gan waeddi nes yr oeddynt yn ei glywed o'r pentref nesaf, "Arglwydd, trugarha wrthyf yn awr; dyro heddwch i mi yn awr; maddeu fy mhechodau mawrion yn awr; dyma fi yn ymdreiglo yn y llwch, ac yn gosod fy ngenau yn y llwch, fel y dywed Thomas Robert; dere ataf, a thrugarha wrthyf. A gaf fi drugaredd yn awr, Arglwydd? Dywedodd Thomas Robert y buaset yn dyfod ataf i'r llwch, ond nid wyf yn dy weled; pa le yr ydwyt?" Fel hyn y bu y creadur gresynol yn ymdreiglo yn ol ac yn y blaen, a gwaeddi am drugaredd am amser hir, a chan ddysgwyl bob moment weled yr Arglwydd yn rhyw ffurf yn dyfod ato a siarad ag ef, canys felly y deallodd efe eiriau yr hen frawd. Eithr, er ei siomedigaeth dirfawr, nid oedd neb yn dyfod, na swn i'w glywed. Pruddhaodd, a meddyliodd fod y cwbl drosodd am byth gydag ef, ac mai ofer oedd ceisio gwneyd heddwch â'i Farnwr, enw yr hwn oedd eto yn llosgi yn ei fynwes fel "tân ysol." Yr oedd gwneyd iawn am bechod, ac enill trugaredd a maddeuant pechodau, yn elfen yn y galon nad oedd wedi ei llwyr ddileu. Y mae yr ymgais am wneyd heddwch â Duw trwy ryw weithredoedd o'i eiddo ei hun, yn egwyddor naturiol yn nghalon dyn; ac y mae yn rhaid ei arwain o gam i gam gan Ysbryd Duw, drwy lawer o anialwch a thywydd garw, cyn dyfod ag ef i ddarfod yn llwyr ag ef ei hun, ac i orphwys ei enaid yn llwyr ar aberth y Cyfryngwr. Y mae George, chwi a welwch, yn ymdrechu hyd yr eithaf, ac nid oedd yr un drafferth yn ormod i geisio gwneyd heddwch â'i Farnwr drwy ryw bethau o'i gyflawniad ei hun, ac nid derbyn y cymod yn wyneb datguddiad yr efengyl. Hyd yn hyn, beth bynag, yr oedd ei lygaid heb fod yn agored i drefn yr efengyl; eithr ymbalfalu yr oedd mewn tywyllwch, dan chwilio am y drws, ac heb fedru ei gael. Wedi bod yn ymdreiglo fel yma mewn llwch a lludw am gryn amser, nes oedd yr olwg fwyaf echrydus arno ag a welwyd erioed, canys yr oedd ei het, ei wyneb, a'i ddillad, oll yn goch gan bridd, cafodd ychydig esmwythâd i'w feddwl helbulus yn y dybiaeth ei fod wedi cyflawni dyledswyddau crefyddol o bwys mawr, ac wedi ufuddhau i orchymyn yr eglwys. Bu rai wythnosau yn ymdroi yn y cyfiawnder hwn, a braidd wedi myned i orphwys ar ei ddigonoldeb.

Mewn cyfarfod eglwysig, yn mhen ychydig wedi hyny,

barnodd y cyfeillion y byddai yn dda siarad ychydig â George, er mwyn gwybod tipyn o'i helynt yn bresenol, a gweled ar ba dir yr ydoedd, yn ddymunol. Galwyd ef yn y blaen, ac ymddangosai yn fwy cysurus nag arferol o ran gwedd ei wynebpryd, fel pe buasai wedi dyfod i fwy o foddlonrwydd mewn perthynas i'w amgylchiadau ysbrydol a thragywyddol. Cododd y brawd William Rees, yr hwn bob amser oedd yn barod i siarad, canys yr ydoedd yn ddyn athrylithgar iawn yn ei ddydd; a gofynodd yn lled apostolaidd, "Wel, George, pa fodd y mae yn awr? pa fodd yr wyt ti yn myned yn y blaen oddiar pan y buwyd yn ymddyddan â thi o'r blaen?" "Wel, William," ebe ei ddysgybl, "yr wyf fi wedi bod yn ceisio gwneyd fel y dywedodd yr hen frawd Thomas Robert wrthyf; ond nid wyf fi wedi gweled pob peth yn dyfod i ben fel y dywedodd ef. Fe ddarfu iddo ef ddyweyd yn y *society* pan y buwyd yn siarad â fi ddiweddaf, os awn i'r llwch, a rhoi fy ngenau yn y llwch, y delai yr Arglwydd ataf, ac y byddwn yn sicr o gael trugaredd ganddo. Wel, mi wneuthum i hyny, ond welais i ddim o'r Arglwydd, a mi a wn na ddaeth efe ddim yno, onide buaswn yn sicr o'i weled, canys yr oeddwn yn edrych am dano o hyd." "Ië, George bach," ebe William, "cofia mai trwy ffydd y mae gweled Duw, ac nid â llygaid o gnawd; ei weled yn nadguddiad yr efengyl, fel 'Duw yn Nghrist yn cymodi y byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau;' a phe buasit ti yn myned i'r llwch yn wirioneddol, y mae yn ddigon sicr y buasit yn ei gyfarfod." Y mae George ar hyn yn sefyll i fyny ac yn ryw haner troi ar naill goes, ac yn dywedyd, "William, a ydych yn meddwl na fum i yn gorwedd ac yn ymdreiglo yn wirioneddol yn y llwch? Gallwn enwi ugeiniau o dystion a ngwelodd i yn dyfod i lawr o gae braener y Groeswen, y rhai oedd yn holi bob cam, :B'le buost ti, George? beth yw'r drych yna sydd ar dy ddillad? Canys yr oedd y dillad, o fy mhen i fy nhraed, yn goch wedi bod yn ymdreiglo yn y pridd am oriau. Ond ni welais i yr Arglwydd yno, fel y dywed Thomas Robert; ac nid wyf yn gwybod beth a wnaf, er mwyn ei gyfarfod i gael maddeuant o fy mechodau mawrion, y rhai sydd bron fy lladd." Hawyr anwyl! y mae pawb yn agor eu llygaid yn anferth! Y mae rhai yn agor eu genau hefyd, fel pe bai hyny yn gwneyd ryw help; ond digon tebyg mai o dan effeithiau syndod y maent, ac felly yn annghydwybodol o'u hagweddau. Yr oedd hyd yn oed Thomas Robert wedi ei daro yn fud; a chan droi ei olygon oddiamgylch, plethu ei ddwylaw yn nghyd, a chrymu tua'r llawr, yn ocheneidio, ac yn methu symud cam yn y blaen. Nid ydym yn rhyfeddu fod y bobl yn synu, ac wedi cael eu taro yn fud, canys y mae dynion wedi synu wrth lai o beth ganwaith. Nid ydym ni ond adrodd y ffeithiau yn syml fel yr oeddynt; yn unig dyweyd fel yr oedd pethau yn bod. Yr oedd hen long y Dyffryn, yn nghanol rhyw wynt dyeithr fel hyn yn methu hwylio, a'r hen lywyddion cyfarwydd wedi ymddyrysu, fel pe buasent yn nghanol yr *euroclydon*. A phan nad oedd na haul na ser yn ymddangos

ar y pryd, a thymhestl nid bechan yn pwyso arnynt, ac wedi bod hir ddirwest, y mae y brawd Thomas Robert yn neidio i'r bwrdd, ac yn rhoi cyfarwyddiadau i hwylio yn y blaen, a gwthio yr hen long i gysgod craig. Felly y bu; a daeth y cwbl eilwaith yn dawelwch mawr. Y mae yr hen frawd Roberts yn dechreu cymeryd George mewn llaw i'w egwyddori, a'i ddysgu yn fanylach, gan osod ger ei fron mewn trefn gynwys a sylwedd, yn nghyd ag ysbrydolrwydd yr ymadroddion a ddefnyddiodd yn nghylch y "llwch a'r lludw" yn y *society* o'r blaen. Wedi gwneyd hyn gyda phwys a chryn fedrusrwydd, arweiniwyd ein gwron i mewn i ddirgeledigaethau yr ymadroddion; a daeth i ddeall mai nid y llwch yn nghae y Groes a feddylid, ond ysbryd gostyngedig ger bron Duw mewn gweddi, fel y dywedai Thomas Robert.

Wedi y pethau hyn, collodd yr ychydig esmwythad a deimlodd wedi bod yn ymdreiglo yn y "llwch a'r lludw;" meddyliodd nad oedd hyny ond esmwythder cnawdol, ac yn effaith syniad annghywir am grefydd. Y mae yr adnod fechan, "Ein Duw ni sydd dân ysol," yn dyfod eto i'r meddwl gyda nerth dauddyblyg, nes y mae'r cawr yn rhuo yn ddychrynllyd, a phawb—crefyddol a digrefydd—yn gwylio ei symudiadau, yn gymaint a'u bod yn dysgwyl ei gael, mewn rhyw ddull neu gilydd, wedi gorphen ei yrfa ddaearol. Priodolid ei dywydd mawr, yn nghyda'r hynodrwydd a gynyrchai yn ei ymddangosiad a'i ymarweddiad, yn fwy i wallgofrwydd na dim arall, ac felly ofnid yn ddirfawr y ceid ef yn nghrog ar bren, yn yr afon, neu wedi tori ei wddf. Y mae y tymhor hwn yn ei argyhoeddiad braidd yn fwy ofnadwy a dychrynllyd na dim a welwyd; canys yr oedd yn dychymygu ei fod yn gweled colofnau o dân o'i flaen yn nesu ato, nes y byddai y gwres yn peri iddo waeddi fel dyn gwallgof, nes dychrynu pawb o'i gwmpas. Yr ydym wedi anturio dyweyd ei fod yn "*dychymygu;*" ond yr un peth fyddai ceisio ei berswadio ef drwy ei oes mai dychymygu ydoedd â symud y mynydd i ganol y môr; yr ydoedd yn benderfynol mai sylweddol oedd y cwbl.

Byddai llawer yn ceisio ymresymu ag ef, ac yn dyweyd mai y *nervous system* oedd wedi myned yn wan o dan effeithiau gofidiau a thywydd meddwl, ac felly ymffurfiad o bethau yn cymeryd lle yn y meddwl nes yr oeddynt yn ymddangos yn hollol fel sylweddau, ac hyd yn oed yn twyllo y dyn ei hun. Ond yr un peth oedd dywedyd na chododd haul erioed a chynyg rhyw athrawiaeth fel yna iddo ef. Yr oedd mor benderfynol ei fod yn gweled yn y tymhor hwn golofnau o dân, ac yn teimlo eu gwres bron yn ei losgi, ag iddo weled yr haul erioed. Clywsom ef yn dywedyd fel y canlyn: "Un noson wrth ddychwelyd o'r Dyffryn, yn y tywydd mwyaf erioed, a'r adnod hono, 'Ein Duw ni sydd dân ysol' yn llosgi ac yn rhwygo fy nghalon, gwelais golofn o dân o fy mlaen, gryn ffordd; yr ydoedd yn nesâu ataf, nes yr ofnais ac y dychrynais yn ddirfawr; ond nes nes yr oedd yn dyfod o hyd, fel yr oeddwn yn methu deall beth a wnawn; yr oeddwn bron yn

wallgof, ac yn meddwl y buaswn yn yr eirias dragywyddol o'r noson hono allan; yr oedd 'Duw yn dân ysol' o fewn, ac yn awr yr oedd 'Duw yn dân ysol' oddiallan yn dyfod i fy nghyfarfod. Yr oeddwn yn methu gwneyd dim ond gwaeddi yn groch; mi feddyliais am syrthio ar fy ngliniau i weddio. Dyfod yn nes yr oedd y golofn danllyd, er pob peth, nes dyfod mor agos fel yr oeddwn yn teimlo gwres dychrynllyd a llosgfa o gwmpas fy nghernau, y pryd y gwaeddais allan, 'Arglwydd, os tydi sydd yn fy nhrin fel hyn, gwneler dy ewyllys; eithr os y cythraul sydd yn fy nhrin, O Dduw, gwahardd iddo fy lladd; paid a'i adael i fy lladd yn farw.' Gyda hyn diflanodd y golofn; ac yr oedd yn noson mor dywyll ag oedd yn bosibl; a cherddais adref yn y tywyllwch, gan gredu fod Duw yn dechreu gwrando fy ngweddiau tlawd." Beth bynag am y pethau hyn fel sylweddau, nid ydym yn gwybod, ac nid ydym yn cymeryd arnom benderfynu ychwaith; ond y mae yn ymddangos fod pethau mwy rhyfedd yn nglŷn ag argyhoeddiad y *bruiser* na nemawr neb a ddarfu i ni glywed am danynt.

Y mae yn debygol fod eisiau rhyw oruchwyliaethau dyeithr i ddarostwng dyn fel efe, ag oedd wedi bod mor flaenllaw yn nheyrnas y tywyllwch. A pheth a wyddom ni nad oes gan ddiafol ryw lawer o awdurdod yn y byd hwn, ac heblaw ei ddylanwad ysbrydol ar eneidiau dynion, ei fod yn gallu ymffurfio yn rhith llawer o bethau? Eithr yn gymaint a bod rhyw gwestiynau fel yna yn lled dywyllion, ac nad yw y celfyddydau a'r gwyddonau yn taflu ond ychydig o oleuni arnynt, fe allai y byddai yn gystal i ninau, ar hyn o bryd, eu gadael yn y man y maent. Mewn gwirionedd, ni buasem ni yn cyffwrdd a'r dirgeledigaethau hyn o gwbl, oni buasai fod gwrthddrych ein hadroddiad wedi cael ei arwain trwy lawer o bethau o'r natur yma, a bod yn rhaid i ninau wneyd ein goreu i'w ddylyn. Yr ydym yn ei golli, yn awr ac eilwaith, bellach, yn nghanol ysbrydion; canys pan y mae efe yno, y mae yn anhawdd iawn i ni ei ganlyn, ac yn anmhosibl nodi allan ôl ei draed. Bydd yn rhaid i ni fyned yn awr ac eilwaith, a rhoi ein traed y tu draw i derfynau y byd hwn rai gweithiau, cyn y gallwn gadw ein golwg ar ein cyfaill George bob amser. Nid ydym yn teimlo un hyfrydwch wrth deithio y tir hwn, dealler, eithr angenrheidrwydd sydd yn peri i ni fyned ar hyd-ddo. Y mae llawer yn anffyddwyr yn ymddangosiad ysbrydion drwg mewn gwahanol ffurfiau er temtio neu boenydio dynion; eithr fe allai y byddai yn well peidio myned i eithafion y naill ochr na'r llall, canys yr ydym yn byw yn nghanol dirgeledigaethau. Fe ddichon y byddai yn well peidio bod yn rhy benderfynol y naill ffordd na'r llall, er fod y tebygolrwydd yn gryf o blaid y dybiaeth fod ysbrydion drwg, a da hefyd, yn gwneyd ei hymddangosiadau i ddybenion neillduol. Yr ydym ni, gan hyny, yn mhell o feddwl mai dychymygion yw'r cwbl yn ngweledigaethau George; y mae yn ddigon tebyg fod sylweddau hefyd yn yr ymdrafodaeth. Bid a fyno, nid oes genym

ddim ond adrodd yr amgylchiadau, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, a gadael i'n darllenwyr dynu y casgliadau a welant yn dda oddiwrth y cwbl.

Heb fod yn mhell o'r lle yr oedd ein harwr yn byw, yr oedd gallt o goed, a mynych yr ymgyrchai efe i'r fan hono i weddio. Byddai yn myned yno yn gyffredin pan y byddai rhyw dywydd garwach nag arferol ar ei feddwl, i'r dyben, y mae yn debygol, o gael llonyddwch i arllwys ei deimladau ger bron gorsedd gras. Ond yn fynych, byddai yn methu cadw dystawrwydd ei hun, eithr torai allan i waeddi nes dadseinio yr holl gwm, a'r bobl yn methu deall beth a allasai fod nes iddynt gynefino â'r cyfryw bethau; ac wedi hyny, pan y clywsid rhyw fwstwr felly, nid oedd neb yn cyffro, ond yn unig gwneyd sylwadau dirmygus ar George a'i weddio. Byddai weithiau yn rhuo fel tarw gwyllt mewn magl, ac weithiau yn ochain yn dryminwythog, a phrydiau eraill yn bloeddio allan, "Duw a drugarhao wrthyf." Yn gymaint a bod y bobl, lawer o honynt, yn y dyddiau hyny yn barnu fod unrhyw ymwneyd â chrefydd yn beryglus, a bod pawb agos ag oedd yn myned at grefydd yn colli eu synwyrau, tybiwyd yn gyffredin mai edrych am le cyfleus i ymgrogi yr oedd George, ac y dylasai ei berthynasau edrych ato, ac ar ei ol. Ni buasai clywed ei fod wedi ei gael yn nghrog ar bren yn un syndod i'r gymydogaeth, canys nid oedd nemawr yn dysgwyl dim arall. Tra yr oedd y bobl yn siarad fel hyn ac fel arall, yn ngwyneb ei fod yn cadw y fath ddadwrdd yn y graig, gwedd'io yn y blaen yr oedd efe yn hollol anngnhydwybodol o'r holl helynt hyn. Clywsom ef yn dywedyd, yn ngwyneb ei fod mewn cyfyngder meddwl tu hwnt i ddesgrifiad, iddo un diwrnod ddringo yr allt, a myned i mewn i'r coed i weddio, pan y syrthiodd ar ei liniau o dan bren, yr hwn oedd wedi crino i fesur mawr; ni wnaeth sylw ei fod felly ychwaith nes yr oedd yn y weithred o syrthio ar ei liniau. Wrth ganfod ei frigau llwydion yn ymgrogi drosto, syrthiodd y meddwl fel taranfollt mai pren crin oedd yntau hefyd, ac y byddai yn y tân tragywyddol yn fuan iawn. Gyda hyny, dyma ef yn gwaeddi â'i holl nerth am drugaredd, nes oedd ei swn i'w glywed yn mhell. "Os darfu i mi weddio erioed," meddai, "yr wyf yn meddwl fy mod yn gweddio y pryd hwnw; canys yr oeddwn yn y teimladau mwyaf dychrynllyd ag y bu dyn erioed ar y ddaear hon, yn sicr; yr oeddwn yn teimlo fel pe buasai fflamiau y pwll diwaelod yn dechreu cydio ynof eisoes." Eithr tra yn gweddio yn daer yn y teimladau a ddesgrifiwyd, efe a glywai ryw fwstwr yn y coed, ac fel pe buasai rhywbeth lled drymaidd ei symudiadau yn nesu ato, ond nid agorodd ei lygaid. Cyn pen eiliad, dyma ryw beth yn troi o'i amgylch yn lled agos i'w gorph, gan ei daro â'i gynffon wrth ymdroi o'i ddeutu; rhoddodd dri thro, gan ei daro â'i gynffon bob tro. Erbyn hyn, fel y mae yn naturiol meddwl, yr oedd ein cyfaill wedi tewi, ac yn chwysu gan ofn a braw; a phan yn agor ei lygaid, yr oedd rhyw beth yn debyg i gi yn edrych yn ei wyneb. "Ffurf ci

ydoedd," meddai; "ci coch, â'i lygaid fel fflam dân yn ei ben; ond yr oedd yn fwy tebyg i lo blwydd o ran maint. Yr wyf wedi gweled llawer o'r *Newfoundland dogs*, ond ni welais *Newfoundland* erioed ddim yn debyg mewn maint i hwnw." Nid "drychiolaeth oedd hwn o flaen ei lygaid," canys "adwaenai ei agwedd;" er hyny "gwnaeth i holl flew ei gnawd sefyll." "Fe allai," ebe cyfaill wrtho, "mai ci gwirioneddol ydoedd, serch hyny, er y mae yn bosibl y gallesid fod o dan ddylanwad yr ysbryd drwg, a'i fod ef yn ei ddefnyddio fel offeryn yn ei law i effeithio y brofedigaeth, a cheisio rhwystro eich gweddiau."

Ymgynhyrfai George bob tipyn wrth athrawiaeth fel hyn, ac edrychai ar y fath sothach gyda dirmyg. "Clywch y dyn!" meddai, "yr oeddwn yn adnabod pob ci yn yr ardal hyn, a'r ardaloedd o gwmpas hefyd; nid oedd yma un creadur cyffelyb gan neb; ac ni welais i gi o'i fath na chynt na chwed'yn; a phe buasai yn perthyn i ryw un yn y cwmpasoedd hyn, peth rhyfedd na fuaswn wedi dygwydd ei weled ryw bryd; a pheth arall, ni bu ci erioed o faint hwnw. Nage, nid ci gwirioneddol ydoedd, fi wna'm llw, eithr cythraul gwirioneddol ydoedd yn ffurf ci. Gallwn feddwl fy mod yn teimlo ei gynffon fawr yn plethu am danai y fynyd yma, ac y gwelaf ei ddau lygad fel tân yn edrych yn fy ngwyneb; mi gofiaf byth am yr amgylchiad. Safodd yn y dull hwnw am foment, fe allai, gan edrych fel pe buasai yn myned i fy llarpio, a minau yn fud yn methu dyweyd dim; yr oedd fy ngenau wedi sychu i fynu, fy nafod fel pe buasai wedi cydio wrth daflod fy ngenau; nid oedd mwy o rym yn fy aelodau na phlentyn newydd ei eni." Y mae un peth yn ddigon eglur, beth bynag, fod ein gwron mewn teimladau dychrynllyd; canys yr oedd fel hyn ar ei liniau, a'i anadl megys yn ei ddwrn, yn edrych wyneb yn wyneb â'r bwystfil, heb allu dyweyd un gair, na rhoi un floedd nac ysgrech, na dim cyffelyb. Wrth fod y ci yn troi o'i amgylch, yn ymwasgu yn nes ato, a phob tro yn ei lachio am draws ei gefn â'i gynffon, teimlodd fel pe buasai y ddaear yn ymollwng o dano, yn agor ei safn, ac yn ei lyncu yn fyw i uffern; penderfynodd, meddai, "ei bod *all over* am dano i dragywyddoldeb." Gyda y cynhyrfiad hyn y mae ei dafod crasboethlyd yn ymryddhau, ac y mae yn gwaeddi yn ddychrynllyd; ac yn bloeddio allan fel dyn gwallgof, "O Arglwydd, O Arglwydd, myn chwareu teg i mi am fy mywyd! dyma y cythraul am fy lladd; y mae yma yn awr yn fy ymyl, yn barod i fyned â mi i uffern. O! myn chwareu teg i mi am fy mywyd! paid a'i adael i gael ei wŷn arnaf, Arglwydd daionus!" Fel hyn y bu yn bloeddio nes oedd yr holl gwm mewn cyffro am amser lawer; y mae yn anhawdd gwybod pa faint, canys nid yw efe yn gwybod ei hunan. Beth bynag, tra yr ydoedd efe fel hyn yn gweddio, ac yn teimlo nerth yn dyfod gyda phob bloedd, ymadawodd y gwr drwg, fel ei gelwir, ac ni welodd ef yn y ffurf hono mwyach. Y mae yn debyg mai ympryd a gweddi yw yr unig foddion i yru y rhywogaeth hyn ymaith hyd y dydd hwn. Bu

ein harwr mewn llawer brwydr â diafol wedi hyn, fel y cawn adrodd eto, ond ei fod wedi ymgymeryd â gwahanol ffurfiau a dulliau, ac yn fwyaf cyffredin fel gelyn anweledig i lygaid o gnawd, fel "llew rhuadwy," yn ei ymosodiadau ysbrydol.

Ond y mae yn rhaid i ni gadw gwyliadwriaeth arnom ein hunain, rhag myned yn y blaen yn rhy fuan, ac felly gŵyro a cholli golwg ar ein hen gyfaill. Ni a welwn ei fod ef yn weddiwr bellach, ac yn weddiwr mawr iawn, ac yn gweddio yn aml, ac yn mhob man; er hyny y mae yn ymddangos ei fod heb adnabod trefn yr efengyl eto. Buasai yr hen dduwinyddion yn sicr o'i gofrestru gyda'r teulu ag oedd hyd yn hyn o dan y ddeddf, canys rhyw ymbalfalu y mae mewn teimladau digon cymysglyd am y drws, ac yn rhywfodd yn methu cael gafael arno. Ond dyna, beth a wnawn yn ymdroi fel hyn? ein gwaith ni yn awr, pe baem yn gallu deall ein gwaith hefyd, yw adrodd y ffeithiau fel y maent, a gadael ein darllenwyr i wneyd y sylwadau a welont yn dda yn eu myfyrdodau; ond dyna fel y mae hi, fel y gwyddoch, y mae rhai pobl na fedrant yn eu byw adael pethau yn llonydd. Am beth yr oeddem yn son yn awr? O, yr ydym yn cofio, am George yn gweddio, a'i fod yn weddiwr mawr ac yn gweddio yn mhob man. Ië, dyna'r mater eto. Yr ydoedd yn gweddio, nid yn unig yn y coedydd, ac ar làn y môr, ond hefyd yn gweddio fel Cornelius yn ei dŷ. Yr ydym yn meddwl, os ydym yn cofio yn iawn, mai angel Duw a ddaeth at Cornelius pan oedd yn gweddio yn ei dŷ; eithr angel drwg a ddygwyddodd ddyfod at George, pan ydoedd yn gweddio yn ei dŷ y tro yr ydym ar fyned i adrodd yn ei gylch, beth bynag. Ffurf cath, y mae yn debyg, oedd y cythraul wedi ei gymeryd y tro hwn; neu yn hytrach myned i mewn i'r gath a wnaeth; canys cath ein harwr oedd y gath hon, yn ddigon adnabyddus, ond iddi gael ei meddianu gan yr ysbryd drwg, nes iddi fyned fel ellyll uffernol o dan y dylanwad hyny.

Yr oedd cryn gyfeillgarwch rhwng George â'r gath hon; byddai yn aml wrth y tân yn gorwedd rhwng ei draed, ac yn gwneyd rhyw beth tebyg i ganu, ac yn wir yn ymddangos fel pe busaai yr unig greadur ar y ddaear hon oedd am esmwythau ei fynwes drybylog. Ymddangosai yn un o'r cathod mwyaf hynaws, tyner, a chyflawn o natur dda yn yr holl wlad. Felly yr oedd y gath hon a'r brawd George yn gyfeillion rhyfeddol—bron yn ormod o gyfeillgarwch i fod rhwng y rhesymol a'r afresymol. Dyna fel yr oedd, beth bynag. Y mae yn debygol ei fod yn teimlo yn fynych pan mewn adfyd nad oedd ganddo ffrynd yn y byd ond ei gath. Magodd hi pan yn fechan; bwydodd hi yn ofalus, nid allai gymeryd tamaid heb ranu â hi; "a hi a gynyddasai gydag ef, a chyda'i blant; o'i damaid ef y bwytäai hi, ac o'i gwpan ef yr yfai, ac yn ei fynwes ef y gorweddai hi, ac yr oedd hi iddo megys merch." Nid oedd ganddo gymaint o ffydd yn neb ag oedd ganddo yn ei gath. Yr ydoedd wedi gweled cymaint o dwyll mewn dynion—ïe, mewn hen gyfeillion, nes yr oedd wedi colli ei

ymddiried bron yn llwyr yn y byd rhesymol, a byddai o ganlyniad yn troi i'r byd anrhesymol i chwilio am gyfeillion, y rhai a lynent wrtho yn nghanol ei brofedigaethau. Ac fel hyn tyfodd rhyw gyfeillgarwch rhyngddo â'r gath hon, nes yr ydoedd iddo "megys merch." Byddai hi, yn ei ffordd, yn dangos y parch mwyaf iddo; a phan y dychwelai adref, nid oedd neb yn ymddangos yn llawenhau gymaint, nac yn teimlo y fath foddlonrwydd, fel yr ydoedd wedi meddwl mai y creadur diweddaf oedd hon o fewn y greadigaeth faith i droi yn elyn iddo, ac i ymladd yn ei erbyn, oddigerth Sophia, ei anwyl wraig ei hun.

Ryw diwrnod, y mae George yn teimlo gofidiau mawr yn nghylch bod yn gadwedig, ac yn methu deall i foddlonrwydd fod yr Arglwydd wedi gwrando ei weddiau, eithr yn hytrach yn ofni ei fod yn wrthodedig, ac mai dyn colledig a fuasai yn sicr o fod, er pob peth. Yn ymylu fel hyn ar wallgofrwydd, fel y byddai yn aml yn y tymhor hwn, y mae yn methu dyfalu beth a wnai, ai myned i'r môr i foddi, neu ynte dreio gorsedd gras unwaith eto. Yr oedd y môr gerllaw y lle yr oedd yn byw, a chlywai ei donau yn rhuo o'r man lle yr oedd, a gwnaeth benderfynu amryw droion fyned dros ei ben, a dybenu y mater yn fyr fel yna. Ond wedi hyny yr oedd tragywyddoldeb yn edrych yn ei wyneb, fel yr oedd yn gorfod meddwl na fuasai hyny ddim yn gwella'r clwyf, ond yn ei wneyd yn waeth; oblegyd ni wnai wrth foddi ond gyru yr enaid yn gynt na phryd i'r tân tragywyddol. Trodd y fantol, o ganlyniad, o blaid gweddio. Nid ydym yn cofio yn iawn pa pryd o'r dydd ydoedd, ond y mae genym ryw frith gof mai codi yn foreu a wnaeth o flaen y teulu, a myned i ystafell wrtho ei hun ar y llawr. Beth bynag, nid oedd neb ond ei anwyl gath yn yr ystafell, pan aeth i lawr; ac fel arfer, dyma hi yn dangos y croesaw mwyaf iddo, fel pe buasai wedi bod o gartref am bythefnos. Wedi chwareu o'i gwmpas am ychydig amser, aeth i ben cist, neu *chest-of-drawers*, neu ryw beth cyffelyb; ac aeth George at y gorchwyl difrifol o weddio. Yn y tywydd mawr ac ystormus hwn, y mae yn naturiol meddwl ei fod yn gweddio gyda phwys a thaerineb anarferol. Nid gweddiau conglau yr heolydd, dan sefyll yn syth fel pyst, er mwyn cael eu gweled gan ddynion, oedd y gweddiau hyn; eithr gweddiau publican euog a thlawd, yn gweled ei sefyllfa, ac yn canfod peryglon tragywyddol, yn ceisio troi ei wyneb at Waredwr y byd. Gweddiodd yn daer annghyffredin, a theimlai fwy o hapusrwydd, a llai o ddychrynfeydd, y tro hwn wrth geisio gweddio nag erioed o'r blaen; yr oedd y drysau fel yn ymagor yn naturiol o'i flaen; nid oedd yn orchest yn y byd cael geiriau; yr oeddynt fel pe buasent yn dyfod o ryw le o honynt eu hunain, nes yr oedd hi bron a myned yn hwyl, y peth hyd yn hyn oedd heb ei deimlo ganddo ef. Gweddiai hefyd yn enw yr Iesu, canys yr oedd William Rees wedi bod yn ei gynghori yn y *society* yr wythnos cyn hyny am ddefnyddio yr enw hwnw yn ei weddiau, yr hyn a wnaeth, er nad oedd gydag ef nemawr o ddirnadaeth hyd yn hyn

am drefn yr efengyl. Tra yn y teimlad hapus hwn, a'r dwfr fel pe buasai yn codi fwyfwy, yn sydyn, fel taro dwylaw yn nghyd, dyma'r brofedigaeth fwyaf erioed yn dygwydd. Ar yr amser pan yr oedd ei ysbryd yn codi i hwyl, ei lestr yn codi yn deg o'r "pridd tew, a'r clai tomlyd," a phob arwyddion fod y *Royal George* yn dyfod i fyny o'r dyfnder mawr, dyma fel pe buasai deng mil o gythreuliaid yn myned i'r gath, fel yr ydoedd fel arthes wedi colli ei chenawon, yn ddireol ac yn ddiberswad. Neidiodd fel taranfollt oddiar y gist at ben ei chyfaill goreu, a sefydlodd ei hewinedd yn ei siol, gan ruo yn aethus a dychrynllyd. Yr oedd oernadau a swn y gath yn arswydus dros ben, a'i holl agweddiad fel pe buasai "wedi ei gosod yn fflam gan uffern;" ac o ddifrif, gallwn gasglu fod yn rhaid bod y loesion yn ddirfawr i'n cyfaill, yn gymaint a bod yr holl ewinedd wedi ymsefydlu yn ei ben; a bu gryn amser cyn gallu eu dadrys oddiyno.

Wedi ymryddhau oddiwrthi yn y modd goreu y gallai, a thra yr oedd y clwyfau ar ei ben yn llosgi yn annyoddefol, a'i waed yn llifo i lawr yn ffrydiau, nes oedd ei wyneb yn goch a'i ddillad fel pe buasent wedi ymdrochi ynddo, teimlai gynhyrfiad yn ei galon, a bu bron a rhegu. Ymaflodd yn mhedair coes y gath, gwasgodd hwynt at eu gilydd, a dywedodd yn ei feddwl, "Myn ——, mi darawaf dy ymenydd allan yn erbyn y wal." Ond deallwch, er dywedyd felly yn y meddwl, ni lefarodd hyny â'i dafod; eithr cyn i'r geiriau ddyfod allan o'i wefusau, ef a ystyriodd, ïe cofiodd, a darostyngwyd ei galon. Er ei fod yn gwasgu traed y gath yn nghyd, ac wedi codi ei fraich, ac yn y weithred o daro ei hymenydd yn erbyn y mur, eto yn ngwyneb rhyw feddyliau difrifol a ddaeth i mewn ar y pryd, tynodd ei fraich yn ôl, ac edrychodd yn llygaid y gath yn daer, a dywedodd, "Wel, creadur Duw ydwyt fel finau, gan hyny mi a'th ollyngaf yn rhydd heb dy ladd; canys y mae y Creawdwr mawr wedi fy arbed i ganwaith, er i mi bechu yn ei erbyn ef fil mwy nag yr wyt ti wedi pechu yn fy erbyn i." Felly efe a'i gollyngodd yn rhydd; ac er mor aflywodraethus ydoedd ys meityn, yr oedd hi yn awr fel oen diniwed, fel pe buasai dim heb gymeryd lle. "'Does dim dadl," meddai, "nad oedd llaw gan yr ysbryd aflan yn hyn i rwystro fy ngweddi; oblegyd pa reswm yn y byd y gellir ei roi am y peth ond hyn? Y gath oedd mor fwyn a diniwed a chwareugar y fynyd cyn hyny, yn ymgynhyrfu mor ddychrynllyd nes oedd yn arswyd ar gnawd fod yn ei swn!" Wel yn wir y mae llawer peth yn fwy annhebyg i ddiafol na hyn; yr oedd rhyw beth yn yr holl oruchwyliaeth yn debyg iawn iddo ef ei hun. Cafodd ein harwr ben coch y tro hwn; yr oedd yn codi o'i weddi fel un yn dychwelyd o faes y gwaed, yn rhes y clwyfedigion; yn gymhwys i ddim ond yr ysbyty. Er ei fod wedi dyoddef cur a phoen dirfawr dros dro oddiwrth ei glwyfau, eto drwy driniaeth fedrus a gofalus, efe a wellhaodd yn dda; ac nid ydym yn gwybod fod hyn wedi peri un anfantais parhaus, oddigerth fod y gwallt yn fwy teneu ar ei gopa nag o'r blaen. "Y mae ôl ewinedd diafol

ar fy mhen," meddai; "y mae wedi tynu peth o'r gwallt o'r gwreiddiau; a bum yn meddwl, os wyf yn blentyn i Dduw, pa fodd y caniataodd i hyny fod, yn gymaint a'i fod yn dywedyd, 'Ni chyll flewyn o'ch pen;' ond fe ddarfu i mi ystyried y mater, a fi welais y bydd y cwbl yn cael ei adferyd yn adgyfodiad y rhai cyfiawn; fel ei gorph Ef yr adgyfodwn, heb frychau na chrychni, at fesur oedran cyflawnder Crist."

Gellid meddwl fod uffern fel pe buasai mewn cynhwrf drwyddi wrth feddwl colli y gwron hwn, ac yn gwneyd rhyw ysgwydiadau gorchestol er mwyn ei adenill yn ol. Yr oedd diafol fel pe buasai yn cymeryd meddiant o'r byd rhesymol ac afresymol, i'r dyben o effeithioli ei brofedigaethau. Gallesid meddwl fod y dynion, y cwn, y moch, a'r cathod, wedi cyduno ac ymarfogi yn ei erbyn, i'r dyben o'i ddinystrio byth. Y mae yn ddigon tebyg mai rhyw ddylanwad satanaidd oedd ar y creaduriaid; yn eu cynhyrfu a'u gyru i ryw le ar encil, ac felly ar eu hynt yn taro yn erbyn George, er rhwystro ei weddiau. Eithr er pob peth, daliodd ati; ni lwfrhaodd, ac ni roddodd i fyny yn ngwyneb profedigaethau, er yn agos i golli y dydd lawer gwaith. Bu *bron* tyngu, fel y dywedasom, yn amgylchiad y gath; ac er na thyngodd yn gyhoeddus, daeth y peth i wasgu yn drwm ar ei feddwl, ac achosodd hyny gryn amheuaeth yn nghylch ei grefydd. Bu yn gruddfan yn drymlwythog oblegyd hyny am amser hir, ac ni chafodd waredigaeth nes iddo ddyweyd wrth y cyfeillion pa fodd y bu arno. Yn ngwyneb clywed natur y brofedigaeth danllyd, barnodd y brawd William Rees, a Thomas Robert hefyd, fod yn llawer mwy o syndod iddo ymatal rhag tyngu na phe buasai yn tyngu a tharo ymenydd y gath gyda llaw. "Yr oedd yn ddigon," meddai y brawd Thomas Robert, "i beri i hen sant dyngu, chwaithach George, yr hwn oedd wedi arfer tyngu dros ei holl fywyd hyd yn ddiweddar. Er hyny i gyd, George bach, y mae yn rhaid edifarhau am bob pechod; ond ni ddylid, serch hyny, feddwl fod pechodau a gyflawnir mewn profedigaethau mor ysgeler a phechodau a gyflawnir o fwriad." Bu yr ymddyddanion hyn a'r cyffelyb o les mawr iddo ar y pryd, ac yn esmwythad dirfawr i'w feddwl cythryblus. Yr oedd eisiau ychydig o seibiant a thangnefedd arno yn ddiau, canys yr oedd y pen oll yn glwyfus, a'r galon yn drist, braidd un man cyfan arno o fewn ac allan. Rhaid i ni adael ein harwr yn ryw le "yn mhorth yr adenedigaeth, ac yn mwlch yr argyhoeddiad," ys dywed yr hen dduwinyddion; canys hyd yn hyn nid yw efe wedi ei oleuo yn drwyadl am drefn iachawdwriaeth, drwy y "prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Dichon y daw pethau yn fwy goleu yn y benod nesaf.

BODLEIAN

## PENOD III.

Y MAE yn debyg, yn yr oes hon megys yn oesau cyntaf Cristionogaeth, mai "trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw." Gadawsom ein harwr yn y benod ddiweddaf yn nghanol profedigaethau a helbulon mawrion, ac hefyd mewn cryn dywyllwch am drefn yr efengyl er achub pechadur colledig i fywyd tragywyddol. Yr oedd y pedwar gwynt fel yn curo arno; ac y mae yn syndod na fuasai yr holl adeilad yn syrthio yn bendramwnwgl i'r llawr. Fel yr apostol Paul, yr oedd ei beryglon yn codi yn mhob man; ïe, ac o'r manau hyny y gallasai ddysgwyl llawer o gysuron. Felly y mae wedi bod, ac felly y mae eto, ac wrth bob tebyg fel hyn y bydd hyd y diwedd. Nid oes dim i'w wneyd gan hyny ond ceisio ymwthio i mewn i'r bywyd goreu y gellir drwyddynt oll. Braidd yr oedd yr apostol Paul yn myned i un man nad oedd peryglon annysgwyliadwy yn codi o'i gwmpas, nes y byddai yn amheu cael byw yn eu canol. Yr oedd bob awr wrth deithio mewn perygl oddiwrth y dyfroedd, mewn perygl oddiwrth ladron, mewn perygl oddiwrth ei genedl ei hun, mewn perygl oddiwrth drigolion y ddinas, mewn perygl yn yr anialwch, mewn perygl ar y môr, mewn perygl oddiwrth frodyr gau. Gellid meddwl fod y cwbl yn weddol dawel, hyd nes y byddai Paul yn presenoli ei hun, ac wedi hyny yr oeddynt fel yn deffroi, ac yn ymuno yn benderfynol i'w ddinystrio. Yr oedd y "llifddyfroedd" yn llonydd, y "lladron" fel pe buasent yn cysgu, "ei genedl ei hun" yn symud yn araf yn helyntion bywyd, trigolion y "ddinas" fel yn mwynhau eu hunain mewn esmwythder a moethau, "yr anialwch" fel pe bai yn siglo y cawell mewn unigolrwydd, y "môr" fel yn chwareu yn ngwyneb y graig gyferbyn, a'r "brodyr gau" fel rhai wedi cael llonyddwch i'w heneidiau, hyd nes y byddai Paul allan yn eu mysg; yna, wele yr ymosod yn dechreu o ddifrif, a'r gwahanol elfenau yn ymuno mewn un cythrwfl, i'r dyben o'i ddinystrio oddiar wyneb y ddaear.

Y mae pethau fel hyn yn ddyrys, ond felly y mae yn bod yn aml; ac nid oes dim genym i'w wneyd ond ceisio credu fod i hynyna ryw ddyben anweledig, ac anegluredig hyd yn hyn, yn y llywodraeth Ddwyfol. Pan y cyfyd ein profedigaethau llymaf o'r manau hyny y dysgwyliasom ein cysuron penaf, y maent o gwbl, yn ddiau, y mwyaf anhawdd eu dyoddef. Eithr os oes, fel yr awgrymwyd, rhyw ddyben i'r cyfryw bethau yn y llywodraeth Ddwyfol, y mae yn ddiau fod darpariaeth o ras hefyd er nerthu i'w dwyn. Y mae ein gwron a'r apostol Paul yn bur debyg mewn llawer o bethau, yn enwedig yn eu profedigaethau; canys y mae yn ymddangos fod Heycock yntau yn cyfarfod â thywydd garw yn mhob man, ac yn fynych iawn o fanau nad oedd yn dysgwyl dim ond cysuron,—

"Dysgwyl pethau gwych i ddyfod,
Yn groes i hyny maent yn dod."

Yr oedd gan y brawd George fochyn yn tewychu yn gyfagos i ddrws y tŷ, oddiwrth yr hwn nid oedd yn meddwl cael dim ond y pleser o fwyta cig da yn ei dymhor priodol. Gan ei bod yn awr yn tynu ar Nadolig, yr oedd rhyw son wedi bod yn nghylch cael yr eisglwyd, neu y *spare rib*—asen y fran, ys dywed gwŷr y *North*—i giniaw y diwrnod hwnw, ac yna crogi yr ystlysau i fyny i wneyd bacwn, yr hwn fuasai yn gyfleus yn nhymhor y gauaf. Felly chwi a welwch mai dysgwyliad o gysur yn unig oedd oddiwrth y mochyn, ac ni feddyliwyd erioed gyfarfod â'r un brofedigaeth o'r cyfeiriad yna, bid a fyno. Hyd yr ydym yn cofio, cath a mochyn oedd yr unig greaduriaid a feddianwyd gan George, yn mysg holl amrywiaethau y greadigaeth anysbrydol neu ddireswm. Nid ydym yn ddigon sicr a fu ganddo gi ryw bryd, ond yr ydym bron sicr na fu ganddo gi, mochyn, a chath yr un pryd. Ac am bob peth arall, gallwn fod yn benderfynol, heb betruso mewn un modd, nac ofni cyfeiliorni, nad oedd yn feddianol ar ddim; canys clywsom fod rhyw gyfaill wedi ei godi fyny i'w gerbydan, a'r syndod mwyaf o bob peth gan y cymydogion oedd gweled George yn myned heibio mewn *gig*. Rhedodd un ynfytyn allan, heb na het na napcyn, gan waeddi, "Hoi, hoi, hawyr, dewch yma; dyma George Heycock mewn *gig!*" Gyda hyn, fel y gellwch dybio, dyma haner trigolion y tai ar ganol yr heol, ac yn edrych fel dynion wedi myned allan i weled rhyw beth; a'r cwbl oedd i'w weled yn y diwedd oedd George Heycock mewn cerbyd. "Myn dyn, George," ebe rhyw lanc, "yr y'ch chi yn myned allan heddyw fel gwr boneddig." "Gwr boneddig, yr un dwl, "ebe yntau; "beth, a wyt ti yn meddwl mai cael ei lusgo wrth ben ôl hen geffyl sydd yn gwneyd dyn yn wr boneddig? Y mae yn gas genyf fi fy mod wedi fy narostwng i'r fath raddau a gorfod dylyn cynffon ceffyl, drwy gael fy llusgo ar ei ol ar hyd y ffordd." Y mae yn eglur oddiwrth syndod y gymydogaeth, wrth ei weled mewn cysylltiad â cheffyl a cherbydan, mai peth go ddyeithr oedd hyny. Dygwyddodd yn agos yr un peth unwaith yn Llandilo, lle yr oedd efe wedi myned i aros ychydig er mwyn ei iechyd. Aeth yno, a chafodd lety mewn tŷ cyfrifol, a pherchid ef yn fawr gan y teulu. Yr oedd rhyw beth ynddo o ymddangosiad parchus, canys yr oedd yn hytrach yn dew, yn nghyda llawer o bethau eraill mewn cysylltiad â'i berson ag oedd yn lled olygus. Cyferchid ef bob amser gan y teulu, ac yn wir pawb ag oedd yn dyfod i adnabyddiaeth ag ef, yn Mr. Heycock; ac yr oedd yn cael benthyg y merlyn i farchogaeth allan yn dra aml; ac nid anfynych, o herwydd ei ymddangosiad parchus ar gefn ceffyl, y gwelid y werin yn tynu eu hetiau iddo wrth fyned heibio. "Yr oedd y teimlad o ddyrchafiad," eb efe, "wedi effeithio yn dda ar fy nghorph; yr oeddwn yn gwella bob dydd; a phob tro y byddwn yn myned allan ar y ceffyl, a'r dynion yn tynu eu hetiau, ac yn dywedyd, 'Boreu da, Mr. Heycock,' yr oeddwn yn teimlo y dolur fel yn ymado am byth, ac yr oeddwn yn dychwelyd fel pe buaswn yn anfarwol. Yr oeddwn mewn

ac yn ei ffurfio drwy ras i fywyd annhraethadwy a gogoneddus. Yr ydym yn gobeithio y bydd llawer mor llygadgraff a gweled egwyddorion mawrion yr efengyl yn ymweithio yn y cymeriad hwn, ac y bydd canoedd yn gweled oferedd pleserau y bywyd hwn wrth edrych ar ei fywyd dechreuol.

Y mae edrych ar ddyn yn ymlwybro trwy y bywyd hwn o dan ddylanwad gwahanol egwyddorion, yn werth ei astudio yn dda. Gwelir egwyddorion a thwyll pechod yn ei holl ffurfiau a'i liwiau aruthrol yn ymweithio allan, a thrwy hyny cadarnheir tystiolaeth yr ysgrythyrau am ei echryslonrwydd annghydmarol. O dan ddylanwad gras hefyd y gwelir yr egwyddorion grasol yn tori allan yn ffrwyth gogoneddus mewn tymher ac ymarweddiad, y rhai sydd yn addfedu yn raddol i hinsawdd mwy cydnawsol â'u natur na'n daear ni. Fel hyn y gwelir tystiolaethau y Bibl yn cael eu gwireddu yn ngwahanol gymeriadau dynion.

Wrth edrych i fywyd ac amserau George Heycock, gwelir fod pechod yn ddrwg cymdeithasol; ei fod yn dystrywio cyrph, cysur, a heddwch teuluol a gwladwriaethol, heblaw pentyru euogrwydd erbyn dydd o gyfrif; a bod crefydd yn welliant cymdeithasol, yn gysur a thangnefedd teuluol, ac yn darpar dyn i wynfyd byth.

Os darllenir y fuchdraeth a ganlyn o dan yr ystyriaethau uchod, yr ydym yn hyderu y gwna ei darllen weinyddu lles ac adeiladaeth. Beth bynag, yr ydym, mewn modd gostyngedig, yn ei gyflwyno i'r cyhoedd i'r perwyl hwn.

# GEORGE HEYCOCK A'I AMSERAU.

## PENOD I.

CYMERIADAU mawrion sydd yn cyfansoddi hanesyddiaeth. Hwynt-hwy sydd yn rhoddi genedigaeth a bodolaeth i amgylchiadau mawrion a rhyfeddol; canys wrth ddarllen hanes y *dyn*, rhaid i ni ddarllen hefyd am yr hyn a wnaeth efe, yn nghyda'r canlyniadau o hyny. Felly, y mae amser byr, ïe, oes o ychydig o flynyddoedd, yn esgor ar bethau mawrion, ac yn fynych yn effeithio ar holl oesoedd y byd. Y mae yn anmhosibl, chwi welwch, dyweyd nemawr am y dyn, heb fyned at y gweithredoedd a wnaeth efe. Os sonir am Syr Isaac Newton, eir at gyfnod newydd a phwysig mewn astronomyddiaeth; ac os am Johnson, nodir ef allan yn dysgleirio yn nghanol mwg a thân, yr hwn sydd yn gosod y byd i fyned mewn brys mwy nag arferol, fel pe byddai am gyrhaedd pen ei daith yn gynt na'r amcan dechreuol. Nid oes neb yn siarad llawer am Milton heb fyned at *Paradise Lost*, nac am Oliver Cromwell heb fyned at y *Commonwealth*. Chwi glywsoch am y Doctor Owen, ond yn benaf mewn cysylltiad â'i weithiau duwinyddol; am Whitfield mewn cysylltiad â'i bregethu rhyfeddol; ac am Harri o Exeter fel trawslywodraethwr uchel-eglwysaidd, ac aflonyddwr heddwch yr enwad y perthyna iddo. Yr ydych yn adwaen Duw wrth ei waith; a dyn hefyd a adwaenir wrth ei weithredoedd yntau. Y mae y dyn o fewn, a holl hynodrwydd ei feddwl, yn dyfod yn ddarllenadwy yn ei weithredoedd. Y mae y rhai a'i hadwaenant ef yn dda yn darllen bron holl agweddau ei feddwl a theimladau ei galon. Y dyn, gan hyny, a'r hyn a wnaeth efe, sydd yn cyfansoddi prif hanesion ein byd ni. Y mae gan bob pentref ei wron, yr hwn sydd yn ei fyd bychan ef yn gynllun trwyadl o wroniaid bydoedd mwy. Ac fel y mae rhai uchelwyr yn bobl anhynod ddigon, felly y mae rhai mewn sefyllfaoedd cyffredin neu isel yn bobl hynod iawn. Y mae George Heycock, yr hwn yr ydym yn bwriadu, trwy gymhorth, adrodd ychydig o'i hanes, yn teilyngu, yn ein barn ni, ryw ychydig o le yn nghronicl yr oesoedd.

Ar lethr mynydd uchel a thra ardderchog, yr hwn sydd yn edrych i lawr yn fawreddus ac annibynol ar donau arianaidd Hafren yn golchi ei droed, y mae tŷ bychan, dibwys ynddo ei hun, ond bythgofiadwy fel lle genedigol ein harwr hwn. Ganwyd yno amryw o blant iachus a dianaf, y rhai a fu fyw yn onest, a weithiasant yn galed am eu bara beunyddiol, ac a fuant feirw yn y diwedd, ac heb fod nemawr yn eu hadwaen y tu hwnt i derfynau eu plwyf genedigol. Y mae yn debyg mai George yn unig a fwriadwyd i wneyd gorchestion, ac ymddysgleirio yn ei oes a'i genedlaeth. Dygwyddodd rhyw beth tra hynod ar ddydd ei

enedigaeth—hyny yw, hynod yn myd y menywod. Yr ydym yn annghofio yn awr beth ydoedd yn berffaith; ond beth bynag, yr oedd yr holl hen wragedd drwy y gymydogaeth yn cyduno mai arwydd o ryw hynodrwydd yn nglŷn â'r plentyn ydoedd. Gellid meddwl na ddarfu iddynt gamsynied y tro hwn gymaint a llawer gwaith. Ganwyd gwryw, beth bynag; y mae hyn yn ddigon amlwg; a mawr oedd llawenydd ei fam, yn gymaint a bod pethau mawrion yn cael eu darogan gan ei chyfeillesau, y rhai a ddaethant yn nghyd i'w chysuro, ac i yfed *tea*. O ran corph, yr oedd rhyw beth yn fwy anfanteisiol ynddo ef na'r plant eraill, yn gymaint ag iddo ddyfod i'r byd ag un goes yn llai na'r llall. Yr oedd efe yn ddyn esgyrnog wedi iddo dyfu i fyny, yn lluniaidd ei gorph, cryf ei wneuthuriad, golygus, dewr ei olwg, a hoenus yn mhob ystyr, ond yn unig y goes, fel y soniasom. Yr oedd y goes hon yn ferach na'r llall, ac yn mhob ystyr yn llai, fel yr oedd bob amser yn yr arferiad o gerdded wrth lawffon gadarn. Yr oedd hyn dipyn yn anffortunus, a bu yn brofedigaeth iddo ef y rhan fwyaf o'i oes, yn enwedig y rhan hono o honi a dreuliodd yn y cnawd; onide, yr ydym yn meddwl iddo ddyfod i gymod yn agos berffaith â'r aelod hon wedi iddo gael crefydd. Wedi y cwbl, y mae yn fwy tebyg i'r anmherffeithrwydd corphorol hwn droi allan yn fwy o fantais nag o anfantais mewn llawer ystyr. Cafodd fwy o fanteision dysg o herwydd hyn; bu yn hŵy yn yr ysgol na'r plant eraill, ac na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion; a'r canlyniad fu, ei fod yn well ysgolhaig na nemawr yn yr un sefyllfa y dyddiau hyny. Yr oedd coleg mewn lle a elwid Twll yn y wal, heb fod yn mhell o'r ardal lle yr astudiodd yn llwyddianus amryw o flynyddoedd. Ysgrifenai law ragorol, yr ydoedd yn fedrus fel cyfrifydd, a dechreuodd astudio Lladin gyda'r bwriad o fyned yn feddyg. Ond ryw fodd neu gilydd, trodd rhod rhagluniaeth ffordd arall, a daeth rhyw beth—nid ydym yn cofio yn awr yr amgylchiad—ar ei ffordd, fel y rhwystrwyd ef rhag myned yn *ddoctor*.

Ar ol edrych ychydig eilwaith oddeutu, yr oedd pob peth yn dangos fod yn rhaid myned yn rhyw beth, ac felly daeth i'r penderfyniad yn sydyn o ymuno â chymdeithas anrhydeddus St. Crispin, lle yr hynododd ei hun yn fawr; a pharhaodd yn aelod cyfrifus a defnyddiol am y rhan fwyaf o'i oes. Nid yn hir wedi iddo dyngu llw o ffyddlondeb i St. Crispin, y bu cyn dyfod allan yn gyhoeddus fel blaenor y fyddin yn mhob drygioni ac ystranciau melldigedig. Yr oedd ynddo yn ddios gyneddfau naturiol cryfion; yr oedd ei gof yn ddiarebol, ei ddawn siarad bron yn ddiderfyn, yn nghyda pheth anferth o'r peth y mae y bobl yn ei alw yn *wit*, fel ag yr ydoedd yn alluog i dwyllo y rhan fwyaf o ddynion, ïe, dynion a gyfrifid yn gall iawn, gan eu gwneyd yn ffyliaid heb iddynt feddwl, a pheri iddynt gredu celwyddau anfad; canys dywedai gelwydd mor sobr a difrifol a phe buasai yn dyweyd y gwir goreu erioed; chwi a allasech dyngu ei fod yn

berffaith deimladol o'r amgylchiadau a adroddai, pan nad oedd y cwbl yn ddim ond celwyddau noethion o'i gaboliad ef ei hun.

Ei holl hyfrydwch yn yr amser hwn oedd gosod menywod i ymrafaelio, a holl ddynion y gymydogaeth yn benben â'u gilydd, trwy ddyweyd celwydd wrth un am y llall. Byddai mor sobr uwchben hyn a dim a welsoch erioed; ac ni buasai neb yn meddwl wrth ei glywed yn siarad nad oedd yn cydymdeimlo â'r pleidiau o eigion ei galon. Yr oedd yn dyfeisio pethau fel hyn, yn nghyda'r ffordd oreu i'w cario allan yn effeithiol. Astudiai yn fanwl, yn ddiamheu, y celwyddau mwyaf tebyg i gymeryd gyda y gwahanol bersonau, a'r rhai tebycaf i osod y cymydogion yn erbyn eu gilydd. Yr ydoedd yn dalentog ac yn ddoniol gyda hyn; dangosai feddwl galluog, llygad craff, a doniau uwchlaw y cyffredin yn mhell, hyd yn oed wrth ddyfeisio celwyddau, a'r dull o'u cymhwyso. Canys dywedai gyda'r teimlad mwyaf tyner, tebygid, fel pe buasai yn cydymdeimlo i'r byw â'r gwahanol bartïon, a chyda y difrifoldeb mwyaf. Yr oedd peryglon mawr yn ei gelwyddau ef, o ganlyniad, canys yr oeddent yn effeithio fel y gwirioneddau puraf. Y mae llawer un yn dyweyd celwydd mor annghelfydd a noeth, fel nad oes berygl yn y byd i neb ei gredu byth, ac felly nid yw yn gwneyd drwg i neb ond y pechadur ei hun; nid yw yn medru asio y pethau yn dda, na'u llyfnhau; eithr y mae yn hawdd i bawb weled rhwng y cysylltiadau, nes nad allant ond dirmygu y crefftwr. Ond am George, byddai yn asio ei gelwyddau gyda y fath gywreinrwydd, a'u lliwio drosodd mor ardderchog, a'u cymhwyso mewn modd mor debyg i gymeryd, fel yr oeddynt, y rhan fynychaf, fel pylor yn tanio cymdeithas drwyddi oll. Bu llawer o ganlyniadau annghysurus droion mewn teuluoedd a thrwy yr holl gymydogaeth yn gyffredinol, yn unig o herwydd ystranciau drwg a melldigedig George. Byddai yn rhy faith i ni adrodd ar hyn o bryd am yr holl ymladdau rhwng gwŷr a gwragedd, benywod â'u gilydd, yn nghyda dynion o bob oed a graddau, a achoswyd yn gwbl drwy ei ddyfais a'i gelwyddau. Gwelwyd ar y twyn, o flaen y *Somerset House*, fwy nag unwaith ymladdau rhwng menywod, pryd y byddai y *poker* a'r gefeiliau yn chwareu, a Mari'r gôf yn defnyddio y *teakettle*, gan daflu trwy ei big ddwfr berwedig yn ddiwahan ar bob cnawd. Nid oedd dim yn achosi y cwbl o'r cythrwfl hwn, ond yn unig rhyw ystoriau a ddywedodd George yn nghylch cariadon Pegi fach o'r Constant, a Mari merch y gôf.

Ond i adael pethau fel hyn, a myned yn y blaen, canys pe gollyngem i adrodd yr holl fanylion yn nghylch yr holl bethau a wnaeth efe yn y llwybrau hyn, nid ydym yn tybied y cynwysai yr holl bapyrleni yn Nghymru yr adroddiadau; eithr tybiwn fod yr hyn a ddywedwyd yn ddigon i roi cipolwg i'r darllenydd ar natur y cymeriad; a gall y cyfryw a ewyllysiont ymhelaethu yn eu meddyliau ar y materion. Y mae yn wir fod gan George dad a mam yn fyw, ac yn cadw cartref cysurus; ond yn anaml y byddai efe yno, canys yn wirioneddol y dafarn oedd ei artref ef;

yno y byddai bob amser y gallai yn rhyw fodd, oblegyd pob ceiniog a enillai, a llawer gyda hyny yn wir, a dreuliai am gwrw. Mewn cysylltiad â'r lleoedd hyn enillodd enwogrwydd fel prif ymladdwr y plwyf, os nid y wlad yn gyffredin, fel yr adnabyddid ef yn mhell ac agos wrth yr enw George y *bruiser*. Yr ydym yn cofio, pan y darfu i ni gael adnabyddiaeth o hono gyntaf, fod yn weledig olion cyfansoddiad cryf annghyffredin; yr oedd ei freichiau yn ymddangos fel gyrdd o faintioli anferth yn crogi wrth ei gorph, fel pe buasai Rhagluniaeth wedi ei fwriadu i ymladd â rhyw greaduriaid gwylltion, neu i'w dal a'u dyfetha. Meddyliasom lawer gwaith wrth ei weled mai gwae y dyn hwnw a elai o dan ei ddyrnodion. Bu llawer o Gymry a Saeson yn ceisio rhoi ei gefn i lawr, eithr gorchwyl caled y darfu i bawb ffeindio hyny. Buasai yn adrodd weithiau, mewn modd cyfeillgar, am ei ymladdfeydd; ar yr un pryd gallasech weled arwyddion gofid yn ei wynebpryd, ac wrth ddybenu dywedai yn aml, "Y fath ffwl yr wyf wedi bod!" Yr ydym yn cofio un tro,—nis gwyddom beth ddarfu arwain at hyny yn bresenol—ei glywed ef yn dywedyd am ymladdfa a gymerodd le ar gae cyfagos, lle y cafodd y gloesion mwyaf mewn cysylltiad ag ymladd yn ei oes. Yr oedd wedi dyosg yn noeth i'r croen, heb ddim ond y llodrau. Dechreuodd yr ymladdfa yn agos yn nghanol y cae, a churo dihafarch fu am dymhor, yn ol ac yn y blaen. Ond o'r diwedd daeth yr ymdrech ofnadwy i fan lle yr oedd llwyn mawr crwn o eithin yn tyfu, pryd y cafodd y *bruiser* ergyd gan ei wrthwynebydd yn rhyw le tua'r drydedd ais, nes yr ydoedd yn cwympo yn sybyrthol, baglau i fyny, i ganol y llwyn eithin, heb ddim ond croen noeth yn amddiffyn. "Yr wyf fi yn meddwl," meddai, "mai'r loes fwyaf a gefais yn fy oes oedd hono." Nid ydym yn meddwl fod yn angenrheidiol i ni dreulio llawer o amser i geisio perswadio y darllenydd yn nghylch gwirionedd y dystiolaeth hon; canys pan y meddylir ei fod yn noethlymyn, ac yn syrthio gyda'r fath ruthr, ac yntau yn ddyn pwysig hefyd, i ganol llwyn o eithin pigog, gallwn gasglu yn rhesymol nad oedd y gwely yn un esmwyth iawn. Bid a fyno, codwyd ef oddiyno mor gynted ag y gallesid, yn goch drosto gan waed, ac ugeiniau o bigau yr eithin wedi eu tori yn ei gnawd, y rhai, medd efe, oedd yn llosgi fel tân poeth. Er hyn i gyd, ni throdd ei gefn, ond ymladdodd wed'yn fel llew, gan guro ei wrthwynebydd nes oedd yn gwaeddi cyn y diwedd.

Er fod George wedi dyfod yn un o brif enwogion ei oes fel ymladdwr, er hyny yr oedd amryw o brif gampau y werin yn gyfryw nad oedd yn bosibl iddo ef gyrhaedd enwogrwydd ynddynt, o herwydd fod yn rhaid rhedeg, a bod yn gyflym mewn cysylltiad â hwynt; a hyny nis gallasai efe wneyd o herwydd ei goes, fel y crybwyllasom o'r blaen. Yr oedd gyda'r bêl droed a'r bando yn y *rear* o ddigon; nis gallasai eu dylyn o herwydd ei goes, fel nad oedd gwiw iddo ef siarad â Ianto Cound a Twm y teiliwr, mewn cysylltiad â'r bêl ddu a'r bando. Fel hyn, chwi a welwch, yr oedd ei goes yn brofedigaethus iddo; canys gyda hwy

yr oedd ei galon, ond fod yr aelodau yn pallu. Yr unig enwogrwydd a gyrhaeddodd gyda'r campau yr oedd traed yn hanfodol i'w cyflawniad, oedd sel drostynt, a ffyddlondeb i fod yn nghanol y *daplas.* Nid oedd ei ffyddlonach dan yr haul yn ddiamheu; a phe buasai bod yn ffyddlon yn enill y gamp, buasai yn ddios yn un o'r prif enillwyr, canys yr oedd efe gyda hwy yn ddiorphwys yn ol hyd ei goes; ac yr ydym yn meddwl yn gydwybodol y buasai yn well ganddo adael y goes ar ol na methu bod yn eu mysg. Ond y mae yn debyg nad yw ffyddlondeb yn ddigon er sicrhau y campau hyn; o ganlyniad ni ragorodd ynddynt.

Y mae yn dyfod i'n cof yn awr am ryw noson pan yn eistedd wrth y tân yn nhŷ un o'r cyfeillion, yr arweiniodd rhyw ymddyddanion ef yn y blaen i adrodd ei *dramp* gyntaf o gartref, sef ei ymadawiad â'i ardal enedigol i chwilio am waith. Yr oedd yn eistedd ar gadair o flaen y tân, ac yn pwyso ei ên ar glop y llawffon, ac yn myned dros yr holl hanes mewn trefn, o'i gychwyniad hyd ei ddychweliad yn ol. Adroddai yr hanes mewn teimladau digon gofidus ar brydiau, ac weithiau chwarddai, ac eilwaith suddai i dristwch, a'r dagrau yn llanw ei lygaid mawrion i'r ddau ymyl. Y mae yn debyg mai nid o un hoffder yr oedd yr apostol Paul yn adrodd hanes ei hen bechodau gynt, gan ddywedyd wrth y bobl ei fod ef wedi bod yn gablwr, yn erlidiwr, yn drahaus, a llawer o bethau cyffelyb; ond yn hytrach i ofidio uwchben ei ynfydrwydd, ac i roddi mawredd ar y gras a'i hachubodd ef oddiwrth ei bechodau. Pan yr oedd y *bruiser* yn dechreu adrodd ei gychwyniad o gartref, dyma Mrs. Williams, boneddiges y tŷ, yn rhwystro yr ystori drwy ofyn, "Pa faint sydd oddiar hyny, George?" "Pa faint? aroswch chi'; o brysur yr wyf yn methu cofio yr amser yn dda; ond yr wyf yn cofio hyn yn burion, mai y diwrnod yr oedd Wat Ievan a Chati'r Crydd yn myned i briodi oedd hi; oblegyd yr oedd y briodas yn myned o'n blaen tua'r eglwys, a nhw droison i lawr i hewl y fynwent, a phryd hyny y darfu i fi eu pasio. A wyddoch chi', Mrs. Williams, beth yw oedran plentyn hynaf Wat a Chati? gallwn ddweyd amcan wedi hyny." "Pw, pw," ebe rhyw gyfaill gerllaw, "y'mlaen â chwi, George; nid gwaeth rhyw lawer am yr amser." "Am na, yr wyf fi yn methu gweled fod ryw bwys mawr yn hyny hefyd," ebe yntau; "ond beth bynag, dyna'r pryd oedd hi, y diwrnod priododd Wat a Chati, gwaith yr oeddynt yn cerdded bob cam o'm blaen i'r eglwys; yr wyf yn cofio gystal a doe." Beth bynag am hyn, y mae yn gofus genym ei fod yn dyweyd iddo daro ffwrdd ar ben boreu, mewn undeb â Ianto Cound, heb wybod yn y byd i ba le, ond chwilio am gryddion yn rhyw le, a cheisio cael y rhan a ddygwyddai o'r da yn y fan hono. Crydd oedd y Cound hefyd, a bachgen gwisgi, campwr bron difaeddu ar y bêl; pa un ai ar do, neu yn erbyn y mur; ac nid oedd yn llai enwog fel arwr y bêl ddu hefyd. Yr oedd Cound gyda hyny yn rhedegwr mawr, ac fel dawnsiwr agos yn ddigyffelyb. Yr ydym yn cofio Cound yn uchder ei ogoniant pan oeddem ni yn

wan a phenfelyn, a'r nod uchaf yn ein huchelgais yr amser hwnw oedd cyrhaedd ei fedrusrwydd yn y campau. Gobeithio y gwnewch faddeu i ni, ddarllenwyr, am grwydro fel hyn hefyd; cael ein tynu a wnaethom, braidd heb yn wybod i ni ein hunain, gan adgof o'r hen amseroedd. Ond dyna, siarad yr oeddem am gychwyniad Cound a'r *bruiser* i'w *tramp* cyntaf.

Cychwynasant, fel y dywedasom, i edrych allan am waith; a theithiasant yn ddyfal; hyny yw, aethant mor gyflym byth ag y gallasai George deithio, canys yr oedd ei goes yn rhwystr mawr iddo gerdded yn mhell; ac am gyflymdra, yr oedd hyny allan o'r cwestiwn. Daethant o'r diwedd yn agos at bentref, lle yr oeddynt yn gobeithio fod gweithdy cryddion, lle y gallasent gael ychydig o waith, ac felly gwneyd eu hunain yn barod i gychwyn yn y blaen wed'yn. Yr oedd yn brydnawn erbyn hyn, ac yr oedd eisiau meddwl rhyw beth yn nghylch y nos, a pha le i letya. Dan gerdded a chydymddyddan am hyn yr aethant yn y blaen, nes o fewn chwarter milldir i'r pentref, pryd y disgynodd rhyw swn ar glust George, ac y safodd yn sydyn fel taro dwylaw yn nghyd, gan ddywedyd, "Aros, Ianto, fi ddala am gini fy mod yn clywed swn y delyn yn rhyw le." "Pw," ebe y llall, "*nonsense*, dere yn y blaen, nid oes dim yn y byd ond rhyw swn yn dy glust." "Fachgen, paid siarad; mi mentra 'mywyd fod y delyn yn chwareu yn rhyw le; ryfeddwn i flewyn nad yw Mabsant y Wig yn dechreu." Wrth fyned yn y blaen, o gam i gam, daeth yn ddigon amlwg mai swn gwirioneddol y delyn a ddisgynodd ar glust ein gwron, oblegyd yr oeddynt wedi nesâu ac wedi dyfod i'w swn yn gyflawn; ac er eu bod wedi cerdded erbyn hyn gryn bymtheg milldir, er hyny i gyd yr oedd yn effeithio gwylltineb ar eu coesau blinedig. George, o dan effeithiau a dylanwad swynol y miwsic, a neidiodd megys yn annghydwybodol o bob peth, ac a darawodd *jig* ar ganol y ffordd; ond o herwydd annghyfartalwch ei goesau, ac yntau wedi annghofio hyny ar y pryd o dan ddylanwad y delyn, syrthiodd ar ei hyd i'r clawdd, nes y bu agos a thori ei wddf; ond trwy gynorthwy ei gyfaill, daeth allan yn ddiangol heb gael nemawr o niwed, ond yn unig trochi mewn llaid yn y pwll. Yn mlaen yr aethant at y dafarn, a thyna lle yr oedd y rhialtwch fawr, yr holl wlad wedi dyfod yn nghyd, fel yr oedd yn ddigon amlwg erbyn hyn fod y mabsant wedi dechreu. Yr oedd prif ddawnswyr y fro wedi ymgynull yn nghyd o bob cwr; holl ieuenctyd a blodau yr ardaloedd mewn llawn rhwysg, ac yn eu dillad goreu, yn barod i ymgystadlu â'u gilydd. Yn nghanol gwisgiadau heirdd y meibion, a sidanau ardderchog y merched, yr oedd ein gwron yn sefyll ar dir lled anfanteisiol, yn enwedig wedi iddo ymdrochi felly yn y clawdd. Yr oedd bron pawb yn edrych arno fel ysgymunbeth, yn rhyw grwydryn digymeriad, ac yn troi eu llygaid arno gyda dirmyg a gwawd. Ond wrth iddo siarad ychydig â hwn a'r llall, gwelwyd ei fod yn rhyw beth y tu hwnt i'r cyffredin, fel y daeth amryw i'r penderfyniad mai gwr boneddig ydoedd wedi ei dori i lawr. Wedi enill

sylw fel hyn, a llygaid pawb yn dyfod i edrych arno, y mae yn dechreu chwareu ryw ystranciau, trwy daflu y goes fach ar draws ei wàr, ac ymdreiglo fel pêl yma a thraw, fel y daeth yn fuan yn destun siarad a sylw mawr yr holl gymdeithas. Daeth i'r golwg y tro hwn yn hynod mewn *jigio*, er ei holl anfanteision o herwydd ei goes. Yr oedd wedi dysgu rhyw *step*, nid ydym ni yn deall yn iawn pa fath ydoedd, ond yr oedd yn fath o ddynwarediad ar glap maen melin, fel y daeth allan o'r neuadd yn anrhydeddus, ac yn destun rhyfeddod i bawb, canys nid oedd neb yn mhlith yr holl ddawnswyr a allasai ymgystadlu ag ef. Agorodd hyn ddrws eang iddo ef a'i gyfaill gael digon o gwrw am dri diwrnod yn rhad ac yn rhodd; yr oedd pawb yn ddigon boddlawn i'w hanrhegu â'r ddiod er mwyn eu cwmni difyr. Fel hyn y buont hyd ddiwedd y fabsant, yn canu, yn dawnsio, ac yn gwneyd pob ystranciau, ac yn cael digon o beth i yfed am eu gwasanaeth.

O ïe, buom bron ag annghofio; yn ysbaid yr amser hwn yr ydym yn meddwl y daeth George i'r golwg fel *fortune teller* o fedr ac enwogrwydd. Yr ydym yn deall ei fod wedi arfer peth ar y gorchwyl hwn cyn yn awr, ond nid oedd wedi ymegluro yn iawn, ac enill sylw cyffredinol hyd yn mabsant y Wig. O'r cyfnod hwn, yr ydym yn coelio, yr edrychid arno yn gyffredinol gan wreng a boneddig fel *dyn hysbys*. Deallwyd ei fod yn deall ychydig o Ladin, drwy ei fod yn taflu allan ambell frawddeg nad oedd neb yn deall; a'r farn gyffredinol oedd y dyddiau hyny y gallasai pwy bynag ag oedd yn medru yr iaith hono, arglwyddiaethu ar fyd yr ysbrydion. Wedi i George weled ei fod wedi effeithio crediniaeth ynddynt am ei alluoedd i gonsurio, dymunodd ar i'r cwmni ei esgusodi am o gwmpas deg mynyd neu chwarter awr o bellaf, ac y dangosai efe y diafol iddynt yn sefyll ar ei ben ar ganol y parth. Yr oedd llawer mewn braw, yn enwedig y boneddigesau; ond beth bynag, yr oedd rhai â chalon mwy dewr yn dyweyd y byddai yn dda ganddynt hwy ei weled. Tynodd ei lyfr allan o'i logell, a cherddodd yn araf i'r ystafell nesaf, a chlywid ef yn darllen, neu ryw beth, ac weithiau yn ocheneidio yn drwm, fel yr oedd hyd yn oed y rhai ag oedd wedi caniatau iddo fyned, a'r rhai oedd yn proffesu y carasent weled y diafol, wedi edifarhau, ac yn ymddangos yn brudd ac ofnus iawn. Yr oedd yn dygwydd bod yn ddiwrnod gwresog iawn, a'r clêr llwydion allan yn finteioedd, ac yn blino yr anifeiliaid yn druenus; ond beth bynag, yn sydyn, fel taro dwylaw yn nghyd, dyma ryw beth yn y clôs tu cefn i'r tŷ, fel taranau o ran swn ar y cyntaf, ond wed'yn yn fwy tebyg i ruthro, a chwythu, a rhuo, fel pe buasai eirth, dywalgwn, a llewod o gwmpas y lle. Dyma yr holl gwmpeini yn gwelwi, y cedyrn galon yn colli eu nerth, ac yn ymddangos fel pe na byddai ysbryd mwyach ynddynt; yr oedd eu gliniau yn curo yn nghyd, gan ddysgwyl y diafol i mewn gan ruo a'u llyncu hwynt yn fyw. Dacw Miss Jones mewn llewyg, ac yn syrthio ar fynwes Llewelyn; dyna eto Miss Evans o'r Fferm yn llesmeirio, ac yn cwympo wrth ochr y ford fawr;

wele eto Bess y dafarnwraig, yr hon oedd yn lled dew, yn cwympo fel derwen ar ganol y parth. Bobl anwyl, y mae pawb yn llewygu! Gyda hyn dyma Ianto Cound, cyfaill y consuriwr, yn bloeddio allan gydag awdurdod, "George, cau y llyfr, fachgen, a dod hwynt i lawr gynta gelli; y mae'r dynion yn methu dal." Dyma George yn dyfod allan gyda'r sobrwydd mwyaf, ac yn dymuno ar bawb i fod yn dawel—y buasai yn gosod yr holl lu i lawr cyn pen tri mynyd; ei fod wedi caniatau iddynt fyned i'r gwartheg a dau ebol cyn dyfod i'r tŷ, ond y bwriai efe hwynt allan o'r rhai hyny yn fuan. Felly y bu, canys yr oedd y creaduriaid erbyn hyn wedi ymwthio i'r beudai i'r cysgod, ac yn cael llonydd gan y clêr llwydion, ac o ganlyniad yn rhoi llonydd i bawb. Wedi rhoddi ychydig o ddwfr oer ar wynebau y boneddigesau, a gwneyd tipyn o awyr â napcynau, dadebrasant o'u llesmair, a bu tawelwch mawr. Oddiar hyn sefydlwyd cymeriad ein harwr fel consuriwr a *fortune teller* blaenaf ein hardaloedd.

Pe baem yn myned i adrodd yr holl bethau a wnaeth efe yn y gelfyddyd hon, y mae yn anhawdd iawn gwybod pa bryd y dybenem; ond fel y dywedasom eisoes, nid ydym yn meddwl fod yn 'angenrheidiol i ni fyned at fanylion, ond yn unig adrodd cymaint ag a roddo gipolwg i'r darllenydd o'r cymeriad, ac iddo ef, os ewyllysia, fanylu yn ei fyfyrdodau. Beth bynag, wedi y pethau hyn, daeth yn adnabyddus yn agos a phell o dan yr enw George y *consuriwr*, ac yr oedd yn wrthddrych a berchid bron yn annaearol, rhag ei ofn. Gwelid ef yn gorwedd am oriau mewn cae cyfagos, â'i wyneb i fyny, a dau neu dri o lyfrau yn agored o'i gwmpas, ac un arall yn ei law, fel pe buasai mewn ymdrafodaeth helaeth â bydoedd anweledig. Byddai y bobl yn ymgrynhoi o gylch y cloddiau a'r perthi, gan ymlusgo mor ddystaw ag y gallasent i edrych a welent ryw beth; ac yr oedd rhai yn barod i wneyd eu llw, yn enwedig Nansi Singleton a Bess Jones, eu bod yn gweled lluniau anghenfilaidd anferthol fel yn codi o'r ddaear o'i gwmpas. Yr oedd ei ddylanwad yn y wlad o herwydd y pethau hyn bron yn beryglus i gymdeithas, canys pa beth bynag a ddywedai ac a orchymynai, yr oedd ufudd-dod yn sicr; oblegyd yr oedd pawb yn ddiwahan yn credu fod George yn gonsuriwr, ac am hyny y gallasai drafod pawb fel y mynai.

Yr oedd dyn syml iawn yn y gymydogaeth, yn grefyddwr, o'r enw Cound eto, ond nid Ianto Cound ddim, er yn berthynas agos iddo, yr hwn oedd yn ceisio dyfalu beth oedd i'w wneyd i atal y gelfyddyd ddieflig hon, lleihau dylanwad y consuriwr, a rhyddhau y gymydogaeth oddiwrth bla mor ddirfawr. Y mae yn debygol fod Cound wedi meddwl llawer uwchben y cwestiwn hwn, os nid wedi gweddio peth hefyd, canys yr oedd yn eithaf cyfarwydd yn y llyfr santaidd, am hyny yn gwybod fod yn anmhosibl cael y rhywogaeth hon allan ond trwy ympryd a gweddi. Beth bynag, yr oedd Cound yn teimlo angenrheidrwydd am gynghor oddiwrth ryw ddyn call a gwybodus ar fater mor dywyll; ac aeth yn syth un diwrnod at ysgolfeistr deallus, i roi y

mater ger bron, a chael ychydig o ymgynghoriaeth. Y mae hwnw, er maint ei ddealltwriaeth mewn cyfrinion, yn cael ei daro i dipyn o *study*, ac yn methu rhoddi gwybodaeth eglur pa fodd i ddifodi yr ysbryd a'r gallu consuriol. Dywedodd pe gallesid deall rhyw dro fod George ar y weithred o gonsurio, a myned y fynyd hono a'i drywanu â chyllell bigfain nes cael allan waed, y buasai hyny yn dyfod ag ef fel dyn arall; ond wed'yn, mai peth anhawdd iawn fyddai gwybod yn sicr pa bryd y byddai yn cyflawni y weithred, ac ni byddai y moddion yn effeithiol un amser arall. Yr oedd y *schoolmaster* dysgedig yn eistedd o flaen y ddesg, a Cound yn sefyll uwch ei ben â'i het yn ei law, fel dyn yn dysgwyl yn bryderus am ddehongliad o ryw ddirgeledigaethau dyfnion; ond yn rhyw fodd nid oedd gweledigaeth eglur. Dyna Mr. Davies eto fel yn suddo i astudiaeth ddyfnach nag o'r blaen; y mae yn rhoddi ei law chwith o dan ei ben, yn cau ei lygaid, ac yn gwneyd ffurf go hir ar ei wyneb, a Cound yn edrych gyda'r symlrwydd mwyaf, gan ystyried yn sicr fod y gwr doeth yn awr mewn cymundeb uniongyrchol â'r duwiau; nid oedd anadl braidd yn cerdded, pan yn sydyn y neidiodd Mr. Davies ar ei draed, ac y dywedodd ei fod yn cofio ei dad yn dywedyd fod ei dadcu, tad ei fam, yn sicrhau pe ceid gafael ar lyfrau consuriwr a'u llosgi ar wendid y lleuad, fod yn anmhosibl i hwnw wneyd dim byth mwy yn y ffordd hono. Wel, yn awr, y peth nesaf i feddwl oedd, pa fodd i gael gafael ar y llyfrau. Yr oedd Cound yn deall yn burion fod yr hen wraig, mam George, mewn cymaint o ofid a neb oblegyd y gonsuriaeth yma, ac fe allai y gallai hi gael cyfle i ddod o hyd i'r llyfrau, ac felly ar wendid nesaf y lleuad gwneyd bonffagl o honynt, a rhyddhau y gymydogaeth helbulus oddiwrth ddylanwad yr ysbrydion aflan. Dywedwyd yr holl ddirgeledigaethau wrth yr hen wraig, ac addawodd hithau wneyd ei goreu i gael gafael ar yr oraclau. Aeth yn union at gistan George, lle y cedwid ei brif drysorau; ond er ei gofid yr oedd o dan glo. Aeth eilwaith ac eilwaith, ond o dan glo yr oedd yn aros o hyd, fel y digalonwyd hi yn mron yn nghylch y llwybr hwn, gan fod y consuriwr yn rhy ofalus am ei drysorau i neb allu eu cymeryd ymaith.

Ond ryw ddiwrnod, pan oedd George yn meddwi ar hyd y tafarndai, ac wedi gadael yr allwedd yn esgeulus yn y clo, dyma yr hen wraig yn cael gafael ar yr oraclau. Un llyfr oedd yn dygwydd bod i mewn yn bresenol, ar amlen yr hwn yr oedd llythyrenau mawrion cochion, canys yr oedd ei ditl, ac felly yn y blaen, wedi ei argraffu ag inc coch. Yr oedd hefyd luniau annaearol arno, yn edrych yn mhob dull a modd yn echrydus; ac un o honynt, yr hwn oedd yn sefyll megys yn y canol, ac yn fwy na'r lleill, yn codi ei law i fyny ac yn ysgyrnygu ei ddanedd yn wyneb Jupiter. Edrychodd yr hen wreigan yn ddyfal arno, ond yn methu cydio ynddo; y mae yn teimlo ei llaw fel yn gwywo, a'i haelodau fel yn curo yn nghyd; y mae yn tybio ei bod yn gweled ysbryd yn myned heibio o flaen ei hwyneb, ac y mae hyny

yn gwneyd i flew ei chnawd sefyll; y mae yn syrthio yn ol i'r gadair oedd wrth erchwyn y gwely, a bron yn llesmeirio. Dacw y chwys yn mhen tipyn yn tori drosti fel dwfr oer; y mae ei gwefusau yn wyn, a'i gruddiau fel pe na byddai ynddynt ddafn o waed mwyach; y mae yn rhoi rhyw un ysgrech echrydus, ac yn llesmeirio. Gyda hyn y mae gwraig y tŷ nesaf yn clywed y swn, yn rhedeg i mewn, ac i fyny â hi i'r llofft, pan y cafodd yr hen wraig megys heb ysbryd mwyach ynddi. Wedi cymhwyso ati y driniaeth gyffredin ac arferol, hi a ddadebrodd megys o gwsg tawel, a gwelai yn sefyll ger ei bron, ac yn ei chynorthwyo, Mari y bais goch, fel ei gelwid, a Chati'r crydd. Fel y gellwch ddeall, mae yr ymddyddan yn dechreu am y llyfr a'r llythyrenau cochion, a'r lluniau rhyfeddol, yn nghyda'i effeithiau marwol ar y cyfansoddiad. Dyma Cati'r crydd yn edrych i mewn i'r *box*, gyda gwddf estynedig, ac yn tynu yn ol yn sydyn fel pe buasai yn gweled rhyw beth; ond yn ymgynyg eilwaith, eithr yn tynu yn ol wed'yn, ac fel pe byddai ofn yn enill tir bob tro. Y mae yn methu, er pob ymdrech yn y byd, gydio yn y llyfr a'i ddwyn allan i oleuni. A pha beth a fuasai neb gwell o'i ddwyn allan, a datod ei seliau ef? canys nid oedd neb yno a allasai ei ddarllen, na neb yn y plwyf ychwaith, yr ydym yn coelio. Y mae Mari y bais goch yn anturio yn y blaen, ac yn ymdroi o gwmpas, fel yn gwneuthur ei hun yn barod i edrych ar y weledigaeth aruthr, ac yn estyn ei phen fel twrcan ar y gwlaw, ar fedr gwneyd yn fwy gwrol a rhagorol na Chati; ond pan y daeth y llythyrenau cochion i'r golwg, gyda'r lluniau anadnabyddus, rhoddodd ysgrech oeraidd, ac enciliodd fel pe buasai wedi ei saethu. Yn fuan y mae yr hen wraig ei fam fel pe bai yn cael rhyw hyder a chryfder oddiwrth ei chrefydd, sef oddiwrth y meddwl, os ydoedd yn cyflawni gweithred dda, a'i dyben yn gywir wrth wneyd hyny, y gallasai ar dir da ddysgwyl cynorthwyon. Ymgryfhaodd, gan hyny, ac ymaflodd yn ofnus yn y llyfr; canys er iddi gael ychydig nerth, yr ydoedd yn mhell o fod heb ofn a braw yn llwyr. Wel, dyma y tair yn troi eu hwynebau tua'r grisiau, i'r dyben o fyned a'r llyfr a'i roi yn nghadwraeth Cound. Y mae yr hen Mrs. Heycock yn myned yn gyntaf â'r llyfr yn ei llaw ddeheu, a Mari a Chati yn ei dylyn; ac y mae yn rhaid dyweyd, yr oedd golwg ofnus a thost arnynt oll. Pan yr oedd Mrs. Heycock tua chanol y grisiau, a Mari ar y ris uchaf ond un, canys Mari oedd yr olaf yn dygwydd bod, dyna ryw greadur byw, yn debyg i gath, yn cyffwrdd â choes Mari, nes iddi golli pob hunanfeddiant ar unwaith; bloeddiodd mewn dychryn ofnadwy; nid oedd mwyach rym yn ei haelodau; syrthiodd am draws Cati, a Chati a Mary am draws Mrs. Heycock, nes oedd y tair yn dyfod i lawr i'r grisiau fel taranau, ac yn llesmeirio ar ganol y porth.

Och, y fath helbul! beth sydd i'w wneyd yn awr? Y mae y brawd Cound yn clywed, a dyma ef yn dechreu cenglu ei hun, ac yn rhedeg i'r lle. Yr oedd y tŷ erbyn hyn bron yn llawn, a'r benywod yn tywallt dwfr ar wynebau gwelwlas y gwragedd

llesmeiriedig. Y mae Cound, er yn ddyn lled gryf, yn colli ei rym; y mae fel pe bai ei wroldeb yn ffoi, a'i adael yntau bron yn egwan. Wedi i'r gwragedd ddadebru, ac adrodd yr holl bethau a wnaethid, a'r llyfr a'r llythyrenau cochion a'r lluniau haerllug yn agored ar y llawr o flaen ei lygaid, y mae yn teimlo ei enau a'i dafod fel yn crasboethi, ei gnawd a'i galon yn pallu, ac yn dymuno ar ryw un ddyfod â chwpanaid o ddwfr. Wedi yfed dracht, ac ireiddio ychydig ar ei enau llosgedig, adferwyd ychydig nerth, a phenderfynodd ymysgwyd a cheisio bod yn *ddyn* yn ngwydd y gynulleidfa; canys erbyn hyn yr oedd y tŷ yn orlawn o wŷr a gwragedd hefyd. Yr oedd ein cyfaill Cound yn gyfarwydd yn y Gymraeg a'r Saesoneg—yn medru darllen yr ieithoedd hyn yn rhwydd ac eglur, ac ystyrid ef yn y gymydogaeth yn ysgolhaig, Ond erbyn edrych ar y llyfr, nis gallasai ddarllen un gair, ac nis gwyddai pa dafodiaith yn y byd ydoedd. Dechreuodd ei ddwylaw grynu, llanwyd ef drachefn ag ofn a braw, a dywedodd wrth Mrs. Heycock, "Cerddwch ag ef yn ol i'r gist lle y cawsoch ef, canys y mae rhyw ddrwg mewn cysylltiad ag ef, a gwell yw i ni adael rhwng George ag ef, na myned i beryglu ein hunain yn mhlith ysbrydion drwg." Felly gosodwyd yr oracl yn ol yn ddystaw yn y gistan, gan adael rhwng ei berchenog ag ef; canys yr oedd pawb yn ofni gwneyd dim iddo. Aeth Cound allan dan godi ei ddwylaw a'i olygon i fyny i'r nef, a dywedyd, "Wel, wel, fe fydd y bachgen yna yn sicr yn mhlith cythreuliaid; y mae efe wedi ymwerthu iddynt eisoes." Bu yr helynt hwn yn adnabyddus drwy yr holl wledydd oddiamgylch, a bu yn foddion i sefydlu cymeriad ein gwron fel consuriwr yn uwch nag erioed. Pan glywodd George yr hanes, ymffurfiodd ei wyneb yn y wedd fwyaf difrifol ag oedd yn bosibl, canys yr ydoedd yn fedrus ar hyny, a dywedodd fod yn ddrwg iawn ganddo glywed i'r fath anffawd ddygwydd, ond ei fod yn teimlo ei hun yn ddiolchgar, yn gymaint a'u bod wedi bod mor annoeth ag ymhel â'r llyfr, na fuasai pethau gwaeth wedi dygwydd. "Pe buasent," eb efe, "ond agor y llyfr yn y bumed tu dalen ar ugain, lle y mae Lucifer yn cydio yn nghyrn yr hwrdd, buasai wedi darfod am danynt oll; canys ni buasai yn bosibl eu cadw rhag cael eu darnio yn chwilfriw, yn gymaint nad oedd neb yn y lle yn gwybod y ffordd i'w roddi i lawr." Erbyn hyn yr oedd pawb yn teimlo yn falch ac yn gysurus wrth feddwl am eu gwaredigaethau rhyfeddol, wedi bod yn ymyl y fath beryglon aruthrol. Yr ydym yn cofio ei glywed ef yn myned dros yr hanes uchod, ac yn chwerthin o ddifrif am ben ofergoeledd dynion, ac yn dywedyd am y llyfr hwnw mai hen Almanac Ffrengaeg ydoedd a gafodd gan ryw Ffrencyn o forwr a fu yn aros yn y porthladd gerllaw.

Y mae yn rhaid dychwelyd eto. Yr ydym yn teimlo ein bod yn cael ein tynu ymaith i ddylyn ein harwr yn rhy bell, fe allai, ac eto y mae yn anhawdd gwrthsefyll y brofedigaeth. Gobeithio y cydymdeimla ein cyfeillion â ni y tro hwn, gan ystyried ein bod wedi cael ein harwain i anialwch, ac yn ceisio dyfod allan

yn y ffordd oreu y gallom, ar hyd ffyrdd pur ansathredig. Yn mabsant y Wig, onide, y gadawsom ein cyfaill George? Ië, dyna lle yr ydoedd yn y cornel, yr ydym yn cofio, yn canu "Mentra Gwen," ac yn tynu sylw, ac yn enill parch yr holl gymdeithion, Beth bynag, fe ddarfyddodd y fabsant; ond fel yr oedd hono yn darfod, dyma un arall yn dechreu mewn pentref cyfagos, ac felly ffwrdd yr aethant i hono; ac o fabsant i fabsant y buont am dair wythnos neu fis, heb daro ergyd, na chymaint a gwneyd un esgid. Y mae amser maith yn dyfod i ben o'r diwedd, ac felly fe ddarfyddodd y mabsantau, fel ag yr oedd yn rhaid meddwl am weithio rhyw gymaint eilwaith. Yr oedd ei ddillad wedi myned yn garpiog, a'i draed drwy ei esgidiau erbyn hyn, ac fel yr afradlawn wedi treulio y cwbl ond un swllt. Yr oedd yn well o swllt yn sicr na'r afradlawn, canys dywedir fod hwnw "wedi treulio y cwbl." Yr oedd swllt cyfan, y mae yn wir, gan George heb ei dreulio, ac y mae yn nerth hwnw yn taro allan i'r byd mawr i chwilio am waith. Cafodd hanes am siop cryddion mewn lle a elwir St. Ffagans, o gwmpas deg milldir yn y blaen o'r man lle yr oedd. Teithiodd yn ddyfal tuag yno; ac wedi dyfod i'r lle yr oedd eisiau gweithiwr, cytunodd i fyned yno dranoeth. Ond nid oedd yn bosibl iddo ddechreu gweithio tra yr oedd y swllt yn ei logell; am hyny aeth i'r dafarn rhag ei flaen, a gwariodd bob ceiniog ag oedd yn ei elw yn gyntaf; felly yr oedd erbyn hyn yn hollol fel y mab afradlon, "wedi treulio y cwbl." Boreu dranoeth aeth at ei waith, heb damaid o fwyd, na ffordd yn y byd i'w gael; gweithiodd yn frysiog, ond yr oedd chwant bwyd yn dyfod arno, ac heb olwg ar dameidyn o un lle i'w ddiwallu. Pryd ciniaw a ddaeth, a'r dynion eraill yn ymbarotoi i gychwyn, ond yr oedd efe yn ddigyffro ac yn llonydd iawn. Gofynodd y meistr a oedd efe ddim yn myned i giniaw, pryd y deallwyd nad oedd ganddo ef yr un ciniaw ar ei gyfer, na modd i'w gael. Dyma Joseph, yr hwn oedd yn ddyn gwyllt, ond hynod garedig, yn taro ei law yn ei boced, ac yn estyn swllt iddo ar gyfrif ei waith, ac yn gorchymyn iddo fyned i brynu rhyw beth i'w fwyta yn union. Gwasanaethodd hyn iddo hyd dranoeth, pryd yr oedd ychydig o sylltau yn dyfod yn ddyledus iddo oddiwrth ei waith, ac felly y gwaredwyd ef rhag marw o newyn, er dechreu o hono fod mewn eisiau. Dyfeisiodd Samuel Drew lwybr i'w gadw rhag teimlad arteithiol newyn tra yn gweithio pâr o esgidiau, drwy glymu yr arffedog yn dyn am ei ganol; ond ni chlywsom i George gael ymgyrchfa at y llwybr hyn. Yn fuan wedi iddo ddyfod ychydig uwchben ei draed, fel y dywedir, dechreuodd hynodi ei hun yn ddirfawr yn y lle hwn mewn cysylltiad â'r cymeriadau gwaethaf yn y plwyf. Yr oedd Twm o'r Castell yn fachgen hoew, ac yn benymladdwr a champwr cyn dyfodiad ein gwron i'r ardal; ond wedi hyny aeth dan gwmwl tew yn fuan, canys nid oedd yn gallu sefyll mwy na phlentyn o flaen y *bruiser*. Gosodwyd George ar ben y rhestr yn fuan, yn frenin yr holl gampwyr; ac nid hir y bu cyn i'w glod gerdded

drwy yr holl bentrefi cymydogaethol fel y cyfryw. Ofnid ef fel ymladdwr, ac arswydai pawb ef fel dyn hysbys a *fortune teller;* mewn gwirionedd, yr oedd ei awdurdod bron yn hollol, ac o ganlyniad yn beryglus. Byddai y tafarnwyr yn rhoi diod iddo yn rhad, o herwydd ei ddylanwad i dynu pobl ato lle bynag y byddai; canys yr oedd fel celain yn tynu yr holl eryrod o bob cwr; i'r man lle yr oedd efe y byddent yn sicr o ymgasglu. Efe oedd crwth a thelyn y tafarndai, *sport* a chrechwen yr yfwyr, enaid a bywyd y cwmpeini; nid oedd dim ond bri a llawenydd yn teyrnasu lle y byddai efe. George Heycock oedd y cwbl, gan wryw a benyw, hen ac ieuanc, gwreng a boneddig; efe oedd y bachgen ag oedd yn cadw bywyd a gwresogrwydd yn y gwaith.

Yr oedd Joseph, ei feistr y pryd hyn, yn wr crefyddol, ac yn ddyn syml a da iawn, ond yn rhyw beth gwyllt yn ei ffordd, fel y dywedasom o'r blaen, ac hefyd yr oedd dau neu dri o weithwyr crefyddol gydag ef ar y pryd. Yn wyneb fod Joseph a'r gweithwyr eraill yn clywed am ystranciau melldigedig George, yr oedd yn naturiol iawn i feddwl eu bod yn tori ato, ac yn ceisio rhoi rhyw air o gynghor iddo, yr hyn oedd yn bur ddiflas gan ein gwron, canys llwybr rhydd a dirwystr yn ei ffordd yr oedd efe am gael. Pan y buasai rhyw beth mawr wedi dygwydd, a Joseph yn dechreu ceryddu, er mwyn tori awch y cerydd, a'i dynu oddiwrth y mater, byddai y *bruiser* yn codi dadl yn erbyn crefydd a gwirionedd y Bibl. Yr oedd efe drwy hyn yn tynu Joseph oddiwrth yr ymladdfa, y dawnsio, neu ryw ystranc arall a gyflawnwyd, i ddadl yn nghylch y pethau hyn. Nid oedd nemawr o ddoniau dadleuol gan Joseph, nac amynedd ychwaith i ddal yn hir yn wyneb ei wrthwynebu, oblegyd yr ydoedd fel tân mewn pylor, yn fflam wyllt, ac yn drwst ofnadwy. Yr oedd y *bruiser* yntau mor araf a'r dydd hir, neu y dwr rhewedig, a dywedai gelwydd gyda'r un pwys ac arafwch a phe buasai y gwir goreu yn yr holl fyd. Ryw foreu, ar ol ystorm echrydus y nos o'r blaen yn y dafarn, dyma Joseph yn ei alw i gyfrif yn ddifrifol iawn, gan broffesu mai ei les amserol a thragywyddol oedd mewn golwg, ac yn dyweyd wrtho fod ei sefyllfa yn ofnadwy yn wyneb y Bibl; "oblegyd," meddai, "beth pe bait yn marw yn bresenol, yn mha le, tebygit ti, y byddai dy lety?" "Yn mha le?" ebe George; "clywch y dyn, oes bosibl iddi fod yn llawer gwaeth na lle yr wyf fi yn lletya yn awr? oblegyd yr wyf fi yn credu fod canoedd, os nid peth miloedd, o chwain yn ymborthi ar fy nghnawd bob nos." "Rhag dy gywilydd, George," ebe Joseph, gyda sel dau ddyblyg; "yr wyt ti yn cablu gair y gwirionedd; ti ddeui iddi o'r diwedd." "Gair y gwirionedd! *nonsense* i gyd," meddai y *bruiser;* "nid yw y Bibl ond rhyw beth y mae dynion drwg wedi ei gaboli yn nghyd i dwyllo y byd. A ddarfu i chwi ddim darllen erioed waith Shing-sangffa? Fe ysgrifenodd hwnw chwech mil o flynyddoedd o flaen Adda, ac y mae eich Bibl chwi yn dyweyd mai Adda oedd y dyn cyntaf." Gyda hyn y mae Joseph yn neidio i fyny oddiar y *seat,* fel dyn

yn cael eu hafradu o ddiffyg rhoddi cyfeiriad mwy priodol iddynt.

Yr oedd Wil Goesgymhwys yn gantor bron digyffelyb; efe oedd yn canu "Y Ferch o'r Scer," a "Chefnydfa," oreu o bawb. Dywedir fod llawer un wedi penderfynu ymofyn gwragedd o dan effeithiau y caniadau hyn. Yr oedd Jack Goesgam yn rhigymwr a phrydydd cywrain, ac efe oedd yn danfon allan englynion a chaneuon am bobl y gymydogaeth, nes oedd y cwbl yn fynych bron a myned yn benben o benbwygilydd. Yr oedd Dïo Droedglwb yn ddeonglwr breuddwydion, a Phil Naillgoes yn delynwr medrus; efe yn gyffredin oedd yn chwareu y delyn yn ngwylmabsantau y gymydogaeth. Yr oedd George Goesfer, fel y gwyddoch eisoes, yn ymladdwr ac yn gonsuriwr. Wel, gallem feddwl fod yn anhawdd cael gafael ar y fath gynulliad o gyrph ac eneidiau o fewn terfynau cred. Yr oedd ychydig o bob peth yn myned yn y blaen, chwi a welwch, fel ag yr oedd y siop gryddion hon yn cyfarfod ag archwaeth y rhan fwyaf o bawb yn y wlad, ond yr ychydig ddynion sobr a syml, ac nid oedd y nifer yn fawr o'r rhai hyn. Yr oedd yma ychydig o ganu i'r sawl oedd yn hoff o hyny, ychydig o brydyddu i gyfarfod â'r archwaeth hono, ychydig o beroriaeth i ddifyru y cerddorion, ychydig o egluro ac esbonio ar freuddwydion y nos er boddhau y coelgrefyddol, ac ychydig o ddyweyd *fortunes* er cysur i'r rhai ag oedd yn dysgwyl eu cysur yn y dyfodol. Dyma'r man am dani!

Y mae yn gof genym ei glywed ef yn adrodd i'r holl deulu hyn fyned gyda'u gilydd un dydd Sul i bentref o gwmpas dwy filldir i bant, i dafarn lle y byddai cryn ymgynulliad, i gael treulio diwrnod o rialtwch ac yfed. Ar ol bod yno am gryn dipyn, a llawer yn cwympo i mewn atynt yn barhaus, yr oedd y digrifwch yn myned fwyfwy, a'r yfed yn myned rhagddo yn fwy hwylus. Yr oedd yn anhawdd cadw Wil rhag arfer ei ddawn i ganu yn gyhoeddus, er mai Sabbath ydoedd; yr oedd am ganu un tro o leiaf cyn ymadael ar y "Ferch o'r Scer" a "Chefnydfa." Yr oedd yr hen dafarnwr yn anfoddlawn, nid o un parch i'r Sabbath, ond ofn rhag i hyny arwain i ofid, ac y clywai y swyddogion. Beth bynag, yn ffrwgwd yr aeth rhwng Wil a'r tafarnwr, y pryd y cododd George i gyfryngu, ac o bwrpas yn cadw y tafarnwr yn ol, i'r dyben o'i losgi yn y tân, canys yr oedd â'i gefn ar y tân eisoes. Gwaeddai Mr. Jones allan yn groch pan yr oedd yn cael ei forddwydydd yn dechreu rhostio, a George yn dal wrtho, gan ddywedyd, "Ni chewch fyned yn y blaen yn wir, Mr. Jones; pwyllwch ac arafwch, a gadewch y ffwl yn llonydd." Yr oedd y *bruiser* cyfrwysddrwg yn cymeryd arno wneyd caredigrwydd â'r hen frawd, ac felly o dan rith cymwynasgarwch yn ei bobi o flaen y tân. Yn y diwedd aeth yn rhy dwym; cymerodd aden côb y tafarnwr dân, a thyma ef yn neidio yn y blaen gyda bloedd ddychrynedig, a'r fflamiau erbyn hyn bron yn amgylchynu ei berson. Aeth un allan a'r llall allan yn y cythrwfl echrydus, nes y gadawsant George yn unig; ond ni thybiodd ein gwron am

foment na buasent yn dychwelyd yn mhen rhyw getyn ar ol i'r ystorm dawelu ychydig. Wedi diffodd y tân, a phethau yn dychwelyd i ryw gymaint o dawelwch drachefn, dechreuodd George feddwl am ddychweliad ei gyfeillion, ond yn aneffeithiol, canys yr oeddent wedi bwriadu chwareu ryw gnac, fel y dywedir, ag ef y diwrnod hwnw. Yn sicr, yr oedd y mater yn dechreu myned yn bwysig, canys yr oedd y cyfrif yn drwm iawn, a llogell George yn ysgafn, fel yr oedd y digrifwch er ys meityn yn dechreu troi yn alar. Gwnaeth George esgus i fyned allan, ond yr oedd Mr. Jones i fyny â'r ystranc, ac mewn cysylltiad â'r gwas a'r forwyn, ymaflwyd ynddo, a rhowd ar ddeall nad oedd efe i ymadael oddiyno hyd oni thalai yr hatling eithaf. Nid gwiw oedd dywedyd nad oedd dim arian, ac y byddai yn sicr o ddyfod i dalu yr wythnos nesaf. "Yr arian neu eu gwerth," ebe y tafarnwr, gan ymaflyd yn dŷn yn ei goler. Cyn ymado oddicartref yr oedd George wedi cael neisied gwddf, neu napcyn—beth gelwch chwi ef?—*first-rate* gan ei fam, yn goffadwriaeth am dani. Sidan India ydoedd, mae yn debyg, ac yr oedd y rhai hyny yn ddrudion iawn yn y dyddiau hyny. Bid a fyno, yr oedd hono am ei wddf. Y tafarnwr, yn gweled hon yn un o'r pethau mwyaf gwerthfawr, a ymaflodd ynddi, ac a'i datododd oddiam ei wddf yn un o'r pethau cyntaf. Yr oedd George yn dymuno, er mwyn pob peth, am gael cadw hono, gan mai rhodd ddiweddaf ei fam anwyl ydoedd cyn ymado o gartref, ac y carai fod hono gydag ef yn dychwelyd adref, fel arwydd ei fod yn cario yn ei fynwes barch i'w anwyl fam. Tyngodd Mr. Jones yn haerllug. Gobeithio y cymerir ni yn esgusodol am beidio adrodd y geiriau bryntion, yn enwedig ar bapyr glân fel hwn. Beth bynag, fe dyngodd yn echrydus, a thyngu oedd bron y cwbl ag oedd yn gallu ei ddyweyd; efe a fynai y napcyn, serch iddo ef a'i fam fyned i ——. Gan fod cynifer o'i ddeutu, gorfu i'r *bruiser* roi i mewn; cymeryd y neisiad oddiam ei wddf a wnaethant, a'i siaced fach hefyd, a phâr o esgidiau newydd oddiam ei draed; felly gollyngasant ef i'w ffordd yn haner noeth, ac yn gywilyddus i ddianc megys â chroen ei ddanedd. Llawenydd annhraethadwy oedd yn mhlith y cryddion wrth weled y *bruiser* yn dyfod adref mewn dull felly, ac hyfrydwch calon pob un oedd peidio talu ceiniog byth i ryddhau y dillad. Dyna y lle y gadawyd hwynt hefyd gan George; canys er ei fod yn enill arian da, eto nis gallasai feddwl am droi ychydig heibio, a bod heb ryw gymaint lai o gwrw am ychydig wythnosau.

Nid hir ar ol hyn yr ydym yn cael ei hanes yn ymadael â St. Ffagans, ac yn teithio o bentref i bentref, a'i wyneb yn ol tuag adref. Y mae yn gweithio, fe allai, am bythefnos mewn un pentref, a rhyw beth cyffelyb yn y llall, yn ymladd yn ddychrynllyd, ac yn curo y gwŷr goreu yn mhob plwyf; yn dychwelyd adref o'r diwedd, yn haner noeth ac yn glwyfau i gyd. Wedi pob peth, yr oedd ei fam yn cynesu ato ac yn ei ymgeleddu, er fod lluaws yn dywedyd wrthi am beidio. Ond yn rhyw fodd nis

gallasai beidio; yr oedd yn sychu ei glwyfau â'i dagrau, ac yn cusanu ei wyneb chwyddedig fel pe buasai dyddiau mabandod wedi ail dywynu. O, peidiwch rhyfeddu; peth angerddol iawn yw teimlad mam; trueni na bai llawer mab a merch yn gwybod yn well pa fodd i'w barchu. Wedi golchi ei friwiau fel hyn â dwylaw tyner mam, y mae yn addaw gwella ei foes, a throi dalen newydd; ond yn fuan yr ydym yn ei gael yn dechreu arfer ei hen gastiau cynddrwg ag erioed. Yn gymaint a bod llawer o ofergoeledd y pryd hwnw yn meddyliau dynion, ac yn hawdd i ddyn cyfrwys wneuthur iddynt gredu unrhyw beth yn nghylch ysbrydion, canwyllau cyrph, &c., i ddychrynu pobl, arferodd bob diwydrwydd yn y ffordd hono. Byddai yn myned yn ysbryd yn fynych iawn, ac elai allan yn y nos â rhyw offeryn ganddo, â'r hwn y taflai wreichion o dân, nes peri dychryn a braw yn yr holl gymydogaeth. Bu tymhor pan nad elai neb braidd allan yn y nos gan ofn a dychryn; ac nid yn unig yn ofni myned allan, ond yr oeddynt yn crynu yn fynych hyd yn oed rhwng muriau eu tai. Byddai weithiau ryw ysgrechfeydd annaearol a dychrynllyd yn myned heibio am haner nos, a llawer o fenywod yn llewygu yn eu gwelyau, ac yn sicr rhai gwŷr hefyd; os nid yn llewygu yn llwyr, yn chwysu yn domen. Cododd Twm mab Pegan o'i wely wrth glywed ysgrechfeydd a gruddfanau dychrynllyd ar gyfer ffenestr ei ystafell, i edrych beth a allasai fod; canys yr oedd efe yn bur gryf, ac yn annghredadyn hyd yn awr am ymddangosiad ysbrydion o gwbl. Eithr llwyr argyhoeddwyd ef o'i gamsyniad, a chostiodd hyn yn ddrud iddo hefyd. Gwelai ryw beth tebyg i fod dynol, ond yn fwy ei faintioli, canys tybiai ei fod yn ddeuddeg troedfedd o hyd o leiaf, ac yn chwythu tân gwyllt allan o'i enau. Syrthiodd Thomas, er ei fod yn ddyn cryf, yn wysg ei gefn, gan dybied weled o hono ysbryd; ac ni chynygiodd byth mwy ddadleu yn erbyn y cyfryw beth. O herwydd ystwythder y goes fach, yr oedd wedi dyfeisio i daflu hono am ei wàr yn gyntaf, a'r llall ar ei hol, ac yna ymdreiglo ar hyd y llawr fel pêl fawr, gyda chyflymdra annghredadwy, ac yn y fynyd ymryddhau o'r ffurf ryfedd hono, a chodi ac ymddangos mewn ffurf hollol wahanol. Bu yr ystrywiau hyn yn agos i fod yn angau i amryw o bersonau. Clywsom ef yn adrodd iddo gyfarfod â merch ar noson bur dywyll, pryd y gwnaeth ryw leisiau annymunol nes iddi ddychrynu yn ddirfawr; trodd ei gwyneb mewn dychryn i edrych, pan y chwibanodd yn rhyw fodd rhwng ei fysedd, yn hollol wahanol i bob chwibaniad a glywyd mewn byd daearol; dyma y lodes yn cymeryd at ei thraed, a'i chalon yn curo gan fraw, y pryd y syrthiodd George i lawr, gan daflu y coesau am y wàr ac ymdreiglo fel pêl ddu heibio iddi, nes oedd y fenyw yn syrthio i lawr ac yn methu myned yn mhellach, ac yn ymddangos fel pe na byddai enaid mwyach ynddi. Tynodd ei hysgrechfeydd y cymydogion i'r lle, ond yr oedd yr ysbryd wedi diflanu o'r golwg. Tro diflas oedd hwn, oblegyd ofnid am amser maith y buasai canlyniadau pwysig

iddo; ond trwy driniaeth ofalus a medrus y Doctor Llewelyn adferwyd hi eilwaith i'w hiechyd cynefin.

Nid ydym yn rhoddi ond ychydig engreifftiau o lawer a allesid roddi, ond hwyrach y bydd yr ychydig hyn yn ddigon i roddi cipolwg ar y cymeriad. Dylyn rhyw fywyd o'r natur hon y bu, yn ol ac yn y blaen ar hyd y wlad, am amser maith. Dygwyddodd i'w dad daro wrth yr hen enwogion Methodistaidd, Siencyn Penhydd a Daniel o'r Constant, a chafodd grefydd; ac yn ol yr hanes grefydd dda iawn hefyd. Byddai yn gweddio yn ei dŷ—sef cadw dyledswydd, fel y dywedir—a byddai George, o barch iddo, yn ymddwyn bob amser yn weddus yn yr addoliad teuluaidd; ond yr oedd can dywylled am bethau crefydd a neb yn nghanolbarth Affrica; canys pan oedd ei dad yn gweddio ac yn cwyno o herwydd ei elynion, byddai yn tybio mai rhyw rai oedd yn frwnt wrth yr hen wr yn y gwaith lle yr oedd ei orchwyl. Un boreu, pan oedd ei dad yn cwyno yn fwy nag arferol o herwydd ei elynion, wedi myned allan tyngodd George y talai efe iddynt cyn hir am beidio gadael yr hen wr ei dad yn llonydd—y gwyddai efe pwy oeddynt o'r goreu. Penderfynodd fyned i'r dafarn nos dranoeth i'w cyfarfod, a dechreuodd edliw iddynt eu bod yn erlid ei dad yn y gwaith—ei fod wedi clywed yr hen wr yn achwyn arnynt ddwywaith neu dair, ac yn rhaid nad oedd neb ond hwy i fod felly. Yr oedd y dynion yn gwadu gwirionedd yr haeriad; eithr nid gwiw gwadu, yr oedd yn rhaid iddynt sefyll o'i flaen ef; ond hwy a'i hadwaenent yn rhy dda, ac am hyny wele hwy yn crynu ger ei fron. Curodd ryw ddau neu dri yn ddidrugaredd, a rhybuddiodd hwynt ar berygl eu bywyd am beidio ymhel â'i dad. "Os clywaf ef yn cwyno o'ch plegyd eto, myn ——," eb efe, "mi a'ch lladdaf yn farw." Pan y meddylir am ddyn fel hyn, wedi treulio llawer o flynyddoedd, ïe, a blynyddoedd goreu ei oes, heb feddwl nemawr o ddim am grefydd, ond yn dylyn pob rhyw oferedd, ac yn myfyrio ar gynlluniau i ymwneyd â melldith, y mae yn naturiol meddwl ei fod yn hynod dywyll ac anwybodus am grefydd a phethau yr efengyl. Beth bynag, yr oedd yr Arglwydd wedi meddwl ei achub, y mae yn debyg; ac i'r dyben hwnw efe a'i cymerodd i'w law ei hun, i'w ddysgu a pheri iddo ddeall. Arweiniodd ef o amgylch drwy yr anialwch mawr, lle yr oedd seirph ac ysgorpionau, creigydd a phyllau, nes dyfod ag ef i'w bwyll ac i oleu dydd, i ddeall pwy ydoedd y Goruchaf, ac i grefu am drugaredd ger ei fron. Yr oedd bod Duw yn cymeryd y *bruiser* mewn llaw, i'w wareiddio a'i waredu oddiwrth ei bechodau anferth, gan roddi lle iddo yn ei dŷ ac yn mhlith y plant, yn synu pawb. Yr oedd hyd yn oed y saint, yn gystal a'r pechaduriaid, yn agos a bod mewn dyryswch yn nghylch y mater hwn. Eithr yr oedd yr Arglwydd yn dewis egluro yn hyn mai nid ei feddyliau ef yw ein meddyliau ni, ac nid ein ffyrdd ni yw ei ffyrdd ef. "Canys fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi." Y

mae yn gwestiwn genym a feddyliasai neb ar y ddaear—er ys llawer o flynyddoedd, bid a fyno—am i'r *bruiser* gael ei achub o gwbl; canys yr oedd pawb yn ddiwahan wedi ei roi ef i fyny i dân tragywyddol, ond yn unig aros yr amser penodol i ddiafol ei gipio a myned ag ef yn gorphorol i'w le ei hun.

Felly yn ddiau oedd y meddwl cyffredinol mewn byd ac eglwys am George. Yr oedd ei ddedfryd fel hyn wedi ei selio eisoes yn marn y werin. Ond y mae yn debyg mai nid rhyw feddyliau felly oedd meddyliau Duw, eithr i'r gwrthwyneb yn hollol. Byddwn yn dysgwyl yn fynych am i ryw ddyn prydferth ag sydd yn gwrando yn gyson, ac yn yr Ysgol Sabbathol, a chydag agos bob rhan o waith yr Arglwydd, ddyfod yn nes, ac ymuno â'r eglwys, ac y mae ei le wedi ei wneyd yn barod er ys llawer dydd; eto nid yw yn dyfod er hyny, ac fe allai y ceir ef yn marw yn y fel yna, heb ddyfod o gwbl. Fe ddichon fod rhai wedi bod yn gweddio dros hwnw wrth ei enw, ac wedi tywallt ambell ddeigryn yn ei achos, gan ddymuno yn fawr ei weled, am y gallai fod o ddefnydd annghyffredin gyda'r achos. Eithr am George, och! ac arswyd rhagddo; nid oedd neb yn meddwl am y fath flaidd atgas a chreulawn i ddyfod byth i rodio yn mhlith yr ŵyn gwirion. Ond rhyfedd byth! y mae y rhai a ddysgwyliwyd yn wyneb rheswm dynol yn cael eu gadael, a'r *bruiser* mawr yn cael ei argyhoeddi a'i ddychwelyd; a dyma ef o'r diwedd yn dechreu troi ei wyneb at yr Arglwydd! Synodd y saint, chwaithach y pechaduriaid, nes yr oeddynt yn methu deall beth i ddywedyd na pheth i wneyd. Braidd nad oeddynt yn ei ofni yn fwy nag yr ofnwyd Saul yr erlidiwr, ac yn dywedyd gyda syndod dirfawr, Onid hwn yw George? fel pe buasai yn anmhosibl i Dduw â'i hollalluog fraich gydio ynddo a dyfod ag ef i'w iawn bwyll. Y gwir yw, yr oedd pawb yn agos a dyfod i'r penderfyniad nad oedd yn bosibl i Dduw wneyd dim â George ond ei ddamnio byth. Mewn gwirionedd, yr oedd yn ofynol fod ffydd fawr annghyffredin gan ddyn yn nhrefn gras cyn y gallai gredu yn rhwydd fod hyd yn oed yr efengyl ei hun yn cynwys digon o nerth i ddofi dyn fel hwn, a ffurfio ei gymeriad yn gydweddol â'i natur a'i hansawdd ei hun. Gan fod hynodrwydd mawr mewn cysylltiad â'i droedigaeth, fel y gellid dysgwyl, wrth ystyried pa fath gymeriad ydoedd, rhaid i ni gymeryd amser a phwyll wrth edrych am hyny, onide ni a wnawn gam â'n gwrthddrych, beth bynag am y darllenydd. Nid moddion a goruchwyliaethau gweinion oedd yn ofynol at lorio ryw gawr fel hwn, a'i wneyd fel plentyn bychan; a throi blaidd gwancus a chreulawn, a'i wneyd fel oen diniwed.

BODLEIAN LIBRARY

# PENOD II.

Yn y benod o'r blaen gadawyd George mewn anialwch mawr erchyll, a thywyllwch dudew, yn arwain yn y blaen fyddinoedd haerllug y pwll diwaelod; ar yr un pryd, awgrymasom fod dorau y wawr fel pe byddent ar ymagor, a llewyrch Haul Cyfiawnder ar dywynu ar y fro gaddugol lle yr ydoedd yn byw. Gallesid meddwl, pan adawsom ef yn y benod flaenorol, fod rhyw swn fel yr eiddo Duw hollalluog yn symud yn rhyw le, neu raiadr yn disgyn o ryw le uwch na'r Niagara, neu ddaeargryn yn siglo y ddaear drwyddi, nes ysgwyd yr hen garcharau cedyrn, nes oedd rhwymau pawb yn rhyddion. Y mae cyfnewidiad mawr ar y drws.

Ond cyn myned at hyny yn bresenol, fe ddichon y bydd yn dra angenrheidiol dyweyd gair neu ddau yn nghylch ei fynediad i'r sefyllfa briodasol, yn gymaint ag y bydd yn rhaid i ni cyn y diwedd gyffwrdd ag enw y wraig; a rhyw beth digon chwithig fydd hyny, fel y gellid meddwl, heb ddywedyd yn gyntaf ei fod yn briod. Darfu iddo briodi cyn cael crefydd, ac wrth gwrs fe ddewisodd wraig oedd fel yntau yn ddigrefydd hefyd; felly yr oedd eu harchwaeth ill dau y pryd hwnw, fel nad oedd dim "ysbryd yn rhyfela yn erbyn y cnawd" mewn dim, ond pob peth yn hwylus a rhwydd yn rhyddredeg yn ei drefn naturiol ei hun. Y mae yn wir fod ychydig o helynt wedi bod yn nghylch y cysylltiad hwn; ond nid dim croes rhwng cnawd ac ysbryd, ond rhyw beth yn nghylch y gwahaniaeth sydd rhwng dynion â'u gilydd yn y fuchedd hon. Yn awr, yr oedd Sophia yn lodes brydferth, lanwedd, hoewdeg, a gwych dros ben, blodau ei dydd, a balchder ei rhieni; ac yn ol barn ei pherthynasau, o uwch gwaedoliaeth na'r *bruiser*. Yr oedd y pethau hyn, fe welir, yn bethau y dylesid eu hystyried yn bwysig, fel na byddai annghyfatebolrwydd rhwng y pleidiau, a hyny yn rhwystr iddynt droi yn gysurus mewn cymdeithas. Heblaw hyny hefyd, yr oedd y dull o fywyd ag yr oedd George yn arwain yn ddigon i beri i unrhyw ddynion arswydo i'w merch fod mewn cysylltiad ag ef. Danfonwyd hi i ffordd i Loegr, lle y bu am amser maith—rai blynyddau, os ydym yn cofio yn dda—fel y tybiwyd yn gyffredinol fod pob cysylltiad wedi darfod, a chariad wedi diffodd yn y ddwy galon, a holl beryglon ieuad annghymarus wedi eu dileu am byth. Beth bynag, y mae y tymhor yn dyfod—ac yn wir, nid dysgwyliad bychan oedd am dano—i Sophia ddyfod adref i ymweled â'i pherthynasau. Hi a ddaeth; ac er ei bod yn un o flodau y dyffryn cyn ymadael, eto yr oedd y fath *improvements* yn rhyw fodd neu gilydd wedi cymeryd lle ynddi yn Lloegr, fel yr oedd yn gorddysgleirio yn mhlith y merched. Yr oedd yn gallu siarad Saesoneg mor bert, ac yn gallu plygu mor foneddigaidd, ac yn medru taflu golwg mor fenywaidd a *ladylike*, fel yr oedd rhai yn ei charu, a llawer iawn yn ei chenfigenu, yn mhlith y rhywog-

aeth deg. Beth bynag, nid oedd dau feddwl yn y plwyf nad oedd pob cysylltiad rhwng y *bruiser* a hithau yn anmhosibl mwy; canys os oedd rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt yn nhyb y bobl *cyn* y symudiad i Loegr, yr oedd yn awr yn ymddangos yn annhraethol, fel y buasai yn edrych fel ieuo ŷch ac asen o bethau y byd. Ond y mae yn debyg mai rhyw beth rhyfedd yw cariad. Mae y bobl fwyaf dysgedig a doeth ryw sut wedi methu ei ddeall i berffeithrwydd. Y mae dyfroedd lawer yn methu ei foddi, a hin oeraidd yn methu ei rewi. Y mae Llundain ardderchog a threfydd Lloegr yn methu ei ddileu. Dyma y lodes wedi dychwelyd, er ei holl ddillynder, gyda'r hen wreichionen yn ei chalon, yn ol i Gymru eto. Y mae cariad wedi methu cwympo ymaith er y cwbl; rhyfedd yw ei barhad a'i rym; fflam angerddol sydd iddo, y mae yn debyg. Y mae ein harwr yn troi ei wyneb at Sophia eto, er syndod i hen ac ieuanc, tlawd a chyfoethog, gwreng a boneddig. "O'r ffoles," ebe Mari Smith, "y ferch ag sydd yn cael faint a fyno o gynygion, yn siarad â'r hen —— cloff yna!" "O!" ebe hon, ac "O!" ebe y nesaf; un yn rhoi ysgrech yma, a'r llall acw, a phawb o'r rhywogaeth yn cyduno i gondemnio Sophia a'i hymddygiadau yn derbyn George i'w ffafr. "Os priodi George yr wyt ar fedr wneuthur," ebe Thomas y gôf, "mi ddywedaf gymaint a hyn wrthyt; byddai yr un peth i ti briodi y cythraul ar unwaith, a myned i uffern i fyw."

Y mae yn rhaid cyffesu fod y dywediadau hyn yn rhai heilltion ddigon, ac yn ddigon i beri i un fenyw yn mron grynu yn ei chroen, a rhoi pob meddwl am briodi i fyny yn dragywydd; ond fel y dywedasom, rhyw beth cryf iawn yw cariad; y mae yn dal ei ffordd drwy ddwr a thân, ac yn byw, ryw fodd, y tu draw iddynt. Dywedent hwy a fynont, George oedd y dyn. Pan yr oedd Mari Jones wedi methu llwyddo i'w pherswadio drwy ddywedyd am oferedd, ymladdfeydd, a segurdod George, cyfeiriodd ei sylw at ei berson, a'i goes fer a main, gan ddywedyd, "Pe bai y dyn goreu yn y plwyf, ni wn i ddim beth yr wyt yn ei weled arno; edrych ar y goes fach yna, ferch; gwel y fath greadur anosgeddig ydyw." "Y mae yn wir," ebe Sophia, "fod ychydig o anffawd yn y fan yna, ac eto nid yw y man gwaethaf yn hagr iawn. Eithr edrych ar y goes arall; mi wnaf fy llw nad oes un bachgen yn mhlwyf Margam a all ddangos coes mor bert a hona." Yr oedd, y mae yn rhaid cyffesu, y goes arall yn lluniaidd a hardd iawn; gan hyny pa bryd bynag y cyfeiriai rhyw un sylw Sophia at y goes fach, byddai hithau yn ddioed yn galw ei sylw yntau at y goes fawr; canys os oedd dipyn o *drawback* mewn un, yr oedd mwy na *redeeming qualities* yn y llall. Y mae yn dyfod i'n cof am Byron, yr hwn, fel ein harwr, a fu mewn llawer profedigaeth oblegyd un o'i goesau, canys yr oedd yntau wedi dygwydd dod i'r byd ag un o'i aelodau yn anhardd. Ond y brofedigaeth fwyaf tanllyd a gafodd erioed oddiwrthi, eb efe, oedd sylw anmharchus a wnaeth boneddiges ieuanc arni, ac yntau ar y pryd â llonaid ei galon o gariad ati. Dygwyddodd i'r *hen*

Lord Byron fod mor anffortunus a lladd ei gymydog, Mr. Chaworth, wrth ymladd *duel.* Miss Chaworth, merch y boneddwr uchod, oedd y foneddiges yr ydym yn son am dani, yr hon oedd o gwmpas deunaw oed pan y daeth y bardd i gydnabyddiaeth gyntaf â hi, ac yntau yn rhyw le o gwmpas un ar bymtheg ar y pryd. "*It is almost superfluous,*" medd yr hanesydd, "*to state that she was beautiful, fascinating, and amiable.*" Y mae yn debyg mai un o flodau Ysgotland, os nid y blodeuyn harddaf a ddarfu i'r tir hwnw gynyrchu, oedd Miss Chaworth, ac yr oedd wedi suddo yn ddwfn iawn i galon Byron ieuanc. Yn chwanegol at y cariad ag oedd yn ei galon ef tuag ati, yr hyn a fuasai yn cynyrchu cysur personol a theuluol, buasai eu hundeb, meddai efe, yn foddion i wellhau clwyfau, ac iachau drwg-deimladau, drwy ba rai y tywalltwyd gwaed gan ei hen dad, yn uno tiroedd meithion yn nghyd, ac yn sicr, wedi uno yn un galon ddau o bersonau, y rhai nad oedd yn annghyfartal mewn dyddiau. Ond beth a fu y canlyniad? Yr ydoedd efe y pryd hyn yn anadnabyddus yn nheml gogoniant, yn gymaint a'i fod mor ieuanc, a dalenau ei enaid cyfoethog heb eu dadblygu eto. Yn ofer yr ymgeisiodd beri i'r ferch ardderchog feddwl yn ffafriol am dano yn ei chalon, ac yr oedd chwerwder yn cynyddu fwyfwy yn ei ysbryd wrth feddwl fod ei droed anffortunus yn rhwystr anorfod ar ei ffordd i ymgystadlu â'r lluaws boneddigion ag oedd yn ymdrech am law Miss Chaworth. Yr oedd Miss Chaworth yn medru dawnsio yn bert, ond nis gallasai Byron ddawnsio o herwydd ei goes. Yr oedd hyn bron yn tori ei galon, canys yr oedd yn cael ei orfodi i eistedd i lawr yn ddystaw a diflas, tra y byddai rhyw ddyeithrddyn yn cydio yn y llaw, ac yn arwain trwy y ddawns yr hon yr oedd ei galon yn garu, a'i lygaid yn canlyn drwy ei holl symudiadau. Fel hyn yr oedd pethau yn bod, ac nid oedd dim i'w wneyd ond cario y groes, a dwyn y baich. Eto, er hyn oll, yr oedd y groes yn bren garw yn aml, a'r baich yn drwm annyoddefol yn fynych. Yr amgylchiad mwyaf teimladwy ac annyoddefol y bu Byron ynddo erioed o herwydd ei goes oedd, pan y clywodd ei anwyl Mary Ann Chaworth yn dywedyd wrth rai yn y cwmpeini, gyda dirmyg ac ysgydwad pen tra arwyddocaol, "*Do you think that I could care anything for that lame boy?*" "Yr oedd yr araeth hon," fel y mae efe yn ei galw, "fel ergyd o ddryll yn myned trwy fy nghalon." Er ei bod yn hwyr, ffwrdd ag ef mewn mynyd o'r tŷ hwnw, ac heb fod yn gwybod yn iawn i ba le yr oedd yn myned, rhedodd yn ei hurtwch llwyr ei ben; ond fel y dygwyddodd, arweiniodd Rhagluniaeth ef i Newstead, ei artref ei hun; ac yno mewn gofid a theimladau tra cymysgedig y cuddiodd ei ben mewn dirgelwch a dystawrwydd. Gwelir mai nid yr unig un ag sydd wedi bod mewn profedigaethau oblegyd ei goes yw ein harwr; y mae eraill, y mae yn debyg, wedi cyfranogi yn helaeth o'r un profiadau, a than yr un amgylchiadau. Yr oedd llawer o bethau Byronaidd yn y *bruiser* mewn corph a meddwl; nid ydoedd yn ddyn yn

mhlith y cyffredin mewn dim, ond yn mysg yr annghyffredin, neu yn rhyw le—nid oes genym yn awr yr un enw ar y wlad—ar ei ben ei hun. Y mae yn ddigon tebyg fod ein gwron, fel Arglwydd Byron, wedi bod yn aflwyddianus o herwydd ei goes lawer gwaith; ond beth bynag am hyny, yn awr George oedd y dyn, er coesau a chwbl; a'r diwedd fu, gwnawd George a Sophia yn un mewn "glân briodas." Trodd Sophia allan yn wraig dda, gystal a neb yn y plwyf i fyw yn y byd, fel y dywedir; ond y mae yn ddrwg genym ddyweyd mai nid mor amlwg ydoedd ei thueddiadau crefyddol. Ond pe buasai y cwbl i ddarfod gyda'r bywyd hwn, gallem ddyweyd ei bod hi yn werth deg o Georgiaid.

Yn awr, wele ef yn berchen gwraig, ac yn mhen ychydig o flynyddau y mae yn dad plant, ac felly yn benteulu. Hyd yn hyn yr oedd yn dylyn yr hen arferion can belled ag oedd yn bosibl, ond nid oedd wrth bob rheswm yn gallu eu cario â llaw mor uchel ag arferol; eto yr oedd o flaen pawb eraill o ddigon, dros amryw o flynyddau. Elai i'r cwrdd weithiau, yn bur anaml, pan y byddai rhyw swn mwy nag arferol am ryw bregethwr yn dyfod drwy y wlad, neu ryw beth felly; ac yn sicr yr oedd hyny yn cael ei ystyried yn beth mawr iddo ef. Eithr, fel y dywedasom o'r blaen, nid oedd neb yn meddwl byth i Dduw lwyddo yr efengyl i'w achub ef. Yr oedd pob gobaith am ei gadwedigaeth wedi ei ddwyn ymaith yn llwyr o bob meddwl, hyd yn oed y saint, ïe, hen saint yr hen Ddyffryn. Y mae yn rhaid i chwi feddwl fod ein gwron George wedi bod yn byw y tu hwnt i bob terfynau, cyn byth y byddai *hen* saint yr *hen* Ddyffryn yn teimlo fel yna; canys yr oeddynt, nid yn unig yn *hen* bobl *dda*, ond yn hen bobl gwell na'r cyffredin; ac hefyd yn iach yn y ffydd. Nid oeddynt yn rhoi pwys yn y byd ar allu dyn, a *moral persuasion*, a rhyw athrawiaethau penbleth fel yna; eithr hen Galfinistiaid trwyadl, deallwch, oedd hen dadau y Dyffryn, heb na blew na bloesgni yn eu crefydd. O ryfedd! pe buasai rhyw goegyn yn cynyg rhyw beth yn lle rhad ras i'n hewythr Siencyn Penhydd, Daniel o'r Constant, Wil y gwehydd, a'r hybarch William Thomas o'r Pil, buasai yn cael ei guro â "deugain gwialenod ond un" o leiaf, a'i ymlid yn llwyr y tu hwnt i derfynau cred. Bu yr hen gyfeillion hyn yn cydoesi gyda'u gilydd, ac yn cydaddoli yn yr hen Ddyffryn bythgofiadwy. Y mae yn wir mai wrth eu holynwyr hwynt y dygwyddodd George daro, ac o'r diwedd bwrw ei goelbren yn eu mysg, eto yr oeddynt hwythau wedi eu tymheru yn dda iawn â gras. Nid bwyd gwan a wnelsai y tro iddynt hwy chwaith, canys yr oeddynt wedi eu harwain gan yr hen bobl grybwylledig yn mhell iawn yn y blaen at "berffeithrwydd." Yr oeddynt fel hwythau yn eithaf Calfiniaid, yn ymddiriedwyr cwbl mewn "maddeuant llwyr, maddeuant rhad." Ond hyn sydd yn rhyfedd, er yr holl ffydd hyn yn y gallu Dwyfol, a'r drugaredd anorchfygol, yr oeddynt yn rhy wan i allu meddwl am foment y gallesid dofi y *bruiser*, a'i ddwyn i eistedd "yn ei ddillad a'i iawn bwyll." Mawr oedd eu ffydd mewn rhyw

bethau hefyd; ond dyna, y mae y cryfaf yn methu weithiau; canys er holl ffydd Abraham, yr oedd yn rhy wan i fyned drwy rai amgylchiadau.

Mewn rhyw oedfa, dyma saeth lem yn dyfod o ryw le, ac yn myned drwy galon George Heycock. Anwyl bobl! dacw floedd yn debyg i annaearol, ac wele y *bruiser* yn syrthio. Tarawyd pawb â syndod; ac yn lle meddwl y goreu, darfu iddynt feddwl y gwaethaf, a phenderfynu i'r filain ddyfod i'r cwrdd yn feddw, neu ynte ei fod yn gwneyd rhyw ystranc fel arfer i dynu sylw, a chael rhyw beth yn ddefnydd *sport* yn y dafarn y nosweithiau canlynol. Felly y meddyliwyd, ac felly y penderfynwyd, ac felly yr ymddygwyd ato, canys ni feddyliwyd erioed am ddim da i fod iddo ef. Beth bynag, saeth o'r nefoedd, y mae yn fwy na thebyg, ydoedd; canys agorodd glwyf yn y galon y methwyd er pob peth ei feddyginiaethu, nes dyfod at glwyf arall a agorwyd yn ystlys Iesu ar bren y groes; ac wedi cael y ddau glwyf hyn at eu gilydd, y mae yn ymddangos fod y naill yn cytuno â'r llall, ac y bydd iechyd perffaith o'r diwedd. Bu ein harwr, gyda'r clwyf hwn mewn llawer man, dealler, cyn dyfod at groes ein Harglwydd Iesn Grist. Do, fe dreiodd yr holl feddygon yn ngwlad Moab, fel yr arferai ddyweyd; a darfu iddynt gymhwyso llawer o lysiau y wlad hono at y clwyf. Eithr nid oedd dim yn tycio, ond yn hytrach myned yn waethwaeth. Methu byw heb Geidwad a ddaeth â'r ymladdwr mawr i ymofyn am dano; ac o herwydd iddo fethu cael un man i ddal ei bwys yn nghanol ei gyfyngderau, y rhoddodd ei hun "iddo erbyn y dydd hwnw."

Yn gymaint a bod cryn hynodrwydd mewn cysylltiad â throedigaeth George, y mae yn angenrheidiol i ni gymeryd pwyll ac arafwch, rhag i ni wneuthur cam â mater mor bwysig, ac i'n darllenwyr fod yn golledus hefyd. Gallesid dysgwyl rhyw beth annghyffredin mewn argyhoeddiad a thriniaethau ysbrydol, mewn cysylltiad â dychweliad afradlawn o'r fath hyn, ei adferiad i'w synwyrau, a'i roi i eistedd yn mhlith y plant. Y mae adnod fechan wedi myned fel bollt drwy ei galon; a bollt tanllyd a llosgedig ydoedd hefyd; tân yn parhau i losgi ydoedd, tân anniffoddadwy, nes cael allan y dwr a'r gwaed a ddylifodd ar ben Calfaria. Canys buwyd yn ceisio taflu dyfroedd pleserau i'w ddiffodd, ond cyneu y fflam fwyfwy oedd y rhai hyny; ceisiwyd ei ddiffodd trwy daflu cwrw arno, ond yr oedd yn fflamio saith gwaeth wedi hyny. Yr adnod fechan y cyfeiriasom ati oedd yr un a ganlyn: "Ein Duw ni sydd dân ysol." Dyma'r tân yr oedd pawb yn methu ei ddiffodd. Yr oedd yn fflamio yn fwy o dan bleserau cnawdol, yn myned i losgi yn fwy gwyllt o dan dywalltiad holl ddiod y tafarndai; ac y mae y *bruiser* yn gwaeddi allan, "Y mae yn anniffoddadwy. Pwy a all drigo gyda'r tân ysol, pwy a all breswylio gyda y llosgfeydd tragywyddol? Pwy all oddef ysbryd cystuddiedig? Pwy a all ei godi i fyny?" Fel hyn yr oedd yn rhuo fel tarw gwyllt mewn magl, ac heb neb i wrando

ei gwyn. Bu mewn profedigaeth ganwaith i fellditthio Duw a marw; ond yr oedd yn gweled eilwaith pe buasai yn ei ladd ei hun na fuasai hyny ddim yn gwella y clwyf, a diffodd y tân, ond yn peri i'r clwyf fod yn waeth, a'r tân i losgi yn danbeidiach. Bu yn gwaeddi gyda'r Salmydd yn aml, "I ba le yr âf oddiwrth dy Ysbryd, ac i ba le y ffoaf o'th ŵydd? Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr, yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw. Pe dywedwn, Diau y tywyllwch a'm cuddia, yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch. Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti." Y mae ffoi o ŵydd ac o afael Duw tragywyddoldeb yn dyfod yn anobeithiol yn y teimlad, ac felly y mae y cawr yn rhuo, ond yn methu ffoi. Y mae y "tân ysol" fel pe bai yn dyfod yn nes ato o hyd, fel nad oes dim yn y golwg ond gorfod "preswylio gyda llosgfeydd tragywyddol" yn oes oesoedd. Pa ryfedd fod y llew yn rhuo, ac yn ysgwyd y cadwynau ag oedd yn ei ddal, yn yr olwg ar uffern yn agor ei safn yn anferth, ac yn myned i'w lyncu yn fyw? Beth bynag, o dan yr holl amgylchiadau dychrynllyd hyn, nid yw yn teimlo yr un duedd i syrthio ar ei liniau ac ymbil am drugaredd ger bron y Bod anfeidrol, yn erbyn yr hwn yr ydoedd wedi pechu, ac i'r hwn yr ydoedd yn rhwymedig.

Y mae efe yn troi i geisio meddyginiaeth at ryw grachfeddygon, y rhai, wrth drin ei glwyfau, a'u gwnaethant yn saith gwaeth; yr oedd y feddyginiaeth cynddrwg a'r clwyf. Y mae yn penderfynu gwneyd ei oreu i ymryddhau ryw fodd yn llwyr oddiwrth y gofidiau hyn am gyflwr a byd tragywyddol; ond er ymdrech a phob peth, yr oedd yr adnod fechan wedi glynu yn ei galon, fel yr oedd yn anmhosibl cael ganddi ollwng ei gafael. Yr oedd swn "Ein Duw ni sydd dân ysol," yn terfysgu y galon ddydd a nos, ac yn taflu yr holl dŷ i ddyryswch. Y mae tân wedi ei gyneu yn mynwes y pen-campwr; ac y mae yn awr yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn Immanuel a'i deyrnas, ac yn dechreu symud ei holl fyddinoedd i ymladd yn erbyn Iachawdwr y byd. Ni fyn gael ei achub; y mae yn penderfynu dileu holl argraffiadau y gwirionedd santaidd oddiar ei feddwl. Bu mewn ymladdfeydd caled â llawer o'i gyd-greaduriaid cyn hyn, eithr yn awr y mae yn penderfynu ymladd ornest ag Arglwydd nef a daear, ac alltudio pob meddwl am y cyfryw Fod allan o'i enaid am byth. Y mae yn dechreu ymsymud eto o dafarn i dafarn, dan rwygo a rhegu; ac ymddengys fel pe byddai saith cythraul ynddo, gwaeth na'r cyntaf. Tyngai yn fwy aml ac yn fwy haerllug; ymladdai yn fwy tebyg i gythraul wedi newydd ei ollwng yn rhydd oddiwrth y gadwyn uffernol, nag i ddyn. Er hyn oll, ac ar ol hyn oll, yr oedd yr adnod fechan, "Ein Duw ni sydd dân ysol," yno o hyd, ac yn llosgi yn annyoddefol hefyd. Yr oedd rhyw beth arno, ond ni fynai gyffesu wrth neb, eithr ceisio ei feistroli, a dyfod allan o'r frwydr hon wedi gorchfygu Arglwydd y lluoedd

Yr oedd y cymydogion yn gwybod o'r goreu fod rhyw beth arno nad oedd yn arferol o fod, neu ynte fwy o'r peth oedd yn arferol o fod—un o'r ddau. Y mae yn debygol nad oedd neb yn meddwl mai y Bibl oedd yn ei aflonyddu, ond yn hytrach ei fod wedi ei feddianu gan yr ysbryd drwg yn fwy llwyr, neu fel y dywedent, "wedi ymwerthu yn llwyr i ddiafol." Yr oedd yn gweled, eb efe, "Ein Duw ni sydd dân ysol," mewn llythyrenau mawrion tanllyd o flaen ei lygaid lle bynag yr elai. Nid yn unig eu bod yn deimlad ofnadwy yn y meddwl, "ond yr oeddwn," meddai, "yn eu gweled yn dân coch o flaen fy llygaid." Beth bynag am hyny, y mae yn ddigon amlwg ei fod yn ymylu ar wallgofrwydd anfeddyginiaethol, ac mewn perygl bob dydd oddiwrtho ei hun. Gan ei fod yn flin iawn, ac yn methu cysgu nemawr o ddim er ys wythnosau lawer, penderfynodd fyned i dref Castellnedd o bwrpas i geisio meddwi ei hun yn ddideimlad, i edrych a fyddai modd iddo gysgu wedi hyny. Yfodd lawer cyn hyn aml noson, ond yn rhywfodd nid oedd yn effeithio meddwdod fel arfer, am hyny gwnaeth ei feddwl i fyny i wneyd ymdrech i roi ei hun i gysgu yn dawel. Dacw efe yn ymaflyd yn ei ffon—yr hen geffyl pren, fel y dywedai—yn taro i bant, ac yn cerdded tua saith milldir er mwyn meddwi i farwolaeth, os oedd bosibl. Nid ydym yn gwybod beth a allasai fod yr amcan wrth fyned mor bell, canys yr ydoedd yn myned heibio i ddigon o dafarndai, tebygem ni, cyn ei fod haner y ffordd; ond beth bynag, dyna fel y bu. I Gastellnedd yr aeth, a dechreuodd ar y gorchwyl o yfed yn ddiarbed, ond yn methu meddwi. Syndod! ïe, syndod yn wir. Beth, cwrw ddim yn meddwi? Y mae hyn fel pe dywedech nad yw dwfr ddim yn boddi, neu dân ddim yn llosgi. Wel, yn wir y mae yn rhyfedd, ond fel hyn y bu; canys yfodd dair awr yn ddiarbed, yn wahanol i'r dull arferol o yfed; eto yr oedd meddwdod yn awr fel pe buasai yn cilio draw oddiwrth yfed, neu fel pe na buasai yr un cysylltiad na pherthynas rhyngddynt. Yn lle gallu meddwi, dychrynfeydd sydd yn cynyddu yn ei gydwybod; y mellt fel yn myned yn fwy tanbaid, llais yr udgorn fel pe buasai yn codi uwch, uwch, a'r holl fynydd yn ymddangos fel pe bai ar dân. Yr oedd "Ein Duw ni sydd dân ysol," meddai, mewn llythyrenau mawrion tanllyd bron wrth bwys ei wyneb, fel y bu agos a thynu ei gyllell am draws ei wddf. Ond yn lle hyny galwodd am lasaid o wirod. Penderfynodd, os darfu iddo fethu meddwi ar gwrw, y gwnai gwblhau yr amcan drwy yfed *brandy*. Yfodd, ac yfodd eilwaith am oriau, nes yr yfodd gymaint ag oedd yn ddigon i feddwi saith neu wyth o ddynion cryfion; ond yn ddieffaith,—yr oedd meddwdod fel pe buasai yn cilio oddiwrtho, a dychrynfeydd cydwybod euog yn myned fwy-fwy. Clywsom ef yn dywedyd mai un o'r pethau rhyfeddaf a deimlodd yn ei fywyd oedd methu meddwi er gwneyd pob ymdrech yn y byd i'w wneyd. Yn wir, yr oedd hyn yn rhyfedd; ac y mae yn anhawdd iawn cyfrif am y cyfryw beth, eto y mae yn wirionedd perffaith. Gorfod oedd arno ddychwelyd adref y

noson hono eilwaith yn sobr, ac heb y teimlad lleiaf o gwsg, a Duw yn "dân ysol," yn llosgi ac yn difa yn y meddwl. Ar y ffordd wrth ddychwelyd penderfynodd eilwaith droi i dafarn, yr hwn oedd wrth ochr y ffordd, i gwblhau ei amcan, os oedd bosibl yn y byd, canys yr oedd wedi myned yn rhy ofnadwy a dychrynllyd i fyw yn hŵy yn y boen hyn. Gyda'r amcan hyn trodd i mewn i'r dafarn grybwylledig; ond wedi iddo fyned i mewn drwy y drws, dychrynodd, methodd ddyweyd un gair, a gwelai y cwbl o fewn can ddued a'r gloyn, yn dywyllwch eithaf, heb un llewyrch o oleuni yn tywynu. Meddyliodd ei fod yn teimlo ei goesau yn ei ollwng, a bod y ddaear yn agor ei safn yn anferth, fel y penderfynodd y byddai yn uffern cyn nemawr o fynydau. Trodd allan heb alw am ddim, ac adref yr aeth yn unionsyth, yn gruddfan mewn dychryn a braw. Hyd yn hyn nid oedd wedi meddwl am weddio a cheisio maddeuant, eithr rhyfela â Duw hyd yr eithaf.

Yr oedd y *cholera* cyntaf fu yn ein gwlad y pryd hyn yn gwneyd galanasdra echrydus ar fywydau, ac yr oedd pawb yn eu teimladau yr amser hwn yn byw yn mro "marwolaeth a chysgod angau." Wedi dychwelyd o George adref y noson hono, a myned i'r gwely, gan obeithio y cai gysgu bellach, a thrwy hyny gael ychydig o esmwythad o'i boen, mor gynted ag y gorweddodd tybiodd ei fod yn teimlo y *cholera* yn ymaflyd ynddo, a bod y cwbl drosodd am byth. Neidiodd o'r gwely, a gwaeddodd, "Sophi, y mae'r dolur angeuol wedi ymaflyd ynof; mi fyddaf yn ddyn marw cyn nemawr o amser!" Dyma y pryd y meddyliodd am weddio fel yr unig feddyginiaeth; syrthiodd ar ei ddeulin, a bloeddiodd allan gymaint byth ag y gallai am i Dduw gymeryd trugaredd arno, ac os oedd yn meddwl lladd ei gorph, am weled bod yn dda achub yr enaid i fywyd tragywyddol. Yr oedd Sophi erbyn hyn wedi codi yn ei heistedd yn y gwely mewn dychryn a braw, ac er na chafodd ar ei meddwl i weddio ei hunan, yr oedd yn curo ei dwylaw pan oedd ei phriod wrthi, ac yn gwaeddi allan, "Sticia, George; sticia, George, gwna dy oreu!" Y mae yn ddigon tebyg ei fod, druan, yn gwneyd goreu y gallai, canys yr oedd mewn helbul blin, ac yn teimlo yn wirioneddol yr angen am drugaredd. Dyma y weddi gyntaf yn nhŷ George; a gweddi ryfedd ydoedd; ond nid hon oedd yr olaf, oblegyd tŷ gweddi y gelwid y tŷ hwn mwyach.

Wedi rhyw gymaint o amser o dywydd blin, ymdrech i weddio, a cheisio esmwythad i'w feddwl terfysglyd, ac yn methu mewn modd yn y byd ei gyrhaedd, ond yn hytrach yn myned waeth waeth, gwnaeth benderfyniad i droi ei wyneb at bobl yr Arglwydd oedd dan yr enw o Fethodistiaid Calfinaidd, yn ymgynull mewn capel cyfagos. Yno yr aeth fel dyn gwyllt, ac yn haner gwallgof, heb wybod beth i'w wneyd, na pha beth i'w ddyweyd. Yn wir, nid oedd y bobl dda hyny nemawr yn gallach nag yntau; canys tarawyd hwynt oll â syndod pan y gwelsant ef,ac aethant mor hurt ag anifeiliaid direswm; nid oeddynt

hwythau yn gwybod beth i'w ddyweyd, na pha beth i'w wneyd ychwaith. Yr oedd dyfodiad George mor ddyeithr ac mor annysgwyliadwy iddynt a phe codasai un oddiwrth y meirw, neu o drigfanau yr ysbrydion aflan. Pwy dan haul fuasai yn breuddwydio gweled George y *bruiser*, George y tyngwr, George y meddwyn, ïe, George y blaidd, yn dyfod i ofyn am le yn mhlith yr ŵyn? Yr oedd ei ymddangosiad yn eu plith fel ymddangosiad Saul yr erlidiwr yn mysg y dysgyblion, ac yn cynyrchu yr unrhyw effeithiau. "O Arglwydd," meddai pawb, "ni a glywsom lawer am y gwr hwn, faint o ddrygau a wnaeth efe i'th saint di. Ac yma y mae ganddo awdurdod oddiwrth yr archoffeiriaid i rwymo pawb sydd yn galw ar dy enw di." Felly y dywedodd Ananias, a rhyw beth cyffelyb yr oedd yr holl bobl yn meddwl am wrthddrych ein hanes pan y trodd efe ei wyneb gyntaf atynt. Yr oedd yn yr hen Ddyffryn ddewrion yn y ffydd, y rhai, meddir, nad oeddynt yn prisio am wyneb un dyn, ac edrychid arnynt fel cewri yn y dyddiau hyny; eto yn rhyw fodd, yr oeddynt oll yn ymddangos fel gwŷr cedyrn wedi colli eu nerth yn wyneb ymddangosiad George yn eu plith. Yn mysg y gwroniaid hyn yr oedd un o'r enw William Rees, yn wron o hyd pan y byddai pawb ar lawr; eithr yn awr yr oedd efe wedi colli ei wrolder arferol, ac yn barod i encilio i'r cysgod, pe medrai. Y mae William Rees, serch hyny, yn gryfach na'r lleill drwy y cwbl, ac o'r diwedd mae yn codi, yn ymysgwyd, yn cenglu ei hun, ac yn dywedyd, "Wel, fechgyn, y mae yn rhaid myned yn y blaen; nid gwiw i ni edrych ar ein gilydd, a myned yn bendrwm; codwn, ac awn at y gwaith." Yr oedd George yn sefyll, dan bwyso ar ei ffon yn debyg i ddyn wedi dianc oddiwrth y gwylliaid, ac ni wyddai, debygem, ar y pryd pa un ai sefyll ai eistedd yr ydoedd. "Och!" ebe pawb, "beth sydd i ni a wnelom â thi?" Beth bynag, y mae y gwron William Rees yn anturio o'r diwedd, ac yn tori ato, gan ddywedyd, "George, beth ddaeth a thi i'r fan hyn?" Edrychodd y *bruiser* yn wyllt iawn ar bawb o gwmpas y capel, a throdd y llawffon o gwmpas ei ben ddwywaith, fel pe buasai wedi ei daro yn fud, ac heb allu siarad dim. Synodd pawb, fel nad allasent symud o'u lleoedd. Gyda hyn dyma floedd annaearol yn dyfod allan, nes yr oedd yr holl dŷ yn crynu; "William Rees, William Rees, y mae rhyw beth yn fy lladd!" Och, dyma deimlad! anmhosibl yw ei ddesgrifio; yr oedd gwyneb pawb yn laswyn, a bron yn llesmeirio. Dacw George yn edrych o gwmpas eto, yn troi y llawffon eilwaith o gwmpas ei ben, a'r floedd fawr yn dyfod allan fel taran drachefn, "William Rees, y mae rhyw beth yn fy lladd; y mae rhyw beth yn fy lladd!" Y mae y gwron William Rees yn colli ei nerth arferol; y mae y bloeddiadau dychrynllyd yn cynyrchu rhyw effeithiau dyeithr, nes oedd blew ei gernau yn sefyll, a'i goesau fel yn ymollwng dano. Er hyn i gyd, y mae ein hewythr William yn gwneyd ymosodiad, ac yn ceisio gwneyd ei oreu, ac yn llwyddo hefyd, yn weddol, o'r diwedd. Y mae yr hen frawd yn cael anadl ac adferiad nerth,

ac yn gofyn yn araf deg, "George bach, fe allai y dywedi wrthym beth sydd yn dy ladd." "Beth sydd yn fy lladd?" ebe yntau; "William Rees, rhowch ryw help i fi; dyma fi bron yn uffern! y mae satan yn fy llindagu y foment hon; y mae bron yn fy lladd; ac yr wyf finau yn methu credu fod un Duw yn bod i fy helpu." Yr oedd pawb erbyn hyn yn argyhoeddedig fod rhyw beth ofnadwy am ei achos tragywyddol ar feddwl George, nes yr oedd cydymdeimlad ag ef wedi eu meddianu oll yn llwyr. Yr oedd difrifoldeb yn ddarllenadwy yn ei holl agweddiad, ac yn deimladwy oddiwrth ei eiriau. Y mae y brawd ffyddlawn William Rees yn dechreu symud yn nes ato, a chan edrych yn ei wyneb yn siriol, dywedodd, "George, mae Duw yn bod, fachgen, ac y mae yn yr ymyl, ac yn barod i dy helpu, fel na chaiff y cythraul, er ei holl rym uffernol, byth dy ladd!" Pryd hyn yr oedd yr hen Ddyffryn yn fyw i gyd, ac ambell i "Fendigedig" yn dyfod o ryw le yn nghyfeiriad y pwlpud. "Wllliam Rees," ebe ein harwr, "yr y'ch chwi yn dyweyd fod Duw yn bresenol, a'i fod yn y fan yma yn awr; gwelwch yn dda, William, ei ddangos ef i mi, ac yna credaf ynddo yn y fynyd; ïe, cyn symud o'r fan hyn yn awr."

Taflwyd y cyfan i ddyryswch am dipyn, pawb yn methu deall pa fodd y gwnelsid i argyhoeddi George fod Duw, a'i fod ef yn ei ymyl. Ond y mae y brawd William Rees yn dyfod i'r maes eilwaith, ac yn gofyn, "A fuost ti yn darllen y Bibl ryw bryd? a wyddost ti beth y mae hwnw yn dyweyd am Dduw, ac am ei hollbresenoldeb?" "Yr wyf wedi darllen peth ar y Bibl Saesoneg," medd George; "ond a wyddoch chwi, William, a oes rhai o Fiblau Peter i'w cael yn awr?" A chan daro ei law yn ei logell, a thynu dau benadur allan, y mae yn dywedyd, "Dyma ddau *sovereign*, y rhai a roddais heibio tuag at gael *clock;* mi a'u rhoddaf yn awr am un o Fiblau Peter." Wedi hir ymddyddan o'r natur hyn, ac heb ryw weledigaeth eglur, meddyliwyd mai y peth goreu fyddai ei adael i gael lle yn y tŷ ar brawf, i edrych beth a wnai y Brenin mawr ag ef; gan obeithio y delai mewn ychydig amser i well trefn, ac y rhoddai y Creawdwr mawr ffurf gwell ar ei feddyliau.

Wedi i'r swn fyned allan fod y *bruiser* wedi myned yn grefyddwr, fel y gallesid dysgwyl, y mae cawodydd o ddirmyg yn ymarllwys am ei ben; efe oedd testun y tafarndai a'r gwyl-mabsantau drwy yr holl wlad. "Y mae George wedi myned yn grefyddwr," meddai un; tyngai y llall na fyddai efe ddim yn grefyddwr yn hir—mai gyda hwy y byddai efe eto cyn nemawr o wythnosau. "Pe baem yn gwybod pa bryd y byddai yn gweddio, aem i'r cwrdd o bwrpas i'w glywed," meddent. Pan y byddai yn myned heibio i ryw dwr o fechgyn, yr oedd mewn profedigaeth dost yn gyffredin, canys yr oeddynt yn chwerthin, ac yn taflu pob math o ddirmyg ag oedd yn bosibl ar y crefyddwr newydd. Ebe rhyw fachgen, "Yr wyf yn methu deall pa fodd y gadawodd William Rees y —— i fyned i mewn i'r *society;* y mae efe yn

sicr o wneyd rhyw ddrwg yno cyn bo hir." Byddai George yn awr yn gweddio yn ei dŷ, a rhyfedd yr helbul oedd arno gyda hyny, yn gymaint a bod yr holl gymydogaeth yn ei gymeryd y fath syndod, a'i hen gyfeillion yn ymgrynhoi o amgylch y tŷ i'r dyben o'i glywed a'i wawdio. Os byddai rhyw lanciau gerllaw pan y byddai efe yn dechreu gweddio, galwent ar y lleill i ddyfod yno gynta' gallent, i glywed George yn gweddio. "Dewch yma, hawyr," ebe'r bachgen gogyfer a'r ffenestr, "y mae Heycock yn gweddio." Dyna lle byddai un yn rhedeg ar ol y llall, fel pe byddai y weledigaeth fwyaf erioed. Fe allai, gyda hyn, y byddai careg yn dyfod drwy y ffenestr at ei ben; ac un tro neu ddau, lluchiwyd cŵn a chathod i mewn ar yr awr weddi, nes dyrysu yr addoliad bron yn llwyr. Yr oedd yn dygwydd un boreu, pan yr oedd George yn gweddio, fod hwch a pherchyll wedi dyfod o rywle i gyfer y ffenestr, y rhai a luchiwyd i mewn drwy y ffenestr, porchellyn ar ol porchellyn, nes yr oedd y tŷ yn haner llawn o berchyll, a'r hen hwch yn ddychrynllyd o sarug, yn agor ei phen, ac yn ymddangos yn benderfynol i lyncu pawb i fyny yn fyw. Yr oedd y llanciau erbyn hyn wedi gwneyd y goreu o'u traed, a gadael George yn y brofedigaeth a'r helynt fwyaf rhyfedd a welsoch erioed yn nghanol y perchyll. Dinystriwyd y weddi wrth bob rheswm; ac nid yn unig hyny, ond yr oedd ein harwr mewn perygl mawr rhag i'r hen hwch dori i mewn i'r ystafell, a gwneyd difrod, y mae yn anhawdd gwybod pa faint, ac fe allai beryglu bywyd y teulu hefyd. Yr oedd yr olwg ar George yn brasgamu o un man i'r llall, gan geisio dal y perchyll, yn ddigon rhyfedd; ond yr oedd hyny yn darfod pan y meddylir bod eu hysgrechfeydd yn cynhyrfu yr hen hwch oddiallan fel nad oedd y teulu yn ddiberygl. Bu ein gwron bron a thyngu y pryd hwnw yn nghanol y moch bach; ond ymataliodd, a chadwodd yn bur oddiwrth hyny. Wedi llwyddo i gael y perchyll allan, ac adferu heddwch drachefn, teimlai George yn ei galon duedd gref i fyned allan a rhoi cosfa ddihafarch i'r cyfeillion hyny; ond daeth y gair fel taranfollt i'w feddwl, "Gwyn ei fyd y gwr sydd yn goddef profedigaeth: canys pan fyddo profedig, efe a dderbyn goron y bywyd, yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef." Enciliodd i'r cysgod am ychydig nes i dân y brofedigaeth ddiffodd, ac yna aeth yn y blaen gyda ei alwedigaeth fel arferol. Yr oedd amcan yn ddiamheu yn ei hen gyfoedion i'w dynu i brofedigaeth, oblegyd yr oeddynt yn benderfynol yn eu meddyliau nad allasai byth oddef y pethau hyn, ac y caent wledd hyfryd yn ei gwymp. Eithr sefyll a wnaeth, er syndod i bawb. Er ys ychydig yn ol, y dyn diweddaf fyddai efe i neb gymeryd y fath ryddid gydag ef; nid oedd neb a fuasai yn anturio felly; ac os gwnai, byddai mor sicr o gael eithaf maethgen a'i fod yn fyw. Er y cwbl, o drugaredd, yn y blaen yr aeth ein gwron; er gwaethaf lluchio cŵn a chathod, coed, ceryg, a pherchyll.

Yr oedd George yn awr yn grefyddwr diwyd a ffyddlawn, yn mynychu pob moddion o ras yn gyson a difwlch; eithr y mae yn

rhaid cyffesu fod yr olwg arno yn ddigon chwithig, yn rhywbeth tebyg i ebol gwyllt heb ei docio erioed, newydd ei gyrchu oddiar ben un o fynyddoedd uchaf y wlad, ac heb fod Rarey y dofwr wedi bod erioed uwch ei ben. Yr oedd hen glemiau maswedd ac oferedd yn ddigon amlwg yn ei berson; hen ddulliau y dafarn heb eu dileu o'i gyfansoddiad; mewn gair, yr oedd fel y frân ddu yn mhlith y colomenod. Yn mhen ychydig o amser awd i ymddyddan ag ef eilwaith yn yr eglwys i edrych ar ba dir yr ydoedd, ac a oedd rhyw argoel ei fod yn dyfod i'r goleuni am bethau ysbrydol. Byddai y cyfeillion yn gobeithio yn gryf fod y Creawdwr, yr hwn oedd wedi dwyn y dryblith i drefn a phrydferthwch yn y greadigaeth gyntaf, erbyn hyn wedi gwneyd rhyw drefn ar feddwl cymysglyd yr hen ymladdwr. William Rees, yr hwn oedd fel oracl y gymdeithas grefyddol yn yr amser hwnw, a gododd i fyny, ac wedi peth pesychu, yn nghyda gwneyd ychydig o ragddarpariadau eraill, gofynodd i Heycock am ddyweyd ychydig o'i helynt yn bresenol. Nid rhyw oleuni mawr oedd ar y mater eto; lled gymysglyd oedd pethau yn mynwes ein harwr; yr unig beth oedd yn amlwg oedd ei fod yn teimlo ei hun yn golledig, a bod rhyw beth yn ei ladd o hyd, ond ni wyddai yn y byd pa fodd y gallesid ei gadw. Yr oedd yn foddlawn gwneyd pob peth oedd yn ei allu er mwyn bod yn gadwedig; a byddai yn ddiolchgar iawn iddynt am gyfarwyddyd pa fodd i wneyd. Wedi bwrw llawer o ymadroddion ato, y rhai nad oedd efe yn eu dirnad yn dda, cododd y brawd William Rees drachefn, a dywedodd, "Yn awr, George, ti wyddost pan y bydd rhywun yn *listio* yn filwr, ei fod yn dyosg yr hen ddillad, ac yn gwisgo y dillad cochion; ac y mae George Rex, fel y gwyddost, yn ysgrifenedig ar goler y *goat*. Yn awr, y mae yn rhaid i tithau, cofia, ddyosg yr hen ddillad yr oeddit yn arfer eu gwisgo, a chael pâr o ddillad newydd, ac enw y Brenin yn ysgrifenedig arnynt." Edrychodd ein harwr yn hyll iawn; agorodd ei lygaid yn anferth, ac ymddangosai mewn teimladau synedig a chymysglyd, fel pe buasai mewn dyryswch mawr yn nghylch rhyw beth; ond yn y diwedd torodd allan a dywedodd, "William Rees, y mae yn ddrwg genyf ddyweyd ei bod yn hytrach yn gyfyng ar fy amgylchiadau ar hyn o bryd, fel nad oes genyf arian i'w prynu; ond yr arian cyntaf a ddaw i'm llaw i, a gaiff fyned am danynt. Mi a'u mynaf, beth bynag yn y byd a gostiant." Gyda hyn y mae Thomas Robert yn neidio ar ei draed, i'r dyben o egluro y mater, canys yr oedd yn canfod fod y brawd William Rees yn siarad uwchlaw amgyffredion ei ddysgybl, ac o herwydd hyny ei fod o dan argraffiadau cyfeiliornus a pheryglus, gan ei fod yn cymeryd pob peth yn naturiol a dynol, ac nid yn gyfriniol ac ysbrydol. "Nid felly, George," ebe ein hewythr Thomas; "nid dillad fel yna y mae'r brodyr yn feddwl, eithr dillad crefydd; buchedd newydd, byw yn y byd mor debyg ag y gallom i'n Harglwydd Iesu Grist, dylyn ei ôl ef, a bod enw Brenin Sïon i'w weled yn amlwg yn ein holl ymarweddiad, fel y gallo y byd

ddarllen yn eglur ein bod yn filwyr o dan faner y groes." "Ho, felly," ebe George; "o'r goreu, Thomas Robert; mi wnaf fi fy eithaf i wneyd fel yna, chwi gewch weled." Yr oedd y cyfeillion yn bur dyner, ar y cyfan, a gobeithient ar ol yr ymddyddanion hyn y delai yn fwy i'r goleu, ac yn gydnabyddus yn y man â'r brawddegau ac â'r cymhariaethau a ddefnyddid mewn *societies* er egluro pethau mawrion teyrnas nefoedd; canys yr oedd efe hyd yn hyn, fel y gellir gweled, yn bur annghynefin â'r ysbrydol oedd mewn pethau. Yr oedd efe yn gnawdol eto, ac yr oedd yn rhaid iddo wrth "laeth, ac nid bwyd cryf."

Yr oedd ei brofedigaethau yn aml, fel y crybwyllasom, a chryn beth oedd ei weled yn gallu sefyll yn eu gwyneb gystal; yr oedd hyny yn dangos ei fod o dan deimladau pwysig, ac wedi ffurfio penderfyniad cryf iawn i ymgais am fywyd tragywyddol. Y mae yn ddigon tebyg fod yr Arglwydd yn ei arwain drwy dywyllwch, a ffyrdd anadnabyddus, i beri iddo ddeall, gan ei ddwyn drwy "dân a dwfr i le diwall." Meddyliwyd yn angenrheidiol cymeryd Heycock mewn llaw eilwaith ryw *society*, i roddi ychydig o wersi newyddion iddo, a cheisio ei ffurfio i dipyn o drefn grefyddol; canys yr oedd pentyru gormod o bethau am draws eu gilydd yr un noson, yn hytrach yn anfanteisiol i'w gof a'i amgyffredion, ac felly yr oeddent yn "rhoddi gorchymyn ar orchymyn, llin ar lin, ychydig yma ac ychydig acw." Bu cryn ymddyddan y noson hon, ac ymgais nid bychan i godi y truan o'r pridd tew a'r clai tomlyd, canys yr oedd yn ymddangos ei fod yn ddwfn iawn yno. Yr ydoedd yn ymylu ar anobaith, bron yn myned i ddyweyd fod ei bechodau yn ormod i'w maddeu, ac mai dyn colledig ydoedd, heb obaith am Geidwad. Daeth y cyfeillion â llawer o ddawn a medrusrwydd i'r maes y noson hon i geisio dangos Ceidwad, fel y mae yn cael ei egluro yn yr efengyl; eithr wedi y cwbl methasant yn un wedd ei ddangos i feddwl terfysglyd a bron anobeithiol ein harwr. Cododd yr hen frawd Thomas Robert, yr hwn oedd yn un o'r gwroniaid yn y ffydd, a gofynodd, "A wyt ti ddim yn teimlo dy hun yn well, ac yn fwy cysurus yn dy feddwl, wedi yr ymddyddanion sydd wedi bod gan dy frodyr yma?" "O nag wyf," ebe yntau, "un tipyn erioed; yr wyf yn myned waethwaeth, yr wyf cyn ddued ag uffern; yr wyf yn ofni bod yn mhlith cythreuliaid cyn y boreu fory. Beth a wnaf?" "Wel, fy machgen i," ebe yr hen wr, "nid oes dim i'w wneyd ond ceisio myned i'r llwch, a gweddio am drugaredd. Trugarog a graslawn yw yr Arglwydd, fel yr ydym yn darllen yn ei air; ac os gelli di fyned i'r llwch, yr ydwyt yn sicr o'i gyfarfod yno, a bydd yn ddiamheu gystal a'i air hefyd; canys ni fwriodd ymaith neb erioed a aeth â'i enau i'r llwch i edrych a oedd gobaith." A'r cyfryw ymadroddion y bu y cyfeillion caredig yn ceisio ei ddyddanu, hyd y gallai wrando; a gweddiwyd yn daer drosto gan y brawd oedd yn dybenu y cyfarfod.

Wrth fyned adref y noson hono yr oedd George yn ymdrechu ei oreu i astudio y gwahanol ymadroddion a ddefnyddiwyd yn y

gymdeithas grefyddol; eithr yr oedd yn methu dyfalu pa beth oedd y gair "llwch" a ddefnyddiwyd, yr hyn oedd yn dra phwysig iddo ef, yn gymaint a bod yn rhaid iddo ef fyned a'i enau yno, fel y dywedai yr hen frawd, ac y byddai yno yn sicr o lwyddo i gael trugaredd. Nid oedd y gair "llwch" o arferiad cyffredin yn y cylch y bu efe yn troi, eithr rhyw lygriad o'r gair, ac felly yr oedd yn dygwydd bod yn anneallus iddo ef. Eithr, yn gymaint a bod y fath bwys yn y peth, penderfynodd fynu gwybod, drwy ryw foddion neu gilydd, beth oedd ystyr y gair "llwch." *Dictionary* oedd yn rhaid gael, a phendefynodd fyned i Gastellnedd at lyfrwerthwr cyfrifol oedd mewn masnach yno i chwilio am Eiriadur Cymraeg a Saesoneg. Beth bynag, tra yn y cyfyngdra meddwl hwn yn nghylch y gair "llwch," ac yn bwriadu myned i Gastellnedd mor gynted ag oedd yn bosibl, yn ddamweiniol ac annysgwyliadwy, cyfarfyddodd â Thomas y gôf, yr hwn oedd yn ddyn deallus iawn mewn pethau o'r fath, ac yn cael ei adael yn dipyn o brydydd, os nid *bardd* yn wir. Beth bynag am hyny, yr oedd yn ddyn o wybodaeth eang yn nghylch tarddiad geiriau, a phethau o'r fath hyny. Byddid yn ei ystyried yn awdurdod yn mhlith y Cymreigyddion, a braidd nad ystyrid ef gan y cyffredin yn eirlyfr perffaith ynddo ei hun. Felly yr oedd llawenydd George yn annhraethol pan ddygwyddodd iddo gyfarfod â Thomas mor annysgwyliadwy, yn y dyryswch hwn. Agorodd ei lygaid yn lletach nag arferol, a dywedodd gyda nerth a bywiogrwydd, "Myn dyn, Thomas, ni bu erioed gystal genyf dy weled ag heddyw, canys yr oeddwn yn y drafferth fwyaf erioed o ran fy meddwl." "Beth yw'r mater, fachgen?" ebe'r llall. "Wel, a oeddit ti yn y *society* pwy noson yma, ac a glywaist ti nhw yn dyweyd fod yn rhaid i ddyn fyned i'r llwch? Yn awr, yr oeddwn yn meddwl myned i'r dre' heno, i brynu *Dictionary*, i edrych beth yw'r gair "llwch," canys yr wyf yn methu dyfalu beth ydyw. Ni ddaeth i fy nghof am danat ti, onide buaswn wedi dyfod atat; mawr gystal sydd genyf dy gyfarfod! canys gwn y gelli di egluro y gair, a dywedyd wrthyf ei ystyr. Gair Cymraeg ydyw, onide Thomas?" Ymgrynhodd Thomas ei wefusau, chwyddodd allan, a lledodd ei ysgwyddau, a gosododd un droed o flaen y llall, ac ymddangosodd yn mhob modd fel yn gwneyd rhagddarpariaeth i fyned yn nghyd â gorchwyl pwysig. Wedi cael ei hun fel hyn i ffurf ac agwedd weddus, a theilwng o ddyn mawr a gwybodus, y mae yn dechreu rhagymadroddi er gosod pethau mewn goleu priodol cyn myned i mewn i'r cwestiwn. Wedi gwneyd sylw manwl a dysgedig ar y gair "llwch" yn ei dadogaeth, a'i wahanol gysylltiadau, y mae yn dyweyd fod y Saeson yn ei gyfieithu yn "*dust*." Erbyn hyn yr oedd George yn y goleu yn berffaith, ac yn llamu ar un goes fel un wedi cael "ysglyfaeth lawer," gan ddywedyd, "Fachgen, ai yr un peth â *dust* ydyw? pw, pw, yr wyf yn gwybod beth ydyw yn awr yn burion." Wedi cael y gair Saesoneg unwaith, efe oedd ben, canys fel y dywedasom yn y benod o'r blaen,

bwriadwyd ef i fod yn *ddoctor* yn moreu ei oes, ac felly codwyd ef mewn ysgol dda, fel yr ydoedd yn un o'r Saeson goreu yn yr ardal. "Dyna, dyna, Thomas," eb efe, "nid oes yn rhaid i ti gymeryd rhagor o drafferth, mi wn beth yr oeddynt yn feddwl yn berffaith yn awr."

Er i George druan ddeall y gair "llwch," y mae yn ymddangos wedi y cwbl nad oedd wedi deall *ysbrydolrwydd* y gair, a'r synwyr yn mha un y defnyddiwyd ef yn y gyfeillach eglwysig, gan yr hen frodyr crefyddol. Yr oedd yn anhawdd iawn ei gael ef i ddeall pethau ond yn eu hystyr naturiol; nid oedd yn gallu myned i mewn i'r dirgeledigaethau hyd yn hyn, a'u hysbrydoli hwynt. Y mae llawer yn medru ysbrydoli pob peth ag sydd yn y Bibl—y coed, y ceryg, yr haiarn, y pres, y padellau, y rhawiau, yr hoelion, yr edau, y cnapiau, ac hyd yn oed yr esgidiau a wisgai y brenin Solomon; ond am George, druan, yr oedd efe yn methu ysbrydoli dim. Yr oedd hyn yn golled. Beth bynag, wedi dyfod o hyd i wir ystyr y gair "llwch," aeth yn nghyd ag astudio y frawddeg, "myned i'r llwch, a rhoi y genau yn y llwch, ac oddiyno weddio a cheisio maddeuant a heddwch y Goruchaf." Gwelai y peth erbyn hyn yn ddigon amlwg; nid oedd tywyllwch yn y byd mewn cysylltiad â'r mater mwyach, ac nid oedd dim i'w wneyd ond edrych allan am le cyfleus i wneyd hyn. Yr oedd yn dygwydd bod yn bur sych yn yr haf, fel yr oedd digon o "lwch" bron yn mhob man, yn enwedig ar yr heolydd a'r tomenau lludw; ond nid oedd y lleoedd hyny yn gyfleus i gael llonydd i orwedd ynddo, oblegyd byddai ceffylau a chludau yn myned heibio ar hyd y ffordd, fel y byddai yn angenrheidiol i ddyn godi yn aml, hyd yn oed yn nghanol ei weddi, neu ynte fod yn ddibris o'i fywyd, yr hyn nad allesid gymeradwyo mewn modd yn y byd. Byddai y tomenau lludw hefyd yn bur annghyfleus, gan eu bod mor agos i'r tai, cymaint o dramwy yn ol ac yn y blaen gan y trigolion, ac yn wir, lluaws o foch yn ymdreiglo yno. Yr oedd peth arall hefyd wedi taro i feddwl George, sef fod y "llwch" yn hytrach yn fach yn y lleoedd a nodwyd, i ymdreiglo ynddo yn ddihafarch; ac am hyny fod yn angenrheidiol edrych allan am ryw le mwy cyfleus, gyda mwy o gyflawnder o lwch. Wedi ffurfio y penderfyniad hwn, aeth allan i wneyd ymchwiliad, a nodi allan fan priodol i gael cyflawni y ddyledswydd grefyddol grybwylledig; canys yr oedd brys arno, o herwydd ei dywydd blin. Ac, yn gymaint a bod y brawd yn sicrhau, ond iddo wneyd hyn, y byddai yn ddios yn cyfarfod â Duw mewn heddwch a maddeuant, nid oedd digon o frys i fod, i'r dyben o gyrhaedd y fath amcan goruchel, a chael mwynhad o'r bendithion anmhrisiadwy, y rhai yn unig a allasai roi tawelwch a gorphwysfa i'w enaid cythryblus.

O dan y mynydd uchel, yr hwn sydd fel pinacl ardderchog, yn estyn ei wddf fel pe bai mewn cariad â'r ser fry, ar ael y bryn, heb fod yn mhell o'r Groeswen, y canfyddai gae llethrog, wedi ei aredig a'i fraenaru, ac yn lle cyfleus a phriodol yn mhob ystyr i

fyned trwy ei ddyledswyddau crefyddol er mwyn derbyn heddwch y Goruchaf. Dacw ef yn dringo i fyny, drwy nerth y llawffon, ac yn mhen tipyn, wele ef yn cyrhaedd y tir dymunol. Nid oedd dim i'w derfysgu; yr oedd unigolrwydd yn teyrnasu yn ddystaw a phruddaidd ar y llethr, oddigerth ambell waith fod seiniau melusber yr uchedydd yn tori ar y dystawrwydd. Wel, dyna George wedi cael digon o lwch o'r diwedd; dyma lon'd cae o'i flaen, a thyma yntau yn ei ganol. Gorweddodd yn y rhŷch, a'i wyneb i lawr, gosododd ei enau yn y llwch, fel y dywedai Thomas Robert; cododd y llwch ar ei ben, trodd ar ei ochr, wedi hyny ar ei gefn, ac yn mhob ffordd, er mwyn ymdreiglo yn llwyr ynddo, gan waeddi nes yr oeddynt yn ei glywed o'r pentref nesaf, "Arglwydd, trugarha wrthyf yn awr; dyro heddwch i mi yn awr; maddeu fy mhechodau mawrion yn awr; dyma fi yn ymdreiglo yn y llwch, ac yn gosod fy ngenau yn y llwch, fel y dywed Thomas Robert; dere ataf, a thrugarha wrthyf. A gaf fi drugaredd yn awr, Arglwydd? Dywedodd Thomas Robert y buaset yn dyfod ataf i'r llwch, ond nid wyf yn dy weled; pa le yr ydwyt?" Fel hyn y bu y creadur gresynol yn ymdreiglo yn ol ac yn y blaen, a gwaeddi am drugaredd am amser hir, a chan ddysgwyl bob moment weled yr Arglwydd yn rhyw ffurf yn dyfod ato a siarad ag ef, canys felly y deallodd efe eiriau yr hen frawd. Eithr, er ei siomedigaeth dirfawr, nid oedd neb yn dyfod, na swn i'w glywed. Pruddhaodd, a meddyliodd fod y cwbl drosodd am byth gydag ef, ac mai ofer oedd ceisio gwneyd heddwch â'i Farnwr, enw yr hwn oedd eto yn llosgi yn ei fynwes fel "tân ysol." Yr oedd gwneyd iawn am bechod, ac enill trugaredd a maddeuant pechodau, yn elfen yn y galon nad oedd wedi ei llwyr ddileu. Y mae yr ymgais am wneyd heddwch â Duw trwy ryw weithredoedd o'i eiddo ei hun, yn egwyddor naturiol yn nghalon dyn; ac y mae yn rhaid ei arwain o gam i gam gan Ysbryd Duw, drwy lawer o anialwch a thywydd garw, cyn dyfod ag ef i ddarfod yn llwyr ag ef ei hun, ac i orphwys ei enaid yn llwyr ar aberth y Cyfryngwr. Y mae George, chwi a welwch, yn ymdrechu hyd yr eithaf, ac nid oedd yr un drafferth yn ormod i geisio gwneyd heddwch â'i Farnwr drwy ryw bethau o'i gyflawniad ei hun, ac nid derbyn y cymod yn wyneb datguddiad yr efengyl. Hyd yn hyn, beth bynag, yr oedd ei lygaid heb fod yn agored i drefn yr efengyl; eithr ymbalfalu yr oedd mewn tywyllwch, dan chwilio am y drws, ac heb fedru ei gael. Wedi bod yn ymdreiglo fel yma mewn llwch a lludw am gryn amser, nes oedd yr olwg fwyaf echrydus arno ag a welwyd erioed, canys yr oedd ei het, ei wyneb, a'i ddillad, oll yn goch gan bridd, cafodd ychydig esmwythâd i'w feddwl helbulus yn y dybiaeth ei fod wedi cyflawni dyledswyddau crefyddol o bwys mawr, ac wedi ufuddhau i orchymyn yr eglwys. Bu rai wythnosau yn ymdroi yn y cyfiawnder hwn, a braidd wedi myned i orphwys ar ei ddigonoldeb.

Mewn cyfarfod eglwysig, yn mhen ychydig wedi hyny,

barnodd y cyfeillion y byddai yn dda siarad ychydig â George, er mwyn gwybod tipyn o'i helynt yn bresenol, a gweled ar ba dir yr ydoedd, yn ddymunol. Galwyd ef yn y blaen, ac ymddangosai yn fwy cysurus nag arferol o ran gwedd ei wynebpryd, fel pe buasai wedi dyfod i fwy o foddlonrwydd mewn perthynas i'w amgylchiadau ysbrydol a thragywyddol. Cododd y brawd William Rees, yr hwn bob amser oedd yn barod i siarad, canys yr ydoedd yn ddyn athrylithgar iawn yn ei ddydd; a gofynodd yn lled apostolaidd, "Wel, George, pa fodd y mae yn awr? pa fodd yr wyt ti yn myned yn y blaen oddiar pan y buwyd yn ymddyddan â thi o'r blaen?" "Wel, William," ebe ei ddysgybl, "yr wyf fi wedi bod yn ceisio gwneyd fel y dywedodd yr hen frawd Thomas Robert wrthyf; ond nid wyf fi wedi gweled pob peth yn dyfod i ben fel y dywedodd ef. Fe ddarfu iddo ef ddyweyd yn y *society* pan y buwyd yn siarad â fi ddiweddaf, os awn i'r llwch, a rhoi fy ngenau yn y llwch, y delai yr Arglwydd ataf, ac y byddwn yn sicr o gael trugaredd ganddo. Wel, mi wneuthum i hyny, ond welais i ddim o'r Arglwydd, a mi a wn na ddaeth efe ddim yno, onide buaswn yn sicr o'i weled, canys yr oeddwn yn edrych am dano o hyd." "Ië, George bach," ebe William, "cofia mai trwy ffydd y mae gweled Duw, ac nid â llygaid o gnawd; ei weled yn nadguddiad yr efengyl, fel 'Duw yn Nghrist yn cymodi y byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau;' a phe buasit ti yn myned i'r llwch yn wirioneddol, y mae yn ddigon sicr y buasit yn ei gyfarfod." Y mae George ar hyn yn sefyll i fyny ac yn ryw haner troi ar naill goes, ac yn dywedyd, "William, a ydych yn meddwl na fum i yn gorwedd ac yn ymdreiglo yn wirioneddol yn y llwch? Gallwn enwi ugeiniau o dystion a ngwelodd i yn dyfod i lawr o gae braener y Groeswen, y rhai oedd yn holi bob cam, B'le buost ti, George? beth yw'r drych yna sydd ar dy ddillad? Canys yr oedd y dillad, o fy mhen i fy nhraed, yn goch wedi bod yn ymdreiglo yn y pridd am oriau. Ond ni welais i yr Arglwydd yno, fel y dywed Thomas Robert; ac nid wyf yn gwybod beth a wnaf, er mwyn ei gyfarfod i gael maddeuant o fy mechodau mawrion, y rhai sydd bron fy lladd." Hawyr anwyl! y mae pawb yn agor eu llygaid yn anferth! Y mae rhai yn agor eu genau hefyd, fel pe bai hyny yn gwneyd ryw help; ond digon tebyg mai o dan effeithiau syndod y maent, ac felly yn annghydwybodol o'u hagweddau. Yr oedd hyd yn oed Thomas Robert wedi ei daro yn fud; a chan droi ei olygon oddiamgylch, plethu ei ddwylaw yn nghyd, a chrymu tua'r llawr, yn ocheneidio, ac yn methu symud cam yn y blaen. Nid ydym yn rhyfeddu fod y bobl yn synu, ac wedi cael eu taro yn fud, canys y mae dynion wedi synu wrth lai o beth ganwaith. Nid ydym ni ond adrodd y ffeithiau yn syml fel yr oeddynt; yn unig dyweyd fel yr oedd pethau yn bod. Yr oedd hen long y Dyffryn, yn nghanol rhyw wynt dyeithr fel hyn yn methu hwylio, a'r hen lywyddion cyfarwydd wedi ymddyrysu, fel pe buasent yn nghanol yr *euroclydon*. A phan nad oedd na haul na ser yn ymddangos

ar y pryd, a thymhestl nid bechan yn pwyso arnynt, ac wedi bod hir ddirwest, y mae y brawd Thomas Robert yn neidio i'r bwrdd, ac yn rhoi cyfarwyddiadau i hwylio yn y blaen, a gwthio yr hen long i gysgod craig. Felly y bu; a daeth y cwbl eilwaith yn dawelwch mawr. Y mae yr hen frawd Roberts yn dechreu cymeryd George mewn llaw i'w egwyddori, a'i ddysgu yn fanylach, gan osod ger ei fron mewn trefn gynwys a sylwedd, yn nghyd ag ysbrydolrwydd yr ymadroddion a ddefnyddiodd yn nghylch y "llwch a'r lludw" yn y *society* o'r blaen. Wedi gwneyd hyn gyda phwys a chryn fedrusrwydd, arweiniwyd ein gwron i mewn i ddirgeledigaethau yr ymadroddion; a daeth i ddeall mai nid y llwch yn nghae y Groes a feddylid, ond ysbryd gostyngedig ger bron Duw mewn gweddi, fel y dywedai Thomas Robert.

Wedi y pethau hyn, collodd yr ychydig esmwythad a deimlodd wedi bod yn ymdreiglo yn y "llwch a'r lludw;" meddyliodd nad oedd hyny ond esmwythder cnawdol, ac yn effaith syniad annghywir am grefydd. Y mae yr adnod fechan, "Ein Duw ni sydd dân ysol," yn dyfod eto i'r meddwl gyda nerth dauddyblyg, nes y mae'r cawr yn rhuo yn ddychrynllyd, a phawb—crefyddol a digrefydd—yn gwylio ei symudiadau, yn gymaint a'u bod yn dysgwyl ei gael, mewn rhyw ddull neu gilydd, wedi gorphen ei yrfa ddaearol. Priodolid ei dywydd mawr, yn nghyda'r hynodrwydd a gynyrchai yn ei ymddangosiad a'i ymarweddiad, yn fwy i wallgofrwydd na dim arall, ac felly ofnid yn ddirfawr y ceid ef yn nghrog ar bren, yn yr afon, neu wedi tori ei wddf. Y mae y tymhor hwn yn ei argyhoeddiad braidd yn fwy ofnadwy a dychrynllyd na dim a welwyd; canys yr oedd yn dychymygu ei fod yn gweled colofnau o dân o'i flaen yn nesu ato, nes y byddai y gwres yn peri iddo waeddi fel dyn gwallgof, nes dychrynu pawb o'i gwmpas. Yr ydym wedi anturio dyweyd ei fod yn "*dychymygu;*" ond yr un peth fyddai ceisio ei berswadio ef drwy ei oes mai dychymygu ydoedd â symud y mynydd i ganol y môr; yr ydoedd yn benderfynol mai sylweddol oedd y cwbl.

Byddai llawer yn ceisio ymresymu ag ef, ac yn dyweyd mai y *nervous system* oedd wedi myned yn wan o dan effeithiau gofidiau a thywydd meddwl, ac felly ymffurfiad o bethau yn cymeryd lle yn y meddwl nes yr oeddynt yn ymddangos yn hollol fel sylweddau, ac hyd yn oed yn twyllo y dyn ei hun. Ond yr un peth oedd dywedyd na chododd haul erioed a chynyg rhyw athrawiaeth fel yna iddo ef. Yr oedd mor benderfynol ei fod yn gweled yn y tymhor hwn golofnau o dân, ac yn teimlo eu gwres bron yn ei losgi, ag iddo weled yr haul erioed. Clywsom ef yn dywedyd fel y canlyn: "Un noson wrth ddychwelyd o'r Dyffryn, yn y tywydd mwyaf erioed, a'r adnod hono, 'Ein Duw ni sydd dân ysol' yn llosgi ac yn rhwygo fy nghalon, gwelais golofn o dân o fy mlaen, gryn ffordd; yr ydoedd yn nesâu ataf, nes yr ofnais ac y dychrynais yn ddirfawr; ond nes nes yr oedd yn dyfod o hyd, fel yr oeddwn yn methu deall beth a wnawn; yr oeddwn bron yn

wallgof, ac yn meddwl y buaswn yn yr eirias dragywyddol o'r noson hono allan; yr oedd 'Duw yn dân ysol' o fewn, ac yn awr yr oedd 'Duw yn dân ysol' oddiallan yn dyfod i fy nghyfarfod. Yr oeddwn yn methu gwneyd dim ond gwaeddi yn groch; mi feddyliais am syrthio ar fy ngliniau i weddio. Dyfod yn nes yr oedd y golofn danllyd, er pob peth, nes dyfod mor agos fel yr oeddwn yn teimlo gwres dychrynllyd a llosgfa o gwmpas fy nghernau, y pryd y gwaeddais allan, 'Arglwydd, os tydi sydd yn fy nhrin fel hyn, gwneler dy ewyllys; eithr os y cythraul sydd yn fy nhrin, O Dduw, gwahardd iddo fy lladd; paid a'i adael i fy lladd yn farw.' Gyda hyn diflanodd y golofn; ac yr oedd yn noson mor dywyll ag oedd yn bosibl; a cherddais adref yn y tywyllwch, gan gredu fod Duw yn dechreu gwrando fy ngweddiau tlawd." Beth bynag am y pethau hyn fel sylweddau, nid ydym yn gwybod, ac nid ydym yn cymeryd arnom benderfynu ychwaith; ond y mae yn ymddangos fod pethau mwy rhyfedd yn nglŷn ag argyhoeddiad y *bruiser* na nemawr neb a ddarfu i ni glywed am danynt.

Y mae yn debygol fod eisiau rhyw oruchwyliaethau dyeithr i ddarostwng dyn fel efe, ag oedd wedi bod mor flaenllaw yn nheyrnas y tywyllwch. A pheth a wyddom ni nad oes gan ddiafol ryw lawer o awdurdod yn y byd hwn, ac heblaw ei ddylanwad ysbrydol ar eneidiau dynion, ei fod yn gallu ymffurfio yn rhith llawer o bethau? Eithr yn gymaint a bod rhyw gwestiynau fel yna yn lled dywyllion, ac nad yw y celfyddydau a'r gwyddonau yn taflu ond ychydig o oleuni arnynt, fe allai y byddai yn gystal i ninau, ar hyn o bryd, eu gadael yn y man y maent. Mewn gwirionedd, ni buasem ni yn cyffwrdd a'r dirgeledigaethau hyn o gwbl, oni buasai fod gwrthddrych ein hadroddiad wedi cael ei arwain trwy lawer o bethau o'r natur yma, a bod yn rhaid i ninau wneyd ein goreu i'w ddylyn. Yr ydym yn ei golli, yn awr ac eilwaith, bellach, yn nghanol ysbrydion; canys pan y mae efe yno, y mae yn anhawdd iawn i ni ei ganlyn, ac yn anmhosibl nodi allan ôl ei draed. Bydd yn rhaid i ni fyned yn awr ac eilwaith, a rhoi ein traed y tu draw i derfynau y byd hwn rai gweithiau, cyn y gallwn gadw ein golwg ar ein cyfaill George bob amser. Nid ydym yn teimlo un hyfrydwch wrth deithio y tir hwn, dealler, eithr angenrheidrwydd sydd yn peri i ni fyned ar hyd-ddo. Y mae llawer yn anffyddwyr yn ymddangosiad ysbrydion drwg mewn gwahanol ffurfiau er temtio neu boenydio dynion; eithr fe allai y byddai yn well peidio myned i eithafion y naill ochr na'r llall, canys yr ydym yn byw yn nghanol dirgeledigaethau. Fe ddichon y byddai yn well peidio bod yn rhy benderfynol y naill ffordd na'r llall, er fod y tebygolrwydd yn gryf o blaid y dybiaeth fod ysbrydion drwg, a da hefyd, yn gwneyd ei hymddangosiadau i ddybenion neillduol. Yr ydym-ni, gan hyny, yn mhell o feddwl mai dychymygion yw'r cwbl yn ngweledigaethau George; y mae yn ddigon tebyg fod sylweddau hefyd yn yr ymdrafodaeth. Bid a fyno, nid oes genym

ddim ond adrodd yr amgylchiadau, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, a gadael i'n darllenwyr dynu y casgliadau a welant yn dda oddiwrth y cwbl.

Heb fod yn mhell o'r lle yr oedd ein harwr yn byw, yr oedd gallt o goed, a mynych yr ymgyrchai efe i'r fan hono i weddio. Byddai yn myned yno yn gyffredin pan y byddai rhyw dywydd garwach nag arferol ar ei feddwl, i'r dyben, y mae yn debygol, o gael llonyddwch i arllwys ei deimladau ger bron gorsedd gras. Ond yn fynych, byddai yn methu cadw dystawrwydd ei hun, eithr torai allan i waeddi nes dadseinio yr holl gwm, a'r bobl yn methu deall beth a allasai fod nes iddynt gynefino â'r cyfryw bethau; ac wedi hyny, pan y clywsid ryw fwstwr felly, nid oedd neb yn cyffro, ond yn unig gwneyd sylwadau dirmygus ar George a'i weddio. Byddai weithiau yn rhuo fel tarw gwyllt mewn magl, ac weithiau yn ochain yn drymlwythog, a phrydiau eraill yn bloeddio allan, "Duw a drugarhao wrthyf." Yn gymaint a bod y bobl, lawer o honynt, yn y dyddiau hyny yn barnu fod unrhyw ymwneyd â chrefydd yn beryglus, a bod pawb agos ag oedd yn myned at grefydd yn colli eu synwyrau, tybiwyd yn gyffredin mai edrych am le cyfleus i ymgrogi yr oedd George, ac y dylasai ei berthynasau edrych ato, ac ar ei·ol. Ni buasai clywed ei fod wedi ei gael yn nghrog ar bren yn un syndod i'r gymydogaeth, canys nid oedd nemawr yn dysgwyl dim arall. Tra yr oedd y bobl yn siarad fel hyn ac fel arall, yn ngwyneb ei fod yn cadw y fath ddadwrdd yn y graig, gweddio yn y blaen yr oedd efe yn hollol annghydwybodol o'r holl helynt hyn. Clywsom ef yn dywedyd, yn ngwyneb ei fod mewn cyfyngder meddwl tu hwnt i ddesgrifiad, iddo un diwrnod ddringo yr allt, a myned i mewn i'r coed i weddio, pan y syrthiodd ar ei liniau o dan bren, yr hwn oedd wedi crino i fesur mawr; ni wnaeth sylw ei fod felly ychwaith nes yr oedd yn y weithred o syrthio ar ei liniau. Wrth ganfod ei frigau llwydion yn ymgrogi drosto, syrthiodd y meddwl fel taranfollt mai pren crin oedd yntau hefyd, ac y byddai yn y tân tragywyddol yn fuan iawn. Gyda hyny, dyma ef yn gwaeddi â'i holl nerth am drugaredd, nes oedd ei sŵn i'w glywed yn mhell. "Os darfu i mi weddio erioed," meddai, "yr wyf yn meddwl fy mod yn gweddio y pryd hwnw; canys yr oeddwn yn y teimladau mwyaf dychrynllyd ag y bu dyn erioed ar y ddaear hon, yn sicr;. yr oeddwn yn teimlo fel pe buasai fflamiau y pwll diwaelod yn dechreu cydio ynof eisoes." Eithr tra yn gweddio yn daer yn y teimladau a ddesgrifiwyd, efe a glywai ryw fwstwr yn y coed, ac fel pe buasai rhywbeth lled drymaidd ei symudiadau yn nesu ato, ond nid agorodd ei lygaid. Cyn pen eiliad, dyma ryw beth yn troi o'i amgylch yn lled agos i'w gorph, gan ei daro â'i gynffon wrth ymdroi o'i ddeutu; rhoddodd dri thro, gan ei daro â'i gynffon bob tro. Erbyn hyn, fel y mae yn naturiol meddwl, yr oedd ein cyfaill wedi tewi, ac yn chwysu gan ofn a braw; a phan yn agor ei lygaid, yr oedd rhyw beth yn debyg i gi yn edrych yn ei wyneb. "Ffurf ci

ydoedd," meddai; "ci coch, â'i lygaid fel fflam dân yn ei ben; ond yr oedd yn fwy tebyg i lo blwydd o ran maint. Yr wyf wedi gweled llawer o'r *Newfoundland dogs*, ond ni welais *Newfoundland* erioed ddim yn debyg mewn maint i hwnw." Nid "drychiolaeth oedd hwn o flaen ei lygaid," canys "adwaenai ei agwedd;" er hyny "gwnaeth i holl flew ei gnawd sefyll." "Fe allai," ebe cyfaill wrtho, "mai ci gwirioneddol ydoedd, serch hyny, er y mae yn bosibl y gallesid fod o dan ddylanwad yr ysbryd drwg, a'i fod ef yn ei ddefnyddio fel offeryn yn ei law i effeithio y brofedigaeth, a cheisio rhwystro eich gweddiau."

Ymgynhyrfai George bob tipyn wrth athrawiaeth fel hyn, ac edrychai ar y fath sothach gyda dirmyg. "Clywch y dyn!" meddai, "yr oeddwn yn adnabod pob ci yn yr ardal hyn, a'r ardaloedd o gwmpas hefyd; nid oedd yma un creadur cyffelyb gan neb; ac ni welais i gi o'i fath na chynt na chwed'yn; a phe buasai yn perthyn i ryw un yn y cwmpasoedd hyn, peth rhyfedd na fuaswn wedi dygwydd ei weled ryw bryd; a pheth arall, ni bu ci erioed o faint hwnw. Nage, nid ci gwirioneddol ydoedd, fi wna'm llw, eithr cythraul gwirioneddol ydoedd yn ffurf ci. Gallwn feddwl fy mod yn teimlo ei gynffon fawr yn plethu am danai y fynyd yma, ac y gwelaf ei ddau lygad fel tân yn edrych yn fy ngwyneb; mi gofiaf byth am yr amgylchiad. Safodd yn y dull hwnw am foment, fe allai, gan edrych fel pe buasai yn myned i fy llarpio, a minau yn fud yn methu dyweyd dim; yr oedd fy ngenau wedi sychu i fynu, fy nafod fel pe buasai wedi cydio wrth daflod fy ngenau; nid oedd mwy o rym yn fy aelodau na phlentyn newydd ei eni." Y mae un peth yn ddigon eglur, beth bynag, fod ein gwron mewn teimladau dychrynllyd; canys yr oedd fel hyn ar ei liniau, a'i anadl megys yn ei ddwrn, yn edrych wyneb yn wyneb â'r bwystfil, heb allu dyweyd un gair, na rhoi un floedd nac ysgrech, na dim cyffelyb. Wrth fod y ci yn troi o'i amgylch, yn ymwasgu yn nes ato, a phob tro yn ei lachio am draws ei gefn â'i gynffon, teimlodd fel pe buasai y ddaear yn ymollwng o dano, yn agor ei safn, ac yn ei lyncu yn fyw i uffern; penderfynodd, meddai, "ei bod *all over* am dano i dragywyddoldeb." Gyda y cynhyrfiad hyn y mae ei dafod crasboethlyd yn ymryddhau, ac y mae yn gwaeddi yn ddychrynllyd; ac yn bloeddio allan fel dyn gwallgof, "O Arglwydd, O Arglwydd, myn chwareu teg i mi am fy mywyd! dyma y cythraul am fy lladd; y mae yma yn awr yn fy ymyl, yn barod i fyned â mi i uffern. O! myn chwareu teg i mi am fy mywyd! paid a'i adael i gael ei wŷn arnaf, Arglwydd daionus!" Fel hyn y bu yn bloeddio nes oedd yr holl gwm mewn cyffro am amser lawer; y mae yn anhawdd gwybod pa faint, canys nid yw efe yn gwybod ei hunan. Beth bynag, tra yr ydoedd efe fel hyn yn gweddio, ac yn teimlo nerth yn dyfod gyda phob bloedd, ymadawodd y gwr drwg, fel ei gelwir, ac ni welodd ef yn y ffurf hono mwyach. Y mae yn debyg mai ympryd a gweddi yw yr unig foddion i yru y rhywogaeth hyn ymaith hyd y dydd hwn. Bu

ein harwr mewn llawer brwydr â diafol wedi hyn, fel y cawn adrodd eto, ond ei fod wedi ymgymeryd â gwahanol ffurfiau a dulliau, ac yn fwyaf cyffredin fel gelyn anweledig i lygaid o gnawd, fel "llew rhuadwy," yn ei ymosodiadau ysbrydol.

Ond y mae yn rhaid i ni gadw gwyliadwriaeth arnom ein hunain, rhag myned yn y blaen yn rhy fuan, ac felly gŵyro a cholli golwg ar ein hen gyfaill. Ni a welwn ei fod ef yn weddiwr bellach, ac yn weddiwr mawr iawn, ac yn gweddio yn aml, ac yn mhob man; er hyny y mae yn ymddangos ei fod heb adnabod trefn yr efengyl eto. Buasai yr hen dduwinyddion yn sicr o'i gofrestru gyda'r teulu ag oedd hyd yn hyn o dan y ddeddf, canys rhyw ymbalfalu y mae mewn teimladau digon cymysglyd am y drws, ac yn rhywfodd yn methu cael gafael arno. Ond dyna, beth a wnawn yn ymdroi fel hyn? ein gwaith ni yn awr, pe baem yn gallu deall ein gwaith hefyd, yw adrodd y ffeithiau fel y maent, a gadael ein darllenwyr i wneyd y sylwadau a welont yn dda yn eu myfyrdodau; ond dyna fel y mae hi, fel y gwyddoch, y mae rhai pobl na fedrant yn eu byw adael pethau yn llonydd. Am beth yr oeddem yn son yn awr? O, yr ydym yn cofio, am George yn gweddio, a'i fod yn weddiwr mawr ac yn gweddio yn mhob man. Ië, dyna'r mater eto. Yr ydoedd yn gweddio, nid yn unig yn y coedydd, ac ar làn y môr, ond hefyd yn gweddio fel Cornelius yn ei dŷ. Yr ydym yn meddwl, os ydym yn cofio yn iawn, mai angel Duw a ddaeth at Cornelius pan oedd yn gweddio yn ei dŷ; eithr angel drwg a ddygwyddodd ddyfod at George, pan ydoedd yn gweddio yn ei dŷ y tro yr ydym ar fyned i adrodd yn ei gylch, beth bynag. Ffurf cath, y mae yn debyg, oedd y cythraul wedi ei gymeryd y tro hwn; neu yn hytrach myned i mewn i'r gath a wnaeth; canys cath ein harwr oedd y gath hon, yn ddigon adnabyddus, ond iddi gael ei meddianu gan yr ysbryd drwg, nes iddi fyned fel ellyll uffernol o dan y dylanwad hyny.

Yr oedd cryn gyfeillgarwch rhwng George â'r gath hon; byddai yn aml wrth y tân yn gorwedd rhwng ei draed, ac yn gwneyd rhyw beth tebyg i ganu, ac yn wir yn ymddangos fel pe busaai yr unig greadur ar y ddaear hon oedd am esmwythau ei fynwes drybylog. Ymddangosai yn un o'r cathod mwyaf hynaws, tyner, a chyflawn o natur dda yn yr holl wlad. Felly yr oedd y gath hon a'r brawd George yn gyfeillion rhyfeddol—bron yn ormod o gyfeillgarwch i fod rhwng y rhesymol a'r afresymol. Dyna fel yr oedd, beth bynag. Y mae yn debygol ei fod yn teimlo yn fynych pan mewn adfyd nad oedd ganddo ffrynd yn y byd ond ei gath. Magodd hi pan yn fechan; bwydodd hi yn ofalus, nid allai gymeryd tamaid heb ranu â hi; "a hi a gynyddasai gydag ef, a chyda'i blant; o'i damaid ef y bwytäai hi, ac o'i gwpan ef yr yfai, ac yn ei fynwes ef y gorweddai hi, ac yr oedd hi iddo megys merch." Nid oedd ganddo gymaint o ffydd yn neb ag oedd ganddo yn ei gath. Yr ydoedd wedi gweled cymaint o dwyll mewn dynion—ïe, mewn hen gyfeillion, nes yr oedd wedi colli ei

ymddiried bron yn llwyr yn y byd rhesymol, a byddai o ganlyniad yn troi i'r byd anrhesymol i chwilio am gyfeillion, y rhai a lynent wrtho yn nghanol ei brofedigaethau. Ac fel hyn tyfodd rhyw gyfeillgarwch rhyngddo â'r gath hon, nes yr ydoedd iddo "megys merch." Byddai hi, yn ei ffordd, yn dangos y parch mwyaf iddo; a phan y dychwelai adref, nid oedd neb yn ymddangos yn llawenhau gymaint, nac yn teimlo y fath foddlonrwydd, fel yr ydoedd wedi meddwl mai y creadur diweddaf oedd hon o fewn y greadigaeth faith i droi yn elyn iddo, ac i ymladd yn ei erbyn, oddigerth Sophia, ei anwyl wraig ei hun.

Ryw diwrnod, y mae George yn teimlo gofidiau mawr yn nghylch bod yn gadwedig, ac yn methu deall i foddlonrwydd fod yr Arglwydd wedi gwrando ei weddiau, eithr yn hytrach yn ofni ei fod yn wrthodedig, ac mai dyn colledig a fuasai yn sicr o fod, er pob peth. Yn ymylu fel hyn ar wallgofrwydd, fel y byddai yn aml yn y tymhor hwn, y mae yn methu dyfalu beth a wnai, ai myned i'r môr i foddi, neu ynte dreio gorsedd gras unwaith eto. Yr oedd y môr gerllaw y lle yr oedd yn byw, a chlywai ei donau yn rhuo o'r man lle yr oedd, a gwnaeth benderfynu amryw droion fyned dros ei ben, a dybenu y mater yn fyr fel yna. Ond wedi hyny yr oedd tragywyddoldeb yn edrych yn ei wyneb, fel yr oedd yn gorfod meddwl na fuasai hyny ddim yn gwella'r clwyf, ond yn ei wneyd yn waeth; oblegyd ni wnai wrth foddi ond gyru yr enaid yn gynt na phryd i'r tân tragywyddol. Trodd y fantol, o ganlyniad, o blaid gweddio. Nid ydym yn cofio yn iawn pa pryd o'r dydd ydoedd, ond y mae genym ryw frith gof mai codi yn foreu a wnaeth o flaen y teulu, a myned i ystafell wrtho ei hun ar y llawr. Beth bynag, nid oedd neb ond ei anwyl gath yn yr ystafell, pan aeth i lawr; ac fel arfer, dyma hi yn dangos y croesaw mwyaf iddo, fel pe buasai wedi bod o gartref am bythefnos. Wedi chwareu o'i gwmpas am ychydig amser, aeth i ben cist, neu *chest-of-drawers*, neu ryw beth cyffelyb; ac aeth George at y gorchwyl difrifol o weddio. Yn y tywydd mawr ac ystormus hwn, y mae yn naturiol meddwl ei fod yn gweddio gyda phwys a thaerineb anarferol. Nid gweddiau conglau yr heolydd, dan sefyll yn syth fel pyst, er mwyn cael eu gweled gan ddynion, oedd y gweddiau hyn; eithr gweddiau publican euog a thlawd, yn gweled ei sefyllfa, ac yn canfod peryglon tragywyddol, yn ceisio troi ei wyneb at Waredwr y byd. Gweddiodd yn daer annghyffredin, a theimlai fwy o hapusrwydd, a llai o ddychrynfeydd, y tro hwn wrth geisio gweddio nag erioed o'r blaen; yr oedd y drysau fel yn ymagor yn naturiol o'i flaen; nid oedd yn orchest yn y byd cael geiriau; yr oeddynt fel pe buasent yn dyfod o ryw le o honynt eu hunain, nes yr oedd hi bron a myned yn hwyl, y peth hyd yn hyn oedd heb ei deimlo ganddo ef. Gweddiai hefyd yn enw yr Iesu, canys yr oedd William Rees wedi bod yn ei gynghori yn y *society* yr wythnos cyn hyny am ddefnyddio yr enw hwnw yn ei weddiau, yr hyn a wnaeth, er nad oedd gydag ef nemawr o ddirnadaeth hyd yn hyn

am drefn yr efengyl. Tra yn y teimlad hapus hwn, a'r dwfr fel pe buasai yn codi fwyfwy, yn sydyn, fel taro dwylaw yn nghyd, dyma'r brofedigaeth fwyaf erioed yn dygwydd. Ar yr amser pan yr oedd ei ysbryd yn codi i hwyl, ei lestr yn codi yn deg o'r "pridd tew, a'r clai tomlyd," a phob arwyddion fod y *Royal George* yn dyfod i fyny o'r dyfnder mawr, dyma fel pe buasai deng mil o gythreuliaid yn myned i'r gath, fel yr ydoedd fel arthes wedi colli ei chenawon, yn ddireol ac yn ddiberswad. Neidiodd fel taranfollt oddiar y gist at ben ei chyfaill goreu, a sefydlodd ei hewinedd yn ei siol, gan ruo yn aethus a dychrynllyd. Yr oedd oernadau a swn y gath yn arswydus dros ben, a'i holl agweddiad fel pe buasai "wedi ei gosod yn fflam gan uffern;" ac o ddifrif, gallwn gasglu fod yn rhaid bod y loesion yn ddirfawr i'n cyfaill, yn gymaint a bod yr holl ewinedd wedi ymsefydlu yn ei ben; a bu gryn amser cyn gallu eu dadrys oddiyno.

Wedi ymryddhau oddiwrthi yn y modd goreu y gallai, a thra yr oedd y clwyfau ar ei ben yn llosgi yn annyoddefol, a'i waed yn llifo i lawr yn ffrydiau, nes oedd ei wyneb yn goch a'i ddillad fel pe buasent wedi ymdrochi ynddo, teimlai gynhyrfiad yn ei galon, a bu bron a rhegu. Ymaflodd yn mhedair coes y gath, gwasgodd hwynt at eu gilydd, a dywedodd yn ei feddwl, "Myn ——, mi darawaf dy ymenydd allan yn erbyn y wal." Ond deallwch, er dywedyd felly yn y meddwl, ni lefarodd hyny â'i dafod; eithr cyn i'r geiriau ddyfod allan o'i wefusau, ef a ystyriodd, ïe cofiodd, a darostyngwyd ei galon. Er ei fod yn gwasgu traed y gath yn nghyd, ac wedi codi ei fraich, ac yn y weithred o daro ei hymenydd yn erbyn y mur, eto yn ngwyneb rhyw feddyliau difrifol a ddaeth i mewn ar y pryd, tynodd ei fraich yn ôl, ac edrychodd yn llygaid y gath yn daer, a dywedodd, "Wel, creadur Duw ydwyt fel finau, gan hyny mi a'th ollyngaf yn rhydd heb dy ladd; canys y mae y Creawdwr mawr wedi fy arbed i ganwaith, er i mi bechu yn ei erbyn ef fil mwy nag yr wyt ti wedi pechu yn fy erbyn i." Felly efe a'i gollyngodd yn rhydd; ac er mor aflywodraethus ydoedd ys meityn, yr oedd hi yn awr fel oen diniwed, fel pe buasai dim heb gymeryd lle. "'Does dim dadl," meddai, "nad oedd llaw gan yr ysbryd aflan yn hyn i rwystro fy ngweddi; oblegyd pa reswm yn y byd y gellir ei roi am y peth ond hyn? Y gath oedd mor fwyn a diniwed a chwareugar y fynyd cyn hyny, yn ymgynhyrfu mor ddychrynllyd nes oedd yn arswyd ar gnawd fod yn ei swn!" Wel yn wir y mae llawer peth yn fwy annhebyg i ddiafol na hyn; yr oedd rhyw beth yn yr holl oruchwyliaeth yn debyg iawn iddo ef ei hun. Cafodd ein harwr ben coch y tro hwn; yr oedd yn codi o'i weddi fel un yn dychwelyd o faes y gwaed, yn rhes y clwyfedigion; yn gymhwys i ddim ond yr ysbyty. Er ei fod wedi dyoddef cur a phoen dirfawr dros dro oddiwrth ei glwyfau, eto drwy driniaeth fedrus a gofalus, efe a wellhaodd yn dda; ac nid ydym yn gwybod fod hyn wedi peri un anfantais parhaus, oddigerth fod y gwallt yn fwy teneu ar ei gopa nag o'r blaen. "Y mae ôl ewinedd diafol

ar fy mhen," meddai; "y mae wedi tynu peth o'r gwallt o'r gwreiddiau; a bum yn meddwl, os wyf yn blentyn i Dduw, pa fodd y caniataodd i hyny fod, yn gymaint a'i fod yn dywedyd, 'Ni chyll flewyn o'ch pen;' ond fe ddarfu i mi ystyried y mater, a fi welais y bydd y cwbl yn cael ei adferyd yn adgyfodiad y rhai cyfiawn; fel ei gorph Ef yr adgyfodwn, heb frychau na chrychni, at fesur oedran cyflawnder Crist."

Gellid meddwl fod uffern fel pe buasai mewn cynhwrf drwyddi wrth feddwl colli y gwron hwn, ac yn gwneyd rhyw ysgwydiadau gorchestol er mwyn ei adenill yn ol. Yr oedd diafol fel pe buasai yn cymeryd meddiant o'r byd rhesymol ac afresymol, i'r dyben o effeithioli ei brofedigaethau. Gallesid meddwl fod y dynion, y cwn, y moch, a'r cathod, wedi cyduno ac ymarfogi yn ei erbyn, i'r dyben o'i ddinystrio byth. Y mae yn ddigon tebyg mai rhyw ddylanwad satanaidd oedd ar y creaduriaid; yn eu cynhyrfu a'u gyru i ryw le ar encil, ac felly ar eu hynt yn taro yn erbyn George, er rhwystro ei weddiau. Eithr er pob peth, daliodd ati; ni lwfrhaodd, ac ni roddodd i fyny yn ngwyneb profedigaethau, er yn agos i golli y dydd lawer gwaith. Bu *bron* tyngu, fel y dywedasom, yn amgylchiad y gath; ac er na thyngodd yn gyhoeddus, daeth y peth i wasgu yn drwm ar ei feddwl, ac achosodd hyny gryn amheuaeth yn nghylch ei grefydd. Bu yn gruddfan yn drymlwythog oblegyd hyny am amser hir, ac ni chafodd waredigaeth nes iddo ddyweyd wrth y cyfeillion pa fodd y bu arno. Yn ngwyneb clywed natur y brofedigaeth danllyd, barnodd y brawd William Rees, a Thomas Robert hefyd, fod yn llawer mwy o syndod iddo ymatal rhag tyngu na phe buasai yn tyngu a tharo ymenydd y gath gyda llaw. "Yr oedd yn ddigon," meddai y brawd Thomas Robert, "i beri i hen sant dyngu, chwaithach George, yr hwn oedd wedi arfer tyngu dros ei holl fywyd hyd yn ddiweddar. Er hyny i gyd, George bach, y mae yn rhaid edifarhau am bob pechod; ond ni ddylid, serch hyny, feddwl fod pechodau a gyflawnir mewn profedigaethau mor ysgeler a phechodau a gyflawnir o fwriad." Bu yr ymddyddanion hyn a'r cyffelyb o les mawr iddo ar y pryd, ac yn esmwythad dirfawr i'w feddwl cythryblus. Yr oedd eisiau ychydig o seibiant a thangnefedd arno yn ddiau, canys yr oedd y pen oll yn glwyfus, a'r galon yn drist, braidd un man cyfan arno o fewn ac allan. Rhaid i ni adael ein harwr yn rhyw le "yn mhorth yr adenedigaeth, ac yn mwlch yr argyhoeddiad," ys dywed yr hen dduwinyddion; canys hyd yn hyn nid yw efe wedi ei oleuo yn drwyadl am drefn iachawdwriaeth, drwy y "prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Dichon y daw pethau yn fwy goleu yn y benod nesaf.

BODLEIAN

## PENOD III.

Y MAE yn debyg, yn yr oes hon megys yn oesau cyntaf Cristionogaeth, mai "trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw." Gadawsom ein harwr yn y benod ddiweddaf yn nghanol profedigaethau a helbulon mawrion, ac hefyd mewn cryn dywyllwch am drefn yr efengyl er achub pechadur colledig i fywyd tragywyddol. Yr oedd y pedwar gwynt fel yn curo arno; ac y mae yn syndod na fuasai yr holl adeilad yn syrthio yn bendramwnwgl i'r llawr. Fel yr apostol Paul, yr oedd ei beryglon yn codi yn mhob man; ïe, ac o'r manau hyny y gallasai ddysgwyl llawer o gysuron. Felly y mae wedi bod, ac felly y mae eto, ac wrth bob tebyg fel hyn y bydd hyd y diwedd. Nid oes dim i'w wneyd gan hyny ond ceisio ymwthio i mewn i'r bywyd goreu y gellir drwyddynt oll. Braidd yr oedd yr apostol Paul yn myned i un man nad oedd peryglon annysgwyliadwy yn codi o'i gwmpas, nes y byddai yn amheu cael byw yn eu canol. Yr oedd bob awr wrth deithio mewn perygl oddiwrth y dyfroedd, mewn perygl oddiwrth ladron, mewn perygl oddiwrth ei genedl ei hun, mewn perygl oddiwrth drigolion y ddinas, mewn perygl yn yr anialwch, mewn perygl ar y môr, mewn perygl oddiwrth frodyr gau. Gellid meddwl fod y cwbl yn weddol dawel, hyd nes y byddai Paul yn presenoli ei hun, ac wedi hyny yr oeddynt fel yn deffroi, ac yn ymuno yn benderfynol i'w ddinystrio. Yr oedd y "llifddyfroedd" yn llonydd, y "lladron" fel pe buasent yn cysgu, "ei genedl ei hun" yn symud yn araf yn helyntion bywyd, trigolion y "ddinas" fel yn mwynhau eu hunain mewn esmwythder a moethau, "yr anialwch" fel pe bai yn siglo y cawell mewn unigolrwydd, y "môr" fel yn chwareu yn ngwyneb y graig gyferbyn, a'r "brodyr gau" fel rhai wedi cael llonyddwch i'w heneidiau, hyd nes y byddai Paul allan yn eu mysg; yna, wele yr ymosod yn dechreu o ddifrif, a'r gwahanol elfenau yn ymuno mewn un cythrwfl, i'r dyben o'i ddinystrio oddiar wyneb y ddaear.

Y mae pethau fel hyn yn ddyrys, ond felly y mae yn bod yn aml; ac nid oes dim genym i'w wneyd ond ceisio credu fod i hynyna ryw ddyben anweledig, ac anegluredig hyd yn hyn, yn y llywodraeth Ddwyfol. Pan y cyfyd ein profedigaethau llymaf o'r manau hyny y dysgwyliasom ein cysuron penaf, y maent o gwbl, yn ddiau, y mwyaf anhawdd eu dyoddef. Eithr os oes, fel yr awgrymwyd, rhyw ddyben i'r cyfryw bethau yn y llywodraeth Ddwyfol, y mae yn ddiau fod darpariaeth o ras hefyd er nerthu i'w dwyn. Y mae ein gwron a'r apostol Paul yn bur debyg mewn llawer o bethau, yn enwedig yn eu profedigaethau; canys y mae yn ymddangos fod Heycock yntau yn cyfarfod â thywydd garw yn mhob man, ac yn fynych iawn o fanau nad oedd yn dysgwyl dim ond cysuron,—

"Dysgwyl pethau gwych i ddyfod,
Yn groes i hyny maent yn dod."

Yr oedd gan y brawd George fochyn yn tewychu yn gyfagos i ddrws y tŷ, oddiwrth yr hwn nid oedd yn meddwl cael dim ond y pleser o fwyta cig da yn ei dymhor priodol. Gan ei bod yn awr yn tynu ar Nadolig, yr oedd rhyw son wedi bod yn nghylch cael yr eisglwyd, neu y *spare rib*—asen y fran, ys dywed gwŷr y *North*—i giniaw y diwrnod hwnw, ac yna crogi yr ystlysau i fyny i wneyd bacwn, yr hwn fuasai yn gyfleus yn nhymhor y gauaf. Felly chwi a welwch mai dysgwyliad o gysur yn unig oedd oddiwrth y mochyn, ac ni feddyliwyd erioed gyfarfod â'r un brofedigaeth o'r cyfeiriad yna, bid a fyno. Hyd yr ydym yn cofio, cath a mochyn oedd yr unig greaduriaid a feddianwyd gan George, yn mysg holl amrywiaethau y greadigaeth anysbrydol neu ddireswm. Nid ydym yn ddigon sicr a fu ganddo gi ryw bryd, ond yr ydym bron sicr na fu ganddo gi, mochyn, a chath yr un pryd. Ac am bob peth arall, gallwn fod yn benderfynol, heb betruso mewn un modd, nac ofni cyfeiliorni, nad oedd yn feddianol ar ddim; canys clywsom fod rhyw gyfaill wedi ei godi fyny i'w gerbydan, a'r syndod mwyaf o bob peth gan y cymydogion oedd gweled George yn myned heibio mewn *gig*. Rhedodd un ynfytyn allan, heb na het na napcyn, gan waeddi, "Hoi, hoi, hawyr, dewch yma; dyma George Heycock mewn *gig!*" Gyda hyn, fel y gellwch dybio, dyma haner trigolion y tai ar ganol yr heol, ac yn edrych fel dynion wedi myned allan i weled rhyw beth; a'r cwbl oedd i'w weled yn y diwedd oedd George Heycock mewn cerbyd. "Myn dyn, George," ebe rhyw lanc, "yr y'ch chi yn myned allan heddyw fel gwr boneddig." "Gwr boneddig, yr un dwl, "ebe yntau; "beth, a wyt ti yn meddwl mai cael ei lusgo wrth ben ôl hen geffyl sydd yn gwneyd dyn yn wr boneddig? Y mae yn gas genyf fi fy mod wedi fy narostwng i'r fath raddau a gorfod dylyn cynffon ceffyl, drwy gael fy llusgo ar ei ol ar hyd y ffordd." Y mae yn eglur oddiwrth syndod y gymydogaeth, wrth ei weled mewn cysylltiad â cheffyl a cherbydan, mai peth go ddyeithr oedd hyny. Dygwyddodd yn agos yr un peth unwaith yn Llandilo, lle yr oedd efe wedi myned i aros ychydig er mwyn ei iechyd. Aeth yno, a chafodd lety mewn tŷ cyfrifol, a pherchid ef yn fawr gan y teulu. Yr oedd rhyw beth ynddo o ymddangosiad parchus, canys yr oedd yn hytrach yn dew, yn nghyda llawer o bethau eraill mewn cysylltiad â'i berson ag oedd yn lled olygus. Cyferchid ef bob amser gan y teulu, ac yn wir pawb ag oedd yn dyfod i adnabyddiaeth ag ef, yn Mr. Heycock; ac yr oedd yn cael benthyg y merlyn i farchogaeth allan yn dra aml; ac nid anfynych, o herwydd ei ymddangosiad parchus ar gefn ceffyl, y gwelid y werin yn tynu eu hetiau iddo wrth fyned heibio. "Yr oedd y teimlad o ddyrchafiad," eb efe, "wedi effeithio yn dda ar fy nghorph; yr oeddwn yn gwella bob dydd; a phob tro y byddwn yn myned allan ar y ceffyl, a'r dynion yn tynu eu hetiau, ac yn dywedyd, 'Boreu da, Mr. Heycock,' yr oeddwn yn teimlo y dolur fel yn ymado am byth, ac yr oeddwn yn dychwelyd fel pe buaswn yn anfarwol. Yr oeddwn mewn

parch a bri, ac nid oedd neb yn meddwl nad oeddwn yn haner gwr boneddig. Ond ryw ddiwrnod daeth Wil fy mrawd, a llanc arall o'r Taibach, i edrych am danaf. Yr oeddwn wedi myned allan o'r dref i farchogaeth y boreu y daethant yno; a phan yn dychwelyd, a phawb yn fy nghyfarch gyda pharch, gan ddywedyd—'Boreu da, Mr. Heycock; y mae yn foreu teg, Mr. Heycock;' ïe, Mr. Heycock oedd hi bob gair—dyma y ddau ffwl yn gwaeddi allan, fel pe buasent heb weled dynion erioed o'r blaen, 'Hoi, hoi, dyma George wedi cael gafael ar geffyl yn rhyw le; hoi, 'ngwas i, yn mha le y buost yn lladrata hwna?' Teimlais," ebe ein gwron, "fel dwr oer yn rhedeg i lawr dros fy ysgwyddau, yn oeri fy ysbryd, ac fel pe buasai yn fy nhaflu yn ol, bron cynddrwg ag erioed. Oni buasai iddynt hwy, gallaswn yn hawdd gael fy nghyfarch fel Mr. Heycock tra fuaswn yn y lle; ac yr oedd hyny yn cael effeithiau mwy dymunol ar fy iechyd na'r holl ddoctoriaid yr oeddwn wedi bod yn ymgynghori â hwynt." Fe allai fod digon wedi ei ddyweyd i egluro nad oedd ein harwr yn yr arferiad o feddianu rhyw amrywiaeth annghyffredin o anifeiliaid. Y mae hyn yn cael ei ddangos, fel y gwelwch, wrth fod y bobl yn synu ac yn cadw cymaint o ystwr wrth ei weled ar gefn ceffyl. Er hyny, y mae yn ddigon gwir fod ganddo gath a mochyn, bron yn gyson. Darfu i ni awgrymu at y gath yn y benod o'r blaen, yn nghyda'r brofedigaeth danllyd a ddygwyddodd; ac yn awr, y mae yn ddyledswydd arnom edrych ar ei brofedigaeth mewn cysylltiad â'r mochyn.

Y mae yn ymddangos fod pob peth ag oedd yn ei feddiant, a'r cwbl ag oedd yn dal cysylltiad ag ef, yn cyhoeddi rhyfel yn ei erbyn, ac yn cydweithio er hyrwyddo ei golledigaeth. Gallesid meddwl y buasai yn well iddo fod yn hollol heb ddim, hyd yn oed na chath na mochyn, yn gymaint a bod y rhai hyny wedi troi yn elynion ac yn rhwystrau, yn lle cysuron, fel y dysgwyliwyd. Fel y dywedasom o'r blaen, yr oedd twlc y mochyn yn y beilu, heb fod nepell oddiwrth ddrws y tŷ, ac felly yn bur gyfleus i Sophi ei borthi gyda chysondeb. Yr oedd George erbyn hyn, a chyn hyn hefyd, fel y dywedasom yn y benod o'r blaen, wedi dechreu gweddio yn deuluaidd; ac er fod y rhwystrau i hyn yn hytrach yn fawr, daliodd yn lew ati yn wyneb tew a theneu. Mewn trymder a phrudd-der ysbryd un boreu, pan oedd llewygfeydd marwolaeth dragywyddol fel yn cydio yn ei holl gyfansoddiad, y mae yn ymaflyd yn y Bibl wedi boreufwyd, ac yn myned at y ddyledswydd deuluaidd. Darllenodd ranau o'r gwirionedd; eithr nid oedd dim yn taro ei feddwl yn effeithiol; nid oedd cysur yn llifo i'w enaid adfydus; nid oedd goleu yn tywynu i'w feddwl tywyll; ac nid oedd mewn modd yn y byd "weledigaeth eglur." Beth bynag, nid oedd dim i'w wneyd ond ceisio myned trwyddi goreu gellid. Nid oedd y weddi nemawr gwell am dro hir; tywyll a dilewyrch ydoedd, yn ymbalfalu am y drws, ac yn methu cael gafael arno. Yr oedd y galon drom bron yn tori, a'r ysbryd llesg bron yn llwfrhau, a phob gobaith am fod yn gadw-

edig bron wedi ymadaw am byth; pryd y mae yn goleuo ychydig, y drws fel pe bai yn agor megys o hono ei hun, ac awel dyner y wawrddydd hyfryd fel yn chwythu iachawdwriaeth i mewn i'r enaid llesmeiriedig. Y mae y gweddiwr ag oedd yn mron rhoi i fyny ys meityn, yn awr yn cael ei anadl; y mae yn cydio o newydd mewn gweddi, ei lais sydd yn cryfhau, yn dyfod yn fwy soniarus a seinber. Y mae fel pe bai gwawr gobaith yn ymledu, a hyder yn cryfhau fwyfwy ger bron gorseddfainc y gras, a phob arwyddion fod ein harwr yn ymyl derbyn trugaredd. Y mae yn ail gydio; y mae yn methu rhoi i fyny; y mae yn gwella ei afael; y mae yn ymddangos yn awr fel yn bwrw "angor, yn ddyogel a sicr," y tu fewn i'r llen. Clywch! y mae yn ymgodi yn awr i hwyl anarferol, ac yn ymddangos fel llong marsiandwr yn ei llawn hwyliau o flaen gwynt teg. Y pryd hyn, dyma ryw swn tuchan, a rhochian, yn dyfod o gyfeiriad cymydogaeth y mochyn. Y mae Sophia yn clustfeinio, ac yn ymwrando, ac yn dysgwyl y weddi i ddarfod i gael rhoi ymborth iddo, canys yr oedd yn hen bryd, yn gymaint a bod y weddi wedi para dipyn yn hir. Y mae y mochyn yn myned waeth waeth, ac fel pe buasai rhyw beth arno ag oedd yn waeth na chwant bwyd; canys yr oedd yn ymddangos fel yn wyllt neu allan o'i gof, yn rhedeg yma a thraw, yn ol ac yn y blaen yn y twlc, yn y modd mwyaf afresymol a welsoch erioed. Wel, dyna hi yn ddystawrwydd eto am fynyd o ran y mochyn, eithr y weddi yn myned yn y blaen yn hwylus.

Ni fu erioed fwy o ddysgwyliad am Amen yr ydym yn sicr; er yr ydym yn gwybod fod cymaint o ddysgwyliad am hyny a nemawr o beth yn lled aml. Dywedwyd wrthym yn ddiweddar am bregethwr yn pregethu mewn man, ac yn ei fyw yn methu dyweyd Amen. Yr oedd yn dyweyd bron bob peth ond hyny, ac am hyny yr oedd y dysgwyliad a'r gweddiau; ond o'r diwedd cafodd gymhorth i ddyweyd Amen, a chyda hyny yr oedd tafod pob dyn yn cael ei ollwng yn rhydd; fe ddywedodd pawb ag oedd yn y capel Amen yn rhwydd. Wele, ni fu neb erioed, yr ydym yn sicr, mewn dysgwyliad mwy pryderus na Sophi y tro hwn am Amen; ond hyd yn hyn yn hollol aflwyddianus. Ust! dyma swn eto o gymydogaeth y mochyn. Y mae yr anifail fel pe bai wedi dyrysu o ran ei synwyrau; y mae yn neidio yn erbyn drws ei lety gyda ffyrnigrwydd arswydus; y mae yn rhaid fod cyneddfau yr anifail wedi dyrysu. Fe allai y bydd rhai yn barod i'n beio am siarad am synwyrau a chyneddfau mochyn, fel pe bai yn fod rhesymol,—nad yw hwnw ddim yn iawn. Nid ydym ni yn dyweyd, deallwch, fod y mochyn yn feddianol ar synwyr a chyneddfau *dynol*, wrth ddyweyd ei fod yn ymddangos fel pe bai wedi colli ei synwyrau. Am synwyr mochyn yr ydym ni yn son; ac felly ei fod wedi colli hyd yn oed y synwyrau ag sydd gan foch yn gyffredin. Ni ddymunem er dim i neb ein camddeall, a myned i ddyweyd ein bod yn ceisio profi nad oedd dim *sense* dyn y boreu hwnw yn y bwystfil gwrychog rhochus; canys nid hyny sydd gyda ni mewn llaw, eithr profi yn hytrach nad oedd

dim *sense* mochyn ynddo; yr oedd wedi myned yn fwy mochynaidd, deallwch, na moch yn gyffredin. Yr oedd wedi tori pob deddf berthynol i'r rhywogaeth fochynaidd; ac wedi myned yn ddireol, fel nad oedd yn gwneyd dim ond rhochian, neidio yn erbyn y drws, a bygwth dinystr buan ar bob peth a safai o'i flaen. Y mae Sophi yn dal yn lew, chwareu teg; ond mewn gobaith clywed Amen bob mynyd.

Dacw George yn arwyddo fel pe byddai yn myned i ddybenu, canys dywedodd, "Cymer ni i dy law." Ond yn lle dybenu, dyma ef yn ail gydio mewn rhyw beth wedi hyny, ac yn dechreu o'r newydd. Y mae hyn agos yn demtasiwn i Sophi fyned i regu; eto dylem ystyried, a gweddio am nerth o dan y cyfryw amgylchiadau, i ddal hyd y diwedd; canys y mae nerth yn ol y dydd i'w gael. Ond y mae yn rhaid dyweyd nad oedd Sophi yn grefyddol; a'i bod wedi dal cystal o dan y fath brofedigaethau, heb gynorthwy gras, sydd yn fwy i'w ryfeddu na dim arall. Eto unwaith, dyma George yn dyweyd, "Cymer ni yn dy law;" ac er hyny mae yn methu dybenu, ond cydio o'r newydd, a'r mochyn erbyn hyn yn gant gwaeth. Y mae y creadur yn gynhyrfus dros ben, ac yn myned fwyfwy felly, yn debyg i dymhestl ofnadwy yn ymgodi i gynhwrf aruthrol. Tuchan yn annaearol yr oedd yr anifail, gan ruddfan, ac ysgrechian, ac ymffrochio yn echrydus. Yn gymaint nad oedd Sophi yn cydymdeimlo â'r gweddiwr, a'r dysgwyliad mor angerddol am yr Amen, y mae ei llestr yn myned o'r diwedd yn rhy lawn; y mae hi yn methu dal yn hŵy; y mae pob cadwen yn myned yn rhydd, a phob teimlad o ddynoliaeth yn cael ei golli,—dyma hi i fyny ar ei thraed, fel gwylles wyllt, ïe, enynodd tân ynddi, a hi a lefarodd â'i thafod. Y mae yn debygol ei bod hi yn cydymdeimlo mwy â theimladau y mochyn nag â theimladau crefyddol George. Och fi! erbyn hyn y mae yn anhawdd dyweyd, mewn barn cariad, fel y dywedir, pa un ai y mochyn neu y wraig oedd fwyaf aflywodraethus, canys yr oedd y ddau wedi myned i dymherau drwg dychrynllyd. Fe allai y byddai ein darllenwyr yn ystyried mai gormod o halogedigaeth mewn mater fel hyn fyddai dyweyd pa beth a ddarfu iddi lefaru a'i thafod, yn nghanol gweddi yn y teulu. Y mae yn anhawdd gyda ninau hefyd ddyweyd pob peth ag a wyddom; ond chwi a wyddoch fod yn rhaid myned trwy y tew a'r teneu i gael gafael ar fan caled ambell waith. Y mae yn rhaid cyffesu iddi hi yn ysbaid y weddi wneyd peth mor anrasol â thyngu, a hyny lawer gwaith, ond yn ddystaw, gwybyddwch, gan wasgu ei danedd yn nghyd, a chnoi ei thafod; eithr yn awr, y mae yn methu dal yn hŵy i dyngu yn ddystaw; y mae y tân yn enyn yn rhy wyllt, ac yn myned yn rhy boeth, a hi a "lefarodd â'i thafod." Beth ddywedodd hi? Yn wir, y mae yn anhawdd dyweyd, ac eto y mae yn rhaid dyweyd rhyw beth. Wel, dyweyd enw y Gwr Drwg yr ydoedd o'r rhestr, ac yn y diwedd yn dymuno ar iddo ei chipio yn gorphorol i'r fan hono; ond dyna, rhaid ymatal, onide bydd y papyr a'r inc yn gwaeddi allan, "Haloged-

igaeth." Yr oedd hwyl ein harwr gymaint fel yr oedd yn anghydwybodol braidd o'r tywydd garw ag oedd yn darllaw uwch ei ben; oblegyd er pob ystwr, gweddio yn y blaen yr oedd efe hyd yn hyn. Y mae y cynhwrf yn cynyddu yn y cyntedd oddiallan; y mae'r mochyn yn myned waeth waeth; yn agor ei enau ac yn lledu ei safn yn anferth, gan frochi, crochi, ac oernadu yn annesgrifadwy, neidia yn erbyn drws y twlc gyda nerth dauddyblyg, ac ymaflyd â'i ddanedd yn y coed a'r ceryg, fel pe buasai yr holl gythreuliaid a gawsant orchymyn i fyned i'r genfaint yn ngwlad y Gadareniaid, wedi meddianu y mochyn hwn ei hun. Yr oedd yno, fel y gwyddoch, "genfaint" yn pori yn ddystaw; ond wedi i'r cythreuliaid fyned iddynt, dyna hwynt yn ddisymwth, fel taro dwylaw yn nghyd, yn taro i bant, yn cynffondorchi, ac yn rhedeg, nid yn rhy agos i'r dibyn ac yn cwympo drosodd, ond yn "rhuthro," fel gwylliaid gwylltion, dros eu penau i'r dyfnder mawr. Yr oedd rhyw beth yn bur gyffelyb yn hwn hefyd, sef mochyn George; canys cyn dechreu y weddi yr oedd efe fel hwythau yn dawel a llonydd, yn debyg i ryw fochyn arall; eithr cyn myned nemawr yn y blaen, dyma y cynhyrfiadau yn dechreu, ac yn myned fwyfwy fyth fel yr oedd y gweddiwr yn codi i hwyl.

Eto y mae y gweddiwr, er yr holl fwstwr hyn, yn myned yn y blaen, ac yn ymaflyd mewn addewid ar ol addewid, ac wrth bob argoel, bron yn cael glàn arni, a theimlo ei draed ar "Graig yr oesoedd"—pan y mae amynedd Sophi wedi rhedeg i ben, a'i holl ddyoddefgarwch wedi darfod yn llwyr. Weithiau y mae yr ysbryd aflan fel pe buasai yn cael cenad i fyned o'r mochyn i'r wraig. Yr oedd hyn yn groes hefyd i amgylchiad y Gadareniaid; canys o'r dynion yr aethant i'r moch y tro hwnw; eithr beth bynag, felly y dygwyddodd yn awr, fel pe buasai yr un drwg yn myned o'r mochyn i'r dyn. Y mae yn debyg nad oes unffurfiaeth mewn llawer o oruchwyliaethau. Beth bynag am hyn, y mae ysbryd Sophi yn cynhyrfu yn ddychrynllyd, a gallesid meddwl fod swn uffern yn gwneyd rhuthr ofnadwy, i'w glywed o fewn y lle. Dyma hi yn neidio ar ei thraed fel arthes wedi colli ei chenawon, yn taflu y gadair yn ysgythion yn erbyn y mur, a chyda hyny yn rhuthro, nid dros y dipyn i'r môr, canys yr oedd gryn haner milldir o'r fan i ymyl y weilgi, ond yn rhuthro tuag at George, ac yn ymaflyd o'i ôl yn ngwallt ei ben, gan ei dynu i lawr, gadair a chwbl, yn sybyrthol ar asgwrn ei gefn, gan rwygo, a rhegu, a rhuo, yn y fan hono, mor debyg ag oedd yn bosibl fel un yn meddiant y gwr drwg. Yr oedd ein harwr erbyn hyn wedi cael y fath ergyd ar ei wegil, yn nghyda'r fath gyffroad i'w deimladau, yn agor ei lygaid mawrion fel wedi ei synu, ac nid allai lefaru, canys nid oedd yn teimlo ysbryd mwyach ynddo; tra yr oedd Sophi yn rhuo uwch ei ben, yn ei fygwth â dyrnodiau lawer, ac yn gwaeddi yn groch, "Myn ——, fi wna i ti beidio â gweddio eto yn amser rhoi bwyd i'r mochyn; cwyd ar dy draed, a cherdda at dy waith, y llercyn pwdr."

Erbyn hyn, fel y gellwch feddwl yn hawdd, yr oedd ysbryd ein gwron yn gryn gymysglyd, ac y mae yn syndod na buasai wedi dal rhai o'r gwreichion uffernol, nes rhoi holl droell naturiaeth yn fflam. Eto, er fod yr hin yn dra ystormus ar ei feddwl, yn ymylu ar "boethwynt," ni ddywedodd ddim yn ynfyd; "ac yn hyn i gyd ni phechodd"—yn weledig, beth bynag; ac ni chymerodd un drafferth ar y pryd gyda y gorchwyl anobeithiol hwnw o geisio atal tafod yr hon a ymrwymasai wrth yr allor i'w fawrhau ac ufuddhau iddo, eithr gadawodd i'w haelod bychan anllywodraethus gael ei gwrs, hyd nes i amser, a blino, roddi taw arno. Tynodd o'r neillduu yn fwynaidd, gan ocheneidio yn brudd; meddyliodd fod yr Arglwydd yn ei geryddu, ac na fynai wrando ar ei weddiau.

Unwaith, pan yr oedd George yn adrodd y brofedigaeth hon, gan sicrhau yn benderfynol mai dylanwad cythreulig oedd yn gyru y mochyn yn wallgof, i rwystro ei weddiau, y mae cyfaill arall yn edrych yn syn yn ei wyneb, ac yn dywedyd, "George, a ydych ddim yn meddwl y gallasai peth fel yna fod, heb fod o dan ddylanwad uniongyrchol y gelyn diafol? Yr wyf fi braidd yn tueddu i feddwl mai dygwyddiad ydoedd wedi ei achosi yn llwybr cyffredin natur, ac nid gweithred uniongyrchol oddiwrth Beelzebub, penaeth y cythreuliaid. Y mae yn wir fod y brofedigaeth yr un peth; ond braidd yr wyf fi yn gallu meddwl fod y cythraul yn ein dyddiau ni yn cymeryd meddiant o greaduriaid, yn eu gyru yn wallgof, a'u defnyddio i demtio dynion. Y mae yn ymddangos i mi mai drwy ryw weithrediadau dirgelaidd ar y meddwl y mae efe yn cario ei waith yn y blaen yn fwyaf neillduol, oddiar amser adgyfodiad ac esgyniad yr Arglwydd Iesu." "Pw, pw!" ebe George, "ni wyddoch chwi fawr am dani hi; ni bu hi ddim yn gyfyng iawn arnoch chwi yn mhorth yr argyhoeddiad, onide buasech wedi eich dysgu i siarad yn gallach na yna. Y dyn! yr wyf wedi gweled y cythraul a'r ddau lygad yma lawer gwaith, mewn lliwiau a lluniau gwahanol; a phe baech yn tyngu ganwaith i'r gwrthwyneb, chredwn i ddim o honoch byth, na neb arall ychwaith." "Wel," ebe y cyfaill, "nid oes genyf fi ddim i ddyweyd, ond yr wyf fi yn meddwl y gallasai y fath bethau ddygwydd fel canlyniadau i bethau naturiol." "Pethau naturiol!" ebe yntau, "pa bethau naturiol fuasai yn gyru y mochyn yn wallgof a chynddeiriog, yn amser y weddi, ac heb fod dim yn y byd ar y creadur, na chynt na chwed'yn? Peidiwch â siarad *nonsense.*" "Wel," ebe y cyfaill, "a ydych ddim yn meddwl y gallasai fod arno ryw beth ar y pryd, fel yr oedd ar yr apostol Pedr, pan ar nen y tŷ—i deimlad o newyn mawr ddyfod arno, ac y chwenychai gael bwyd, a chyn y gallesid parotoi iddo, i ryw fath o lewygfeydd ei gymeryd?" Gyda hyn y mae ysbryd ein harwr i fyny, y mae yn agor ei lygaid mawrion ar y dyn, yn estyn y goes fach allan, yn cau ei ddwrn chwith, ac yn gwasgu ei ddanedd, ac yn dywedyd, "Y dyn dwl, yr wyf yn synu atoch yn siarad y fath bethau! Nid oedd un

mochyn yn y plwyf yn cael cymaint o ofal am dano; yr oedd yn cael bwyd bob nos cyn ein bod yn myned i'r gwely, a hyny o gwmpas deg o'r gloch, ac yr oedd wedi ei gael y noson hono, ac nid oedd yn ddiweddarach nag arferol y boreu hwnw; ni bu mochyn erioed yn y fath agwedd o eisiau bwyd, chwaithach un nad oedd dim angen mawr arno; nis gallasai fod." Gyda hyn, y mae yn adnewyddu ei nerth, yn taflu ei fraich, ac yn dywedyd, "Pw, pw! yr wyf fi yn gwybod yn burion mai'r cythraul oedd yn y mochyn, ac am a wn i leng o honynt fod wedi ymuno i nghael i yn ol i'r fyddin ddu; ond ni chânt fi byth ond hyny."

Gwr call ddigon oedd ein cyfaill ag oedd yn ymddyddan ag ef ar y materion hyn, eto yr oedd holl ddoethineb hwnw yn pallu yn aml, ac yn methu yn un wedd myned i mewn â'r llong i'r porthladd a ddymunai. Y mae yn rhaid i ni gyffesu, ac nid oes arnom gywilydd ychwaith, fod ryw gwestiynau fel hyn y tu hwnt i'n dealldwriaeth, ac am hyny nas gallwn gynyg unrhyw sylwadau arnynt fel hyn neu fel arall, ond yn unig adrodd y ffeithiau, a gadael rhwng ein darllenwyr medrus â hwynt. Fe ddichon i hyn ddyfod ger bron rhyw rai doethion a deallus mewn cyfrinion a dirgeledigaethau, pa rai a fedrant ddeongl deongliadau, a datod cylymau; os felly y bydd, bydded iddynt hwy foddloni eu hunain, a bydd y cwbl ar ben. Ond bydded hi fel hyn neu fel arall, y mae yn ddigon amlwg fod y brofedigaeth yn un chwerw i George, ac wedi achosi mwy na mwy o ofidiau.

Y mae yn ddigon tebyg mai o herwydd rhyw aflonyddwch fel hyn yn ei deulu gartref, y daeth i'r arferiad o fyned allan weithiau i làn y môr, weithiau i'r caeau, ac weithiau i'r mynyddau cyfagos i weddio. Y mae yn eglur ei fod yn yr arferiad o wneyd hyn, nid yn unig yn ei argyhoeddiad a'i gychwyniad gyda chrefydd, ond hefyd drwy ei holl fywyd. Yr oedd yn hawdd gwybod pan y byddai rhyw beth ar ei feddwl yn fwy na'r cyffredin; yr oedd y gymydogaeth yn gwybod; canys gwelid ef yn rhodio wrtho ei hun, yn y caeau, neu làn y môr, neu ben y mynydd gyferbyn; a chlywid ei swn o'r naill gyfeiriad neu y llall yn bur aml. Mae yn ddigon tebyg ei fod yn annghydwybodol ar amserau ei fod yn siarad allan; ond byddai yn bloeddio allan nes y clywid ef o bell. Yr ydym yn cofio ei glywed ef yn dyweyd, yn amser rhyw brofedigaeth ddychrynllyd, pan y tybiodd fod pob dyn yn troi yn ei erbyn, ac wedi cynllunio ei ddinystr, iddo fyned i lawr i làn y môr yn drwm ei galon, gan feddwl y buasai yn well iddo roi crefydd a phob peth i fyny, ond yr ymddyddanai â Duw yn gyntaf cyn penderfynu yn llwyr. Yno yr aeth ac ymguddiodd yn yr hesg sydd ar fin y tywod, a dechreuodd arni; yno y bu am agos i dair awr yn nghanol yr hesg, ac yn swn rhuadau anferthol y môr. "Ond," eb efe, "yr oedd pob swn yn ddystaw ond swn Duw Hollalluog, yr hwn oedd yn llefaru tangnefedd wrthyf, ac yn rhoi cryfder yn fy mynydd, nes yr oeddwn yn teimlo fy hun can gryfed ag Abraham. Yr oedd yr Arglwydd yn arllwys yr ysgrythyrau i fy meddwl, y rhai

oedd yn fy nerthu fel nad oeddwn yn ofni dim. Clywais fel swn allanol yn dywedyd, nid sibrwd yn fy meddwl, ond swn gwirioneddol yn y glust, y geiriau hyn, 'Eto tŷ Israel ni fynant wrando arnat ti; canys ni fynant wrando arnaf fi; oblegyd talgryfion, a chaled-galon ydynt hwy, holl dŷ Israel. Wele, gwneuthum dy wyneb yn gryf yn erbyn eu hwynebau hwynt, a'th dàl yn gryf yn erbyn eu talcenau hwynt. Gwneuthum dy dalcen fel adamant, yn galetach na'r gallestr; nac ofna hwynt, ac na ddychryna rhag eu hwynebau, er mai tŷ gwrthryfelgar ydynt.' A wyddoch chwi beth," eb efe, "mi ddaethum i fyny o làn y môr y diwrnod hwnw yn ddigon cryf o ran fy nheimladau i droi yr holl blwyf wyneb i waered." Ni a gofiwn byth, yr ydym yn meddwl, am ei agwedd wrth adrodd hyn; buasai cael *photograph* o hono y diwrnod hwnw yn ddigon o werth haner coron i un dyn byw. Yr oedd yn edrych fel cawr, yn troi y llawffon yn ei law ddeheu, yn cauad ei ddwrn chwith, ac yn estyn y goes fach yn y blaen fel pa buasai mewn teimlad, ac am hyny yn ei osod ei hun mewn agwedd barod i dreiglo y plwyf i'r eigion mawr. Beth bynag, y mae yn bosibl y dylem ddyweyd i'r Llywodraethwr mawr gymeryd moddion tuag at ddyfod â phethau i'w lle a'u hagwedd briodol, y tro hwn heb ddirprwyo y gallu i'n gwron i dreiglo y gymydogaeth dros y dibyn i'r môr. Yr oedd hyn yn well, fel y gwelwch, canys cafodd ef y fendith o fod yn gryf ac yn ddiofn, a hwythau y fendith o gael eu gwella heb eu dinystrio. Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn hoff, o dan ei deimladau mwyaf arteithiol, o gyrchu yn fynych i ryw fanau dirgel i weddio; ac y mae rhyw fendith byth yn dilyn y cyfryw arferiad. Yr oedd gan George dri o fanau penodol yn yr ardal i fyned i weddio, pan mewn tywydd garw iawn; yr oedd manau eraill hefyd, fe ddichon; ond yr oedd y rhai hyn fel *fixed points*, yn fanau sefydlog, heb fod yn ddarostyngedig i ddeddfau cyfnewidiol. I'r naill neu'r llall o'r lleoedd hyn yr ymgyrchai yn ei wahanol brofedigaethau, ac y mae wedi eneinio y colofnau hyn â'i ddagrau lawer gwaith. Ond fe allai ein bod yn crwydro yn ormodol; y mae eisiau dyfod yn nes, pe bai yn bosibl, at y pwnc, i edrych a allwn ddybenu ryw bryd, a dyfod i fyny o'r anialwch i ben y bryniau o'r diwedd.

Pan "yn mwlch yr argyhoeddiad," fel yr arferai ddyweyd, yn gyfyng iawn arno un dydd, ychydig amser wedi profedigaeth y mochyn hwnw, meddyliodd am fyned i un o'r manau hyn i weddio, i edrych a fyddai dim modd cael goleu ar y mater mawr tragywyddol bellach. Penderfynodd y tro hwn fyned i fyny i'r mynydd, i gael ychydig o awyr hwnw, canys bu i lawr wrth y môr *wedi* profedigaeth y mochyn, ond ni chawsai hwyl yn y byd. "Yr oedd rhyw beth," meddai, "yn dyweyd yn fy meddwl, Wel, ar fynydd y croeshoeliwyd yr Arglwydd Iesu; fe allai ond i mi fyned i'r mynydd i weddio, y caf gwrdd ag ef yno." Pechodau yr ieuenctyd, ïe, pechodau mawrion ac aml yr oes, oedd yn pwyso arno yn drwm yn awr, ac yn mron llethu ei enaid i'r llawr. Hyd yn hyn, nid oedd yn deimladol o heddwch Duw, eithr

"euogrwydd fel mynyddau'r byd," oedd yn difa, fel tân ysol, ei sylwedd. Nid ydoedd wedi cael gwaredigaeth, drwy adnabyddiaeth o drefn yr efengyl, o'r hen duedd naturiol i geisio gwneyd iawn am bechod drwy ryw beth o'i eiddo ei hun. Yr ydoedd yn meddwl fod yn rhaid iddo roi boddlonrwydd am bechod drwy gyflawni ddwywaith rhagor o ddyledswyddau nag a gyflawnodd o bechodau. Bu wrth hyn dro hir, ac y mae yn ddigon tebyg fod rhyw beth felly yn ei feddwl pan yn myned i'r mynydd y tro hwn i weddio. Beth bynag, y mae yn ddigon amlwg nad ydoedd hyd yn hyn yn deall dim yn briodol am aberth Crist, a ffydd yn ei waed ef, ond yn ceisio gwneyd rhyw gyfiawnder, i'w osod i fyny fel defnydd ei gymeradwyaeth ger bron y nefoedd. Y mae efe yn chwilio yn wirioneddol am heddwch, ond mewn gwrthddrychau anmhriodol, o herwydd y llèn yr hon sydd eto heb ei difa yn llwyr oddiar y meddwl. Yn y teimladau cymysglyd hyn, wele ef yn ymaflyd yn ei lawffon, ac yn dechreu ei daith i ben y mynydd. Nid yw yn gwneyd sylw o ddim nac o neb ar y ffordd, ond yn myned yn y fath frys fel pe buasai yn amcanu gweled Llundain cyn nos. Yr oedd yn ofynol fod cryn awydd i weddio, a syched am dawelwch a neillduolrwydd, cyn y buasai neb yn cymeryd taith i ben y mynydd hwnw, chwaithach dyn bron wrth naill goes; oblegyd yr oedd yn fynydd tra uchel, a'r llethr yn serth iawn i ddringo i fyny. Ond, er hyn i gyd, yr oedd digon o ysbryd gweddio yn ein harwr ar y tymhor hwn, er ei holl anfanteision mewn cysylltiad â'i goes, i ddringo i fyny y creigydd serth hyn.

Rhwng y pentref y preswyliai a'r mynydd, yr oedd amryw o gaeau llethrog, ar hyd pa rai y dringai yn raddol, hyd nes y deuai at ddannedd y creigiau. Yr oedd yn brydnawn tawel, ychydig cyn nos, a natur oll yn canu o'i gwmpas, ië, "holl goed y maes yn curo dwylaw," ac yntau yn y canol yn gruddfan yn drymlwythog o dan bwys ei bechodau, ac yn esgyn i'r mynydd i geisio ymbil â Duw y nefoedd am faddeuant a rhyddhad. Dacw ef yn dringo y cae glas, yn ymddangos yn bur bendrwm, ïe, yn ymylu ar anobaith tragywyddol, a llawer ochenaid bruddaidd yn dianc allan o'r galon glwyfus. Tra yn synfyfyrio fel hyn, yn wynebdrist a than orthrymder y gelyn, ac yn dringo y llethr yn frysiog tua'r mynydd neillduedig, wele, yn ddirybudd, ryw beth fel ergyd o lawddryll yn cael ei ollwng heibio ei glust, ac mor agos ato fel y tybiodd ei fod yn teimlo y tân yn golosgi ei farf. Neidiodd, yn y cynhyrfiad cyntaf, heb wybod dim i ba le; tarawodd ei law ar y foch losgedig, gan feddwl fod ei holl waed yn rhedeg allan; gyda hyny y mae yn rhyw haner llesmeirio, ac yn syrthio dibyn dobyn i lawr i'r llethr, gan geisio ymaflyd yn y borfa, neu ryw beth arall y cai afael arno. Ar ychydig o wastad teg islaw, y mae yn ymatal rhag ymdreiglo, ac yno y gorphwysodd y corph am encyd, nes dychwelyd yr anfarwol eilwaith; oblegid ymddangosai pethau fel pe buasai yr ysbryd wedi cymeryd ei adenydd, ac ehedeg ymaith yn sŵn yr ergyd, fel aderyn brawychus, am

noddfa yn ryw le tu hwnt i gyrhaedd yr adarwr. Bid a fyno, nid oes genym ni ddim i ddyweyd, ond ymddangosai yn hollol "fel pe na byddai ysbryd mwyach ynddo." Bu yn gorwedd ar ddull y meirwon am dro hir. Yn mhen ychydig dyma arwyddion bywyd yn dychwelyd drachefn, y rhai a ddechreuasant ymddangos mewn gruddfan ac ochain. Torodd y chwys oer drosto, a chyda hyny y mae yn teimlo awydd bloeddio; a chan faint ei ddychryn, bloeddiodd yn echrydus, yn fwy tebyg i darw gwyllt yn bygylu na dim arall a wyddom ni am dano. Yn mhen tipyn y mae yn edrych o'i gwmpas yn wyllt a synedig, i edrych a welai ei elyn, yr hwn oedd wedi saethu at ei ben, ac wedi amcanu cymeryd ei fywyd ymaith. Eithr nid oedd yno neb dynol gerllaw. Wedi iddo edrych fel hyn o'i gwmpas, dyma fraw eilwaith yn ei gymeryd yn fwy nag erioed; canys yr oedd colofn o dân yn chwareu o flaen ei wyneb, ac yn nesu ato nes nes, fel na wyddai i ba le i fyned na pheth i'w wneyd. Safodd dan grynu, ac yn welwlas, eithr nesu ato yr oedd y golofn, fel y tybiodd ei fod yn cymeryd tân. Y pryd hyn y mae wedi colli holl deimladau y bywyd hwn; y mae bron dyrysu, y mae yn syrthio ar ei wyneb gan grochfloeddio, "Uffern! uffern! uffern! O! dyma fi yn nghanol uffern! beth a wnaf? O Arglwydd, myn chwareu teg i greadur tlawd; paid a gadael i'r cythraul fy nghael. O Dduw! cymer drugaredd arnaf, ac arbed yn helaeth!" Yr oedd ei lefau yn gryf y tro hwn, nes yr oedd yr holl gwm yn adsain; ond nid oedd neb o'r trigolion yn rhoi nemawr bwys ar y mwstwr, canys yr oedd erbyn hyn wedi myned yn beth lled gynefin, a'r rhan fwyaf yn meddwl mai effeithiau gwallgofrwydd ydoedd; neu beth bynag, rhyw anwylder yn yr ymenydd, anadnabyddus iddynt hwy, ond y dylasai ei berthynasau agosaf, neu drigolion y plwyf, edrych ato, rhag ofn canlyniadau anhapus. Y mae yn ymddangos i George fethu cyrhaedd pen y mynydd y noson hon; cafodd lawn digon o waith ar y llethr wrth fyned tuag yno. Er hyn oll y mae yn debyg na chafodd foddlonrwydd y tro yma fod yr Arglwydd yn ei wrando, oblegyd yn "mhorth yr argyhoeddiad" yr ydym yn ei gael am gryn amser wedi hyn. Y mae yn debyg nad oedd ewyllys yr Arglwydd i ddadguddio ei hun iddo yn fuan; yn gymaint a'i fod wedi bod y fath bechadur mawr, fe allai fod yn angenrheidiol iddo gael edifeirwch mawr, a phrofedigaethau mawrion er cynyrchu hyny. Y mae yn rhaid cael offer cryfion i lorio cewri; nid gwiw cadwyno llew wrth gadwen wan; ac y mae yn debyg fod yn rhaid i'n harwr, fel Saul yr erlidiwr, gael ei daro i lawr â dwrn Hollalluog, a chael ei lusgo yn ddall yn y blaen am dro hir.

Wedi y weledigaeth ryfedd hon, yr ydym yn ei gael braidd yn fwy anobeithiol yn ei feddwl am iachawdwriaeth nag erioed; y mae yn digaloni, yn credu ei fod yn ormod o bechadur i gael maddeuant; fod yr Arglwydd wedi digio wrtho yn dragywydd o herwydd ei ryfyg a'i aml anwireddau gynt, ac mai ofer bellach oedd ymdrechu, fod y cwbl drosodd, ac nad oedd dim i'w wneyd

ond penderfynu ar golledigaeth am dragywyddoldeb. Och! yr oedd hyn yn ofnadwy hefyd. Y mae yn dân poeth yn y gydwybod. Y mae yn annyoddefol! Mae yn teimlo anmhosiblrwydd i eistedd i lawr, neu ymgyrchu at ei bechodau gynt, i dreulio ei amser allan yn y byd i aros y tân tragywyddol. Y mae eto yn ymysgwyd, yn troi oddeutu, ac yn ymholi o'r newydd, "Beth sydd raid i mi wneuthur fel y byddwyf gadwedig?" Y mae pob peth yn ddystaw; nid oes swn i'w glywed; nid oes neb yn ateb; y mae unigolrwydd a phrudd-der yn teyrnasu yn hollol, a'r ymofynydd tlawd am gadwedigaeth yn cael ei adael iddo ei hun i fyw neu farw goreu y gallai. Y mae yn methu gweddio; ei nerth sydd wedi darfod, a'i obaith fel wedi gwanychu, nes y mae braidd yn dihoeni, ac eto heb anobeithio yn llwyr. Er fod ei feddwl yn rhy gymysglyd i fyned at orsedd gras yn bresenol, eto fe feddyliodd am y capel, ac am noson y *society*, yr hyn a adgyfnerthodd ei feddwl ychydig; a gwnaeth benderfyniad er pob peth i fyned tuag yno, i edrych a oedd rhyw gyfarwyddyd pellach i'w gael gan yr hen gyfeillion yn nghylch y mater dyrys hwn. Heb ymgynghori ychwaneg â chig a gwaed, dyma ef yn cymeryd calon, yn codi ac yn cychwyn, gan ddysgwyl cyfarwyddiadau o bwys, y rhai, fe allai, a fyddent yn help iddo ddyfod i oleuni dysglaer am drefn gras. Yr oedd efe yn myned ar neges tua'r capel; fe wyddai fod arno eisiau rhyw beth nad oedd i'w gael mewn dim daearol; ac i chwilio am y peth hwnw y mae yn myned i dŷ yr Arglwydd. Dyma yr unig ddyben. Y mae llawer yn myned heb un amcan yn eu golwg, ond yn unig mai felly yw cwrs y byd, a'u bod hwythau i ryw fesur am ddylyn yr arferiad. Eithr nid felly yr oedd Heycock ar hyn o pryd, beth bynag; yr unig nod o flaen ei feddwl ef oedd cael rhyw gyfarwyddiadau er ei gynorthwyo i ddyfod i afael cadwedigaeth dragywyddol. Yr ydym yn dychymygu ein bod yn ei weled yn myned i fyny at yr hen gapel, a golwg lled bruddaidd yn ei wyneb, yn edrych tua'r llawr; canys nid allai godi ei olygon i fyny; ei het bron yn cuddio ei lygaid, ac eto ei holl agweddiad corphorol yn dangos ei fod mewn brys. Y mae y llawffon a'r goes fach yn chwareu yn ddiwyd, a chyda y fath gysondeb a deheurwydd, fel y mae yn anhawdd gweled un peiriant o'r cyfansoddiad mwyaf diweddar, yn gweithio yn well. Ond dyna, gadewch i ni fyned yn y blaen, a gadael yr holl bethau hyn, oblegyd y mae George yn awr wedi myned i mewn i'r capel.

Wedi i frawd ddarllen penod, canu, a gweddio, yn ol y drefn arferol, y mae Heycock yn gwylied cyfle i ddyweyd ei neges yn un o'r rhai cyntaf. Yr oedd yn ofynol i fod dipyn yn barod yn yr hen Dyffryn, yr amser hwn yn enwedig; onide, unwaith y dechreuai rhyw un agor y gyfeillach, nid oedd un dyn byw a allai ddyweyd yn mha le na pha bryd y byddai yn debyg o ddybenu. Yr oedd yn beth digon posibl, pe unwaith y dechreuai rhyw un siarad, y byddai y nesaf yn barod wed'yn, ac felly yn y blaen, bron yn ddiddiwedd. Rhyw le gwresog oedd yr hen

Ddyffryn, yn dân poeth bron o hyd, yn hen Fethodistiaid gwresog, ac yn cael eu codi yn fynych i'r nefoedd fry mewn hwyliau hyfryd. Y maent yn parhau byth, er fod y capel yn newydd, a llawer o bethau yn newydd, yn fwy tanllyd na'r rhan fwyaf o leoedd. A chofiwch, nid tân dyeithr ydyw, na thân gwneyd gan ddychymyg, eithr tân Duw; canys y mae hyny yn cael ei egluro nid yn unig mewn hwyl yn y cwrdd, ond hefyd yn mhob rhinwedd. Y maent yn y blaen gyda chynorthwyo y gweiniaid, ymgeleddu yr achos lle y mae yn wan, yn nghyda phob casgliad at wahanol achosion crefydd.

Yr ydym wedi dyrysu peth yn sicr; yn mha le yr ydym yn awr? beth yn y byd sydd wedi ein harwain y ffordd hon? gobeithio nad ydym o dan arweiniad rhyw ysbryd annghyfarwydd, yr hwn, wedi ein harwain i annybendod, a fydd mor anfoneddigaidd a'n gadael yno. Ar yr un pryd nid oes raid i ni ofni hyny, canys dywedir fod teimlad o anrhydedd helaeth mewn ysbrydion; oblegyd pa bryd bynag y maent wedi cyrchu rhyw un, a'i gipio ymaith ar wibdaith, i daflu rhyw guddfa i'r amlwg, neu ryw beth arall, eu bod yn dychwelyd ag ef adref, a'i roi i lawr yn yr un man. Y mae cryn foneddigeiddrwydd yn hyn. Wel, dyma ni wedi dychwelyd eto; yr ydym yn hen Gapel y Dyffryn drachefn, a dacw Heycock yn sefyll ar ganol y parth, a'i bwys ar ben ei ffon yn myned i ddyweyd rhyw beth. Y mae yn achub y blaen mor gynted ag i'r weddi ddarfod, i adrodd ei brofedigaethau, a cheisio cyfarwyddiadau newyddion gan y brodyr. Y mae y brawd Thomas Robert yn ei anog yn y blaen, i adrodd y pethau ag oedd yn pwyso ar ei feddwl yn y dyddiau hyn. Y mae yntau yn gwaeddi allan, "Y mae rhyw beth yn fy lladd, Thomas Robert. Y mae Duw yn pallu maddeu fy mhechodau, ac y mae rhyw beth yn dyweyd ynof mai yn uffern y byddaf byth. Y mae Duw yn dân ysol; gwelais ef pwy nos yn fflamiau dychrynllyd yn bygwth fy llosgi yn fyw; y mae arnaf arswyd myned yn agos ato i ofyn dim ganddo mwyach. Y mae Duw yn fy lladd; y mae'r cythraul yn fy lladd; y mae pawb am fy lladd; beth gan hyny a wnaf?"

Dyma deimlad anhawdd ei ddesgrifio; ac am fynyd y mae dystawrwydd fel y bedd yn teyrnasu yn llwyr; y mae yn gyfyng o'r ddeutu, a thywyllwch yn unig sydd daenedig ar wyneb y dyfnder. Ond wele y brawd Thomas Robert yn cael anadl newydd, yn taflu ei fraich, ac yn gwaeddi allan, "George, os yw satan am dy ladd, a phawb eraill am dy ladd, nid yw Duw am dy ladd, canys y mae efe wedi derbyn yr aberth, am hyny gobeithia ynddo; y mae efe yn Dduw trugarog a graslawn, hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd." "Thomas," ebe y *bruiser*, "yr y'ch chi yn camsynied; nid yw Duw yn drugarog wrthyf fi; y mae yn fy lladd, ac yn dyweyd yn fy mynwes y lladd efe fi yn oes oesoedd." "George, paid cablu y Goruchaf," ebe Thomas; "satan sydd yn dyweyd fel yma yn dy galon; gwrthwyneba ef, ac efe a ffy oddiwrthyt, ac yna fe ddaw Duw trugarog i siarad â thi."

"Wel o'r goreu, Thomas Robert," medd George; "mi dreiaf unwaith eto, beth bynag." "Ië, ïe, 'dos eilwaith at y Gwr,'" ebe rhyw frawd arall. Gyda hyn y mae y brawd William Rees yn codi ar ei draed, ac wedi gwneyd rhai sylwadau rhagarweiniol tra phwrpasol, y mae yn dywedyd, "George, yr unig ffordd i ti ddyfod drwyddi, yw darllen y Bibl yn fanwl, a thrysori cymaint o hono ag sydd yn bosibl yn dy gof, fel y byddot bob amser yn arfog i gyfarfod â'r gelynion ysbrydol; canys y mae digon yma i gyfarfod â phob rhwystrau ac anhawsderau, a'u gorchfygu hwynt oll." Dyma George yn neidio yn y blaen, fel pe buasai wedi cael bywyd newydd, ac yn dywedyd, "Wel, o'r goreu, William Rees, os gwna hyny y tro, fel yr y'ch chi yn dyweyd, mi ddysgaf gymaint o'r Bibl ag y gallwyf, ac mi ddechreuaf heno cyn myned i'r gwely." Wedi rhyw lawer o ymddyddanion o'r natur hyn, a phethau yn ymddangos fel pe byddent yn goleuo ychydig, dybenwyd drwy weddi, ac ymadawsant. Y mae George hefyd fel pe bai wedi ymgysuro ychydig; nid yw wrth ddychwelyd yn edrych yn hollol mor drymaidd; y mae yn codi ei ben yn uwch, ac nid yw ei het yn hollol mor isel ar ei ben; y mae fel pe bai yn meddwl ei fod bellach wedi cael gafael ar ben y ffordd. Hyd yn hyn, mae yn eglur, mai meddwl yr oedd foddloni yr Arglwydd a'i heddychu trwy wneyd rhyw beth, ac wedi cael golwg ar beth i wneyd, y mae yn tawelu ychydig ac yn taro at hyny. Y mae yn cerdded gartref heno ar ffrwst; yn wir, y mae golwg brys arno; y mae yn taflu ei goes fel pe bai heb fod yn berchen arni, ac yn gwneuthur clem ddyeithriol. Mor gynted ag y mae yn cyrhaedd y tŷ, y mae yn ymaflyd yn y Bibl, ac yn dechreu gyda'i orchwyl newydd, gan feddwl yn sicr yn awr ei fod yn dechreu ar ben y llwybr, ac y deuai i ben yn fuan bellach â'r holl fusnes.

Daeth i'w feddwl, nid ydym yn gwybod pa fodd, nag o ba le, y byddai yn rhaid iddo ddysgu deugain penod yn berffaith, a'u hadrodd o flaen craig uchel oedd yn agos, heb golli un sill o'r dechreu i'r diwedd. Yr oedd yn benderfynol yn awr yn ei feddwl os gallai ddyfod i ben â hyny yn berffaith, y byddai yn sicr o gael trugaredd, ys dywedai William Rees. Y mae yn parotoi ati o ddifrif, ac yn cychwyn gyda'r benod gyntaf yn Genesis; ac yna un yma a'r llall acw, drwy y Bibl yma a thraw, nes dysgu y deugain penod yn gyflawn. Byddai Sophi yn tyngu aml lw wrth ei weled yn colli amser fel hyn; ond ni waeth beth yn y byd, glynu wrthi yr oedd ein gwron; ac nid rhyfedd, pan ystyriom fod y mater yn ei olwg yn fater bywyd tragywyddol. Yr oedd y graig, o flaen pa un yr oedd yn myned i'w hadrodd, yn glogwyn oedd yn hytrach yn uchel, ac yn bur fawreddus, o gwmpas haner milldir i'r lle. Yr oedd yn ymgrynhoi ac fel yn gogwyddo ychydig i lawr tua chyfeiriad y môr, fel y gallasech feddwl, yn naturiol ddigon, am ben dyn yn plygu ychydig i ymwrando ar ryw un ag oedd islaw iddo yn y cwm. Pa un a oedd y *bruiser* wedi meddwl am ryw beth felly, nis gwyddom; ond yn rhyw fodd neu gilydd yr oedd wedi taro yn ei ben ef

adrodd yr holl benodau ger bron y clogwyn hwn; a chariodd ei benderfyniad allan i berffeithrwydd hefyd. Yr oedd yn ddigon i beri i hen sant wenu wrth ei weled yn myned i fyny, wedi dysgu y benod gyntaf, i *exercisio*. Y mae yn debyg fod yn rhaid dyweyd pob un ar ol ei dysgu, ger bron y clogwyn; ac wedi hyny dyweyd y cwbl o'r rhestr yn nghyd wrth orphen y gwaith. Dacw ef wedi dysgu y benod gyntaf, yn croesi y caeau, ac yn myned yn hwylus tua chyfeiriad y graig benglogaidd. Y mae yn edrych yn fwy siriol nag y mae wedi bod er ys llawer dydd; gellid meddwl ei fod wedi dyfod i'r goleuni, a bod Haul cyfiawnder wedi codi arno; eithr nid felly y mae yn hollol, ond gobaith sydd yn gryf yn bresenol yn dysgwyl y daw dedwyddwch o'r weithred hon. Beth bynag, dacw ef bron gerllaw troed y mynydd, a dacw y graig fel yn gogwyddo ei chlust i ymwrando, gyda phob parodrwydd. Edrychwch, dacw George yn codi ei ben, ac yn estyn ei wddf, a'r graig hithau yn foneddigaidd yn gostwng ei phen i ymwrando. Y mae Heycock yn tynu ei het oddiar ei ben, ac yn ei thaflu i lawr wrth ei draed, yn gosod y llawffon yn sicr yn gyfochrog â'r goes fer; ac wedi gosod ei berson fel hyn mewn trefn, ac ar dir dyogel, y mae yn taflu ei law ddeheu fel pe bai yn llongyfarch y creigydd mawreddog, ac yn dechreu adrodd llyfr Genesis yn eu clywedigaeth. "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. A'r ddaear oedd afluniaidd a gwag," ac felly yn y blaen. Yr oedd y creigydd yn cadarnhau yr hanesyddiaeth a'r athrawiaeth gogoneddus, drwy ail adrodd, gyda llais mil mwy nerthol, ac adsain y geiriau i eithafoedd y môr. Yn wir, yr oedd yr olwg yn bert! George yn siarad o flaen y creigydd am eu creadigaeth, a hwythau gyda nerth aruthrol yn ail adrodd y geiriau, gan gydsynio, a dywedyd Haleliwia, nes oedd yr adsain bron dyrysu pobl y pentrefi oedd yn byw ar eu cyffiniau. Pan y daeth at y geiriau, "A'r môr, a'r hyn oll sydd ynddynt," dyna fel pe buasai deng mil o dafodau yn cydio yn y geiriau, ac yn eu hail ddyweyd uwchben y gweilgi ag oedd yn chwareu odditanodd. Dylasai y *bruiser* droi ei wyneb at y môr, debygem ni, pan yn dyweyd hyny; ond ni wnaeth; sefyll yn syth yr oedd o flaen y graig o hyd, ac adrodd gyda'r sobrwydd mwyaf, yn gymaint a bod bywyd tragywyddol, debygai efe, yn ymddibynu ar hyny. Ond yr oedd cymwynasgarwch y creigydd yn taflu bob gair i glustiau y môr, fel yr oeddynt yn gorfoleddu yn nghyd. Wel, yn wirionedd anwyl, dyna adrodd da iawn, Heycock; dyna y cam agosaf at berffeithrwydd a welsom er ys llawer dydd; y mae agos bob sill yn berffaith. Y mae yntau yn cael ychydig o foddlonrwydd hefyd; y mae tristwch ei ysbryd yn llai, ac y mae yn dychwelyd fel un wedi gweu ychydig o gyfiawnder; ac os gellir myned yn y blaen, a gorphen y deugain penod, fod yn debyg iawn y perffeithir yn hollol erbyn hyny.

Yn y dull hwn y mae yn myned yn y blaen, gan adrodd penod ar ol penod ger bron y graig, nes myned dros yr oll o honynt yn ddifwlch, a hithau yn cydsynio â'r gwirioneddau, ac yn gyru eu

sain megys i eithafoedd byd. Ond wedi myned drostynt oll yn y wedd hon, yr oedd yn rhaid ryw ddiwrnod ddechreu o'r newydd, a'u hadrodd hwynt bob un heb golli dim. Hwn oedd y dydd annghyffredin; hwn oedd dydd mawr yr wyl, pan y mae ein gwron yn sefyll i fyny i adrodd y cwbl ar unwaith. Dydd pwysig yw hwn; gwaith mawr iawn sydd o'i flaen heddyw; bydd y fantol yn troi yn hollol ar berffeithrwydd y cyflawniad presenol. Y mae y boreu yn gwawrio yn deg, ac y mae yntau yn gwneyd pob darpariaeth angenrheidiol gogyfer a'r amgylchiadau pwysig. Wele ef yn cychwyn i'w daith yn hytrach yn wanaidd, eto yn myned rhagddo; wele ef yn dringo yr allt yn araf, gan daflu golwg bruddaidd i fyny i wyneb y creigydd. Yn mhen ychydig y mae wedi dyfod i'r ymyl, ac yn gwneyd y darpariadau angenrheidiol i fyned drwy y gwaith. Wedi tynu ei het fel o'r blaen, gosod ei berson yn daclus, y mae yn dechreu yn bwyllog ar y benod gyntaf, ac yn eu hadrodd o un i un nes myned drostynt oll yn hynod o berffaith. Wedi y pethau hyn, teimlodd foddlonrwydd mawr i'w feddwl; cafodd ychydig o dawelwch, a thybiodd fod y gwaethaf wedi myned heibio. Mor ymlynedig yw dyn wrth ei weithredoedd ei hun! Y mae yn ymaflyd yn mhob peth i geisio gosod i fyny ryw gyfiawnder o'i eiddo ei hun; ac ni fyn ollwng ei afael nes yr argyhoeddir ef yn llwyr, ac y lleddir ef yn farw gan Ysbryd Duw.

Y mae ein gwron, wedi iddo wneyd penyd o flaen y clogwyn, ac adrodd yr holl benodau yn ddigoll, yn ceisio gorphwys yn hyny, ac yn meddwl dianc byth gan ei Farnwr o herwydd cyflawni y fath orchestwaith. Dros ychydig, er hyny, yr oedd y llonyddwch hwn yn debyg i adeg deg o flaen ystorm a dryc-hin aruthrol. Wedi i'r llafur caled fyned drosodd, ac adsain yr hen graig ddystewi, y mae yntau yn cael ei adael mewn unigolrwydd, a'r meddwl fel yn myned i ymborthi arno ei hun, nes y mae golygiadau newyddion yn cael eu cynyrchu, ac elfenau terfysglyd yn dechreu ymgrynhoi o newydd yn y fynwes. Y mae fel pe byddai cwmwl yn codi o ryw fôr cythryblus, ac yn ymledu dros holl awyrgylch ei enaid pruddaidd; a chyda hyny dyma y nefoedd yn duo gan gymylau a gwynt, a phob arwyddion gwlaw mawr yn y man. Yn wyneb y golygfeydd hyn, y mae ei enaid bron yn llesmeirio. Yr oedd megys newynog a freuddwydio, ac wele ef yn bwyta; a phan ddeffry, gwag fydd ei enaid; ac megys sychedig a freuddwydio, ac wele ef yn yfed; a phan ddeffry, wele ef yn ddiffygiol, a'i enaid yn chwenych diod; neu fel yr afradlawn yn chwenychu llenwi ei fol â'r cibau, ond ni roddodd neb iddo. Yn lle heddwch, dyma chwerwder chwerw yn dychwelyd; y mae yr ystorm ddychrynllyd yn cynyddu; dychrynfeydd marwolaeth sydd yn ail gydio yn ei enaid, ac yn ei ysgwyd uwchben y llynclyn tragywyddol, pryd y clywai lais yn dywedyd, "A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o feheryn, neu â myrddiwn o ffrydiau olew? a roddaf fi fy nghyntafanedig dros fy anwiredd, ffrwyth fy nghorph dros bechod fy enaid?" "Gwerthfawr yw

pryniad yr enaid, a hyny a baid byth." "Oblegyd ni chyfiawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf." Och, dyma bob gobaith bod yn gadwedig wedi ei ddwyn yn llwyr oddiarno, ac yntau megys yn ymgrogi ac yn cael ei ysgwyd uwchben y pwll diwaelod!

O dan yr amgylchiadau hyn, penderfynodd gymeryd rhaff i fyny i'r coed, a therfynu y mater yn y fel yna; ond daeth i'w feddwl fod ymdaflu i eigion y môr yn angeu mwy hapus, ac hefyd yn llai trafferthus; felly penderfynodd ar hyny. Gwnaeth ei hun yn barod, a chymerodd ei lawffon am y tro diweddaf, ac ymaith ag ef tua glan y môr i gael rhoi terfyn ar y cwestiwn pwysig a gofidus hwn, mewn gwely dyfrllyd. Yr ydoedd yn brydnawn, ac agos i bryd cwrdd yn yr hen Ddyffryn; ond yr oedd cwrdd, a phob peth arall, erbyn hyn, wedi diflanu yn llwyr allan o'i feddwl cymysglyd ef. Yn bruddaidd a phendrwm y mae yn cerdded, fel pe buasai yn ddall ac yn fyddar, heb weled na chlywed neb na dim. Yn nghanol y dystawrwydd hyn, dyma lais yn dywedyd, "Hoi, George, pa le yr wyt ti yn myned? a wyt ti ddim yn dyfod i'r *society* heno?" "Dyn anwyl!" ebe yntau, "nid oeddwn yn cofio mwy na'r marw mai noson y *society* oedd hi; ond nis gwn a âf fi yno ai peidio, oblegid yr wyf yn meddwl ei bod hi *all over* gyda mi, nad oes dim gobaith y caf fi fy nghadw beth bynag a wnelwyf; ac am hyny yr un peth yw i mi fyned i uffern heno â rhyw bryd arall; yr oeddwn wedi penderfynu, fachgen, fyned i lawr i'r môr yna, a dybenu y cwbl yn y fan yna, canys y mae hi wedi myned yn rhy boeth i mi fyw yn hŵy." "George anwyl!" ebe y cyfaill, "paid a meddwl am ryw lwybr fel yna; oblegyd ni wna hyny ond y drwg yn waeth; y mae gobaith tra fyddom ar dir y byw, ond wedi yr elom at y meirw, dyma hi drosodd; ac os ydyw yn boeth arnat fel yr wyt yn dyweyd, cofia di, fe fydd yn fil poethach os i uffern yr âi di. Dere yn ol, a thyred gyda mi i'r *society;* pwy ŵyr na fydd Duw yno yn bendithio, ac y cei oleuni ar dy fater, ac y gweli ryw le i ymguddio yn well na thonau y môr, ac na'r creigydd ychwaith; y daw Iesu Grist wedi ei groeshoelio i'r golwg, ac yna ti gei orphwysfa dawel i dy enaid."

Wedi ryw lawer o ymadroddion fel hyn, dyma George yn cyfnewid ei benderfyniad, ac yn lle myned i'r môr, yn troi ei gefn arno, ac yn dechreu gwneyd ei ffordd, gyda'r brawd crybwylledig, tua'r *society* i'r hen Ddyffryn. Yr oedd y cwrdd erbyn hyn wedi dechreu; yr oedd y gwr o'r Hafod yn nghylch darllen y drydedd Salm ar ugain. Wedi canu, a myned trwy bob peth yn y llwybr arferol, y mae George, wrth gwrs, yn dyfod i'r bwrdd, canys yr oedd llawer yn dra hysbys o'i dywydd garw, yn enwedig y blaenoriaid. Y mae George yn eistedd ar y fainc tua chanol y capel, yn pwyso ei ben ar ei lawffon, pan y dynesa y brawd Thomas Robert tuag ato, gan ofyn yn fwynaidd, "Wel, George bach, pa fodd yr wyt ti yn myned yn y blaen y dyddiau hyn gyda'r grefydd yma?" Dyma efe yn neidio ar ei draed fel ergyd o

ddryll, yn taro y ffon ar y llawr, ac yn ei gosod fel arfer mewn sefyllfa briodol er cynorthwyo y goes fer, yn taflu y fraich arall allan, ac yn gwaeddi yn ddychrynllyd, "Thomas Robert, nid gwiw siarad rhagor; y mae hi *all over* am dragywyddoldeb arnaf fi; nid oes dim a fyno Duw â fi; y mae wedi fy rhoddi i fynu i gythreuliaid byth." Y mae'r teimlad yn aruthrol, fel y mae papyr ac inc yn cywilyddio, ac yn encilio i'r cysgod, gan wrthod cynyg ei ddesgrifio. Eithr y mae yn rhaid myned yn y blaen goreu y gellir, serch hyny. Y mae ein hewyrth Thomas yn anturio eto yn wylaidd, ac yn dywedyd, "George bach, ymddiried yn yr Arglwydd, a chais faddeuant o dy bechodau, yn enw ein Harglwydd Iesu; nid oes genym hanes ei fod wedi gwrthod neb, hyd yn oed y pechaduriaid penaf fu yn y byd erioed, megys Manasse a Mair Magdalen, a'r holl greaduriaid annuwiol hyny." "Nid oes genyf fi ddim i'w ddyweyd am danynt hwy, Thomas, ond gwn ei fod wedi fy ngwrthod i. Yr wyf wedi bod yn gweddio arno nos a dydd, yn y coed, ac ar lan y môr, ac yn mhob man; ac yr wyf wedi dysgu deugain penod gyfan, a'u hadrodd o flaen craig y Groeswen; eithr nid yw efe yn fy ateb, nac yn dywedyd dim wrthyf, er fod rhyw beth yn fy lladd o hyd. Y mae bron yn fy lladd yn awr, bydd wedi fy ngwpla cyn bo hir, a byddaf yn mhlith y cythreuliaid yn dragywydd." Beth bynag, nid oedd dim gan y cyfeillion i wneyd ond ceisio ei gyfeirio at Iesu Grist am fywyd, yr hyn a wnaethant yn ffyddlawn a difrifol iawn, ac anogwyd yr eglwys hefyd i gymeryd ei fater o dan eu hystyriaeth, a gweddio ar yr Arglwydd drosto; ac felly y terfynwyd y noson hono.

Aeth pawb adref, pob un i'w ffordd ei hun, ac felly wrth gwrs y gwnaeth George Heycock. Yr oedd cae glas ganddo i groesi o'r capel adref, ac yr oedd efe tua chanol hwn wrtho ei hun yn bur bendrwm, a phob peth yn ddystaw o'i gwmpas, pan yn sydyn y clywai ryw beth fel dyn yn rhedeg ar ei ol ac yn dyfod i'w ymyl. Safodd, a throdd ei wyneb yn ol, ond ni welai ddim. Safai mewn syndod, fel y gellwch feddwl; a chyda hyny dyma lais yn llefaru yn eglur o flaen ei wyneb, ac yn dywedyd, "Ha, ha, y cythraul fydd dy biau di!" Wel, wel, dyma hi wedi darfod; dyma enaid ein hen gyfaill yn llewygu; y mae ei galon yn awr yn rhwygo, ac anobaith am enyd fel wedi cymeryd meddiant llwyr o'i galon. Fe syrth bellach ar y cleddyf; fe ladd ei hun yn awr, heb oedi mwy. Ust! edrychwch! Beth fydd y canlyniad? Y mae yn ei drywanu ei hun! Nac ydyw; o drugaredd, y mae yn troi i'r ochr oreu. "Wele, y mae efe yn gweddio." Edrychwch, dacw ef i lawr yn sypyn; dacw y llawffon wedi cwympo wrth ei ochr, a'i het wedi syrthio; dacw hi tua dwy lath o'i flaen, ac yntau ar ei liniau, ac ar ei ddwylaw hefyd, canys yr oedd wedi ymdaflu ei hun ar ei liniau a'i ddwylaw, a'i wyneb tua'r ddaear, yn bloeddio yn annaearol, nes oedd ei swn i'w glywed yn mhell. Yr oedd yr holl gymydogaeth mewn braw tra yr oedd y *bruiser* yn gwaeddi allan yn groch, drosodd a throsodd drachefn, "O Arglwydd, myn

chwareu teg i fy enaid tlawd! O myn chwareu teg i fy enaid tlawd! Arglwydd, oni thrugarhei wrthyf heno, dyma fi wedi fy ngholli am byth!" Y mae grym ei freichiau yn darfod, y mae yn syrthio ar ei hyd, ac yn ymdreiglo yn ol ac yn y blaen, gan waeddi yr un peth yn ddiarbed. O'r diwedd y mae yn clywed llais arall yn llefaru yn fwy peraidd, ac yn dywedyd mewn geiriau eglur, "Cymer gysur, ni chaiff y cythraul byth mo honot; cei fyw er gwaethaf holl gythreuliaid y pwll diwaelod." Gyda hyn y mae yn codi ar ei draed, ac yn dechreu bloeddio nerth ei geg, "Concwest, concwest! mi gaf fyw byth!" Yr ydoedd wedi colli ei ffon a'i het wrth ymdreiglo ar hyd y cae; ond er hyny y mae yn dychwelyd adref yn gysurus, dan waeddi concwest, nes yr oedd yr holl le yn adsain. "Dyma'r man," eb efe, "y dechreuais gael hyder a gobaith yr efengyl gyntaf yn wirioneddol; ac er iddi fyned yn dywyll arnaf lawer gwaith wed'yn, nid aeth byth yr un fath dywyllwch ag yr oedd cyn hyny." Nid oes genym ni ddim i'w ddyweyd am yr holl weledigaethau, y datguddiedigaethau, a'r llefau hyn; eithr gwyddom fod ein harwr yn benderfynol drwy ei oes eu bod oll yn sylweddol a gwirioneddol,—mai nid rhyw ddychymygion, nac ychwaith deimladau y meddwl dan wahanol wasgfeuon, eithr llefau o uffern ac o'r nefoedd yn wirioneddol. Beth bynag, y mae yn rhaid cyffesu fod rhyw beth allan yn mhell o'r llwybr cyffredin mewn cysylltiad â'i droedigaeth. Fe'i caed ef fel asyn gwyllt, yn yfed gwynt; neu fel march ffroenuchel yn gwaeddi "Ha, ha," yn swn y rhyfel, ac yn herio dynion a Duw hefyd. Nid oedd ganddo yr amcan lleiaf yn nghylch crefydd, ac yr oedd wedi treulio blynyddoedd goreu bywyd mor ddifeddwl ac mor ddideimlad ag oedd yn bosibl i greadur o ddyn wneyd. Canys pan y daeth ar ei feddwl ymuno â'r eglwys gyntaf, yr oedd yn methu dyfalu beth yr oeddynt yn ei wneuthur mewn lle o'r fath, na pha oruchwyliaethau y buasai yn angenrheidiol iddo ef fyned drwyddynt wrth gael ei dderbyn yn aelod eglwysig. Yr oedd yn hollol benderfynol y noswaith yr oedd yn myned i'r *society*, mai y llwybr a arferid ganddynt i brofi a oedd gras mewn dyn ag oedd yn cynyg ei hun yn aelod, oedd i'r ddau flaenor gymeryd eu ffyn a churo yr edifeiriol o gylch y tŷ yn ddiarbed ac yn ddidrugaredd; ac os goddefai efe hyny, y cai efe dderbyniad fel ymgeisydd gobeithiol. "Yr oeddwn wedi penderfynu yn fy meddwl," meddai, "i oddef yr oruchwyliaeth hon, serch iddynt fy nghuro nes y byddwn yn ddu ac yn las bob tamaid." Y mae y pethau hyn a'r cyffelyb yn dangos yn eglur mai rhyw ebol gwyllt ydoedd, heb erioed ei ddal a'i ddofi, a bod pob peth i'w wneyd er ei ffurfio i ryw gymaint o drefn a syberwyd.

Er na fu yn hollol mor dywyll byth am drefn iachawdwriaeth wedi y noson ddiweddaf y crybwyllasom ar y cae, er hyny yr oedd cryn lawer o dywyllwch yn aros am dro wed'yn. Y mae yn wir na fu byth wedi hyny mor anobeithiol am ei gyflwr a'i dynged tragywyddol, canys adferwyd cysur iddo y pryd hwnw, yr hwn

ni chollwyd yn llwyr byth wedi hyny o dan unrhyw amgylchiadau. Eto ni a welwn nad ydoedd efe yn deall yn agos berffaith yr ymadroddion cyfriniol ag sydd yn dal cysylltiad â'r grefydd Gristionogol. Oblegyd wedi y pethau hyn y bu cryn siarad rhyngddo ef a'r hen frawd William Rees, mewn *society;* ac yr oeddent yn methu deall eu gilydd i'r dim, yn gymaint a bod George yn rhy dueddol i gymeryd y cwbl yn yr olwg gnawdol a daearol, ac nid yr ysbrydol a'r nefol. Hen frawd go apostolaidd oedd William Rees, deallwch, a dyn o gryn fedr i siarad â dynion am bethau crefyddol. Yr oedd yn ddoethwr yn ei ddydd, ac yn cael ei ystyried yn oracl gan lawer ag oedd yn byw o'i gwmpas. Bid a fyno, cododd ein hewythr William ryw noson cyfarfod eglwysig, wedi y weledigaeth fawr ar y cae, a gofynodd i Heycock ddyweyd ychydig o'i hanes a'i helynt bresenol. Yr oedd William Rees wedi gosod ei hun mewn agwedd rasol a theilwng i'r swydd o arholi a gwrando, a dyma Heycock yn neidio i fyny ar ei draed gogyfer ag ef, ac yn gosod ei hunan mewn agwedd briodol i ateb unrhyw gwestiynau; felly, chwi a welwch, yr oeddent yn sefyll wyneb yn wyneb. "Wel, George bach," ebe William, "pa fodd y mae arnat yn awr yn y dyddiau hyn? a wyt ti yn dechreu gweled trefn i dy achub, ac yn teimlo dy faich yn ysgafnhau?" "Wel, y mae yn rhaid dyweyd y gwir," ebe George; "yr wyf yn meddwl fy mod wedi gweled ffordd iachawdwriaeth yn awr, i ryw fesur, oddiar noson y *society* o'r blaen; yr wyf yn meddwl i'r Bod mawr amlygu ychydig o hono ei hun i mi y noson hono; tybiais fy mod wedi dianc am byth; ond y mae yn ofidus dyweyd nad yw hi mor oleu arnaf heno eto ag y dymunwn; yr wyf yn teimlo rhyw feichiau trymion ar fy meddyliau. Wn i yn y byd beth i wneyd yn iawn eto; a wyddoch chwi, fy ewythr William?" "Wel," ebe William, "ni wn i ddim beth sydd i ddyweyd yn iawn, fachgen; ond mae cymaint a hyn i'w ddyweyd, nad oes dim nefoedd i gael ar y ddaear; i lawr ac i'r lan yw hi, drwy y tew a'r teneu, trwy glod ac annghlod, hyd y diwedd. Yn awr, George, gwrando; nid oes dim genyt i'w wneyd mwyach, ond cario dy bac ar dy gefn, a chofio nad oes un man i'w daflu i lawr ond yn medd newydd Joseph o Arimathea." Dyma ein harwr yn edrych yn wyneb ein hewythr William, ac yn ymddangos fel wedi colli pob presenoldeb meddwl, ac eto yn methu dyweyd un gair. Yr oedd yn amlwg i bawb ar y pryd fod yr ymadroddion yn rhy ddyfnion i'w amgyffredion; er hyny meddyliwyd y deuai i'w cynwys a'u gwerthfawrogi erbyn ystyried ychydig rhag llaw. Yr oedd efe hyd yn hyn, o herwydd ei annghynefindra â brawddegau duwinyddol, o duedd i ddaearoli pob peth, ac nid idd eu hysbrydoli. Aeth adref y noson hono; eithr yr oedd ymadrodd William Rees o dan ei fyfyrdodau yn gyson, ac eto yr oedd yn methu dyfod i'r goleu yn foddhaol. Byddai weithiau yn tynu y geiriau oddiwrth eu gilydd, ac yn edrych arnynt bob yn un ac un, ac yn eu cysylltu hwynt drachefn yn frawddeg; eithr er pob ymdrech nid oedd y weledigaeth yn

eglur. "Pac!" meddai, "gwn o'r goreu beth yw pac; *pac* o ryw beth, nid gwahaniaeth beth. Wel, 'cario y pac' wedy'n, nid oes dim dirgelwch yn hyny, sef cario unrhyw beth fel pac ar ei gefn, megys pac o dê, fel gwŷr y *tea* yma, neu bac *Scotsman*, neu unrhyw beth o'r fath." Yr oedd efe, serch hyny, yn methu deall beth oedd y pac yr oedd yn rhaid iddo ef ei gario.

Bu yn meddwl unwaith am fyned â phac o esgidiau i Gastell-nedd; ond erbyn ystyried y frawddeg drwyddi oll, nid oedd hyny yn ateb i'r desgrifiad—y mae yn rhaid mai rhyw beth arall yw meddwl y frawddeg. Canys y mae y frawddeg yn dywedyd, "Y mae yn rhaid i ti gario dy bac; ac y mae yn rhaid i ti hefyd beidio ei roi i lawr, nes ei daflu i fedd newydd Joseph o Arimathea." Dechreuodd wed'yn astudio y rhan olaf o'r frawddeg, gan feddwl fod yr olaf weithiau yn taflu goleu ar y blaenaf. "Bedd newydd Joseph o Arimathea! Yn mha le y mae hwn? Beth oedd y Joseph hwn o Arimathea?" Yr oedd yn methu dyfalu. Aeth at Thomas y gôf; y mae Thomas yn getyn o brydydd, ac wedi astudio llawer iawn ar dduwinyddiaeth hefyd. "Yn awr," meddai, "dyma y cwestiwn, Thomas; a elli di ddyweyd wrthyf fi pwy oedd Joseph o Arimathea? a pha le y mae ei fedd? A ydyw y Bibl yn son rhyw beth am hyny, fachgen?" Bu Thomas gryn dipyn cyn gallu galw ei gyneddfau yn nghyd at y pwnc, oblegyd y mae yn debygol ei fod mewn myfyrdod dwys ar y pryd uwchben rhyw englyn. Beth bynag, wedi iddo ddyfod adref, gosododd ei hun fel arfer mewn ffurf dysgawdwr, ac yna aeth yn y blaen i egluro, gan roddi y cwbl mewn trefn, a chyfeirio ein harwr at yr hanes yn y Testament Newydd. Mor gynted ag iddo gael gwybod yn mha le yr oedd yr hanes, dyna ef i bant, ac yn ngafael â'r Testament; a chyn nemawr o amser yr oedd wedi trysori yr holl gwbl yn ei gof. Wedi meddwl trosodd a throsodd yn nghylch "bedd newydd Joseph o Arimathea," y mae yn dyfod i'r penderfyniad fod y bedd hwnw yn ymyl dinas Jerusalem; a chan ei fod yn ddaearyddwr da, y mae yn gweled fod y ddinas hono yn Asia, ac yn bresenol o dan lywodraeth y Twrc; a pha fodd, ar wyneb daear, y gallai efe gario pac i'r fan hono o'r byd, heb ei roi i lawr unwaith nes dyfod at fedd Joseph o Arimathea! Y mae hi yn tywyllu yn lle goleuo. Y mae fel y fagddu. Y mae yn methu deall beth yw y pac, na pha beth yw ei gario, na pha beth yw ei ddodi i lawr yn medd newydd Joseph o Arimathea. Anwyl da, y fath gymysgfa! Pa fodd bynag, yn y tywyllwch mawr hwn, boreu Sabbath sydd yn dyfod, a dyma Sophi a George, yn nghyda'r plant, yn taro i'r cwrdd. Ar y ffordd wrth fyned, tra yr oedd George mewn myfyrdod dwys yn nghylch y pac, y mae ffrae echrydus yn cymeryd lle rhwng Sophi a'r plant; yr oeddynt yn fychain, a phob un am gael ei gario, y mae yn ddigon tebyg. Ond wrth ei weled ef yn bur ddisylw o'i thrafferth, dyma ei hysbryd i fyny, ac yn cydio yn un o'r plant a'i daflu am draws ei gefn, gan regu, a dywedyd, "Cymer hwna y llercyn pwdr, a

charia ef, yn lle bod y cwbl ar fy nghefn i." Goreu peth oedd iddo ef ufuddhau, a hyny cyn bod yn hir hefyd, onide buasai yn anhawdd gwybod y canlyniad. Rhwng fod ei goes yn hytrach yn anfanteisiol at orchwyl felly, oblegyd yr oedd yn rhaid iddo wrth y ffon, ac felly nad oedd ganddo ond un law, a'r plentyn yn lled drwm, canys yr oedd yn ddwy neu dair blwydd oed, yr oedd agwedd a ffurf ysmala i'w weled arno. Ond yn mlaen yr aeth yn ddiddig, heb rwgnach na dywedyd gair yn ynfyd, y pryd y syrthiodd rhyw beth yn sydyn ar ei feddwl mai dyma y pac yr oedd William Rees wedi dyweyd y buasai yn rhaid iddo ei gario bellach, a bod yn debyg iawn mai tynged felly fyddai ei ran o hyn allan. "Mor wired â'r efengyl," meddai, "dyma y pac." Ond yn fuan, dyma y rhan olaf o'r frawddeg yn dyfod i'r golwg, ac yn dinystrio yr holl adeilad. "Ac nid oes le i'w daflu i lawr ond i fedd newydd Joseph o Arimathea." "Pw, pw! nid hwn ydyw eto, eb efe; "oblegyd pa ddyn dan y nefoedd a allai gario y plentyn hwn heb ei roi i lawr unwaith, i ryw le yn nghymydogaeth Jerusalem? Y mae yn rhaid i mi roi hwn i lawr yn y capel; ond am bac ein hewythr William, nid yw hwnw i'w roi i lawr o gwbl, nac yn un man, nes cyrhaedd bedd newydd Joseph o Arimathea." Yr oedd y tywyllwch hwn yn rhy dew i fyned trwyddo; er ymdrech ddydd Sul drwy y dydd, nid oedd ond tywyllwch ar wyneb y dyfnder, heb obaith am ddim i'w ymlid ymaith.

Yn blygeiniol iawn ddydd Llun, pan yn nghanol yr holl ddyryswch hwn yn nghylch pac William Rees, y mae yn taro idd ei feddwl yn sydyn am yr hen frawd Thomas Robert, yr hwn oedd yn cael ei ystyried yn enwog yn ei ddydd am ddatod cylymau, a dadrys cwestiynau dyrys, gan eu hagor, eu dadgymalu, a'u dangos yn eglur yn eu gwahanol gysylltiadau, ac hefyd ar wahan oddiwrth eu gilydd. Heb aros fynyd, wele ein harwr yn lled wyllt ei edrychiad yn ymaflyd yn ei lawffon, ac yn taro ffwrdd fel pe buasai yn wir yn benderfynol o gyrhaedd Palestina cyn dyfod adref. Yr oedd coler ei grys yn agored, a'i siaced fach heb ei botymu, a llawer o bethau eraill yn lled annyben, sydd yn rhy faith ac yn afreidiol hefyd eu henwi yn bresenol. Yr oedd George, fel yr ydych yn deall erbyn hyn, yn ddyn cryn eithafol yn mhob peth, felly yn ei wisgiadau hefyd; yr oedd yn mhell o fod yn gyfrodedd mewn dim. Nid oedd byth yn gwneyd ei ymddangosiad fel dyn cyffredin; naill ai ymddangosai fel cardotyn yn garpiau i gyd, neu fel gwr boneddig mewn dillad gwychion, ac yn bur foneddigaidd ei darawiad. Pan y byddai wedi ymdrwsio yn ei ddillad goreu, yr oedd golwg gyfrifol iawn arno, yn gymaint a'i fod yn hytrach yn dew, gwyneb go fawr, a llygad treiddgar dros ben. Pan y byddai yn cerdded mewn lle dyeithr, nid oedd neb braidd nad oedd yn talu ymostyngiad iddo, ac yn cyffwrdd â'u hetiau yn y fan. Bob amser ar ol taclu yn ei ddillad goreu, a myned dros derfynau ei blwyf ei hun, y cyferchid ef megys yn Llandilo, fel yr adrodd-

asom, yn "Mr. Heycock." Eithr mor gynted ag y dychwelai i'w blwyf genedigol, dyma yr hen iaith yn dechreu yn y fynyd, "George, shwt yr wyt ti heddyw?" Nid ydym yn rhyfeddu un tipyn am hyn, deallwch; adrodd y ffaith yn unig yr ydym; canys pe gwelsech ef yn ei ddillad bob dydd ar hyd heolydd Taibach, nis gallech byth feddwl ei fod yn perthyn i genedl y Cymry, ond ei fod yn perthyn i ryw lwyth Arabaidd, wedi ei fagu yn nghanol gwylltfilod ac ymlusgiaid mewn anialwch diffaeth. Beth bynag, rhyw ddyn fel hyn oedd ein harwr; Lord Chesterfield heddyw, a Dic Aberdaron yfory. Wedi y cwbl, y mae rhyw beth hefyd yn y mater hwn ag sydd yn lled annghyfrifol; annghyfrifol i ni, beth bynag; barned pawb drosto ei hun. "Yn mha beth yr ydych yn gweled dirgelwch?" Wel, gweled y fath *dandy* heddyw; a'r fath yslyfryn yfory yn yr un person.

Yr oedd Thomas Robert yn ddyn rhagorol iawn yn ei grefydd, eithr gyda golwg ar wisgiadau, nid oedd yn rhyw ragori yn anfesurol ar ein harwr o gwmpas cartref; gallasai y ddau ysgwyd dwylaw mewn tangnefedd perffaith ar y tir hwn. Hen lanc oedd ein hewythr Thomas, ac eto yr oedd rhyw beth ynddo oedd yn fwy syn na hen-lanciau yn gyffredin. Ond dacw George yn myned i'r unig fan y gallasai obeithio am eglurhad ar y pwnc ag oedd er ys diwrnodau bellach yn poenydio ei feddwl. Yr oedd "cario y pac," a'i daflu i fedd newydd Joseph o Arimathea, yn rhyw beth rhy ddwfn i'w feddwl anysbrydoledig ef, gan hyny y mae yn bryderus iawn yn nghylch cael rhyw un i'w gyfarwyddo. Yr ydym yn awr fel pe baem yn gweled y ddau yn cyfarfod. Dacw George yn sefyll o flaen Thomas fel rhyw greadur gwyllt a hyll, fel pe buasai wedi dianc allan o'r anialwch mawr erchyll, lle yr oedd seirph ac ysgorpionau, yn nghyda phob gwylltfilod eraill. Dacw Thomas Robert yntau yn sefyll o'i flaen, yn edrych mor ddiniwed a syml, yn plygu yn ei arai, yn gwneuthur ei hun yn llai o'r ddau nag y bwriadwyd ef gan ragluniaeth; ac y mae ei holl agweddiad fel pe bai yn ei wneuthur ei hun yn barod i encilio i'r cysgod, o ŵydd yr holl bethau a welir. Y mae Heycock yn awr yn gosod y llawffon mewn lle dyogel er cynorthwyo y goes fach, ac yn dechreu adrodd ei gŵyn a'i helynt o flaen ein hewythr Thomas. "Yn awr, Thomas Robert," meddai, "dyma fi wedi dod yma heddyw, gan obeithio y byddwch yn alluog i wneyd ychydig o help i mi, oblegyd yr wyf mewn dyryswch mawr iawn er ys tro; ac yr wyf yn methu mewn man yn y byd ddyfod i'r goleu ar y mater; a mi ddaethum atoch chwi, gan feddwl y gallech estyn ychydig o gymhorth i mi." "George bach, beth yw y mater yn awr?" ebe Thomas. "Wel," ebe yntau, "y peth a ddywedodd William Rees pwy nos yma yn y *society* yn y Dyffryn. Dywedodd wrthyf y noson hono fod yn rhaid i mi gario y pac bellach, ac nad oedd un man i'w roddi i lawr hyd nes cyrhaedd bedd newydd Joseph o Arimathea; mai dyna yr unig fan y gellid ei daflu i lawr. Yr wyf wedi bod er ys diwrnodau yn methu deall beth yw y pac

hwnw; ond wrth fyned i'r cwrdd foreu Sabbath, aeth Sophi i natur ddrwg at y plant, ac ataf finau hefyd am hyny, ac ymaflodd yn yr un henaf, a thaflodd ef ar fy nghefn mor sybyrthol yn ei phang, gan regu, a dywedyd, 'Dyma, caria hwn, y llercyn pwdr.' Mi feddyliais ar y pryd mai dyna oedd y pac, ac y buasai yn rhaid i mi gario y plentyn yn ol ac yn y blaen i'r cwrdd; ond gwelais yn fuan nad hyny ydoedd, canys yr oedd y meddwl am fyned a'r plentyn ar fy nghefn, nid yn unig i'r cwrdd, ond i ryw le i gymydogaeth Jerusalem, heb ei roi i lawr unwaith nes ei daflu i fedd newydd Joseph o Arimathea, yn beth nad allasai un cnawd byth ei wneyd, Thomas." Y mae ein hewythr Thomas bron yn llesmeirio; braidd y mae yn gallu sefyll yn gymhwys; eithr yn mhen ychydig y mae yn cael adnewyddiad nerth, ac yn galw holl ymadferthoedd ei enaid i weithrediad o'r newydd, yn cymeryd pwyll, ac yn lledu ei goesau, fel pe buasai am gymeryd mwy o afael ar y blaned yr oedd yn sefyll arni, ac ymsefydlu ei hun yn fwy cadarn nag erioed ar ei harwyneb. Yna mae yn gosod ei law ddeheu ar ei ochr, yn edrych i fyny yn daer i wyneb ein harwr, eithr am fynyd yn troi ei olygon draw oddiwrtho wed'yn, ac yn pesychu deirgwaith, cyn dywedyd un gair.

Ar ol y pethau hyn, ac wedi taclu ei hun yn y ffordd oreu y medrai, y mae yn dechreu esbonio, datod y cylymau dyrys, ysbrydoli y brawddegau, a gosod y cwbl mewn trefn, gyda medrusrwydd a deheurwydd annhraethadwy. "Nid plentyn ar dy gefn naturiol, nac un baich arall," meddai, "yw y pac yr oedd William Rees yn son wrthyt, eithr pwys pechod ar y meddwl, a gwasgfeuon mawrion ar yr enaid o herwydd pechu yn erbyn Duw y nefoedd. Dyma y pac, George bach, ag sydd yn rhaid i ti a minau ei gario, ac fe fydd mor drwm nes peri i'n heneidiau lewygu aml ddiwrnod, a gwaeddi allan gyda'r apostol, 'Ys truan o ddyn ydwyf, pwy a'm gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon!' Dyma bac, George bach, na chei ei wared byth ond trwy ei 'daflu i fedd newydd Joseph o Arimathea,' ys dywed William Rees." "Wel, ïe," ebe ein harwr, "ond pa fodd y gallaf fi fyned yr holl ffordd yna i'w daflu i lawr, Thomas Robert?" "Gwrando, George bach, arnaf yn dywedyd wrthyt," meddai Thomas; "y mae yn rhaid i ti geisio deall ystyr ysbrydol pethau, ac nid cymeryd pob peth yn yr ystyr naturiol ac allanol; canys y mae dwy ystyr i'r rhan fwyaf o bethau, yn enwedig pethau y Bibl. 'Yn ysbrydol y bernir hwynt,' ebe yr apostol Paul, ac felly yn ysbrydol rhaid i ni feddwl am 'fedd newydd Joseph o Arimathea,' yn nghyda thaflu y pac i mewn yno. Y meddwl yw hyn; ti weli fod pechod yn faich trwm i'r edifeiriol, eithr baich ydyw y bydd yn rhaid iddo ei gario bellach; ond pan y ceir golwg ffydd ar Grist wedi marw dros bechaduriaid colledig, ei weled yn disgyn i 'fedd newydd Joseph o Arimathea,' ac yn codi i fyny y trydydd dydd, yn esgyn i'r uchelder, ac yn byw bob amser yn eiriol dros y troseddwyr, y pryd hyny y mae y pac, sef pechod, yn syrthio i lawr, a theimlir esmwythad a seibiant yn y meddwl gorthrym-

edig." Gyda hyn, y mae ein gwron yn gweled yr ystyr ysbrydol, y mae y goleu yn tywynu, y mae fel dyn wedi cael bywyd newydd, ac fel yn annghydwybodol yn gwaeddi allan, "*Eureka, I have found it!*" Y mae yn debygol mai yr amser hwn y daeth i'r goleu am ei achos tragywyddol, ac i ddeall pethau yn fwy tebygol i ddynion crefyddol eraill; oblegyd wedi hyn yr ydym yn ei gael yn dechreu trafaelu yn fwy llyfn, fel dyn yn ei "ddillad, ac yn ei iawn bwyll." Y mae wedi dyfod i ddeall trefn iachawdwriaeth; y mae yn obeithiol am fywyd tragywyddol, ac yn arfer pob moddion o ras gyda diwydrwydd a symlrwydd. Y mae yn darllen y Bibl, ac yn ei ddysgu o'r bron, fel y daeth yn fuan yn un o'r haneswyr manylaf yn hanesyddiaeth y Bibl o fewn yr Ysgol Sabbathol. Yr oedd ei fanylrwydd yn hyn drwy ei oes wedi hyn bron yn syndod, ac fe allai y daw hyny ryw faint dan ein sylw yn nesaf.

Rhag rhoi gormod o faich ar amynedd y darllenydd, ni a ddybenwn y drydedd benod yn y fan hon.

# PENOD IV.

Y MAE yn rhaid myned rhagom eto; nid gwiw rhoi i fyny a llesmeirio ar ganol y ffordd, os oes bosibl yn y byd beidio. "Angenrhaid yw dyfod rhwystrau;" er hyny, gwell yw ymdrechu yn lew i fyned trwyddynt, na digaloni yn eu canol, canys y mae diwedd llawer o bethau yn well na'u dechreu. Ië, yn bur fynych, y diwedd sydd yn esboniad ac yn eglurhad—ië, yr unig esboniad ac eglurhad—ar y dechreu a'r canol. Gan hyny, yr ydym yn teimlo adgyfnerthiad a chalondid cryf i fyned rhagom, a dylyn yr hanes hyd y diwedd; ac fe allai erbyn hyny y bydd ein darllenwyr yn cydweled yn hollol â ni mai gwell yw diweddiad yr hanes yma hefyd na'r dechreu. Er fod y dechreuad yn ddrwg, er hyny y mae yn bur angenrheidiol ei wybod, fel y byddo daioni y diwedd yn llewyrchu allan gyda mwy o nerth.

Yn mhlith yr amrywiol bethau y gallesid enwi, nid oes dim yn ein taro yn fwy effeithiol na llwybr y cyfiawn, yr hwn sydd "fel y goleuni, yn llewyrchu fwyfwy hyd ganol dydd." Dydd marwolaeth y cyfryw sydd yn well na dydd eu genedigaeth. Ac y mae yr apostol Paul yn dyweyd, er fod y dechreu a'r canol yn gymylog a thywyll, fod y "diwedd yn fywyd tragywyddol." Aroswch: yr ydym wedi myned o flaen ein pwnc yn ddiarwybod yn rhyw fodd; canys ni ddaeth y diwedd eto; yn rhyw le tua'r canol yr ydym, os ydym yn cofio yn iawn. Gadewch i ni ystyried. Yn mha le y gadawsom ein harwr yn y benod ddiweddaf? Yn dyfod i fyny i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw. Beth bynag, yr ydoedd wedi myned heibio i fynydd Sinai, wedi dyfod allan o'r mwg a'r tywyllwch sydd yn gordoi y mynydd hwnw; y sain udgorn a llef geiriau bron yn colli eu swn yn ei glustiau, ac yntau yn dringo yn araf y bryn sydd yn arwain i'r "Jerusalem hono fry, yr hon yw ein mam ni oll." Do, ni a'i gadawsom ef wedi dianc o'r llaid i'r làn, wedi cael ei wddf yn rhydd o'r cebystr, ac wedi dyfod, i ryw fesur, i'w "ryfeddol oleuni Ef." Bellach, bydd yn rhaid i ni edrych arno yn grefyddwr; ac nid yn unig hyny, eithr yn grefyddwr ymchwilgar, ac yn dechreu deall pethau fel y maent. Nid yw bellach yn daearoli yr ysbrydol, eithr wedi dysgu y gelfyddyd i ysbrydoli y daearol. Ys meityn, nid oedd yn medru gweled yr ysbrydol yn un man, ond yn bresenol y mae yn canfod yr ysbrydol bron yn mhob man. Mae hyn yn gryn gyfnewidiad mewn dull o feddwl. Yn awr, y mae ei lygad craff yn gallu treiddio i mewn i dduwinyddiaeth gyfriniol William Rees a Thomas Robert, fel y mae yn gystal ysbrydolwr â'r un o honynt, os nid gwell. Wele ef yn bresenol, fel y dywedasom, yn dringo mynydd Sïon—yn araf, er hyny yn hyderus, ac yn teimlo gobaith diffuant y cyrhaedda ei ben ryw ddydd, ac y bydd oddiar y clogwyn uchaf arno yn bloeddio buddugoliaeth ar ei holl elynion. Er hyn oll, y mae yn cyfarfod yma ac acw ag ychydig o rwystrau, ac yn dechreu gweled eisoes

fod llawer o ffyrdd troellog ac anhygyrch cyn cyrhaedd y pen uchaf, Eto y mae yn penderfynu ymorchestu ac ymdrechu, nes gorchfygu yr holl anhawsderau; ac er cwympo weithiau, a thrwy hyny golli tir, y mae yn codi eilwaith, ac yn canu yn beraidd—

"Ar fy neulin, ar fy neulin,
Minau ddof i ben fy nhaith."

Mae yn debyg fod pethau newyddion i ddyfod i'r golwg, mewn natur a chrefydd hefyd, fel nad oes neb yn gwybod beth fydd nesaf o ddiwrnod i'w gilydd. Tra yr oedd ein harwr yn canu fel hyn, mewn gobaith sicr o gyrhaedd pen y bryn cyn hir, dyma newydd yn dyfod i'w glustiau fod y duwinyddion wedi darganfod rhyw beth newydd mewn crefydd, a bod pethau ynddi yn ychwanegol i'r hyn a arferid gynt; ac felly, wrth bob rheswm, yn cyfansoddi rhwymedigaethau a dyledswyddau newyddion. Yr oedd y newydd wedi dyfod dros yr Atlantic, gyda llong marsiandwr, fod duwinydd enwog yn y wlad hono wedi darganfod trwy lyfrau fod Nazareaeth efengylaidd yn gorwedd yn egwyddor loew rhwng dau glawr y memrwn, eithr hyd yn hyn heb ei ddeall a'i arfer gan Gristionogion.

Tra yr oedd George yn esgyn i fyny i fryn Sïon, ac yn gwneyd ymdrech galed i gyrhaedd clogwyn ag oedd newydd wedi dyfod i'r golwg, gan feddwl ar ol cyrhaedd hwnw y delai golygfeydd gogoneddus i'r golwg, y rhai a dalent am yr holl drafferthion, a llawer rhagor,—dyma ddyn ieuanc yn rhedeg i lawr tuag ato, a phastwn mawr yn ei law, ac yn codi y pastwn anferthol uwch ei ben, gan waeddi allan, "Y lleidr a'r yspeiliwr, dos yn ol, a dechreu o'r newydd! canys nid ydwyt wedi dringo y ffordd iawn; nid ydwyt wedi ymdrech yn gyfreithlawn; ac ni choronir neb byth o'r cyfryw ar fynydd Sïon." Golwg y dyn ieuanc, yn nghyda'i genadwri benderfynol, a effeithiodd gymaint ar ein cyfaill George, nes y llesmeiriodd ger ei fron; collodd ei afael ar glogwyn o graig, yn yr hon yr oedd wedi newydd ymaflyd, er mwyn dringo yn uwch, a syrthiodd yn ol, gan dreiglo i lawr i odre y mynydd. Anwyl bobl, dyma dro diflas eto. Bu dystawrwydd dwfn am dipyn, eithr dadebrodd o'i lesmair, a chlywai lais yn dywedyd, "Os dringo i ben mynydd Sïon a wnei, rhaid i ti ddringo nid yn unig yn efengylaidd, eithr yn ddirwestol hefyd." Ah! dyma ryw beth newydd eto i'r clustiau; nid ydyw yn deall yr ystyr, nac yn adwaen agwedd yr hwn sydd yn llefaru. Beth bynag, wedi cael anadl, y mae y dyn ieuanc yn dechreu adrodd am long odidog, yr hon a ddaeth o'r America yr haf diweddaf i Lynlleifiad, yn cynwys llwyth o bethau tra gwerthfawr, a bod *documents* y darganfyddiad hwn yn rhan o'r llwyth hyny. Y mae yr hanes hwn yn dechreu taflu dynion i gryn drafferth, ac yn atal pethau i fyned yn y blaen yn yr hen ffordd. Dyma y duwinyddion, y naill ar ol y llall, yn neidio i fwrdd y llong i gael golwg ar y *documents*, ac wrth gwrs yn edrych i mewn i'w *authenticity*, ac nid cymeryd pob peth yn

ganiataol heb ymchwiliad priodol. Y maent yn edrych, ac yn siarad yn ddysgedig; eithr yn methu cytuno, ond yn hytrach yn annghytuno ac yn ymrafaelio.

"Who can decide when doctors disagree?"

Yr oedd Dr. Davies yn synu na buasent yn gweled y peth hwn yn gynt, ac yntau mor amlwg yn gorwedd yn y gladdfa, heb fod nemawr iawn o bridd arno. Yr oedd y Doctor Goodfellow, a rhai doctoriaid eraill hefyd, yn dadleu nad oedd peth felly o gwbl o fewn y memrwn santaidd, ac nad oedd yn ddarganfyddiad yn y byd, ond yn gynyrch ymenydd cymysglyd ar wendid y lleuad. Fel hyn yr oedd pethau yn sefyll; a gellwch feddwl ei bod yn helynt flin, ac yn taflu rhwystrau mawrion ar y ffordd.

Yn gymaint nad ydym yn ewyllysio cael ein tynu i mewn i blith y duwinyddion, ni wnawn ond adrodd y ffeithiau fel y maent yn dal perthynas â'n harwr, ac yn ffurfio torchrwy yn y gadwen hanesyddol. Lle go dwym yn gyffredin yw myned blith draphlith â rhyw ddeg neu bymtheg o *theologians;* y mae yn well i ddyn braidd bob peth na hyny, canys nid oes man ar ein planed ni yn fwy gwresog. Er fod Arglwydd Palmerston wedi bod mewn cymaint o ddyryswch a nemawr ddyn, mewn cysylltiad â'r *Home* a *Foreign Affairs*, ni bu efe erioed er pan ei ganwyd mewn man mor ddisiawns i ddyfod yn rhydd a phan syrthiodd i blith y duwinyddion. Er ys ychydig flynyddoedd yn ol, fel y gwyddoch, dygwyddodd i'w arglwyddiaeth mewn cyfarfod ar addysg, ddyweyd ychydig eiriau ar bwnc o dduwinyddiaeth, fe allai yn bur ddifyfyr hefyd; ond yr oedd, y mae yn debyg, yn mhell iawn o fod yn *orthodox*. Er holl fawredd ei arglwyddiaeth, fe debygid nad yw yn cael ei ystyried yn dduwinydd o'r dosbarth uchaf; ac am ddim yr ydym ni yn deall, nid ydyw yn ystyried ei hun felly, ond yn unig iddo feddwl na buasai yn drosedd iddo am unwaith ddyweyd gair wrth fyned heibio ar hyny. Felly y gwnaeth. Ond os do, dyma efe yn ei chael o chwith ac o dde hefyd. Gwarchod pawb! nid cynt y daeth y geiriau allan o'i enau braidd, a chyn ei fod wedi cael amser i lyncu ei boeryn, nad dyma ddegau, os nid ugeiniau o binau yn ei ystlysau, nes yr oedd bron yn amheu cael byw. Yr oedd rhai esgobion yn ei drywanu, lluaws o bersoniaid, ychydig o broffeswyr duwinyddiaeth a hanesiaeth eglwysig, a mân dduwinyddion bron heb rifedi. "Megys â chroen ei ddanedd y diangodd." Fel y gwyddoch, bu ei arglwyddiaeth yn Rhufain, Awstria, Ffrainc, Rwsia, ïe, bron dros yr holl fyd, yn ymdrafod â phethau pwysig Ynys Prydain; eithr ni bu ei fywyd erioed mewn lle poethach, os mor boeth, a phan anturiodd yn rhy agos i diriogaethau y *theologians*. Y mae yn ddigon tebyg na fydd i'w arglwyddiaeth roi darlith byth mwy ar y rhan hono o ddysgeidiaeth. Wel yn siwr, y mae rhyw beth wedi ein perswadio ninau yn ddiweddar y byddai yn well i ni syrthio i ddwylaw *rhyw* Samaritan, nag i ddwylaw yr offeiriaid a'r Lefiaid. Pa le yr ydym yn awr, dy-

wedwch? Yn Liverpool yr oeddym, onide? Ië, ïe, yn dyweyd fod dirwest wedi dyfod yno mewn llong Americanaidd, a bod cryn helynt yn mhlith y duwinyddion ai o Dduw ai o ddynion yr ydoedd. Wel, nid oes genym ddim gwell i'w wneyd, ar a wyddom ni, na myned rhagom yn y ffordd oreu y gallom, a gadael iddynt hwy benderfynu y pwnc rhyngddynt â'u gilydd; a pheidiwch rhyfeddu os byddwn ni, er cymaint yr ydym yn ymlusgo, ar ben ein taith o'u blaen hwy eto.

Tua'r amser y daeth y llong Americanaidd i mewn, yn yr hon yr oedd y *documents* yn nghylch y darganfyddiad, yr oedd gwr boneddig yn byw yn yr un ardal â'n harwr, yr hwn oedd yn fasnachwr mawr, ac a arferai fyned yn ol ac yn y blaen i Liverpool yn fynych. Ryw dro pan y dygwyddodd fod yno, dyma y cyrddau dirwestol yn cael eu cyhoeddi o gapel i gapel, a chryn fywyd yn ymddangos o blaid ac yn erbyn y mater dan sylw. Aeth y boneddwr iddynt, bid a fyno; ac yn ngwres yr areithiau, fe dwymnodd yntau, ac yn mhlith y lluaws ag oedd yn arwyddo â'u llaw i lwyrymwrthod â diodydd meddwol, yr oedd y boneddwr yn un. Os oedd rhai yn bendithio yr awr y daeth y llong a'r llwyth, yr oedd llawer yn cablu; ac yn bur gymysglyd yr ydoedd yn myned yn y blaen, fel y rhan fwyaf o bethau eraill. Ond yn y blaen yr oedd yn myned. Yr oedd y boneddwr hwn wedi derbyn yn dra helaeth o'r ysbryd dirwestol; a phan y daeth adref, dechreuodd siarad ac areithio wrth bawb yn nghylch y darganfyddiad newydd, fel dyn wedi annghofio y cwbl ond hyny. Hyn oedd gydag ef mewn byd ac eglwys, tref a gwlad, yn y tŷ gartref ac ar ben y ffordd fawr; nid oedd dim llonydd i'w gael ganddo. Gallesid meddwl fod yfed yn helaeth o ysbryd dirwest yn debyg i yfed hen gwrw Llanbedr pont Stephan, yr hwn oedd yn gwneyd i ddyn siarad yn ddiorphwys. Chwi synech mor ddyeithr yr oedd y peth yn ymddangos ar y cyntaf, nid yn unig i'r byd, ond i'r eglwys hefyd; yr oedd pawb yn ddiwahan yn synu yn aruthr. Nid oedd dau feddwl yn mhlith y saint, na'r pechaduriaid ychwaith, nad oedd y gwr boneddig wedi dyrysu ar ei daith, ac mai dyledswydd ei berthynasau agosaf oedd edrych ato, a gwneyd darpariaeth briodol ar gyfer y fath amgylchiadau. Yr oedd y bobl dduwiol, ïe, y mwyaf duwiol, yn yr arferiad o gymeryd haner peint, neu lasaid, trwy holl derfynau cred; ac nid oedd dim, meddid, yn y memrwn santaidd yn gwahardd hyny, eithr bob amser yn ei gefnogi. "Arfer ychydig win," ebe Paul wrth Timotheus, "er mwyn dy gylla a'th fynych wendid." Y gred ddiysgog oedd, yn ddiau, yn mhlith offeiriaid a phobl, fod rhyw gymaint o ddiod gadarn yn hanfodol i gynaliaeth y cyfansoddiad dynol; a bod ychydig win ar brydiau, yn enwedig i'r trwm eu calon, yn anhebgorol. Er fod, fel y gŵyr pawb, gryn wahaniaeth rhwng byd ac eglwys mewn rhai pethau, yr oeddynt yn nghylch y mater hwn mewn cydgordiad hynod, os nid mewn heddwch perffaith. Yn hyn yr oeddynt yn cytuno. Wrth edrych ar bethau fel yr oeddynt yn sefyll y pryd hyn,

mewn cysylltiad â'r cwestiwn dan sylw, yr oedd yn bur ddigalon i feddwl gwneyd ymosodiad llwyddianus. Eto er hyn oll, ni ddigalonodd y boneddwr, eithr ymwrolodd ac ymorchestodd, nes o'r diwedd berswadio ryw gymaint i'r ffydd ddirwestol, yn enwedig rhyw rai ag oedd mewn cysylltiad ag ef fel gweithwyr. Wel, gadewch yna; y mae dechreu i bob peth. Hen fechgyn ag asgwrn cefn oedd hen ddiaconiaid y Dyffryn, yn nghyda llawer o'r aelodau parchus; nid oeddynt o nifer y dynion gwlanenaidd hyny y gellwch eu plygu y ffordd y mynoch. Yr hen Thomas Robert, William Rees, a llawer eraill rhy faith i'w henwi, oeddent fechgyn na fuasent yn cymeryd eu troi gyda phob awel dysgeidiaeth. Hen Galfinistiaid anwyl oedd y rhai'n, yn dal parhad mewn gras, trwy y tew a'r tenau.

Ond y mae galwad eto i'r gwr boneddig fyned i Liverpool, pryd y cafodd gyfleusdra yn Nghymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd a gynelir yn y dref hono tua'r Sulgwyn, i geisio cyhoeddiadau yr areithwyr mwyaf campus oedd i'w cael, i ddyfod trwy y wlad, i geisio dysgu a dychwelyd y rhai gwrthwynebus. Yr oedd yno fachgen o Fethodist yr hwn a ystyrid yn benigamp fel areithiwr dirwestol yn yr adeg hono, yr hwn yn unfrydol a neillduwyd i ddyfod ar gyhoeddiad trwy y wlad i gynorthwyo y gwaith i fyned yn y blaen. Ac i gario y frwydr yn fwy effeithiol byth, ac yn fwy cyffredinol, neillduwyd hefyd Annibynwr galluog, yr hwn hefyd oedd yn ddyn lled daclus, ac o ddoniau difyrus annghyffredin, Y maent yn darpar i'r daith, ac yn cyfarfod â'u gilydd yn Ngogledd Cymru, ac oddiyno yn cychwyn ill dau gyda'u gilydd, dan wynebu ar Went a Morganwg, i wneyd ymosodiad ar y gelyn cyffredinol. Cytunasant ar unwaith i adael eu crefydd gartref hyd nes y dychwelent, a pheidio son am ddim, ond ymosod â'u holl nerth ar gyfeddach a meddwdod. Gadael eu crefydd gartref! pa reswm oedd yn hyny? onid gwell fuasai iddynt fyned â'u crefydd gyda hwy? O ïe; fe allai mai rhyw aflerwch ynom ni yn ceisio dyweyd oedd hyny hefyd; aroswch, y mae perygl camddeall peth mor fawr a hyna; gadewch i ni esbonio, os gallwn. Nid eu crefydd bersonol, deallwch—nid eu duwioldeb yr oeddem yn ei feddwl; daethant â hyny gyda hwy, canys dynion da oedd y dynion; yr oeddynt yn grefyddol a duwiol ar hyd y ffordd wrth deithio, ac yn y tai lle y lletyent. Y grefydd allanol yr ydym yn feddwl. Pa fodd y dywedwn? Y gwahaniaeth crefyddol oedd rhyngddynt gartref. A ydyw hyny yn ddyweyd digon eglur? Tynodd ein cyfaill ei got Fethodistaidd, ac a'i rhoddodd i gadw i wraig yr Annibynwr, ac felly ein cyfaill Annibynol a wnaeth yr un peth, ond yn unig peidio a'u gosod gyda'u gilydd rhag ofn halogedigaeth; a bod yn ofalus o honynt, fel y gallasent eu cael yn ddyogel ar ol dychwelyd. Bu y foneddiges, hyd yr ydym yn clywed, yn ffyddlawn i'r ymddiried a roddwyd iddi, a chadwyd y dillad mewn cistau gwahanol, fel wedi dychwelyd yr oedd y ddau frawd yn ymddangos eilwaith yn eu dillad ac yn eu hiawn bwyll—un yn

berffaith Fethodist, a'r llall yn berffaith Annibynwr. Yn awr, chwi a welwch, y mae'r cyrph wedi cytuno, ac y maent yn cychwyn gyda'u gilydd; ac os gellir cadw y dillad ar wahan, y mae y peryglon wedi myned trosodd. Cerddwch chwi yn galonog; fe ofala gwraig y tŷ am hyny. Yr ydym wedi haner dyrysu eto; yn mha le yr ydym yn bresenol? Yr ydym yn cofio yn awr. Dyma yr areithwyr yn dyfod; y maent yn edrych yn galonog, yn ddawnus, ac yn drwsiadus, a'r bobl, wrth yr olwg arnynt, yn methu deall fod yn bosibl iddynt edrych gystal heb gyfranogi o ychydig o ddiod mewn ffordd gymedrol. Eithr hyd yn hyn yr oedd y dynion heb eu goleuo. Yr oedd y bobl yn dyweyd eu bod yn credu fod y ddwy ferlen ar ba rai y marchogai yr areithwyr yn ddirwestol, canys yr oeddynt yn edrych yn bur deneu; nid yn unig yr oeddynt yn druain, ond yr oeddynt, mae yn debyg, yn druenus. Eto dywedir iddynt fyned trwy y daith yn ddibrofedigaeth, a chyrhaedd adref yn gysurus i geulenydd Sir Gaernarfon. Beth bynag, gan adael pethau felly yn llonydd, digon yw dyweyd ar hyn o bryd i'r cyfeillion ddyfod, "gan regu'r cawr, a rhwygo'r coed;" a buont yn dra llwyddianus yn hyn yn yr holl daith. Taith gysurus iawn ar y cwbl ydoedd; ond yn unig, fel y gallesid dysgwyl, fod cryn ddadlu gan y bobl yn nghylch yr areithwyr, pa un o honynt oedd y goreu. Byddai y Methodistiaid yn dyweyd nad oedd dim siawns i neb yn ymyl eu bachgen hwy; eithr yr Annibynwyr o'r ochr arall a daerent fod eu dyn hwy yn drech o ddigon.

Y mae dynion yn myned yn mhell iawn o dan ddylanwad plaid, a hyny yn ddigon diniwed weithiau, fel y gwyddoch. Y mae yn gof genym am ddau bregethwr yn cyd-deithio i Ogledd Cymru, ac yn dyfod i dref go fawr a chyfrifol; ond y mae yn debyg erbyn dyfod yno, fod y ceffylau, wrth deithio yn galed, fel y byddys gynt, wedi treulio, os nid wedi colli eu pedolau. Yr oeddynt yn holi, wedi dyfod i'r lle, am ôf i'w pedoli, a'r cyfeillion yn dyweyd fod yno ofion *first rate*, gan enwi hwn a'r nesaf. A ydynt yn proffesu? meddent; a ydynt yn perthyn i ni? Nag ydynt ddim, oedd yr ateb. Wel, meddent, a oes dim posibl cael rhyw ôf o Fethodist o fewn y dref yma? Nid oedd dim gwell gofion na'r Harmans o fewn y sir, eto nid oedd gan y brodyr ffydd ynddynt, gan nad oeddynt yn Fethodistiaid. Rhyfedd y fath beth, onide? Pa gymhwysder allai fod mewn Methodistiaeth fel y cyfryw i bedoli ceffyl? Hwyrach y gallai fod, eithr ar yr un pryd nid oes genym ni ddim ond cyffesu ein hanwybodaeth uwchben y pwnc hwn, fel llawer o bethau dyfnion eraill. Y mae yn beth posibl i ddynion golli barn o dan ddylanwad tuedd at blaid; nid ydym ni, debygem, o'r cyfryw ag y mae peth felly yn effeithio yn fawr arnynt; ac nid ydym un amser yn caru bod yn gulion; eto, gyda golwg ar y ddau genad o ddirwestwyr, yr oedd pawb bron yn dyweyd mai y Methodist oedd y goreu. Ond dyna, peidiwch a son dim rhagor am hyna, gadewch iddo lle y mae. Y mae rhai pobl nad oes diwedd ar eu siarad, ac wedi y cwbl heb ddim yn hyny eilwaith ond ffolineb.

Daeth y ddau frawd parchus i'r Dyffryn, yn ol y cyhoeddiad a gerddodd o'r blaen, a derbyniwyd hwynt yn serchog. Etholwyd y gwr boneddig y crybwyllasom am dano o'r blaen yn gadeirydd y cyfarfod, ac felly yr oedd pob peth yn myned yn mlaen mewn trefn, a chawd gwell cwrdd nag yr oeddid yn ddysgwyl. Argyhoeddwyd lluaws, a daethant yn y blaen i ardystio, a chlwyfwyd amryw eraill na ddaethant yn y blaen y noson hono, eithr wedi hyny a ymunasant, a buont yn ser dysglaer yn y ffurfafen ddirwestol. Dywedodd un o'r brodyr dywededig, wrth ddybenu ei araeth, fel y canlyn,—"Yn awr, frodyr, yr ydym wedi bod yn gweddio er ys llawer dydd am ddiwygiad; yr ydym wedi bod yn cwyno oblegyd bod cyn lleied o arwyddion llwyddiant ar grefydd; yn awr, gyfeillion, dyma'r diwygiad wedi dyfod; y mae yn dechreu ymddangos yn bresenol yn y peth hwn; ond fel cynt, y mae'r byd a'r eglwys hefyd yn ei wrthod, am na ddaeth yn ol y dysgwyliad cyffredinol. Fel hyn y gwrthododd yr Iuddewon yr Arglwydd Iesu; nid am nad oeddynt hwy yn dysgwyl y Messiah, eithr am nad oeddynt yn ei ddysgwyl yn y ffordd *hono*. Ganwyd y plentyn Iesu yn Bethlehem Judah yn dlawd, am hyny gwrthodwyd ef, ac ni fynai yr Iuddewon hwnw i deyrnasu arnynt, am na ddaeth yn eu ffordd eu hunain. Yr ydych chwithau wedi bod yn gweddio am yr Ysbryd Glân; dyma'r Ysbryd yn cael ei dywallt yn y ffurf hon, trwy egluro ffordd i sobri y meddwon, sychu y tafarndai i fyny, ac felly rhagbarotoi ffordd yr Arglwydd. Ond yr ydych yn gwrthod y plentyn wrth beidio dyfod yn y blaen i ysgrifenu â'ch dwylaw, ac felly ei dderbyn, fel arwydd o ffafr nefol. Derbyniwch y plentyn dirwestol!" Wedi hyn dyma y cadeirydd anrhydeddus yn cyfodi, yn gwneyd araeth fer, ond hynod bwrpasol, ac yn gofyn i'r gynulleidfa a oeddent yn teimlo yn ewyllysgar i godi eu dwylaw er arwyddo eu diolchgarwch i'r areithwyr medrus, ac hefyd eu hewyllysgarwch i dderbyn y plentyn. Y mae yn wir fod amryw yn cael eu dal trwy ddichell wrth gysylltu y ddau beth â'u gilydd, oblegyd yr oedd llawer yn ddigon boddlawn i arwyddo diolchgarwch i'r areithwyr am eu hareithiau medrus, nad oeddent ar hyny o bryd yn eithaf addfed i dderbyn y plentyn. Eithr felly y bu, a gwnaed arwydd lled gyffredinol o gydsyniad i gais y cadeirydd. Eto, cyfiawnder yw dyweyd fod yno luaws na ddarfu gydsynio i arwyddo.

Yn mha le y mae Heycock yn awr? pa ochr y mae efe yn ei gymeryd? Ah! y mae efe yno, ond yn edrych yn chwerw a chilwgus, yn anmhlygedig ei ysbryd, a braidd yn edrych ar y cwbl yn ffiloreg wageddus. A gododd efe ei law? Na ddo. Beth! a wrthododd efe y plentyn? Do. Ni fynai mo hono i deyrnasu arno. Yr oedd efe yn teimlo ei hun yn wir ddigofus fod yr un cristion yn cael ei wahardd i gymeryd ychydig o ddiod yn gymedrol, yn wyneb nychdod a gwendid, a phan y teimlai wir angen am y cyfryw beth. "Pw! *nonsense* i gyd," meddai, "os nad yw crefydd yn ddigon i gadw dyn rhag yfed gormod, ffarwel byth am ddim arall. A pheth cywilyddus fod angen-

rheidrwydd i gristionogion, ïe, a hen gristionogion profedig hefyd, osod cyrn eu gyddfau o dan *drustee*, ys dywed Myfyr. Peth gweddol sâl, onide, yw gweled dynion duwiol yn gorfod rhoi ymddiriedolwr ar y fynedfa i'r bola, a thrwy hyny egluro i'r byd eu bod yn analluog i lywodraethu eu hunain! Ffei, rhag cywilydd! Chwi a wyddoch mai ar blant o dan oed, a dynion allan o'u synwyrau, y gosodir ymddiriedolwyr, y rhan fynychaf. Fel y dywed yr apostol, 'Dros gymaint o amser ag y mae'r etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl: eithr y mae efe dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr, hyd yr amser a osodwyd gan y tad.' *Nonsense* i gyd yw peth fel hyn," ebe George, rhyngddo ag ef ei hun. "Y mae gosod *trustees* ar blant a dynion maes o'u cof yn beth o'r goreu, y rhai sydd yn analluog i ofalu am danynt eu hunain, a threfnu eu hamgylchiadau; ond myned i osod y cedyrn yn y ffydd, megys Thomas Robert, William Rees, ac eraill, o dan *drustees*, sydd un o'r pethau mwyaf cywilyddus a ddaeth i glustiau dynion erioed. A pha reswm, meddwch chwi, sydd mewn gosod dirwest yn ymddiriedolwr ar dduwioldeb?" Fel hyn yr oedd ein harwr yn ymresymu rhyngddo ag ef ei hun wrth ddychwelyd o'r cwrdd.

Yr oedd efe wrtho ei hun, pa wbwedi myned o'r blaen, a'i adael yntau fel hyn i fyfyrio mewn unigolrwydd yn y tywyllwch du. Yr oedd yn dywyllwch o fewn ac oddiallan; am hyny y mae yn naturiol i feddwl mai mawr oedd y tywyllwch hwnw. Wedi cerdded yn ol ac yn y blaen ar hyd y cae am gryn amser, gan astudio yn ddwfn oblegyd y plentyn yma byth, dyma ef yn dyfod i'r penderfyniad i wrthwynebu dirwest hyd yr eithaf. Nid ydyw er hyny yn medru bod yn ddigon cryf ar y mater; y mae rhyfel yn ei enaid, ac er ceisio ymysgwyd a ffurfio penderfyniadau, y mae yn syrthio yn ol yn fuan, ac yn methu eu cario allan i weithrediad. Y mae yn chwilio allan am lwybr dyledswydd, ac eto yn methu gweled yn glir. "Nid oedd gweledigaeth eglur." Y mae yn penderfynu, yn ail benderfynu, yn datod y penderfyniadau, yn eu gwneyd eilwaith; ac yn y diwedd yn cael ei hun yn agos yn yr un man, heb wneyd nemawr o symudiad. Eithr yn nghanol y tywydd helbulus hwn, dyma efe yn sefyll yn ochr y berth, yn cyfleu y llawffon yn drefnus ar gyfer y goes fer, ac yn dywedyd, "Yr wyf fi yn gwrthod y plentyn; nid plentyn y nef ydyw." Y mae yn ceisio bod yn gryf yn y penderfyniad hwn, eto ryw fodd y mae yn methu; canys y mae yn teimlo awch rhesymau yr areithiwr ar ei feddwl, ac yn ei fyw, er ymdrechu ei oreu, y mae yn ffaelu eu hysgwyd ymaith. Wedi cyhoeddi ei benderfyniad fel hyn i wrthod y plentyn, nid ydyw eto yn gallu dianc heb ail ystyried y penderfyniad hwnw. Wele ef yn cychwyn yn y blaen, yn dyfod bron i gornel y cae, yn cosi ychydig ar ei ben, yn plygu tipyn yn ei arai, yn cau ei ddwrn, fel pe buasai yn myned i ollwng un o'i hen ergydion at ben ryw un, ac yn dywedyd, "Yr wyf bron dyrysu yn nghylch y mater hwn."

Wel, y mae yn cymeryd cylch eto o gwmpas y cae yn y tywyll-

wch du, gan ail ystyried ei benderfyniad yn nghylch gwrthod y plentyn, ac felly yn rhodio yn alarus ac yn bendrymaidd iawn. Y mae llawer o bethau newyddion yn dyfod i'r meddwl wrth ystyried pethau fel hyn yn ddwys, ac felly rhyfel poeth iawn yn cymeryd lle rhwng rhagdybiau lles diod gadarn i'r cyfansoddiad dynol yn yr arferiad cymedrol o honi, a'r rhesymau diweddar i'r gwrthwyneb. Eithr y cwestiwn yn ei bwys crefyddol a ddaeth â'r argyhoeddiad adref. "Pe byddai y ddiod yn ychydig o ddaioni," ebe'r areithiwr, "a ydyw ymwadu â'r ychydig ddaioni hwnw yn ormod er mwyn achub hen feddwon sydd yn ymdreiglo mewn budreddi drwy eu hoes, yn nghydag atal eraill, ag sydd yn awr yn ddynion sobr, rhag myned yn feddwon?" Effeithiodd y dull hwn o resymu yn ddirfawr. Y mae efe yn dechreu cofio ei hen helynt ei hun gynt, ac yn gwybod yn bresenol am ganoedd sydd yn yr un sefyllfa; ac y mae yn ystyried os oes rhyw foddion i'w hachub, y dylid ei arfer, beth bynag yn y byd fyddai yr hunan-ymwadiad. Yn wyneb y pethau hyn a'r cyffelyb, y mae yn teimlo y meddwl yn myned o dan gyfnewidiadau mawrion, ac yn dechreu gweled pethau mewn goleu arall. Y mae efe eto yn cyfnewid ei benderfyniad blaenorol yn nghylch gwrthod y plentyn, ac ar yr un pryd yn methu deall yn iawn pa fodd i wneyd. Yn awr eto y mae yn dechreu gofidio yn dost am iddo sefyll yn gyndyn yn y cyfarfod, a gwrthod codi ei law o blaid derbyn y plentyn yn ngwydd yr holl bobl. "A pheth arall," meddai, "dyma'r cyfle wedi myned heibio i wneyd hyny yn ngwydd y gynulleidfa, fel y buasai pawb yn dystion." Bu dystawrwydd. "Eithr," ebe efe, "clywais fel pe buasai llais yn fy ngalw wrth fy enw, gan ddywedyd, 'George, os ydyw y bobl wedi dychwelyd adref, nid ydyw yn rhy ddiweddar eto; y mae Duw, yr hwn sydd yn fwy na phawb yma.'" Gyda hyn y mae yn teimlo adnewyddiad nerth, ac fel un wedi cael bywyd newydd, yn taro blaen ei lawffon yn y ddaear, yn ol ei ddull arferol, yn tynu ei het oddiar ei ben, fel pe buasai yn y capel yn nghanol cynulleidfa yr Arglwydd, yn ei dal yn ei law ddeheu, ac yn ei chwyfio o gwmpas ei ben dair gwaith, gan edrych yn ddyfal tua'r nef, a chyda hyny yn gwaeddi allan, "O Arglwydd, maddeu fy nghyndynrwydd; wele fi yn awr yn dy wydd di, ac yn ngwydd yr angylion santaidd, yn codi fy llaw i'r nefoedd, ac yn gwneyd cyfamod â thi yn nghylch y plentyn. Arglwydd, mi a dderbyniaf y plentyn; cynorthwya dithau finau i'w fagu, a'i feithrin yn ofalus; a bydded iddo fod yn fendith i'r byd. Amen!" Dyna gyfamod dirwestol George Heycock.

Wel, chwi a welwch ein cyfaill yn awr o dan gyfamod newydd, a bydd yn angenrheidiol i ni edrych arno bellach, am dipyn beth bynag, fel deiliad y cyfamod hwnw. Y mae bellach wedi cymeryd at y plentyn, ac y mae pob argoel y bydd iddo ei fagu yn anrhydeddus. Y mae yn iawn dywedyd iddo lawarwyddo yn gyhoeddus y cyfle cyntaf, ger bron yr holl bobl, fel y byddai eglurdeb ar hyn fel yr holl bethau eraill. Yn gymaint nad oedd

rhai o'r hen bobl, a'r rhai cadarnaf ar y maes hefyd, megys Thomas Robert ac eraill, wedi gweled yr angenrheidrwydd o hyn eto, ac felly yn dra anystwyth, fel y mae yn rhesymol meddwl, yr oedd ein harwr oblegyd hyn, ar brydiau, ar dir profedigaethus. Fe ddichon fod y sel yn fynych yn ymestyn dros y terfynau yn mhoethder y cariad cyntaf yn achos y plentyn, ac felly yn tynu allan fwy o wrthwynebiad nag y buasai pe gwnaethid cymedroli pethau, yn lle myned i eithafion annyoddefol. Beth bynag, felly yr oedd pethau, a chan hyny nid oes genym ni ddim ond dywedyd gwirioneddau fel yr oeddynt, a gadael i bawb dynu y casgliadau y gwelont hwy yn dda oddiwrth hyny. Bu llawer un â'i bastwn uwch ben y plentyn, fel y gŵyr pawb, yn y Dyffryn fel pob lle arall; eithr y *bruiser*, pan welai y ffon wedi ei chodi uwch ben y maban, a neidiai ei hun o dan yr ergyd, er mwyn amddiffyn a chadw y bychan yn fyw yn nghanol ergydion marwol y pastynwyr. Daeth yr amgylchiadau hyn a'r cyffelyb â'n harwr yn enwog ac yn amlwg yn fuan; a dechreuid ei ofni bellach, rhag ei fod yn myned yn y blaen yn rhy fuan, ac y byddai yn rhaid wrth ryw orchwyliaethau cryfion i'w ddarostwng, a dyfod ag ef i'w iawn bwyll. Wrth ei weled yn bur gryf yn pleidio y plentyn, ac yntau heb fod yn hen mewn crefydd y pryd hyn, ofnid gan yr hen frodyr ei fod yn iachau oddiwrth ei argyhoeddiadau mawrion gynt, ac y gwelid ef eto yn ymdreiglo yn y dom. Yn wir, dywedwyd wrtho droion ei fod yn rhy eofn a phenderfynol, ac yn myned yn rhy rwydd yn y blaen—ei fod am fyned, os oedd bosibl, o flaen y blaenoriaid awdurdodedig, ac felly "yr oen yn myned i ddysgu i'r ddafad bori," ys dywed yr hen ddiareb Gymreig. Ein harwr, fe allai, a ddywedai ryw air yn yr Ysgol Sabbathol yn nghylch y plentyn, gan gymeryd ei ddameg o bell, ac yn tynu llawer un i gymeradwyo y Gymdeithas Ddirwestol heb yn wybod iddo ei hun; canys yn fynych iawn y llefarai efe wrthynt ar ddamegion, ac heb ddameg braidd y dywedai efe ddim wrthynt. Eithr mor gynted ag y byddai y peth yn ymegluro, O! anwyl bobl! dyma'r ffyn yn dechreu chwareu uwchben y brawd George; ac yn fynych iawn ddanodiad o'i hen gampau, gyda'r hen ofyniad, "Beth, tydi yn myned i'n dysgu ni! mewn pechod y ganwyd di oll, ac mewn pechod y'th fagwyd, a phechadur heb dy fath yr wyt wedi bod. Oni bai dy fod yn ddigywilydd, tydi fyddai y diweddaf i agor dy ben." Eithr efe a daflai ei law yn wyneb yr holl bethau hyn, ac a ddywedai, "Ië, gynt, nid yn awr. Y mae yn wir nad oedd neb yn mhlith yr hen Gorinthiaid yn dduach na myfi, eithr fel hwynthwy, myfi a olchwyd, ac myfi a gefais drugaredd; nid y peth y mae dyn wedi bod, eithr y peth ydyw yw y pwnc." Pe buasech ond gweled ein harwr, yn nghanol poethder y diwygiad hwn yn ei amddiffyn ei hun a'r plentyn a roddes Duw iddo, fel y dywedai, buasai yn ddigon i beri i chwi wenu yn nghanol eich holl ofidiau: ei weled wedi taro ei ffon, er cryfhau y goes fer, fel un yn dangos ychwaneg o barch i'r aelod anhardd; a'r het yn ei law ddeheu,

yr hon oedd yn estynedig allan, a'i ddau lygad yn dysgleirio fel ser y boreu, a'i dalcen mawr fel yn arwyddo dealltwriaeth uwchraddol; ac o ran ei berson yn sefyll can gymhwysed â saeth; ac yn yr agwedd hon y mae yn amddiffyn "y plentyn," chwedl yntau, rhag yr holl bicellau tanllyd oedd yn ehedeg; ac yn siwr i chwi, nid ychydig oeddynt.

Hyd yn hyn yr oedd yr hen frawd Thomas Robert heb ei oleuo yn nuwinyddiaeth dirwest. Byddai efe yn meddwl fod rhyw rinwedd annhraethol mewn haner peint, a bod hyny yn nerth ei fywyd yn y byd, os nid wedi bod yn foddion estyniad ei oes hyd yn bresenol. Fe allai hefyd ei fod yn ormod o Galfin, yn enwedig yn ei oriau mwyaf meddylgar, i feddwl fod ychydig o ddiod yn estyn oes; canys yr oedd efe, deallwch, yn eithaf Calfin, mor iach yn y ffydd a nemawr yn yr oes. Beth bynag, y mae hyn yn ddigon amlwg, ei fod hyd yn hyn yn priodoli llawer o gysur a nerth yn y ddiod er cynorthwyo dyn i ymlwybro trwy fyd anhawdd. Dymunem i'n darllenwyr gofio, serch hyny, nad oedd un dyn mwy duwiol na'r hen frawd hwn yn yr oes, am a wyddom ni; ond fel y gwyddoch, o dan argyhoeddiad felly am gwrw yr oedd agos bawb pan ymddangosodd y plentyn hwn yn y wlad. Yn gymaint a bod pethau yn sefyll felly, yr ydym yn cael y cewri cedyrn gyda chrefydd, a'r bobl mwyaf eu dylanwad, ar y cyntaf yn groes i'r symudiad. Gan fod ein harwr yn ieuanc gyda chrefydd ar y pryd, ac weithiau, fe allai, yn myned dros y terfynau yn mhoethder ei awyddfryd, yr oedd yr ymosodiad yn boeth arno ar dde ac aswy. Byddai un yn cyrhaedd bonclust arno o'r fan hon, a'r llall o'r fan draw, ac weithiau y gwresfesurydd yn codi cyfuwch, fel y byddai chwech neu saith yn siarad ar unwaith, ac yn taflu eu saethau llymion a thanllyd ar yr un pryd. Y mae yn beth rhyfedd ei fod yn fyw! Er hyn i gyd, dan bwyso yn ddiysgog ar ei lawffon, ac weithiau yn chwyfio ei het fel ped amneidiai am osteg, y mae yn sefyll fel cawr, gan ymresymu allan o'r ysgrythyrau, y prophwydi, a'r apostolion, mai plentyn Duw ydyw dirwest, a bod yn rhaid i'r eglwys ei dderbyn "hyd amser adferiad pob peth." Gallesid meddwl wrth ei weled yn dal y fraich fawr allan, ac yn dal copa yr het tuag at y gwrthwynebwyr, ei fod wedi meddwl mai hono oedd tarian y ffydd, i dderbyn ac i ddiffodd yr holl bicellau tanllyd; ac yn wyneb cael tipyn o osteg, dacw ef yn ei chwyfio oddiamgylch ei ben, fel pe buasai yn herio pawb, a'u cymhell allan i dir rheswm ac ysgrythyr i ymladd y frwydr fawr. Dyoddefodd fel hyn helynt flin lawer gwaith; eithr er y cwbl, yn mlaen yr oedd yn myned, gan gredu ei fod yn gywir. Diystyrodd waradwydd, fel un yn gweled haf ffrwythlawn o'i flaen y tu draw i ystormydd ysgythrog y gauaf tywyll a du. Yr oedd efe yn edrych ar y plentyn hwn yn "gwymp ac yn godiad i lawer yn Israel;" ac er ei fod hyd yn hyn fel maban wedi ei daflu i wyneb y maes, yn ymdrybaeddu yn ei waed, yr oedd yn gweled trwy ffydd, neu ryw beth, ddiwrnod y buasai ei harddwch yn odidog, a'i amser yn amser serchog-

rwydd; felly efe a ledodd ei aden drosto, ac aeth i gyfamod ag ef. Gan nad oedd y blaenoriaid, fel y dywedasom, wedi gweled hyd yn hyn hawddgarwch y plentyn, nid oedd neb yn swyddol i gyhoeddi cyfarfodydd dirwestol, fel yr oedd y plentyn mewn perygl o gael ei annghofio. Yr oedd hefyd yn berygl dirfawr i ddyn heb fod mewn swydd anturio at y gwaith. Byddai y cyhoeddwr yn cyhoeddi y cyfarfod gweddi, y bregeth, a'r holl foddion; ond er dim ni chyhoeddai gyfarfodydd o'r natur hyn. Yn wyneb hyn, yr oedd ein harwr, gyda rhyw ychydig eraill, yn methu deall yn iawn pa beth i'w wneyd i'r dyben o ddwyn achos y plentyn newydd o dan sylw. Glynu wrth ei broffes yr oedd y cyhoeddwr er pob peth; ni chyhoeddai, ac ni welai yn dda halogi ei dafod trwy ddyweyd fod cyfarfod o'r fath i'w gynal o fewn y lle santaidd. Eithr penderfynwyd, yn gymaint a bod pethau yn sefyll felly, ac nad oedd gobaith mewn modd yn y byd ddwyn y plentyn i sylw y werin, i Heycock floeddio allan, ar ol i'r cyhoeddwr weinyddu ei swydd, fod cyfarfod dirwestol i fod y pryd a'r pryd, ac wed'yn gwneyd y goreu o'i draed, rhag ofn mwstwr. Addawodd yntau ar unwaith weinyddu y swydd oruchel, er ar yr un pryd nad ydoedd yn annghydwybodol o'i pheryglon, a'r profedigaethau yr arweiniai hyny ef iddynt o angenrheidrwydd; canys gwyddai yn burion y byddai ffonodiau lawer yn barod iddo o lawer cyfeiriad. Bid a fyno, y Sabbath a ddaeth; ac wedi i'r cyhoeddwr weinyddu ei swydd—gyda phob dyledus barch y dymunem siarad am swyddau—dyma George ar ei draed, ac, er syndod i bawb, yn dechreu ar y gorchwyl o gyhoeddi, heb fod yn awdurdodedig. Cyn ei fod wedi cael amser i agor ei enau yn iawn, ac efallai, gan ei fod yn annghyfarwydd gyda y fath orchwyl, ei fod yn fwy araf nag y gallesid bod, yr oedd y pregethwr wedi dechreu rhoi allan y penill,—

"Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;"

eithr cyn gallu cael amser i ddywedyd, "Dyma un sy'n caru maddeu," dyma floedd o ryw le yn cyhoeddi cyfarfod dirwestol nos Fercher, a bod amryw o frodyr athrylithgar yn areithio ar yr achos. Gwareder ni! dyma yr holl lygaid ag oedd yn y capel wedi eu sefydlu arno ar unwaith. Edrychwch arnynt o gwmpas y pwlpud,—dyna drydaniad! Y mae rhai, fel heb yn wybod iddynt eu hunain, yn codi yn sydyn, ac â gwddf estynedig yn edrych i'r cyfeiriad y daeth y llais allan; y mae eraill yn edrych ar eu gilydd fel pe nas gallasent beidio, a phawb fel pe bai rhyw wylltineb annghyfrifol yn eu gwynebau; a'r hen frawd Thomas Robert yn gwasgu ei benliniau yn nghyd, ac yn plygu ei wàr fel gwydd pan yn ymostwng i fyned o dan fwa pont. Nid oedd neb yn gydwybodol o'i agwedd ei hun; a phe buasai yr edrychydd yn dyweyd, braidd y credasent. Diflaswyd y cwrdd, aeth y cwbl fel pe taflesid dwfr oer ar bob peth. Y mae y pregethwr yn myned rhagddo â'i benill,—

"Dyma un sy'n caru maddeu,
I bechaduriaid mawr eu bai:
Diolch iddo, &c."

Eithr er mor felus yr ydoedd, methwyd cael blas da y cyfarfod hwnw, ac anhwylus iawn y canwyd. George, yn rhagweled ei beryglon, yn amser y canu a dynai yn araf tuag at y drws, i'r dyben o gychwyn adref cyn bod neb yn agor ei lygaid braidd, ac felly dianc o afael y peryglon. Llwyddodd yn hapus yn hyn; a phan oedd ymholi yn eu plith yn ymyl y pwlpud am dano, yr oedd efe yn tynu yn mhell adref. Efe, y tro hwn, oedd y blaenaf. Yr oedd hyn yn groes i arferiad hefyd, canys yr olaf oedd efe y rhan fynychaf. Yn wir, yr oedd yr olwg arno yn sicr o fod yn ddifyrus dros ben, yn enwedig i feddwl diduedd; ei weled o gwmpas haner lled cae o flaen pawb, yn ei dywadnu hi, yn taflu y ffon yn y blaen gyda y fath awch, a choes ar ol coes gyda hyny, mewn ffordd mwy hwylus nag arferol. Chwi synech mor gelfydd y byddai yn gweithio y ffon er cynorthwyo y goes fer, fel nad oedd y naill na'r llall yn cael eu taflu yn groes nac am draws eu gilydd. Yr ydym yn meddwl y bydd ein darllenwyr yn cydweled â ni pan yn dywedyd, mai arwydd o gryn ysgîl, os nad peth talent, oedd gweithio corph fel hyn mor hwylus a hoyw ar hyd y ddaear gron, heb dramgwyddo a syrthio. Buasai yn hawdd, debygem ni, i un dyn o feddwl cymedrol weled cywreinrwydd go fawr yn nhafliad y goes i gyfeiriad priodol, yn nghyda'r dull deheuig y daliai y ffon i fyny er ei chynorthwyo. Nid pawb a wnai hyn, a bod yn siwr i chwi hefyd.

Ond gadewch i ni ddychwelyd. Y mae ein gwron wedi dychwelyd adref yn ddyogel, ac yn llechu yn dawel yn ei dŷ ei hun, gan fyfyrio ar y gawod oedd yn bygwth disgyn arno; canys gwelodd y cymylau yn duo yn anferthol tua bôn y gwynt, ac yn ymlanw o wlaw. Nid oedd yn meddwl dianc er hyny am byth, er iddo ysgoi yr ystorm hon. Beth bynag, yr oedd yn penderfynu sefyll yn ddiysgog o blaid y plentyn tyner, trwy y tew a'r teneu, er gorfod peryglu ei fywyd ei hun. Y mae yr anwyl Thomas Robert yn ei gyfarfod ar ol hyn, a gellid darllen yn ei wyneb a'i holl agweddiad ei fod yn ofni siomedigaeth yn nghrefydd ein harwr. Nid ydyw fel cynt; y mae bywiogrwydd ei wyneb wedi syrthio, y mae yn oeraidd yn ei ffordd, yn troi ei olygon draw, ac ar brydiau yn edrych mor ddelffaidd a phe buasai ei feddwl wedi ei gipio i ryw blaned arall, tra yr oedd George yn sefyll o'i flaen, ac yn amddiffyn y plentyn yn wyneb yr holl ysgrythyrau. Y mae ein hewythr Thomas weithiau yn bywhau, ac fel yn cael nerth adnewyddol, gan ymaflyd yn awdurdod ei swydd a dywedyd, "George, cymer bwyll; yr wyt yn myned yn rhy fuan; yr wyt yn marchogaeth yn rhy uchel ar gefn ceffyl rhyfyg; ryfeddwn ni ddim dy weled eto wedi syrthio dros dy ben i dy hen lwybrau. Nid da gweled dynion yn rhy boeth gyda phethau newyddion." "Da yw dwyn mawr serch dros beth da yn wastadol," meddai yntau; "dinystr y byd yw diod gadarn, Thomas Robert.

'Gwatwarus yw gwin; na feddwer chwi gan win. Deuwch allan o'u canol, ac ymddidolwch.''' Byddai ein harwr fel hyn yn lluchio yr ysgrythyrau ar dde ac ar aswy yn ddiddiwedd. Er fod hwn a'r llall yn ceryddu, dal yn y blaen yr ydoedd, gan gyhoeddi dirwest ar ol i'r cyhoddwr fyned dros bob peth arall, yna cilio yn llechwraidd o flaen pawb o'r cwrdd. Eithr, fel y mae yn hawdd deall, yr oedd yn anmhosibl dianc fel hyn yn oes oesoedd; canys yr oedd bwriad a phenderfyniad diysgog yn 'mhlith yr awdurdodau i gael gafael arno, a rhoi iddo gystal golchiad ag a gafodd dyn erioed, os nid ei fwrw yn hollol allan o'r synagog. Mor gynted ag y dangosodd ei wyneb yn y gymdeithas eglwysig, dyma gyfle yn ymgynyg, ac nid hir y bu y cyfeillion cyn achub y cyfleusdra i roi maethgen heb ei hail iddo. Yr oedd yntau yn dysgwyl mai felly y byddai cyn y diwedd hefyd; nid oedd wedi meddwl fod yn bosibl dianc yn ddigerydd byth. Ac y mae yn fwy na thebyg, ei fod wedi gwneyd darpariadau ar gyfer yr ymosodiad.

Galwyd ef yn y blaen, a dechreuwyd ymddyddan, fel pe na buasai dim mewn golwg ond pethau crefydd a phrofiad ysbrydol; eithr yn fuan dyma ddyn go fyr yn gollwng saeth neu ddwy oddiar ei fwa, wedi ei blaenllymu yn lled bigfain, ac yn cael eu cyfeirio o ochr aswy y pwlpud; a chyda hyny dacw un arall o'r ochr ddeheu yn ehedeg fel mellten, nes o'r diwedd yr oedd y gwaywffyn yn trywanu ar bob ystlys. Y mae yn boeth iawn yn wir; y mae bron yn annyoddefol! Anadl! Yn awr y mae y brawd Thomas Robert yn codi ac yn gwneyd gorchest i arafu, canys yr ydoedd yn ei gweled hi yn arwyddo ystorm gref; ac wedi sefyll i fyny a phesychu ychydig, yn nghyda chyfaddasu ei berson at anrhydedd y swydd, y mae yn llyfnhau ychydig ar lawer o bethau a ddywedwyd; o leiaf yn ceisio eu gosod yn fwy crefyddol a duwiol ger bron. Ar yr un pryd, yr oedd ein hewythr yn ofnadwy o lym, canys nid ydoedd efe hyd yn hyn wedi derbyn y plentyn. Y mae yn gwneyd ymosodiad cryf ar ein harwr, gan ei gondemnio am haerllugrwydd, yn gymaint a'i fod yn grefyddwr ieuanc; ac yn dywedyd fod yr eonder yr oedd wedi ei arfer ar bethau y cysegr yn fai, o drugaredd, nad oedd wedi dygwydd yn aml yn ei gof ef. A chan droi ei olwg at y bobl, y mae yn dywedyd, "Dyma ddyn wedi anturio i swydd bwysig yn yr eglwys, heb erioed ei awdurdodi ganddi; y mae yn cyhoeddi moddion yn y capel, yr hyn beth nad oes awdurdod gan neb ei wneyd ond yr hwn a osodwyd ganddi hi ei hun i gyflawni hyn o orchwyl. A ydyw hyn yn rhyw beth gwell na chysegr-ladrad?" Nid rhaid dywedyd, debygem, fod cydsyniad lled gyffredinol i'r athrawiaeth hon; a'r bobl o'r newydd yn dechreu danfon saethau llymion i mewn, fel ag i wneyd sefyllfa y cyfaill George yn bur beryglus. Eithr wedi goddef yn hir, gwelir ef yn dechreu gosod y llawffon mewn trefn, ac yn codi i fyny, ac yn amneidio â'i law am osteg, ac yna yn amddiffyn ei hun yn y modd goreu y gallai. "Yn awr, gyfeillion," eb efe, "nid chwenych eich swyddau yr

ydwyf; ac nid oedd ynof y bwriad lleiaf i derfysgu nac aflonyddu heddwch neb wrth gyhoeddi y cyfarfodydd; ond ei wneyd a ddarfu i mi oblegyd eich bod chwi sydd mewn swyddau yn pallu gwneyd; ac yr wyf fi yn barnu, yn gymaint nad oedd neb yn foddlawn i wneyd hyny, nad oedd yn ddim pechod, eithr yn hytrach yn weithred o grefydd, i mi ei wneyd; oblegyd y mae yn rhaid i ryw rai, deallwch, gymeryd at y plentyn hwn a'i fagu i'r Arglwydd, canys y mae yn ddiamheu, yn ol fy meddwl i, mai ei blentyn ef ydyw, a bod pawb ag sydd yn ei wrthod yn pechu yn erbyn ei Dad." Yn wir, o'r goreu, George, dyna araeth led dda; da iawn hefyd. Gyda hyn, y mae Thomas Robert yn neidio fel hydd ar ei draed; yr oedd yn ddyn bach ystwyth a gweisgi iawn, ac yn gwaeddi allan, "George, cymer bwyll; yr wyt yn siarad gormod; yr ydwyt yn arfer gormod o eonder yn nhŷ Dduw; yr wyt yn dwyn rhyw bethau newyddion i'n clustiau; a dyweyd y gwir; y mae llawer o bethau dyeithr a pheryglus yn cael eu dwyn i mewn genyt ti ac eraill i'r Corph yn y dyddiau hyn. Y mae yn rhaid, gan hyny, i ti eistedd i lawr, a bod yn llonydd fel dyn arall, a pheidio dwyn pethau i mewn i dŷ yr Arglwydd ag sydd yn debyg o wneyd drwg a therfysg mawr."

Y mae yn wir fod George yn cynhyrfu peth, nid yn annghrefyddol ychwaith, ond y mae yn codi i wres siarad tipyn; y mae ei ysbryd yn crýfhau nes ydyw mewn hwyl ymddyddan ar y mater. Taflodd ei law y pryd hwn yn hynod rasol, pan yn ateb drosto ei hun ger bron Thomas Robert; pe buasai Demosthenes yno, braidd y gallasai wneyd awgrym mwy boneddigaidd. "Thomas Robert," eb efe, "yr ydych yn dyweyd am ddwyn pethau dyeithr a drwg i mewn i'r eglwys; ond pa ddrwg y gall y plentyn hwn wneyd? Nis gall hwn wneyd drwg i neb, ond lles i bawb. Nid wyf fi yn ceisio dyfod â dim arall i mewn ond y plentyn dirwest, ac yn dymuno arnoch chwi a phawb oll ei dderbyn. Yn awr, gyfeillion, yr wyf fi yn ceisio lle i'r plentyn hwn yn y *society*, a chwithau yn pallu ei dderbyn. Derbyniwch y plentyn. Gwrandewch, hawyr; ni wna y plentyn hwn niwed i neb o honoch mwy na'u gilydd, eithr lles gwirioneddol i bob dyn byw. Gadewch gan hyny i'r plentyn tyner a gwan ddyfod i mewn; rhowch le yn y tŷ iddo ar brawf, fel y gwneir â phawb eraill, ac os â yn afreolus, trowch ef allan y pryd hwnw." "Ust, George!" ebe rhyw un yn lled fursenaidd, "peidiwch a cholli yn eich tymherau; nid oes eisiau eich natur ddrwg chwi yma." "Colli yn fy nhymherau yn wir," meddai yntau; "nid wyf fi yn colli dim yn fy nhymherau, eithr sel yn achos y plentyn sydd yn enyn fy nghorph a fy ysbryd hefyd. A wyddoch chwi beth? yr ydych chwi wedi derbyn dau o blant y ddraig i'r eglwys hon, ac yn eu meithrin yn dyner iawn gyda'r parch mwyaf hefyd, er ar yr un pryd yr ydych yn gwrthod y plentyn hwn fel un peryglus i gymdeithas." Gwarchod pawb, George! mor wired a'ch bod yn fyw yr ydych wedi dodi eich bys yn nhwll y cacwn; yr ydych wedi tynu haid am eich pen. Dacw hwynt yn codi ar unwaith, fel pe baent

wedi gwylltio wrth y gair hwn, "Yr ydych wedi derbyn dau o blant y ddraig i'r eglwys hon, ac yr ydych yn eu magu a'u meithrin ynddi." Dyna ddau neu dri ar eu traed wrth yr ochr aswy i'r pwlpud; dyna chwech neu saith ar yr ochr dde, ïe, rhagor; y mae bagad wedi codi o flaen *seat* yr Hafod, a phob un â'i gleddyf noeth yn ei law. Oni buasai i Thomas Robert fod yn llygeidiog fel arfer, a neidio i'r adwy, gallasai fod yn bur ddiffaeth. Eithr o barch i'r brawd Roberts, y mae pawb yn ufuddhau i eistedd i lawr am ychydig, tra y mae efe yn gwneyd ymholiad pellach yn nghylch y cyhuddiad gwarthus yn erbyn yr eglwys. Ar ol cael ychydig osteg, a'r ysbrydion fel pe byddent wedi eu rhoi i lawr ac ymlonyddu am ryw gymaint, y mae ein hewythr Thomas, yntau, yn ceisio bod yn bwyllog ac araf, i'r dyben o fyned at y gorchwyl mewn agwedd deilwng, ac eistedd yn weddus mewn barn. Er hyn oll, y mae yn amlwg i bawb ei fod yn teimlo yn ddwys; yr oedd yn ormod o beth i'w gelu yn hollol; y mae yn methu gwneyd hyny, canys y mae yn troi ei ben mewn ffordd arwyddocaol iawn, yn tynu ochenaid brudd, megys o ryw ddyfnder anadnabyddus, yn taro ei law ar ei ochr aswy, ac yn pesychu amryw weithiau, cyn dywedyd dim. Eithr cyn hir y mae yn dechreu siarad gyda phwyll ac arafwch teilwng i'w swydd, gan ddymuno ar George feddianu ei hun, ac ystyried natur ei ymadroddion; canys gobeithio yr ydoedd mai llefaru â'r tafod a wnaeth yn mhoethder ei ysbryd, heb ystyried, ac y byddai yn dda ganddo gael cyfle i wneyd esgusawd ger bron y cyfeillion, a syrthio am ei fai. "Ti weli, George," meddai, "fod y cyhuddiad yr wyt ti wedi ei wneyd yn erbyn eglwys Dduw yn ofnadwy o haerllug; sef ei chyhuddo o dderbyn dau o blant y ddraig, a'u magu o fewn ei magwyrydd. Pwy erioed a glywodd y fath beth a hyn o'r blaen? Mi a wn am danaf fy hun, ac yr wyf yn meddwl y gallaf ddyweyd dros yr holl frodyr, nad ydym yn gymaint cyfeillion i'r ddraig ag y cymerem ddau o'i phlant i mewn i'w magu yn ein plith. Gobeithio nad wyt tithau, George bach, yn meddwl mor isel am eglwys Dduw, ond yn unig i ti ddygwydd dyweyd rhyw beth yn nghynhyrfiad y foment; am hyny syrthia i lawr, a chydnebydd hyny ger bron y cyfeillion." "Y fi," meddai ein harwr, "na wnaf byth, Thomas Robert! yr wyf fi yn dyweyd y gwir; yr ydych yn magu dau o blant y ddraig yn yr eglwys hon, ac yn gwrthod y plentyn hwn, ac yn ei daflu dros y drws." "Taw, George," ebe Thomas, yn lled gynhyrfus; y mae ysbryd yr hen wr yn twymno; y mae ei benderfyniad i gadw yn bwyllog wedi ei lwyr adael, ac y mae yn herio George i brofi ei gyhuddiad—fod y cyfryw blant yn cael eu magu rhwng muriau yr hen Ddyffryn. Nid llawer o blant, fe allai, oedd yn cael eu magu yn yr eglwysi ychwaith yn y dyddiau hyny—llai nag a fuasai yn ddymunol, y mae yn ddigon tebyg, chwaithach plant o'r natur hyn.

I brofi y cyhuddiad, y mae George, wrth gwrs, yn ymbarotoi, ac yn gosod ei berson mewn rhyw ffurf wahanol i'r cyffredin. Y mae fel pe bai yn cymeryd mwy o afael ar dir, yn gosod ei hun i

sefyll mewn agwedd gwron, yn cauad ei ddwrn fel pe buasai rhyw un o'i flaen oedd ar gael teimlo ei bwysau; yn gwasgu ei ddanedd yn nghyd, fel yn yr amser y byddai yn gollwng ergyd at dalcen ei elyn, gan benderfynu y mater yn y ffordd hono. Yn yr agwedd hon y safai o flaen y blaenor, ac y dywedodd, "Thomas Robert, gwrandewch; nid gwaith anhawdd, deallwch, yw profi y cyhuddiad yr wyf fi wedi ei wneyd fod dau o blant y ddraig yn cael eu codi yn yr eglwys hon; a gwae neb a ddywedo yn eu herbyn. Plentyn y ddraig yw Cyfeddach, a phlentyn yr hen ddraig yw Meddwdod, a thyma blant sydd yn cael eu magu yn yr eglwys hon, ïe, ac yn eglwysi Cymru a Lloegr hefyd. Dyma blant ag sydd yn cael y tynerwch mwyaf, yn enwedig y plentyn Cyfeddach; y mae y plentyn Meddwdod, y mae yn wir, yn cael ychydig o'i geryddu weithiau, ond yn bur dyner. Am y plentyn Cyfeddach, yr ydych yn amddiffyn hwnw nerth braich ac ysgwydd. Y mae eistedd yn eisteddfa y gwatwarwyr yn y tafarndai yn bechod, cofiwch, ac yn arwain i ddystryw. Y mae eistedd yn nghyfeddach y gwin yn arweinydd sicr at feddwdod cyhoeddus; a'r rhan amlaf, yno y mae yn terfynu hefyd. Gwae sydd yn gyhoeddedig yn y Bibl uwch ben y rhai ag sydd yn eistedd wrth y gwin, ac yn yfed diod gadarn. Dyma y plant sydd yn gwneyd drwg i chwi; eithr am hwn, y plentyn Dirwest, ni wna hwn ddrwg i neb. Syr John Barleycorn sydd wedi gwneyd drwg i'r Corph, Thomas Robert, ac nid y plentyn hwn; ac fe wna Syr John a'r *family* fwy o ddrwg eto, os gwnawn eu croesawu. Allan â Syr John a'i holl dylwyth, a derbyniwch y plentyn hwn yn eu lle. Ni wna y plentyn Dirwest ddrwg i neb, eithr lles i bawb; y mae yn llefain ar eich ol, a'i leferydd ydyw, 'Deuwch allan o'u canol hwynt, ac ymddidolwch, a mi a'ch derbyniaf chwi.' Gwrandewch ar ei lais ef, ac nid ar leisiau ac ysgrechfeydd melldigedig plant yr hen ddraig." Yn awr y mae yn agor ychydig ar ei siaced, ac yn edrych i mewn i'w fynwes, ac yn dywedyd, "Mi glywaf lais y plentyn o fewn fy mynwes yn awr; y mae yn llefain, ac yn wylo yn chwerw, fel Moses gynt yn y cawell llafrwyn; ac iaith ei ddagrau ydyw, 'Tosturiwch wrthyf.'" Wel, mewn difrif, George, yr ydym yn meddwl, ond i chwi ddal yn y blaen am ychydig, y deuwch yn areithiwr *first rate;* canys yr oedd pob awgrym, a phob symudiad llaw a llygad, yn areithyddol i'r pen draw. Ond dyna, gwell yw peidio rhedeg o flaen rhagluniaeth, oblegyd y mae siomedigaeth go fawr wedi dygwydd o herwydd hyny lawer gwaith; gwell yw aros nes y bydd hi yn dadblygu ei dybenion. Yr ydym yn meddwl yn wir, serch hyny, fod defnyddiau areithyddol yn ein harwr, ac y daw i ddysgleirio, os nid i orddysgleirio, ar y *platform* yn y man. Mor dueddol yw dyn i fwyta ffrwyth anaddfed, yn rhyw fodd; ac y mae fel pe bai yn anmhosibl gwrthsefyll y brofedigaeth. Ië, dan gofio, yn nghylch y plant yr oedd y siarad, onide? Plant y ddraig a phlentyn dirwest. Wel, fe fu cryn siarad, yn ol ac yn y blaen, yn nghylch y plant am amser hir, yn nghanol awelon

lled ystormus ar brydiau, eithr nid oedd ond gobaith gwan am gilfach a glan iddo. Yr oedd yr hen long yn ysgwyd yn y dyfroedd dyfnion yn nghanol gwyntoedd tra gwrthwynebus; ac yn gymaint nad oedd arwyddion y gallesid cyrhaedd y tir, nid oedd dim gwell i'w wneyd na bwrw angor, a "dymuno iddi fyned yn ddydd." Terfynwyd y cyfarfod, gan hyny, yn nghanol nos dywyll, hyd "oni wawriai y dydd, a chilio o'r cysgodau."

Y mae yn anhawdd cadw pethau fel hyn yn ddystaw, fel y gwyddoch; maent yn myned allan rhwng eich dwylaw rhyw fodd, ac nid oes dim gwell i'w wneyd, am a wyddom ni, o dan y fath amgylchiadau na gadael iddi, fel y dywedir; oblegyd nis gwnawn y peth yn well wrth beidio gadael iddi; o ganlyniad, y mae yn well ac yn llai trafferthus i *adael iddi.* Aeth y swn allan, beth bynag, ac y mae clustiau y tafarnwyr yn derbyn ychydig o hono; ac, y mae yn debygol, yn cael peth braw wrth feddwl nad oedd yn anmhosibl i'r holl grefyddwyr fyned yn ddirwestwyr. Pe dygwyddai pethau felly, yr oedd yn anhawdd i un dyn call, bydded yn dafarnwr neu ryw beth arall, lai na gweled y byddai hyny yn debyg o effeithio i raddau ar "obaith yr elw."

Ryw ddiwrnod y mae tafarnwr cyfrifol yn danfon am yr arwr George, gyda'r dyben yn ddiau o'i rwydo, rhag ofn effeithiau annymunol ar y fasnach. Aeth yntau, heb wybod beth oedd y neges; y mae yn ddigon tebyg fod ein gwron wedi gobeithio ei fod yn myned i gymeryd mesur troed yr *innkeeper* am bâr o fotasau. Erbyn myned yno, dyma y croesaw mwyaf yn y byd; yr oedd pob peth i'w gael heb arian ac heb werth, yn rhodd ac yn rhad. Yr oedd yn cynyg *gin*, *rum*, *brandy*, cwrw, *porter*, a phob peth o'r natur—rhy faith eu henwi—heb ddim i dalu, ac yfed cymaint a ewyllysid. Ac nid ei gynyg yn y cwpbwrdd, fel y dywedir; ond dyfod ag ef i ben y ford. Y mae yn ddigon tebyg fod gwr y tŷ, yr hwn a adwaenai George yn burion, wedi meddwl fod yn anmhosibl iddo wrthsefyll y demtasiwn danllyd hon. Ond efe a gamsyniodd o ddigon, ac y mae yn ddigon tebyg y bydd yn dda genych glywed hyny. "Mi a aethum," eb efe, "â'r plentyn gyda mi tuag yno, yr hwn pan welodd y ddarbodaeth ar y ford, a ymaflodd yn fy ngwddf, ac a lefodd nerth ei geg, 'O gochel, y mae yna ryw beryglon mawrion!' Yr oedd yn troi ymaith; nid edrychasai er dim ar yr *Holland Gin*, y *French Brandy*, y *Dublin Porter*, na'r *Home brewed Ale* ychwaith. Y mae'r plentyn yn myned i wylo yn chwerwach; y mae yn llefain fel pe byddai y gyllell yn ei galon; yn ymaflyd yn fy ngwddf, ac yn dymuno arnaf ddyfod allan yn union; fod nid yn unig eu hyfed, eithr fod hyd yn oed eu harogli yn angeuol iddo ef. 'Deuwch allan, George Heycock,' meddai, 'onide yr wyf yn mogi, canys nis gallaf gael un anadliad yn nghanol yr ysbrydion drwg hyn.' Edrychodd y tafarnwr yn sarug wrth glywed y llais newydd hwn, a gofynodd yn sarug, 'Beth yw hwna sydd genyt, fachgen? Beth wyt yn cario bwystfil fel yna yn dy fynwes?' Rhwng edrychiad sarug y tafarnwr ac awyr afiachus y lle, yr oedd ysgrechfeydd y

plentyn yn cynyddu, a'i ddymuniad am awyr agored a naturiol yn cryfhau. Ebe'r tafarnwr yn sarug, 'Os na ddeui di yma heb yr ysgerbwd plentyn yna sydd genyt, aros gartref; dyna ddiwedd ar hyny.' 'Ah, Mr ——,' ebe minau, 'yr wyf wedi penderfynu nad af byth i un man bellach ond lle y caf gyflawn roesaw i'r plentyn hefyd. Eithr cofiwch, syr, nid yw y plentyn hwn yn gallu yfed gwirod, gwin, na diod gadarn, canys Nazaread yw o groth ei fam; ac os na fydd yn ngwlad y dwfr, y llaeth, a'r awyr iachus, y mae yn methu anadlu; a pha ryfedd ei fod yn gwaeddi pan y bydd bywyd yn chwareu? Chwi waeddech eich hunan, syr, a bod yn siwr i chwi, pe bai eich bywyd mewn perygl. Gwlad yn llifeirio o laeth a mel yw ei wlad enedigol ef, syr; ac nid yw yn iach byth, oddieithr iddo gael anadlu awyr cartref. Y mae yn poeni i farwolaeth os arogla frâg neu hopys, ac yn llesmeirio yn union o fewn can llath i arogl *gin*, *brandy*, *rum*, a'r holl ysbrydion aflan eraill. Ac am seleri a darllawdai, gyda'u harogl anhyfryd, ar ol pob *slip slop*, nis gall fodoli yn agos iddynt o gwbl.'"

Gan gymaint y cyfnewidiad oedd yn ymddangos yn ymarweddiad ein harwr, daeth yn fuan i sylw parchus yn mhlith mawrion y gymydogaeth, ac etholwyd ef yn heddgeidwad; ac nid bychan oedd ei ddylanwad yn y swydd gyfrifol hon. Yr oedd fel brenin mewn llys yn mysg rhyw fân gwnstebli. Y gofod a ballai i ni fyned dros ei holl orchestion pan yn gweinyddu y swydd hon o dan y llywodraeth; eto gellwch feddwl yn hawdd ei fod yn hyn, fel pob peth arall, yn dangos talent a medrusrwydd yn mhell y tu hwnt i'r cyffredin. Yr ydym yn cofio ei glywed yn adrodd am ryw ddyn wedi gwneyd *cwrw bach*, fel ei gelwid; neu fel y mae rhai gwledydd yn dyweyd, *cwrw gwawdd*. Nis gwyddom yn iawn cwrw beth y maent hwy yn y Gogledd yn dewis ei alw; beth bynag, dyna ydyw, rhyw un yn darllaw brwd o ddiod yn ei dŷ, ac yn ei werthu heb drwydded. Yr oedd llawer o hyn yn myned yn y blaen yn y dyddiau hyny. Byddai yr arferiad hwn nid yn unig yn ysbeilio y llywodraeth, eithr hefyd yn go ddinystriol i foesau y wlad; canys byddai fwy o rialtwch y rhan fynychaf mewn cysylltiad â chwrw bach nag ag un cwrw arall. Bu cryn gynaliaeth, y mae yn debyg, yn nglŷn â'r cwrw bach hwn hefyd, hyd nes i'r hanes ddyfod i glustiau un o'r ynadon ag oedd yn byw gerllaw i'r gymydogaeth. Hwn, wedi clywed, a gymerodd ei geffyl, ac wedi galw yr heddgeidwaid at eu gilydd, a aeth tua thŷ y gwr. Dyma wr y tŷ yn cymeryd y traed, ac yn cilio fel hydd i'r goedwig gyfagos, a'r wraig druan yn syrthio ar ei phenliniau, yn lledu ei dwylaw, ac yn ymbil am drugaredd y waith hon yn unig, gan addaw, ond cael gollyngdod y tro hwn, beidio adnewyddu y trosedd. Yr ynad parchus a waeddai allan, "Nid oes dim trugaredd i gael; yr ydym wedi dyfod yma i weinyddu cyfiawnder, nid trugaredd. Yr ydych wedi cael digon o drugaredd er ys llawer dydd; y mae eisiau edrych bellach a all ychydig o gyfiawnder wneyd lles i chwi." Wedi chwilio y tŷ am gwrw, a chael casgen yn llawn o hono, y mae yr ynad yn gorchymyn

gymerodd trosol a tharo talcen y gasgen i mewn, yr hyn a wnaethpwyd, fel y rhedodd yr holl gwrw allan ar hyd y parth. Erbyn hyn yr oedd y cwnstebli cuwch eu syrnau mewn diod frâg. "Yr oedd y plentyn," ebe ein harwr, "gyda mi y pryd hwn; a phan welodd y cwrw yn rhedeg ar hyd y llawr, y mae yn cydio â'i ddwy fraich am fy ngwddf, ac yn dywedyd yn ddystaw yn fy nghlust, 'O fy nghyfaill George, dyma dro gogoneddus; gwelais chwi lawer gwaith o dan draed Syr John, ond dyma ef o'r diwedd o dan eich traed chwi. Buddugoliaeth! dyma goncwest o'r diwedd.' Mi deimlais fwy o gynesrwydd at y plentyn nag erioed; cofleidiais ef yn fy mreichiau, cusenais ef eilwaith ac eilwaith, ac aethum adref heb dderbyn y niwed lleiaf, er bod cuwch a fy syrnau mewn cwrw cryf. Y mae yn well bod yn y cwrw na'r cwrw ynof fi. Penderfynais wrando ar lais y plentyn o hyn allan, a gwnaethum amod i fyned ag ef yn fy mreichiau i bob man. Byddai blys ac yntau yn rhesymu yn fynych, ac yn ymrafaelio yn chwerw weithiau, eithr fy mhlentyn anwyl oedd yn cario'r dydd o hyd; byddai Mr. Blys yn gorfod cnoi ei dafod a thewi y rhan fynychaf, a'r plentyn yntau yn gorfoleddu ac yn gwaeddi, 'Diolch! y mae Syr John i lawr, a'r hen *fruiser* i'r lan.' Yn fuan wedi hyn, aethum i dipyn o daith, a'r plentyn gyda mi o hyd, deallwch; oblegyd ni chawn fyned i un man hebddo. Y tafarn cyntaf a ddaethum ato oedd *Pass by;* dyna'r arwydd oedd ar wyneb y tŷ. Yr oedd yn dygwydd bod yn ddiwrnod gwresog, a chryn syched arnaf, ac o herwydd hyny o dan gryn demtasiwn i droi i mewn i gael dracht. Meddyliais o dan y cyfryw amgylchiadau y buasai dracht o *borter*, a gadael ar hyny, yn sicr o fod o les. Yr oedd Mr. Blys yntau yn dechreu siglo ei gwt, ac yn llawenhau yn ddirfawr; yn codi ei fys, ac yn cymhell i mewn a'i holl egni. Yr oeddwn ar droi i fyned i mewn, pan yn ddisymwth y gwaeddodd y plentyn yn fy mynwes, '*Father*, cerddwch yn y blaen, y mae rhyw ddrwg yn sicr o fod i mewn; cymerwch gynghor yr arwydd sydd ar y tŷ, *Pass by*. Yn y blaen â chwi, cewch ffynon loyw heb berygl yn mhen ychydig.' Yn y blaen yr aethum, ac felly siomwyd Mr. Blys y waith hon.

"Cyn taro wrth y ffynon, dyma arwydd arall yn dyfod i'r golwg, ac arni yn ysgrifenedig mewn llythyrenau mawrion, *Welcome to town*. Wel, gallwn fyned i mewn yma, dyma le tawel a hyfryd, lle y cyfanedda ymgeleddwyr dynoliaeth, y rhai sydd yn cadw tŷ yn agored i'r unig ddyben i ymgeleddu dyeithriaid, a chroesawu y lluddedig i mewn, i weinyddu adfywiad iddynt. Wele y plentyn eto yn dechreu anesmwytho, ac yn fuan yn rhoi bloedd, 'Gochel gochel, ar dy fywyd!' 'Bachgen!' meddwn wrtho, pa beth sydd arnat? beth yn y byd yr wyt yn ofni? a wyt ti ddim yn gweled yr arwydd yna, *Welcome to town?* y mae y bobl hyn yn ymddangas fel â'u breichiau ar led, yn barod i dderbyn ac ymgeleddu y rhai lluddedig ar eu taith; nid oes berygl yn y byd droi i mewn yma i dori ein syched, a chael ychydig o seibiant.' 'Gochel,' ebe y plentyn o hyd, gan ymaflyd

â'i ddwy fraich yn fy ngwddf. 'George Heycock anwyl,' meddai, 'y mae llawer o bethau yn edrych yn deg oddiallan, fel bedd wedi ei wyngalchu, eithr o fewn yn llawn esgyrn y meirw.Ië, gwelsoch lawer un â gwen yn y wyneb, ac wedi y cwbl, cleddyf yn y galon. *Welcome to town*, yn wir! pe bait yn myned i mewn yn awr, a gwario punt gyfan, cei dy droedio allan fel ci y fynyd y darfyddo dy arian. Dyna y fath *welcome* sydd i gael yno. Paid a myned i mewn gan hyny, eithr tyred yn y blaen, canys y mae y ffynon loyw heb fod yn mhell iawn bellach.' Yn y blaen yr aethum; eithr cyn dyfod at y ffynon, dyma arwydd arall yn dyfod i'r golwg, ac arni yn argraffedig mewn llythyrenau ardderchog, *The Angel.* Wel, dyma'r fan i orphwys; wele ni wedi dyfod at angel o'r diwedd. Yr wyf yn meddwl bod yn nghymdeithas myrddiynau ryw ddydd, eithr cyn myned yn mhellach, mi âf i mewn i weled yr hen frawd hwn wrth fyned heibio. Lle hyfryd yw yn ddiau i dreulio awr neu ddwy gydag ef yn ei babell heddychol.

"Wel yn awr ni a awn i mewn i gael gweled y sant am unwaith, ac fe allai y cawn ryw genadwri rasol a chysurlawn, er ein cynorthwyo i fyned yn y blaen ar daith ein pererindod. Dyma'r plentyn yn rhoi ysgrech, ac yn gwaeddi allan, 'Paid, paid, fy nghyfaill anwyl; canys y mae angylion drwg yn gystal a rhai da yn bod; ac os drwg, drwg ofnadwy hefyd; hwy a'th lusgant i angau yn gorphorol, ac a'th losgant wed'yn. Dacw yr hen dafarnwr, edrych; y mae ei ben yn edrych trwy y ffenestr, ac yn ymddangos fel pe bai rhyw ellyll wedi ei lusgo nes y mae yn haner hurt, ac wedi llosgi ei drwyn megys â phocer coch; y diwedd fydd, hwy losgant yr holl gorph yn fuan yn ulw, a thyna derfyn arno. Tyred yn y blaen eto, Heycock, canys angylion dieflig sydd yma; hen ysbrydion moch y Gadareniaid; unwaith y gollyngir hwynt i mewn i greadur, y maent yn ei wneyd yn ffrochwyllt, heb na synwyr na rheswm, ac yn ei yru yn gynddeiriog dros y dipyn i ganol y rhyferthwy berwedig.' 'Wel, rhag ofn syrthio i blith ysbrydion drwg, mi gymeraf dy gynghor eto y tro hwn, a myned yn y blaen goreu y gallaf.' Wedi teithio ychydig, daethom i groesffordd, ar yr hon yr oedd tŷ mawr, ac ar ei dalcen lun cadnaw yn rhedeg o flaen chwech neu saith o gŵn hela, yn ymestyn ei oreu; ac o danynt yn ysgrifenedig, *The Fox and Hounds.* Sefais a dychrynais. Er hyn oll, yr oedd y syched wedi cynyddu gymaint, hyd nes yr oedd bron yn annyoddefol; a Mr. Blys hefyd yn cymhell i mewn â'i holl egni, nes yr oeddwn bron wedi dyfod i'r penderfyniad i droi i mewn, er yr holl beryglon ymddangosiadol. Eithr y mae y plentyn yn dychrynu, ac yn gwaeddi fwy nag erioed, 'Fy nhad! fy nhad! gochelwch, cerddwch heibio mor gynted byth ag y medroch, canys y mae peryglon ofnadwy yma. Edrychwch! O arswyd! y cŵn, y cadnaw! pa beth wyt ti yn mhlith y creaduriaid ysglyfaethus yna? tydi, Heycock bach; ddim ond tipyn o *geiliog y gwair* yn mhlith y cŵn a'r llwynogod; ah! hwy a'th larpiant mewn

moment. Edrych, dacw Mr. Fox. O'r filain! y mae wedi lladd yr holl ieir a cheiliogod o gwmpas y wlad; ïe, y gwyddau, a'r cwningod hefyd; ac y mae wedi gollwng gwaed ŵyn diniwed wrth y canoedd; a pheth yw ceiliog y gwair—y *grasshopper*—bach rhwng danedd y fath fwystfilod rheibus? Tyred yn y blaen ychydig i'r cae glas acw sydd yn awr yn dyfod i'r golwg y tu hwnt i dro yr heol; y mae ffynon loyw yno, lle y cei dori dy syched mewn llonyddwch perffaith, heb na braw na pherygl. Ië, cei yfed, a neidio o laswelltyn i laswelltyn, a chanu ambell dôn yn dy drefn dy hun; cei fod yn frenin ardderchog a grymus yn mysg y glaswellt; ac fe gaiff y blodau peraidd fod yn orseddau i ti eistedd arnynt, fel y byddi yn fwy ardderchog na Solomon yn ei holl ogoniant. Ha! mor beraidd y byddi yn canu ar dy sedd, ac yn ysgwyd dy wialen yn yr awyr lâs, gan ddywedyd—

"I am monarch of all I survey,
My right there is none to dispute;
From the centre all round to the sea,
I am lord of the fowls and the brute."

Rhyfeddol byth, mor aml y mae y tafarndai yn y wlad hon! Cyn dyfod at y cae, yr hwn oedd yn awr yn y golwg, dyma dŷ llwyd o'n blaen, ac arno yn ysgrifenedig, *The Trap*. Trap llygod ydoedd, oblegyd yr oedd dau neu dri o lygod ynddo; ond ebe'r plentyn, 'Er mai llygod sydd ynddo, y mae hwna yn ddigon cryf i ddal llewod ac elephantiaid, chwaithach tipyn o geiliog y rhedyn bach fel tydi. Yn y trap yna y daliwyd Noah a Lot, ïe, a chanoedd a miloedd o'r cewri cryfaf; ac y mae y rhan fwyaf o lawer o honynt wedi marw ynddo. Tyred yn y blaen, y ceiliog bach, a chei lamu o laswelltyn i laswelltyn, yn dy elfen iachus dy hun; a thi fydd y brenin yn mhlith y glaswellt; a chei deyrnasu arnynt oll, o'r brig i'r bôn.'"

Fel hyn yr oedd ein harwr yn myned yn y blaen, dan fagu y plentyn, nes yn fuan yr ymgryfhaodd, a daeth yn ddyn galluog, yn gallu cario ei noddwr George yn ddyogel trwy holl beryglon bywyd. Ymgryfhaodd y plentyn o ddydd i ddydd, a daeth ceiliog y rhedyn i ganu yn beraidd, nes yr oedd porfeydd yr anialwch yn adloni, a'r holl goedydd cyfagos yn curo eu dwylaw. Nid rhaid dywedyd, debygem, iddo fod yn ddirwestwr pur ar ol hyn—yn Nazaread glân gloyw, heb gyffwrdd â gwin na diod gadarn, oddieithr, deallwch, ychydig yn feddyginiaethol, fel y dywed yr ardystiad. Nid hir iawn, fel y mae naturiol i feddwl, y bu cyn ymddangos yn gyhoeddus o flaen y byd yn y cymeriad o areithiwr dirwestol. Yr oedd hyn yn beth i'w ddysgwyl; oblegyd yr oedd yn anmhosibl i ddyn o'i hynodrwydd ef lai na bod yn amlwg yn mhob man y byddai, a chyda phob peth y gosodai ei law arno. Y mae yn wir fod llawer yn areithio na feddyliodd neb erioed ond hwy eu hunain fod ynddynt gymhwysderau at y fath orchwyl, a llawer eraill yn areithwyr cymedrol yn dyweyd tipyn

yn burion, ac fe allai yn llesol; eithr y mae ein harwr yn rhyw un nad ydyw yn troi mewn dosbarthiadau felly. Nid *stump orator* oedd efe; eithr un yn tori llwybr newydd iddo ei hun; yn wreiddiol ei syniadau, ac fel efe ei hun mewn doniau; o ganlyniad yn wrthddrych sylw yn mhob man. Yr ydym yn meddwl y gellir ei alw bellach yn areithiwr cadeiriol, canys byddai yn gyffredin yn cael ei ethol yn y cyfarfodydd yn gadeirydd; a llanwai y gadair gyda y peth mwyaf urddasol a welsoch erioed. Nid pawb o'r rhai sydd yn areithwyr, ac yn areithwyr gweddol dda hefyd, a ddyrchefir i'r gadair; ac os dygwyddai hyny weithiau mewn angen i ambell un, yr oedd fel ymweliad angel, "*few and far between.*" Eithr yr oedd llwybr y gadair fel yn agored o'i flaen ef; ac fel pe buasai natur yn estyn ei bys ato, ac yn dyweyd wrth y gynulleidfa, 'Dyma eich brenin, etholwch ef, canys eneiniais ef â'm holew santaidd. Yr wyf wedi gwario mwy o ddoniau arno na dynion yn gyffredin.' Pwy all wrthsefyll natur? A pha beth dâl cablu natur o herwydd iddi wneyd un llestr i barch ac arall i anmharch? gwneyd un at wasanaeth uwch, ac arall at wasanaeth îs? Peidied y troed a chenfigenu am nad ydyw lygad, eithr gweithied pob un yn y lle y trefnwyd iddo gan natur. Ond yr oeddym yn dyweyd fod y brawd George nid yn unig yn areithiwr, eithr hefyd yn *areithiwr cadeiriol;* ac y mae yn fwy na thebyg y gwnaem annghyfiawnder ag ef heb ddywedyd ei fod nid yn unig yn gadeirydd rhagorol, eithr yn anrhydedd hyd yn oed i'r gadair yr ydoedd yn eistedd arni. Y mae llawer, fel y gŵyr pawb, wedi dygwydd eistedd yn y gadair ar rai achlysuron, yn teimlo eu hunain byth wed'yn yn bur anrhydeddus o herwydd y dygwyddiad hwnw, gan ystyried y gadair yn anrhydedd i'w personau rhagllaw. Eithr pe gwelsech ein harwr yn y gadair, nis gallasech lai na meddwl ar unwaith fod hyd yn oed y gadair ei hun yn falch o'i sefyllfa; oblegyd yr oedd y cadeirydd anrhydeddus fel yn codi y gadair i fri ac anrhydedd. Yr ydym yn cofio eistedd mewn cadair mewn tŷ gweddol gyffredin, ac nid oedd y gadair ychwaith yn ryw annghyffredin yn y byd, oddieithr ei bod yn ymddangos yn dra henafiaethol; ond cododd i ryw fri rhyfeddol ar unwaith yn ein meddyliau pan y dywedwyd wrthym, "Fe eisteddodd Peter Williams, Charles o'r Bala, ac Evans Llwynffortun, ugeiniau o weithiau yn y gadair yna." Gan fod y cyfryw ddynion anrhydeddus wedi bod yn eistedd ynddi, yr oeddem yn teimlo fel pe buasai eistedd arni yn ormod o anrhydedd i ni.

Wel, pan eisteddai y gwron George yn y gadair yn un o'r cyfarfodydd, gallwn ddyweyd yn ddibetrus ei bod yn eithaf llawn, ac nad oedd lle i neb arall ynddi. Gallasech feddwl unwaith yr eisteddai efe, fod y gadair yn gwaeddi allan yn ei hiaith, "Digon bellach!" Yn awr, wedi eistedd i lawr yn y gadair, yr oedd ger eich bron berson go lawn, yn hytrach yn dew; yn hardd a lluniaidd; oblegyd wedi eistedd, yr oedd y goes, yr aelod anhardd, megys yn cael ei chuddio o'r golwg. Edrychwch, y mae wedi eistedd; dyna *fodel*

o foneddigeiddrwydd a graslondeb; pob awgrym o'i eiddo sydd yn gorchymyn parch oddiwrth y gwyddfodolion, oddieithr, fe allai, ryw ychydig ag oedd wedi cael eu harwain i feddwl mai hwynthwy a ddylasai fod yn ei le. Edrychwch unwaith eto i gyfeiriad y gadair; y mae yn anhawdd peidio edrych; dacw gorph gymaint ag sydd yn y golwg yn awr yn nesaf peth at berffeithrwydd; mewn difrif y mae yn dra lluniaidd. Y mae yr ysgwyddau yn llydain, a gwddf o hyd cymedrol, y pen yn fawr, y talcen yn llydan ac yn uchel, fel y mae yn anhawdd gwybod pa fai y gallai y *phrenologist* mwyaf craffus ganfod ynddo. Wele hefyd yn y pen acw ddau lygad mawr, yn dysgleirio fel gwydr gloyw, ac yn arwyddo craffder, gwybodaeth, a llon'd calon o garedigrwydd a natur dda. Yr ydym yn meddwl y cytuna ein darllenwyr â ni mewn meddwl, mai dyma y fath a ddylai fod mewn cadair, ac nid rhyw greadur y byddai y gynulleidfa mewn profedigaeth i'w daflu yn bendramwnwgl i'r llawr. Fod ein harwr o syniadau gwreiddiol, ac yn areithwr hyawdl a thalentog, yr ydym ni ein hunain yn dystion, os caniateir hefyd ein bod yn deilwng i roddi barn; y mae hyny yn bwnc y dylid ei ystyried hefyd. Yr ydym yn cofio mai wrth ei glywed yn areithio y cawsom ni yr adnabyddiaeth gyntaf o hono, ac y tynwyd ein sylw i'r fath raddau fel ag i wneuthur ymholiad pwy a pheth ydoedd. Yr oedd llawer yno y noson hono yn areithio, eithr nid ydym yn cofio yn awr pwy oeddynt, na pha beth a ddywedasant; er y mae yn ddigon tebyg eu bod yn dyweyd yn dda iawn. Eithr yr ydym y fynyd hon fel pe baem yn gweled arwr y llyfryn hwn o flaen ein llygaid, ac yn cofio yn burion lawer iawn o'i eiriau. Y mae peth felly, debygem ni, yn dyweyd llawer iawn; canys paham y bydd rhyw ddyn yn mysg deg neu ragor o areithwyr yn tynu sylw gwr dyeithr yn fwy na phawb, heb fod rhyw beth ynddo yn wahanol i bawb? Dyna y tro cyntaf y gwelsom ef, ac oddiar hyny fyth y cadwasom ein hadnabyddiaeth o hono. Cododd i fyny yn bur sydyn ar ganol llawr y capel, a chyn iddo ddyweyd un gair, canfyddem ryw beth ynddo yn wahanol i neb oedd o fewn y lle. Sylwasom hefyd nad oedd gogyhyd ei esgeiriau; a chanfyddem ef fel yn gosod ei lawffon gyda gofal mwy na chyffredin er cynorthwyo ei wendid, ac ymddangosai fel yn pwyso ei gwman ar ei chlop. Yna, wedi amneidio yn brydferth â'i law, yn ol ei arferiad cyffredin, fel y deallasom wedi hyny, efe a ddechreuodd lefaru. Hawyr, y fath beth rhyfedd! yr oedd pob gair fel yn gwefru y bobl, er fod pawb eraill, er gwneyd eu goreu, yn methu gwneyd nemawr. Byddai yn afresymol dysgwyl, mewn gwaith o'r natur hyn, am yr araeth yn gyflawn; byddai yn well cyhoeddi yr areithiau ar eu penau eu hunain yn llyfr; yr unig beth ag sydd yn bosibl i ni yma wneyd yw, adrodd ychydig eiriau o'r diwedd, pan yr oedd yn dyfod â'i resymeg i glo a therfyniad. Yr oedd llawer o'r araeth, yr ydym yn cofio, yn myned i egluro fod yr arferiad o ddiodydd yn cynyrchu blys, a'r blys hwnw, wedi unwaith ei cynyrchid, yn anniwalledig; ac felly yr oedd y dyn

mewn poen, yn fwy oddiwrth ei fagwraeth ei hun, na dim arall ag sydd yn y byd.

Fe ddaeth y *tobacco* yn gystal a'r cwrw a'r gwirod o dan ei ddyrnod fel un o bethau blys, ac nid natur; ac er pob parch i'r myglys, nid allem lai ar y pryd na theimlo cywilydd fod yr un berthynas rhyngom ni ag ef. Mewn difrif, pan ydoedd o dan ddyrnodion dihafarch y *bruiser*, yr oeddem yn teimlo awydd cryf i wadu nad oedd yn dal yr un berthynas â'n teulu ni. "Y mae pethau yn dyfod yn flys," eb efe, "trwy arferiad cyson o honynt, er eu bod yn wreiddiol yn hollol groes i'r archwaeth naturiol. Y mae hi yn cael ei threisio yn gyntaf, ac wedi y darostyngir hi y mae yn gaethes i'r arferiadau. Wedi i chwi gynyrchu blys yn y natur, y mae deddfau anian yn gwanychu, blys yn cryfhau fwyfwy, nes yn fuan y gwelwch y creadur yn rhyw anghenfil, heb fod yn ddyn nac yn gythraul perffaith, eithr yn rhyw beth rhwng y ddau. Y mae y natur ddynol wedi ei gŵyrdroi o'i ffordd ei hun, ac yn cael ei llusgo fel ci wrth y cordyn, trwy holl byllau bryntion blys. Er hyn oll, y mae natur, er yn analluog i sefyll o flaen blys, yn gwrthdystio yn erbyn y cam a'r annghyfiawnder y mae hi yn ei ddyoddef. Pan y mae blys yn cymeryd y cwrw i mewn, chwart ar ol chwart, y mae natur egwan yn gwrthdystio yn erbyn y trais, trwy ei daflu allan, er mewn poen dirfawr; er nad all orchfygu, eto y mae fel y gorthrymedig yn gwaeddi. Edrychwch ar flys yn ei arllwys i mewn nes gorlwytho natur, a hithau yn ol y nerth ag sydd ynddi yn ei chwydu allan. Chwi welwch fod meddwi a chwydu yn cael eu cysylltu yn aml yn yr ysgrythyrau; a phe na bai yr ysgrythyrau yn dyweyd dim ar y mater, ni a wyddom mai felly y mae. Y mae treisio natur yn peri iddi chwydu, fel plentyn yn llefain pan y mae yn cael ei guro. 'Cyfeiliornasant trwy win, ac amryfusasant trwy ddiod gadarn: yr offeiriad a'r prophwyd a gyfeiliornasant trwy ddiod gadarn, amryfusasant mewn gweledigaeth, tramgwyddasant mewn barn. Canys y byrddau oll sydd llawn chwydfa a budreddi, heb le glân. Yfwch, meddwch, a chwydwch, a syrthiwch, ac na chyfodwch.' Dyna hi, fechgyn, i'r dim; dyna yr agwedd y buom ninau lawer gwaith wrth ddylyn diod gadarn, yr hen freci ddrewllyd. Fel y mae yr ysgrythyrau yn dyweyd y buom ninau o herwydd yr arferiad llygredig o yfed i ormodedd, yn chwydu, yn syrthio, ac yn ymdreiglo mewn tom a llaid, yn warth i ddynoliaeth, ac yn wawd i gythreuliaid. O am nerth i ddial am ein dau lygad, trwy roi ein hysgwyddau o dan golofnau hen deml diafol, ac i lawr â hi yn ganddryll!" Pe buasech yno, a gweled Heycock wedi ei weithio i fyny i'r teimlad eithaf, a'i weled yn plygu ei ysgwyddau, fel pe buasai yn myned i'w gosod o dan y colofnau ar y pryd; a'i glywed ef yn rhoi bloedd yn ngwres y cynhyrfiadau, I lawr â hi yn ganddryll! buasech yn meddwl yn ddiau fod holl deyrnas y tywyllwch yn rhoi i ffordd, ac fel yn clywed ar eich clustiau gynhwrf aruthrol, fel pe buasai maen melin yn syrthio i eigion y môr. Buasai blew eich

cnawd yn sefyll o dan yr effeithiau, fel pe buasai ysbryd wedi myned heibio o flaen eich llygaid.

Yr oeddem yn meddwl erbyn hyn ein bod wedi cael digon, a bod yr areithiwr campus wedi dybenu ei araeth; eithr gwelem ef, wedi i'r cynhwrf ostegu ychydig, yn taflu ei law, fel yn amneidio am osteg, ac yn dywedyd, "A pheth arall, trais hefyd ar natur yw yr ysmocio yma. Edrychwch chwi bob amser ar gloriau y *boxes tobacco*, os bydd lluniau arnynt o gwbl, dygwydd nad llun chwart o gwrw fydd, a'r pibellau yn groes i'w gilydd wrth ei ochr. Y mae yr ysmocio a'r yfed yn dylwyth o'r un gymydogaeth; y maent yn byw yn agos at eu gilydd ac yn lled gyfrinachol; ïe, y mae y naill yn cadw cwmpeini i'w gilydd ar hyd tir diffaeth y gelyn diafol. Ar yr un pryd, cofiwch, nid wyf yn dywedyd fod ysmocio ychydig yn ddrwg moesol, nid yw yn ddrwg cynddrwg a meddwi. Y mae yn briodol gosod gwahaniaeth rhwng drwg a drwg; er hyny, pe gellid, goreu fyddai taflu y cwbl gyda'u gilydd y tu ol i'n cefnau ar unwaith. Y mae natur yn gwaeddi allan—mewn iaith gref hefyd—na fyn hi ddim o'r mwg, eithr y mae blys yn ei threisio ac yn ei darostwng, fel y mae hi yn gorfod cymeryd ychydig o hono. Edrychwch, y mae hi yn *protestio* yn ei erbyn; y mae hi yn ei wrthod, yn ei daflu allan, ac yn cau y drws ar ei ol. Er enghraifft, dacw William yn y cornel yn ysmocio er ys haner awr; eisteddwch gyferbyn ag ef a gwnewch sylw, a chewch weled ar unwaith fel y mae blys a natur yn rhyfela â'u gilydd. Dacw William yn rhoi y bibell yn y tân—gwnewch sylw yn awr—dacw ef yn rhoi ei choes yn ei enau, a thacw flys yn dechreu ar y gorchwyl o sugno y mwg i mewn gyda'i holl nerth; gwnewch sylw o hyd; cedwch eich llygaid yn agored ac yn sefydlog ar William. Edrychwch, er ei fod yn tynu ei oreu, y mae rhyw beth yn ei yru allan gyda mwy o nerth, ïe, yn ei yru allan yn gynt o lawer nag yr aeth i mewn. Beth sydd yna yn atal y mwg yr hwn sydd yn cael ei dynu mor felus i mewn? Beth sydd yn ei rwystro rhag cael rhyddrediad i'r cyfansoddiad? Natur sydd yn codi ei byddinoedd, ac yn rhuthro i'r porth yn erbyn y gelyn, gan ei yru ar encil, fel y mae byddinoedd yr estroniaid yn gorfod cilio." Gyda hyn yr oedd yr effeithiau y fath fel y mae yn haws i chwi ddirnad nag yw desgrifio; canys yr oedd yr holl bobl yn fywyd, a'r holl le yn adsain, "Clywch, clywch."

Ar hyn o bryd, yr ydym yn meddwl mai y peth goreu yw peidio myned yn mhellach, rhag rhoi gormod ar eich amynedd.

## PENOD V.

GADAWSOM ein harwr yn nghanol ei lafur a'i areithiau dirwestol, ac yn tori rhyw ffigwr rhyfeddol o flaen y byd fel cadeirydd yn mhrif gyfarfodydd yr undeb. Yr ydym ni yn foddlawn, o lwyrfryd calon, i'n harwr gael y clod sydd yn ddyledus iddo mewn cysylltiad â'r gorchwylion hyn; ac yr ydym yn methu deall pa eisiau grwgnach sydd ar un dyn byw oblegyd hyny. Ar yr un pryd, yr ydym yn deall nad yw pawb oll ddim yn ddigon boddlawn iddo fod yn fwy na hwynt-hwy, a chael ei gydnabod yn ddyn â rhyw beth ynddo y tu hwnt i bawb eraill, neu yn hytrach y tu hwnt i *rai* eraill, o'i gydareithwyr. Y mae yn debygol, tra y byddo y byd yma yn ddrwg, fod yn anhawdd, os nid yn anmhosibl, cael teimlad o'r natur hyn allan o hono yn llwyr. Os bydd rhyw barch a chlod mewn cysylltiad ag unrhyw beth, y mae y bobl yn barod i frwydr am dano yn union, fel pe bai bob un am ei gadw yn llwyr rhag ei gymydog, a chymeryd y cwbl yn llwyr iddo ei hun. Ond gan mai byd fel yma ydyw, nid oes dim i wneyd, ar a wyddom ni, ond ceisio gwneyd y goreu o hono fel y mae, gan obeithio y bydd iddo wella yn fuan. Chwi welwch yn aml pan bydd rhyw beth mewn dyn yn wahanol i'r cyffredin, fod lluaws yn ymgodi yn ei erbyn, yn ceisio ei siarad i lawr, a'i lwyr yspeilio o'i ogoniant; eithr os na fydd dim ynddo ag sydd yn fwy na dynion yn gyffredin, y mae yn cael llonydd i fyw neu i farw, goreu y gallo; oblegyd y mae yn ddigon o'r golwg, am hyny nid yw yn poeni neb. Pe na fuasai dim yn ein harwr yn wahanol i ddynion yn gyffredin, y mae yn fwy na thebyg na fuasai cymaint o drafferth yn cael ei gymeryd i ddyweyd, "Nid ydym ni yn gweled dim ynddo; y mae llawer o fechgyn yn dal perthynas â'r gymdeithas hon yn mhob ystyr y tu hwnt iddo ef." Wel, os oes, pa eisiau dadleu hyny sydd nos a dydd? gadewch i hyny fod, a byddwch yn dawel a serchog. Cymerwch y clod i gyd i chwi eich hunain, o'n plegyd ni; ond cofiwch fod yn anmhosibl i chwi ei gael yn wirioneddol heb i ryw un ei roi heblaw chwi eich hunain. Y mae llawer un yn gweled ei hun yn deilwng o barch dauddyblyg, a'r werin, hwythau, yn methu gweled ei fod yn deilwng o barch o gwbl; felly y mae yn myned yn ffrae; y mae y dyn yn digio wrth bawb ond efe ei hun, ac yn trin pawb yn gas ac anmharchus, dan ganmawl ei hun wrth fyned yn y blaen. Wel, os felly y mae ambell un yn meddwl yw y llwybr goreu, nid ydym ni o'r cyfryw ag sydd yn teimlo dim oblegyd hyny, ond yn unig tosturi tuag at bersonau mor anffortunus. Yn awr, pe baem yn caniatau nad oes dim yn ein gwron ag sydd yn wahanol i ddynion yn gyffredin yn yr un ardal ag ef, neu nad yw yn gymeriad gwahanol i'r rhan fwyaf o ddynion, byddai amryw o bethau eilwaith yn codi i fyny ac yn ein cyfarfod yn eofn, gan edrych yn ein gwynebau, ac yn peri i ni gywilyddio.

Edrychwch arni fel hyn: dacw yn nhref Caerdydd wyl fawr, enwog, a phoblogaidd annghyffredin, yr areithwyr goreu a

mwyaf dawnus yn yr holl wlad wedi eu gwahodd, megys Davies, Abertawy; Griffiths, Alltwen—bobl anwyl! byddai yn rhy faith o'r haner eu henwi, gan gymaint; canys yr oedd y rhan fwyaf o enwogion y Dalaeth wedi ymgynull i'r wyl hon, yn wŷr lleÿg, ac yn wŷr llen. Aeth y gymdeithas y perthynai ein harwr yno hefyd, ac yntau gyda hwy wrth gwrs, fel pencadben y llu. Efe oedd y pencadben hefyd, ac yn cael ei gydnabod felly gan bawb, oddieithr ychydig ag oedd am fod yn bencadbeniaid eu hunain. Nid ydym mewn modd yn y byd, deallwch, am i chwi feddwl mai rhyw sothach oedd aelodau y gymdeithas hon; yr oedd yn perthyn iddi ddynion anrhydeddus a pharchus mewn byd ac eglwys, a rhai o honynt yn cael eu hystyried yn areithwyr *campus*. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn gyfoethocach na'n harwr, yn well eu gwisgoedd, ac o ran pob peth *allanol* yn anrhydeddusach nag ef mewn tref a gwlad.

Edrychwch yn awr ar ein harwr; dacw ef yn myned i mewn i dref Caerdydd yn mhlith lluaws eraill, ond yn y fynyd y mae yn dyfod yn wrthddrych sylw; y mae agos bawb yn adnabod Mr. Heycock; hwn wedi ei weled yn y fan a'r fan yn gadeirydd, a'r llall wedi ei glywed mewn lle arall yn areithio; fel yr oedd Mr. Heycock yn cael ei gyfarch gyda pharch drwy yr holl heolydd. Yr oedd hyd yn oed yr areithwyr campus ag oedd wedi dyfod i'r ŵyl, pan y gwnaeth ef ei ymddangosiad yn eu gwydd, yn codi am y cyntaf i'w lon-gyfarch ar ei ddyfodiad i'w plith. Estynent eu dwylaw am y cyntaf at Mr. Heycock, a phob un yn dyweyd mor dda oedd ganddo weled Mr. Heycock. Bobl anwyl! ni chlywsoch erioed y fath beth; Mr. Heycock oedd hi bob gair. Wel, y cyfarfod i areithio a ddaeth, a thyna'r werin yn pentyru at eu gilydd, nes oedd cynulleidfa afrifed yn union yno, a chyfarchwyd hwy yn ddoniol gan y Parchedg hwn a'r Parchedig arall; eithr cyn y diwedd, cododd y cadeirydd anrhydeddus i fyny, a dywedodd, "Yr ydym yn galw yn nesaf ar Mr. Heycock, Taibach, i gyfarch y cyfarfod." Bonllefau o gymeradwyaeth! Gwarchod pawb! beth sydd ar y bobl? Y mae ein harwr yn codi, yn hytrach yn araf, yn symud gyda chryn ddeheurwydd yn y blaen i *front* y *stage*, yn gosod y ffon gyferbyn a'r goes wan, ac yn sefyll mor syth a pholyn. Y mae rhyw beth yn hwna, chwi gewch weled, meddai y bobl; y mae rhyw beth ar ei ben ei hun ynddo, meddant; y mae yn wahanol ei olwg i'r rhan fwyaf. Ond dyna, amser sydd i brofi pob peth; aroswch dipyn bach, peidiwch byth a bwyta ffrwyth anaddfed. Y mae efe yn dyfod yn araf tua'r *front*, fel y dywedasom; nid yn gyflym ac ystwyth, fel llawer, canys yr oedd y goes wan, fel yr ydych yn cofio, yn peri fod symudiad cyflym y peth nesaf i anmhosibl. Eto y mae yn dyfod yn y blaen serch hyny, ac er fod ychydig o gloffni arno, er hyny y mae rhyw beth yn fwy grasol yn ei symudiadau nag y gallech feddwl. Dacw ef yn awr wedi cyrhaedd y man priodol; y mae yn sefyll ar yr areithle, y mae yn gyflawn o flaen y gynulleidfa, y maent yn sefyll wyneb yn wyneb. Wedi iddo

besychu unwaith, a charthu ei wddf deirgwaith, y mae yn dechreu ymadroddi. Yr oedd ei olwg wedi tynu sylw eisoes, eithr mor gynted ag y dechreuodd agor ei enau, gwelech lawer fel pe baent yn agor eu geneuau hefyd. Y mae yn anhawdd gwybod beth oedd hyn, os nad oeddent yn meddwl y gallasent yfed y genadwri yn fwy effeithiol felly.

Y mae hyn yn dwyn i'n cof yn awr am un peth y clywsom ein harwr yn ei adrodd pan yn nghanol ei argyhoeddiad. Yr oedd yn methu cael boddlonrwydd ei fod yn derbyn dim gan yr Arglwydd, ac yn clywed y cyfeillion yn dyweyd o hyd fod yn rhaid derbyn gras cyn y gallesid byth fod yn gadwedig. Yr oedd ei awydd yntau yn angerddol am dderbyn bendithion y nefoedd, eithr yn methu deall yn iawn pa fodd yr oedd pobl yn derbyn pethau o'r wlad well. Aeth i ben hwnt y capel, ac eisteddodd wrtho ei hun, mewn *society;* a phan yr oedd Thomas Robert a William Rees, yn nghyda'r cyfeillion eraill, yn siarad, yr oedd yn troi ei ben tua'r mur ac yn agor ei enau, i'r dyben o yfed y gras pan y byddent hwy yn siarad am dano. "Yr wyf fi wedi meddwl ganwaith wed'yn am fy nhywyllwch," meddai; "bydd yn anhawdd genych gredu y peth yr wyf yn myned i'w ddyweyd wrthych, ond y mae can wired a'r efengyl. Yr oeddwn yn eistedd ar hen gist yn mhen hwnt y capel un nos *society*, y pryd yr oedd Thomas Robert yn dyweyd am y ddaear yn 'yfed y gwlaw oedd yn mynych ddyfod arni,' ac am yr 'athrawiaeth yn dyferu fel gwlaw.' Yn wir, yr oeddwn yn eithaf difrifol yn agor fy ngenau ac yn estyn fy nhafod allan, i'r dyben o geisio dal y dafnau a'u hyfed." Eithr yn awr yn Nghaerdydd y mae George yn agor ei enau, nid i dderbyn dim i mewn, ond i arllwys rhyw beth allan; a'r bobl fel pe baent yn agor eu genau i dderbyn y cwbl i mewn. "Edrychwch," meddai, "dyma Geiliog y Gwair yn myned i'ch anerch yn awr." Ah, dyna yr holl lygaid yn syllu, a'r holl glustiau yn ymwrando ar unwaith! Byddai adrodd yr araeth yn beth croes i drefn mewn gwaith o'r natur yma; ein pwrpas ni yw rhoi hanes y peth yn unig, a gadael i bawb farnu drostynt eu hunain. Yr oedd y *Great Lancaster* yno, ond nid oedd efe yn areithio, canys yr oedd yn y dref lle yr ydoedd yn cyfaneddu; am hyny, wrth gwrs, yn rhoi lle i'r bobl ddyeithr. Pe buasech yn gweled y dryll mawr hwn yn ymdreiglo fel pêl o flaen ergydion campus ein harwr, buasech yn synu yn ddiau. Wel yn siwr, ys dywed gwŷr Sir Gaer, yr oedd yn beth tra rhyfedd hefyd weled magnel o faintioli mor fawr yn treiglo fel llawddryll o flaen ergydion Ceiliog y Gwair! Beth bynag, felly yr oedd hi. Llawer, hyd yn oed o'r beirniaid, a ddywedasant i'n harwr yn yr wyl hon godi cuwch, nes myned heibio y campus, y trachampus, ïe hyd at y *gorgampus*, a thaflu y gwŷr lleyg a llen o dan gwmwl tew. Pan yr oedd efe wedi dyrchafu i fyny yn ei araethyddiaeth—yn rhyw le tua'r *gorgampus*, debygem--yr oedd yr effeithiau mor ddirfawr nes yr oedd y bobl yn synu wrth ei ddysgeidiaeth ef; ïe, yr effeithiau mor fawr nes gwefru rhyw

*coal merchant* yn y gynulleidfa, nes i hwnw redeg i geisio myned i ryw le, ac heb wybod yn y byd i ba le. Beth bynag, tarawodd y *merchant* ffwrdd yn ei frwdfrydedd, a gogyfer a siop teiliwr y dechreuodd ddyfod ato ei hun, i ystyried pa beth ydoedd o'i gwmpas. Wedi iddo ddyfod i'w synwyrau a'i iawn bwyll yn weddol—nid yn hollol—aeth i mewn at y teiliwr, a dywedodd wrtho fod yn rhaid iddo wneyd côb uchaf i'r gwr oedd yn areithio ar y *stage*. Edrychodd y teiliwr yn syn, a dywedodd fod yn rhaid iddo ddyfod â'r gwr yno i'w fesur; nad oedd dim posibl y gallasai efe wneyd côb addas i ddyn, heb ddeall ryw amcan beth oedd maint ei gorph. Yn awr y mae y marsiandwr yn dechreu gweled ei gamsynied, yn dyfod i'w synwyroldeb, ac yn gweled rheswm yn y peth ag y mae y teiliwr yn ddyweyd. Y mae y *merchant*, deallwch, yn ddyn o dalent, ond yn rhyw fodd fe ddygwyddodd hyn arno mewn moment o gynhyrfiad. Wedi rhoi ystyriaeth deg i'r mater, cyrchwyd ein harwr i siop y teiliwr, aeth o dan fesuriaeth, a gwnaed *coat* fawr *first rate*, eithaf *West of England* i'w anrhegu ef.

Aeth yr ŵyl hon heibio fel hyn, a dychwelwyd adref, ond nid cyn penderfynu cael gŵyl yn nghartref ein harwr yn fuan, ac yno ei anrhegu â'r *top coat* mewn cyfarfod cyhoeddus. Yn gymaint a bod olwynion hen amser yn troi yn lled gyflym, daeth amser yr ŵyl hon eilwaith yn frysiog i ben; a dyma yr enwogion mwyaf yn ymgynull yn nghyd, yn Fethodistiaid, yn Fedyddwyr, yn Annibynwyr, ïe, a llawer o bethau eraill y mae yn anhawdd cofio eu henwau. Traddodwyd amryw o areithiau grymus gan y gwahanol areithwyr, ac wedi hyny y mae Mr. Thomas Morgan, Caerdydd, yn dyfod yn y blaen, yn gwneyd araeth fer, gryno, ac yn dangos y *top coat* i'r gynulleidfa, yr hon oedd wedi dyfod o Gaerdydd yn anrheg i Mr. Heycock (bonllefau o gymeradwyaeth). Y mae Mr. Morgan yn galw ein harwr i'r *platform*, i dderbyn y rhodd, a chael ei wisgo ynddi. Y mae yntau yn ufuddhau yn union i'r alwad, yn camu yn y blaen yn ol ei raslondeb arferol, yn plygu yn foneddigaidd i'r gynulleidfa, ac wedi hyny yn sefyll yn syth wrth ochr Mr. Morgan. Efallai mai afreidiol yw dyweyd fod pob llygad yn edrych, ac nad oedd ond braidd yr anadl yn cerdded. Ar yr esgynlawr yr oedd yr holl enwogion; ond y mae y gorchwyl o wisgo yn myned yn y blaen. Dacw Mr. Morgan yn agor y gôb, yn cynorthwyo ein gwron i osod ei freichiau ynddi, ac wedi hyny yn tynu wrth ei godrau i'w chymhwyso, ac yna troi George yn ol ac yn y blaen, wyneb a chefn at y gynulleidfa, fel y gallai pawb gael golwg gyflawn arno yn y gôt newydd. Canmolai Mr. Morgan y brethyn, a'r *fit* hefyd, a dangosodd yr holl gynulleidfa gymeradwyaeth annghyffredin, oddieithr dau deiliwr oedd gerllaw, y rhai a ddywedasant fod y brethyn yn eithaf da, ond am y *fit* a'r gwaith gwinio hefyd, nad ydoedd ond yn dlawd, yn annhebyg iawn i grefftwriaeth. Ond dyna, beth dâl siarad am beth fel hyn? y mae yn anmhosibl boddio pawb; eto gallwn

ddyweyd heb ofni cyfeiliorni fod y *majority* o ddigon yn dangos y gymeradwyaeth fwyaf i'r cwbl.

Bydded i ni yn awr droi ein golwg oddiar ddau deiliwr cenfigenllyd fel yna, ac edrych ar Mr. Heycock yn ei gôb newydd. Y mae yn sefyll yn syth yn awr, heb ddyweyd dim wrth neb, yn edrych ar ei *frest*, ac yn botymu y gôb i fyny hyd at ei ên. Mewn difrif, George, y mae yn edrych yn go dda; tynwch y *goler* dipyn i lawr, yna bydd yn agos yn ei lle; bydd yn anhawdd ei gwneyd yn well, beth bynag. Wedi gosod y cwbl mewn trefn fel hyn, y mae ein harwr yn gosod ei freichiau i lawr, yn troi yn ol ac yn y blaen, ac o gwmpas, i'r dyben o ddangos ei hun yn gyflawn i'r holl werin yn y wisg laes newydd; nid yn unig, deallwch, oblegyd ei bod yn newydd ychwaith, ond am mai anrheg ydoedd; yr oedd yn arwydd o barch iddo, ac am hyny yr oedd yn fwy o werth yn ei olwg, wrth bob rheswm. Wedi myned trwy y cylch arferol o ystumiau, y mae ein harwr yn troi ei wyneb drachefn at y gynulleidfa, ac mewn araeth fer yn eu hanerch mewn cysylltiad â derbyniad y gôt newydd. Wedi talu, mewn modd medrus, ddiolchgarwch i gyfeillion Caerdydd am yr anrheg, y mae yn myned yn y blaen i ddyweyd fel y canlyn:—"Edrychwch, gyfeillion, beth mae dirwest yn ei wneyd; dyma o'ch blaen yn bresenol esiampl o'i chymwynasgarwch. Dyma gymdeithas yn dilladu y noeth. Y mae y diodydd meddwol wedi dyosg dillad rhai o honom oddiar ein cefnau, ac wedi ein hanfon yn noeth ac yn gywilyddus i'n ffordd. Ië, y mae y diodydd meddwol wedi gwneyd y trwsiadus yn noeth, y cyfoethog yn dlawd, a'r anrhydeddus yn warthus. Eithr dyma effeithiau tra gwahanol o flaen eich llygaid chwi heddyw; nid dyosg y gôb oddiam danom sydd yma, eithr gwisgo â newid dillad. Dyma y peth y mae dirwest yn ei wneyd, fechgyn; rhoi arian yn eich llogellau, cotiau am eich cefnau, tai i chwi gyfaneddu ynddynt yn gysurus, a iechyd a hawddfyd, a hir oes." (Curo, a gwaeddi Clywch, clywch!) "Yr wyf yn cofio," meddai, "ddarllen am fwch gafr a chadnaw yn rhodio gyda'u gilydd ar dywydd gwresog iawn, ac yr oeddynt wedi myned yn sychedig ryfeddol, yn chwilio pob man am ddwfr, ond yn methu cael dim. Bu yn galed arnynt, ac yr oeddynt bron a threngu, pan y daethant i ymyl pydew a dwfr ynddo; eithr wedi edrych i mewn, yr oedd yn ddwfn, ac yn anhawdd cael hyd i'r dwfr. Y mae angenrheidrwydd yn peri iddynt astudio y mater; ac y mae y cadnaw yn gweled ei lwybr, ac yn cael o hyd i gynllun. Dywedodd wrth y bwch gafr, 'Dos di i lawr yn araf fach, yr wyt ti yn ddigon cryf, a minau a ddof ar dy gefn di.' Cytunwyd ar yr anturiaeth, a dyma y bwch yn defnyddio hyny o dalent oedd ynddo i gyrhaedd yr amcan, ond bu yn flin iawn arno a thrybylog cyn llwyddo i gyrhaedd y gwaelod. Beth bynag, cyrhaedd y gwaelod a wnawd, ac yfwyd nes tori y syched. Y peth nesaf i feddwl am dano oedd pa fodd i ddyfod i'r lan drachefn. Y mae y cadnaw yn canfod yr anhawsdra hwn, ac yn gofyn i'r bwch, 'Pa fodd y gallwn fyned i'r lan eto?' 'O, ïe, yn

wir, dyna beth na feddyliais i ddim am dano,' ebe y bwch. Dyma hi yn dywyllwch eto ar y cwestiwn hwn. 'Ond,' ebe'r cadnaw, 'mi ddywedaf wrthyt pa fodd y gallwn wneuthur eto. Cwyd di ar dy draed ôl, a gosod dy draed blaen ar y darnau yna, gan ymestyn hyd y gallot, a minau a ddringaf i fyny ar hyd dy gefn, ac yna, yr wyf yn meddwl y gallaf lamu i fyny i'r ddaear las; ac ar ol i mi unwaith fyned i fyny, gwnaf dy gynorthwyo di yn hawdd wed'yn.' 'O'r goreu,' ebe'r bwch, 'dyna y gwnaiff hi; dere di i'r lan ar hyd fy nghefn yn awr.' Felly y bu, a gwnaeth y cadnaw ei ffordd yn ddyogel. Yn mhen tipyn y mae y bwch yn ei weled yn ymdroi o amgylch y pydew, ac yn edrych i lawr yn llechwraidd, heb ddyweyd dim. 'Hoi, hoi,' ebe'r bwch, 'dyro help llaw i finau yn ol dy addewid; yr wyf fi wedi dy godi di i fyny, ac yr oeddit yn addaw fy nghynorthwyo inau; er mwyn pob daioni, estyn dipyn o help i greadur tlawd ag sydd yn mron trengu.' 'Ha, ha,' meddai y cadnaw; 'a wyt ti, Mr. Bwch, yn meddwl fy mod mor ddwl a myned i beryglu fy mywyd er mwyn cadw dy fywyd di? na, na, pawb drosto ei hun. Ond ar yr un pryd, Mr. Bwch, os ewyllysi gael cynghor, mi a roddaf hwnw i ti yn rhad ac yn rhodd. Dyma fe. Os dygwydd i ti lwyddo i ddyfod i'r lan y tro hwn, cymer ofal nad elot i'r fath le eto.' Dyma fel y mae hi, fechgyn, yr hen fasnach feddwol i'r dim; dyma ddarlun perffaith o honi yn y cadnaw a'r bwch gafr; dyma bictiwr o'r hen dafarnwr yn trin y geifr dwl a difeddwl. Y mae llawer cadnaw o dafarnwr wedi dringo i gyfoeth ac anrhydedd ar hyd gefnau y meddwon ffol, ac yna yn chwerthin am eu penau, a'u gadael i drengu yn eu tlodi. Ond ar yr un pryd gwnewch gynghor y cadnaw, 'os dygwydd i chwi ddyfod i fyny o'r pydew, gwnewch eich goreu i ymgadw rhag myned yno byth mwy.' Y mae llawer o honoch wedi dyfod i fyny; y mae dirwest wedi bod wrth enau y pwll, ac wedi estyn rhaff i'ch tynu i'r lan; gwyliwch rhag myned yno byth mwy. Y mae hi wedi trefnu *reservoir* mawr yn cynwys digon o ddwfr gloyw, a phibellau yn ei drosglwyddo i bob tŷ a phob man, fel nad oes raid i chwi beryglu eich bywydau mewn pydewau enbyd. (Clywch, clywch, clywch!) Gyfeillion, edrychwch unwaith eto ar gymwynasgarwch dirwest, yn myned i lawr i'r pydew ar ol y meddwyn, wedi i'r cadnaw ei adael i drengu, ac yn codi ar ei thraed ôl, i'r dyben o roi cyfleusdra i'r creadur anffortunus ddringo ar hyd ei chefn allan o'i holl beryglon i'r ddaear las; ac wedi ei gael i'r lan, chwi a welwch ei bod yn ei gymeryd mewn llaw, a'i wisgo â newid dillad, fel yr ydych yn ei weled ger eich bron heddyw. Dirwest *for ever!*"

Yr ydym yn gweled ein bod wedi syrthio i brofedigaeth ryw fodd, er yn hollol anfwriadol hefyd; y mae rhyw beth fel pe bae yn ein camarwain, ac yr ydym ar golled i wybod beth ydyw enw y *peth* hefyd. Dywedasom nad oedd yn ein bwriad i adrodd yr areithiau, ond yn unig rhoi hanes byr mewn perthynas iddynt, a thyna'r cwbl. Eto yn rhyw fodd neu gilydd gŵyrasom ychydig

oddiwrth y bwriad hwn; er hyn yr ydym yn achub y cyfle i grefu maddeuant gan ein cyfeillion, ac yr ydym yn mron yn sicr y cawn faddeuant, oblegyd y maent yn gweled ein profedigaethau, ac yn cydymdeimlo â ni ynddynt hefyd. Mewn gwirionedd, yr ydym am wneyd chwareu teg a phawb, ïe, â'n gelynion, os oes genym rai, chwaithach â'n cyfeillion. Fe ddichon, serch hyny, y gall fod rhyw ddyben yn ein harwain fel hyn hefyd, ond ystyried y pwnc gyda mwy o fanylwch; canys erbyn ail edrych drosto, y mae yn gwasanaethu i egluro fod yn rhaid bod rhyw beth yn ein harwr yn wahanol i'r cyffredin. Y mae torf fawr yn myned gydag ef i Gaerdydd i'r ŵyl, ac amryw o'r rhai hyny yn ddynion nid anenwog, eto nid oedd neb yn areithio, na neb wedi tynu sylw neillduol ond Mr. Heycock; nid anrhegwyd neb ond Mr. Heycock; a Mr Heycock oedd arwr yr ŵyl. Yn awr, pa beth oedd yr achos fod y fath sylw ar Mr. Heycock yn wahanol i bawb eraill? Os nad oedd rhyw beth ynddo yn wahanol i bawb, yr ydym ni ar goll, ac yn methu cyfrif am y cyfryw bethau. Yn sicr, y mae hyn yn rhyfedd; beth bynag, y mae yn rhyfedd i *ni*, ac yr ydym yn cyffesu yn rhwydd ac yn onest ei fod yn mhell y tu hwnt i'n dealltwriaethau ni; ar yr un pryd, deallwch, nid yw yn gywilyddus genym gyfaddef nad ydym ni o'r cyfryw ag sydd yn gweled yn mhell.

Mae y ddaear yn troi; a chan faint y cyfnewidiadau mewn byd ac eglwys hefyd, y mae lluaws o bethau newyddion yn dyfod i'r golwg o hyd. Y mae cyfnewidiadau mawrion wedi dygwydd yn yr eglwys y perthynai ein harwr; y mae llawer o'r cedyrn wedi cwympo; y mae angau wedi dianc â'r henafgwyr ymaith, y mae Sïon yn gruddfan ar ol y gwyliedyddion, ac heb neb i'w chysuro; ïe, mae y praidd wedi eu gadael yn yr anialwch mawr, yn agored i beryglon o bob cyfeiriad, a'r bugeiliaid hwythau yn gorwedd yn ddystaw ar waelod bedd. Y mae'r "llew rhuadwy yn rhodio oddiamgylch," dan ruo yn fwy nag erioed, fel pe bae y tymhor hwn yn gyfleusdra rhagorol iddo lyncu y cwbl i fyny mewn amser byr. Mae y pethau hyn yn peri iddynt edrych allan am fugeiliaid cymhwys, dynion da eu gair, i'w rhoddi ar hyn o orchwyl. Edrychwyd yn fanwl am y dynion y rhai fuasai debycaf o lanw lle yr ymadawedig, ac felly cysuro Sïon, a sychu i fyny ei dagrau. Wedi edrych gyda chryn fanylwch, a gweddio, a phethau felly, syrthiodd y coelbren ar ddau; ac un o'r ddau hyny oedd ein brawd George. Nid ydyw hyn eto, debygem ni, yn myned yn mhell i brofi mai efe oedd y lleiaf yn ystyriaeth yr eglwys, a'r dyn gwaelaf o fewn y gynulleidfa. Yr oedd llawer yno y pryd hwnw yn henach crefyddwyr hefyd, ac y mae yn syndod genym pa fodd y dygwyddodd cynulleidfa o ddynion da ethol y gwaelaf a'r mwyaf annghymhwys yn eu plith at orchwyl o'r fath. Mae hyn eto yn mhlith y dirgeledigaethau, pa rai yr ydym ni yn teimlo awydd cryf eu hosgoi, a'u gadael hwynt i ystyriaeth ein darllenwyr. Wel, peth cas yw hyny; ni ddylid gadael dynion mewn tywyllwch i ymbalfalu heb geisio dangos iddynt y drws. Y mae hyn y peth

nesaf at fod yn ddiegwyddor, fel y dywedir. Na, y mae genym resymau am hyny, pa un a wnant eich boddio chwi ai peidio—peth arall yw hyny. Eithr y mae hyn i'w ddyweyd—y maent yn ein boddio ni yn eithaf da; ac nid peth bach, fel y gwyddoch yn burion, yw i ddynion allu boddio eu hunain yn weddol. Yn awr, fel y dywedasom mewn rhan o'r blaen, haneswyr ydym ni, yn rhoi hanes pethau, a gadael eu hathronyddiaeth i feddyliau mwy treiddgar, ac felly caiff pob un eithaf chwareu teg i farnu drosto ei hun. Cymaint a hynyna yn bresenol, ys dywed Shon Dafydd wrth ddybenu ei bregeth. Nid yw ond tegwch i ddyweyd nad oedd ein harwr, fel llawer, yn ceisio y swydd, ac yn ymladd am dani trwy y tew a'r teneu. Na, na! yn hollol wahanol, yn wir; canys gydag anhawsdra mawr y perswadiwyd ef i ymgymeryd â hi, er fod y bobl yn ymbil ag ef i wneyd hyny. Hyd yn oed pan y daeth y cenadon o'r Cyfarfod Misol i'w osod yn rheolaidd ynddi, enciliodd o'r ffordd, ac absenolodd ei hun o'r cyfarfod. Y mae yn wir y dylasai dalu ufudd-dod parod i'r alwad; eithr y mae yn ymddangos fod ei deimladau wrth feddwl am gyfrifoldeb y gwaith wedi ei lethu yn llwyr, nes yr oedd yn rhy ddigalon i gymeryd y peth arno. Ni ddylid, y mae yn wir, ymollwng yn ormodol i deimladau, os gellir; ar yr un pryd yr ydym yn cael ein tueddu i feddwl yn well am agwedd felly, na'r arferiad o fyned o dŷ i dŷ i chwilio am *votes* a chodi plaid, er mwyn bod yn swyddogion eglwysig. Bid a fyno, cafwyd ganddo o'r diwedd ufuddhau i'r alwad, neillduwyd ef yn rheolaidd i'w swydd, ac adnabyddwyd ef wedi hyn fel George Heycock y diacon.

Yn awr y mae efe yn dechreu cychwyn fel diacon, ond yn araf, ac yn wyliadwrus, gan ddylyn Thomas Robert yn fanwl, yr hwn oedd yn henafgwr parchus, wedi ei adael gan angau i oroesi cyfeillion ei ieuenctyd. Nid yw ond cyfiawnder i ddyweyd iddo, mewn cysylltiad â Thomas Robert, wneyd llawer o ddaioni i achos crefydd yn ardal ei breswyliad. Bu yn ffyddlawn, ac yn ffyddlawn iawn am flynyddau, ac yn ddiau fod ffrwyth i'w lafur. Nid hir iawn y bu yn y swydd hon ychwaith cyn bod hynodrwydd George yn dechreu dyfod yn weledig yn y diacon. Y mae neillduolrwydd George y *Bruiser*, ar droion—ïe, yn aml hefyd—yn ymwthio i'r golwg yn George Heycock y diacon. Mae yn ymddangos fel pe buasai yn anmhosibl i'n harwr fod yn ddyn cyffredin, anhynod, a dieffaith, mewn unrhyw gylch cymdeithasol; yr oedd peth felly fel pe buasai o'r cwestiwn; nid allasai fod. Yr oedd yn rhaid i Heycock fod yn George, a George fod yn Heycock, pa un ai mewn tafarn, mabsant, ymladd, neu ryw beth arall. Felly hefyd wedi ei ddychwelyd at grefydd, nid oedd yn crefydda fel neb ond George Heycock; ac felly pan aeth i ddiacona, ys dywed Mr. Richards, Abergwaen, nid oedd yn diacona fel neb ond efe ei hun. Yr oedd gydag ef dalent at y swydd, eithr nid yr un fath dalent ag sydd gan ddynion yn gyffredin; ar yr un pryd yr ydym yn teimlo anhawsdra i ddesgrifio ei dalent. Y mae rhyw bethau y peth nesaf i anmhosibl dyweyd pa fath ydynt; cyffelyb

iawn i'r pethau hyny yw talent George Heycock. Yr oedd ganddo dalent; nid oes neb, tebygem, yn amheu hyny; ar yr un pryd y mae hyd yn oed y bobl mwyaf dawnus o'n cydnabod fel pe baent yn cael eu taro i ddyryswch pan y maent yn myned i gynyg desgrifio pa beth ydyw. Yr ydym yn teimlo anhawsdra wrth geisio taflu goleu ar natur talentau ein harwr; fe allai, er hyny, y gwelir hyn yn well mewn cysylltiad a'r hanesyddiaeth am ei weithrediadau a'i symudiadau na thrwy ddim arall. Beth bynag, wedi i ni adrodd ychydig o'r pethau hyny, bydd ein darllenwyr mewn cystal sefyllfa a ninau i farnu drostynt eu hunain.

Ychydig o'r hanesynau mae yn bosibl i ni adrodd, gymaint yn unig a wna y tro i egluro ryw faint ar y cymeriad; canys pe ysgrifenid y cwbl a wnaeth ac a ddywedodd efe, y mae yn anhawdd gwybod beth fyddai maint y llyfrau, a pha bryd y byddem yn debyg o ddybenu. Nid yn unig yr oedd ganddo dalent, ond hefyd yr oedd ganddo ddawn hynod. Yr oedd gydag ef lwybrau i gyrhaedd amcanion penodol; ond nid oedd y cyffelyb lwybrau gan neb arall. Heycock a'u cynlluniodd hwynt; ôl meddwl George sydd arnynt, ac efe yn unig a all gadw dysgyblaeth ar ei greaduriaid ei hun; am hyny gwell yw gadael rhyngddynt a'u gilydd. Fel y dywedasom o'r blaen, yr oedd delw Heycock ar George, a George yntau yr un ffunud a Heycock yn mhob peth; yr oedd y ddau hyn mewn gwirionedd yn un, ac yn mhob peth yn un yr oeddynt yn cytuno; ïe, yr oeddynt mewn perffaith gydgordiad yn mhob peth. Heblaw y cymhwysderau angenrheidiol mewn diacon i gyfarfod ag angen yr eglwys mewn pethau cyffredinol, yr oedd ynddo ef fath o dalent a deheurwydd i ddatod cylymau dyrys heb eu dryllio yn chwilfriw, yr hyn nad yw yn beth cyffredin. Ond fel y mae yn rhesymol i feddwl, yr oedd ganddo ef ei ffordd a'i lwybr ei hun at hyny, fel pob peth arall. Er mwyn dyfod at y mater, ni adawn heibio ddesgrifio, er rhoddi ychydig o hanesynau, a chael cipolwg ar natur doniau a thalentau ein harwr.

Dygwyddodd i ymrafael enbydus dori allan unwaith rhwng dwy wraig berthynol i'r eglwys; ffrae andwyol oedd hon hefyd; nid yn unig aeth yn waeth na dweyd yn deg, ond yr oedd pethau yn ymddangos fel pe buasai wedi bod yn waeth na *dyweyd* yn arw hefyd. Ffrae enbydus oedd hon, a gwneyd y goreu o honi. Daeth un o honynt â chyhuddiadau yn erbyn y llall o natur droseddol iawn, nes peri i'r hen frawd Thomas Robert agos lesmeirio; a gwaeth na'r cwbl, yr ydoedd yn methu deall beth fyddai oreu i'w wneyd dan y fath amgylchiadau. Yr oedd ein gwron yn sefyll yn gryf, serch hyny, gan ei fod yn lled gynefin â phethau felly, ac yn gynorthwy gwerthfawr i'r hen ddiacon Roberts fyned trwy y gorchwyl hwn. Yr oedd y cyhuddiadau y fath fel yr oedd yn ymddangos nid yn unig fod y tafodau mewn chwareu yn y ffrae anffortunus hon, ond hyd yn oed y danedd hefyd. Yr oedd un yn cyhuddo y llall o roddi ei danedd yn ei chnawd, nes yr oedd bron yn annyoddefol i gnawd oddef. Yr oedd y diacon

Roberts agos yn annghredadyn ar y pwnc; nis gallasai efe feddwl am neb crefyddol fod yn bosibl iddynt fod yn euog o'r fath weithredoedd haerllug. Mwy cydnabyddus a chyfeillgar â Roberts hefyd oedd y ferch gyhuddedig na'r gyhudd-ferch; ac yr oedd hyny yn ei gwneyd yn fwy anhawdd ei gredu. Ond dyna y wraig ag oedd wedi cael cam yn dyosg ei napcyn, yn tynu ei llawes i lawr, ac yn dangos ôl y danedd yn rhesi yn ei chnawd. Tarawodd Thomas Roberts ei ddwylaw yn eu gilydd yn awr, fel y byddai yn arfer pan mewn syndod; agorodd hwynt wed'yn, ac a'u cododd i fyny i'r nef, gan dystio na welodd efe yn ei fywyd o'r blaen y fath ymladdfa giaidd rhwng dwy ag oedd yn arddel enw Crist. "Och fi! dyma beth cywilyddus!" Er y cwbl, yr oedd yn ymddangos fel yn barod i esgusodi y fenyw gyhuddedig, od oedd yn bosibl yn rhyw fodd; eithr yr oedd y cyhuddiad yn un mor warthus, a'r prawf mor benderfynol, fel nad oedd lle yn y byd i symud y naill ffordd na'r llall. Yr oedd yr hen frawd yn edrych yn benisel a phruddaidd; gallesid yn hawdd ddarllen gofid yn ei wynebpryd; yr oedd yn gruddfan yn yr ysbryd, ac fel pe buasai yn barod weithiau i'w roddi i fyny. Yr oedd fel dyn wedi gwirioni, ei wedd yn salw a sarug, ac fel pe buasai yn methu amgyffred pa lwybr i'w gymeryd, neu pa beth i'w wneyd yn nesaf.

Y mae yn rhaid cyfaddef fod pethau wedi cymeryd gwedd go dywyll; canys y mae tafod menyw yn ddigon annyoddefol ar brydiau, ond pan y mae yn defnyddio ei danedd hefyd y mae yn myned yn mhell iawn, debygem. Y mae yn debyg fod y tafod yn dân, ac nid oes eisiau esbonio, debygem, effeithiau yr elfen hono ar gnawd noeth; eithr gellid meddwl fod y danedd yn fwy arteithiol byth, yn enwedig pan y byddont o dan effeithiau cynddaredd aflywodraethus. Er ys ychydig ddyddiau yn ol, yr oeddem yn gwneyd sylw ar William Meredith o dan effeithiau tafod y wraig; mewn prysurdeb, yr oedd yn ddigon i wneyd i 'ffeiriad wenu, er ar yr un pryd yn y teimlad o dosturi drosto yn ei brofedigaethau. Yr oedd Betty yn ei rhoi iddo yn ddoniol; nid oedd gan William yr un siawns i dafodi â hi; dywedai ddeg gair yn mhen pob un iddo ef. Nid oedd ganddo ddim i'w wneyd, druan, ond dyoddef; eithr yr oedd yn mhell o fod yn dyoddef yn amyneddgar. Yr oedd yr effeithiau yn weledig i bawb ar ei gorph, er yn methu cael cyfle i ymadroddi nemawr, gan mor echrydus yr oedd y fenyw yn golchi arno. Ond yr oedd yn amliwio yn ei wyneb, yn cosi ei gernau, yn taflu ei ddwylaw brydiau eraill, yn neidio ac yn llamu fel dyn gwallgof i goed; a gallasem feddwl fod ei ddyoddefiadau yn annirnadwy. Cofiwch, gyda llaw, mai goruchwyliaeth y tafod oedd hon i gyd; ni bu un dant yn agos i'w gnawd. Yr oedd yr olwg arno, druan, yn ddigon annyoddefol ac annedwydd fel yr ydoedd; ond pe buasai pâr o ddanedd yn ei gnawd gyda hyn, y mae yn anhawdd gwybod beth a fuasai hynt yr adyn tlawd. Beth bynag, y mae y ffrae hon wedi myned yn mhellach na Wil a Beti; canys daeth y tafod, y danedd, y

dwylaw, a'r traed hefyd, i weithrediad cyflawn, ïe, cymerwyd at yr holl arfogaeth ag oedd yn wreiddiol yn meddiant y natur ddynol, a defnyddiwyd hwynt gyda medrusrwydd y rhywogaeth deg. Daeth Thomas Robert i'r penderfyniad, os oedd pethau yn sefyll yn ol desgrifiad y gyhuddes, fod yn anhawdd iawn eu goddef yn y *society*, yn enwedig y gyhuddedig. Yr oedd hon yn ffrynd go fawr iddo ef hefyd, fel yr awgrymwyd; eto y mae yn methu camu yn mhell o lwybr y gwirionedd er mwyn dangos ffafr. Yr ydym yn meddwl pe na buasai dim ond tafod yn y cwestiwn, er i hwnw fod yn lled gas, y buasai y diacon Roberts wedi gwneyd peth ymdrech o'i phlaid; eithr pan y gwelodd ôl y danedd, yr oedd yn benderfynol ar unwaith fod hyny wedi myned dros ben terfynau gweddeidd-dra yn mhell. Deallodd ein harwr fod yr hen frawd mewn cryn ofid, a dywedodd wrtho, "Thomas Robert, byddai yn well, y mae yn ddigon tebyg, cymeryd ychydig o bwyll ac arafwch uwchben y cwestiwn hwn, canys y mae cryn bwys ynddo; fe fyddai yr offeiriaid o dan gyfraith Moses yn edrych i mewn yn bur fanwl i arwyddion y pla cyn dyfod i benderfyniad a chyhoeddi y farn. Byddent yn edrych yn gyntaf ai gwahanglwyf ydoedd ai peidio; ac wedi ei benderfynu, yn ei drin gyda gofal a manylwch neillduol, yn ol y deddfau a sefydlwyd at hyny. Yn awr, yr wyf fi yn meddwl y byddai yn well siarad â'r chwaer arall yn gyntaf dim, i gael clywed pa beth y mae hithau yn ddyweyd mewn perthynas i'r mater dyrys hwn, fel y gallom gael golwg deg ar ddau tu y ddalen, canys y mae dwy ochr iddi y rhan fynychaf." "Purion," meddai Thomas Robert; "yn wir, fachgen, dyna a'i gwnaiff hi i'r dim, ac y mae hyny yn eithaf teg ac angenrheidiol hefyd. Yn awr, George, dos di tua thŷ hon a hon, a gosod y mater o'i blaen hi, fel y gellir cael cyfle gwell i farnu pa fodd y mae yn sefyll mewn gwirionedd." "O'r goreu, Thomas Robert," ebe Heycock; "mi af yn awr, a chewch wybod y cwbl cyn nos yfory, y pryd y bydd y *society* i drin yr achos; a gobeithiwn erbyn hyny y bydd mwy o oleu ar yr amgylchiadau, ac y bydd yn haws eu trin hwynt."

Wedi ymgymeryd fel hyn â'r swydd, y mae efe yn dechreu gosod ei hun mewn trefn i gychwyn i'w daith. Ar ol gwneyd ychydig o ragddarpariadau, y mae efe yn cychwyn gydag awdurdod, fel y bydd dynion yn gyffredin mewn swydd, a thua thŷ y wraig gyhuddedig ag ef. Meddyliodd y fenyw ar unwaith mai nid fel ymwelydd â'r teulu, eithr mai fel swyddog, yr oedd wedi dyfod, ac o ganlyniad mai rhyw neges swyddol oedd mewn golwg. Yr oedd hyn yn beth help er rhagymbarotoi gogyfer â'r amgylchiad, ac i ddal yr oruchwyliaeth yn fwy cadarn a sefydlog, heb ymddyrysu. Y mae ein harwr, wedi myned trwy y seremoniau arferol wrth fyned i dŷ cymydog, ac eistedd i lawr, yn dechreu gosod y cyhuddiad ag oedd wedi dyfod i'w herbyn o flaen y wraig. Dyna hono yn neidio, ac yn dechreu clochtran. "Aroswch, aroswch! cymerwch bwyll," meddai George, "gadewch i mi

ddyweyd yr oll o'r hanes yn gyntaf, yna cewch chwi ddyweyd y peth a fynoch mewn amddiffyniad i chwi eich hunan:" Dyma ef yn dechreu myned yn y blaen eilwaith, gyda phwyll, a chryn dipyn o drefn; ond pan ar haner brawddeg, wele y wraig yn methu goddef, ond yn neidio i fyny gan waeddi, "O, y fileines gelwyddog! celwydd bob gair, George, yn wir! peidiwch a chredu un gair y mae yn ddyweyd, oblegyd un enbyd ddrwg ydyw, ac un felly oedd ei mam o'i blaen." "Cymerwch bwyll," meddai yntau; "gadewch i fi gael myned dros y peth, ac yna cewch ddyweyd faint a fynoch; oblegyd yr wyf fi heb fyned dros haner y peth eto, deallwch chwi. Hi ddywed eich bod chwi wedi defnyddio eich danedd, a bod eu llun ——." "O George, yr wyf yn rhwym o gael dyweyd yn awr; celwydd i gyd ydyw. O! y fileines *ddibrinciple* a chelwyddog." "Sali fach," meddai ein harwr, "peidiwch a bod yn wyllt, gadewch i fi gael amser i ddyweyd." "Amser i ddyweyd," ebe Sali yn wyllt, "ond pwy all oddef, George? O, y fileines ddigywilydd!" "Wel," ebe George, "yr un man i chwi gymeryd pwyll, canys y mae hi yn dyweyd i chwi ei churo yn enbyd; ac nid yn unig hyny, y mae llun eich danedd yn mhen ei hysgwydd yn awr. Dangosodd ôl y danedd i Thomas Robert â minau; yr oedd rhyw beth wedi clwyfo ei chnawd, ond nis gallasem ni fod yn sicr mai ôl y danedd ydoedd, eithr yr oedd hi yn dyweyd mai ôl eich danedd chwi, Sali fach, oeddynt." "O rhyfedd! George anwyl," meddai Sal, "gobeithio nad yw Thomas Robert na chwithau ddim yn credu y creadur arswydus yna. O anwyl da! dyna fenyw beryglus i fod mewn cymydogaeth, chwaithach eglwys. Dyweyd fod llun fy nanedd i yn ei hysgwydd! O dyna anwiredd noeth! Dere yma, George, edrych; nid oes dant yn y byd yn fy mhen i. George anwyl, a wyddost ti beth? y mae pedair blynedd ar ddeg oddiar pan y tynodd y doctor y dant diweddaf oedd genyf fi; ychydig wedi geni Pegi oedd hyny, ac y mae hi yn bedair ar ddeg oddiar ffair ddiweddaf Castellnedd." Gyda hyn y mae yn nesu yn y blaen at ein harwr, yn gosod ei fysedd yn ei genau, yn cydio yn ei bochau, ac yn eu tynu oddiwrth eu gilydd, a chan agor ei genau hyd y gallai, y mae yn dyweyd goreu y gallai o dan yr amgylchiadau, "Edrych, George, nid oes ddant yn y byd yn fy mhen i." Edrychodd ein harwr i'w genau, fel pe buasai yn feddyg celfydd, a throdd ei fys yn ei genau i gael teimlo yn sicr; a chafodd mewn gwirionedd nad oedd yr un dant gan y fenyw. Mewn prysurdeb, y mae y *case* yn dechreu cymeryd gwedd arall; y mae peth fel hyn yn galw am ail ystyriaeth; y mae yn fwy na thebyg nad yw yn goleuo nemawr eto, beth bynag a ddaw cyn y diwedd; yn wir, y mae yn hytrach yn tywyllu fwyfwy, canys y mae y tystiolaethau yn hytrach yn groes i'w gilydd.

Y mae Thomas Robert mewn pryder dwys yn dysgwyl dychweliad y diacon ieuangaf; ac o herwydd ei duedd at y chwaer gyhuddedig, yn gobeithio yn erbyn gobaith am y posibl-

rwydd o ysgafnhau ei throsedd yn rhyw fodd neu gilydd, ac felly ei chadw o fewn magwyrydd y tŷ. Pan yn y teimlad pryderus hwn, ac yn nghanol myfyrdodau pwysig yn nghylch y cwestiwn, dyma ein harwr yn dychwelyd, yn dra gwyllt ei ymddangosiad, fel dyn yn ymdrafodaeth â rhyw orchwylion pwysig. "Ti ddaethost, George," meddai Roberts. "Do," oedd yr ateb. "Wel, George bach," ebe Thomas Robert, "a gest ti ryw oleuni ar y mater gofidus?" "Goleuni yn wir!" meddai yntau; "y mae yn anhawdd gwybod pa fodd y mae pethau yn sefyll rhyngddynt; y mae Sali yn gwadu y cwbl, ac yn dywedyd mai celwydd yw pob gair—mai un gelwyddog yw y fenyw, ac nad ydoedd ei mam o'i blaen fawr gwell." Y mae Roberts yn bywiocâu bob tipyn, fel dyn wedi cael "ysglyfaeth lawer," yn codi oddiar y gadair, ac yn taflu ei fraich, gan ddywedyd, "Yr wyf fi yn credu hefyd mai un gelwyddog ydyw; ac am ei mam, yr wyf yn cofio hono yn ddigon da—un glecog a chelwyddog enbyd oedd hi; yr oedd hi yn wastad â rhyw bwt y gynen ganddi; yr oedd un o'i bath yn ddigon i roi cymydogaeth ar dân. A gest ti foddlonrwydd i dy feddwl, George, mai celwydd yr oedd hi yn ddyweyd i'r dyben o godi *scandal* ar y chwaer arall?" "Wel," meddai ein cyfaill, "erbyn ystyried y cwbl, a gosod yr holl brofion yn nghyd, y mae yn ymddangos i mi mai celwydd ydyw llawer o hono, bid a fyno; y mae yn anmhosibl, yn ol fel yr wyf fi yn gallu gweled a barnu, iddo fod yn wir i gyd." "Felly yn wir," ebe Roberts. "Yn awr, Thomas Robert," meddai ein harwr, "os ydych chwi yn cofio, y mae y gyhuddedig o dan gyhuddiad pwysig iawn; nid yn unig o roi tafod drwg, ond hefyd roi ei danedd noethion yn nghnawd y llall, gyda'r dyben o wneyd rhyw ddrwg corphorol iddi; ac hefyd, os ydych chwi yn cofio, dangosodd i chwi a minau ôl y danedd yn ei hysgwydd." "Ië, ïe," meddai Roberts, "dyna y cyhuddiad. Cofio! yr wyf yn cofio digon, yn enw dyn." Y mae George yn cymeryd pwyll mawr wrth roi y mater ger bron Thomas Robert; y mae yn ei osod yn daclus ac mewn trefn, fel y byddai pob peth yn berffaith ddeallus. "Yn awr," meddai, "pan yr oeddwn yn gwneyd ymchwiliad i'r *case*, ac yn dyweyd wrth y wraig ei bod yn euog, nid yn unig o roi tafod ffiaidd a brwnt, ond hefyd gosod ei danedd llymion yn ysgwydd y chwaer, cynhyrfodd yn aruthrol, fel y gallesid meddwl ei bod yn terfynu ar wallgofrwydd. Y mae yn ymddangos mai y gair 'danedd' ddarfu effeithio y cynhyrfiad hwn mor sydyn ynddi; canys gwaeddodd allan ddwywaith neu dair, fel yn wallgof, 'Danedd, danedd, George! edrych, nid oes genyf ddant yn y byd yn fy mhen. O, y fileines!' Y pryd hwnw, wedi ymdawelu ychydig, lledodd ei safn i mi gael edrych; edrychais, a theimlais hefyd â fy mys, a chefais fod hyny yn eithaf gwirionedd." Erbyn hyny, dyma Thomas Robert fel yn myned o dan ryw gynhyrfiad anadnabyddus hefyd, wrth glywed y desgrifiad am y danedd, ac yn gosod ei ddau fys un yn mhob boch, yn eu tynu oddiwrth eu gilydd, ac yn dywedyd, "Edrych, George, yr wyf finau yr un

peth; nid oes genyf finau ddant yn y byd, er ys llawer o flynyddau." Anwyl da! beth sydd ar yr hen wr? beth sydd a fyno y cwestiwn a'i ddanedd ef? Wel, y mae yn anhawdd gwybod beth sydd a fyno hyny â'r pwnc, neu ymdrafodaeth uniongyrchol â'r mater; eithr y mae yn ymddangos fel pe bai y clwyf danedd wedi syrthio ar yr hen frawd, a'i fod yn dyheu am bâr o ddanedd newyddion.

Y mae George yn myned rhagddo i egluro, ac yn dywedyd ei fod ef yn bersonol yn barnu yn gydwybodol—ond nad oedd ef ddim yn gwybod pa beth fyddai barn yr eglwys—yn gymaint ag y gellir profi yn anwadadwy nad oes dim danedd gan y chwaer gyhuddedig, nad yw yn debyg mai ôl ei danedd hi sydd yn ysgwydd yr achwynyddes, ond mai rhyw beth arall a ddygwyddodd yn ystod yr ymrafael. "Barn yr eglwys!" meddai Thomas Robert, "nid oes yr un eglwys ar y ddaear all farnu fod ôl danedd dyn yn nghnawd un arall, ac yntau heb ddant yn ei ben; pe bai rhyw un yn fy nghyhuddo i o'r fath beth, a fyddai fy mod heb ddanedd ddim yn ddigon o brawf nad yw yn wirionedd?" Wedi sefyll gryn dipyn gyda phwyll ac arafwch uwchben y mater, cydwelwyd yn lled unfrydol y rhaid bod rhyw gymaint o gamsynied yn nghylch y mater hwn. Wedi dwyn y peth yn drefnus ger bron yr eglwys, ac agor y cwestiwn, gan ei drin yn ei wahanol gysylltiadau, yr oedd yn agos bawb wedi eu hargyhoeddi fod y cyhuddiadau wedi eu troi yn deg yn ol. Yr oedd yn anhawdd iawn barnu yn wahanol, oddieithr bod dyn o dan lywodraeth rhagfarn i fesur helaeth iawn; canys yr oedd y wraig gyhuddedig ar ganol llawr y capel, a'i bysedd yn tynu wrth ei bochau, gan gymhell pawb i edrych i'w genau, a theimlo hefyd os ewyllysient. Diangodd y chwaer hon gan hyny, ac yr oedd yr hen frawd Roberts wrth fodd ei galon, ac yn curo yn ddiarbed ar y llall, gan ei barnu yn annheilwng o ran na chyfran yn mhlith y plant. Beth bynag, y mae ein harwr yn cyfryngu, ac yn sylwi y gallasai fod camsynied mewn cythrwfl felly, heb fod yn gelwydd bwriadol. "Canys y mae yn eglur," meddai, "fod cryn *scuffle* wedi cymeryd lle rhyngddynt, ac y mae mor amlwg fod y chwaer wedi derbyn niwed mawr ar ei hysgwydd, ond gallasai hyny ddygwydd drwy gwympo am draws ryw ddodrefnyn, pan yr oeddynt yn ymbalffist â'u gilydd, ac iddi dybio mai ei chnoi a gafodd. Y mae yn ymddangos fod bai mawr bob ochr, ac fe allai y byddai yn well y tro hwn i ddangos rhyw gymaint o oddefgarwch, a'u gadael ill dwy o fewn y magwyrydd i edrych eto beth a ddaw o honynt." Pan welodd yr hen frawd Roberts fod y llall mewn perygl, arafodd; a chydsyniodd â barn ei frawd ieuangach, ac felly arbedwyd y bywyd, a diangasant megys â chroen eu danedd.

Fe allai yr edrych llawer, yn enwedig y dosbarth ieuangaf, ar y *trial* hwn yn un plentynaidd, yn gymaint nad oedd y profion yn ddigonol i sefydlu diniweidrwydd y wraig; nid oedd ei bod heb ddanedd yn brawf o gwbl ei bod yn ddieuog. Nid yw yr

*evidence* yn *conclusive*, canys y mae llawer a adwaenom ni wedi colli eu danedd i gyd, a gallant ymddangos felly unrhyw amser; ar yr un pryd y mae ganddynt ddanedd gosod, y rhai sydd yn ddigon llym i dori eich cnawd yn ddarnau, canys y maent yn tori crystyn mor hwylus a diorchest a phan yn nyddiau eu hieuenctyd. Yn wir, fe allai y dylid cymeryd pwyll i ystyried hyn hefyd; ni ddylid rhedeg yn rhy frysiog dros bethau, ac felly eu gadael mewn aneglurdeb, er cymaint yw ein brys i fyned rhagom. Y mae yn bosibl, yr ydym yn deall, i ni wneuthur twyll fel hyn; oblegyd gallai rhyw un frathu ei gymydog, ac yna tynu ei ddanedd a'u gosod yn ei logell, ac edrych mor ddiniwed a phe na buasai dim wedi dygwydd. Y mae llawer o honoch, yn ddiau, yn cofio amgylchiad a ddygwyddodd yn Paris yn lled ddiweddar, pa un sydd yn taflu peth goleu ar y pwnc sydd o dan sylw. Nid ydym ni o'r cyfryw ag sydd yn meddwl yn uchel iawn am ddinas Paris, eto os ceir goleu ar ryw beth oddiyno, gadewch i ni gael y defnydd goreu o hono, ac nid gwrthod y goleuni am fod genym ryw ragfarn yn erbyn y lle. Y mae y dygwyddiad yn Paris, yn ol ein barn ni, yn myned yn mhell i brofi y gellir gwneyd llawer o ystranciau mewn cysylltiad â'r danedd yma, ac fel pe bai yn ffafrio y dybiaeth uchod nad oedd bod y wraig heb ddanedd yn ddigon o brawf ei bod yn ddieuog. Ar yr amser a enwyd yr oedd ymgynulliad anrhydeddus i fod o foneddigion a boneddigesau i wledd ardderchog, yr hon a ddylynid gan ddawns. Y ddawns a ddaeth, a braidd y gallasech ymsymud ar hyd yr ystrydoedd yn y cyfeiriad hwnw gan gerbydau yn gyru ar ol eu gilydd mewn rhwysg dirfawr. Yr oedd pawb, fel y mae yn naturiol i chwi feddwl, yn ymdrech eu goreu, a thros ben hyny hefyd, am fod y mwyaf; eithr y mae yn fwy na thebyg nad oedd pawb ddim yn gallu llwyddo yn yr amcan hwnw, fwy na rhyw beth arall; canys yr oedd yn debyg i redeg gyrfa—llawer yn rhedeg, eto dim ond un yn enill y gamp. Ond chwareu teg hefyd, nid yw yn ymddangos ar hyn o bryd i neb ei cholli heb wneyd ei oreu. Y mae y *ballroom* yn llawn iawn. Wrth edrych i fyny dros eu penau, y mae yr *head dresses* mor ardderchog, fel nad allesid meddwl am ddim ond fel pe buasai baradwys wedi ei hadenill, ac yn ymddysgleirio o flaen y llygaid newydd ei chreu. Eithr wrth edrych i lawr yr oedd yn amlwg fod yno ddrain a mieri heb eu diwreiddio yn llwyr, canys byddai raid cerdded yn ofalus, megys mewn llwyth o eithin, yn nghanol y *crinolines*. Y mae yn rhaid ymgadw at y pwnc hefyd. Yr oedd y ddawns yn ardderchog; yn cael ei harwain yn y blaen gan y Duchess de Mont, a'r Countess de Frisko. Y mae pob peth yn myned yn y blaen, ac yn rhoddi boddlonrwydd mawr, a llawer o'r boneddigesau yn cael eu hedmygu yn ddirfawr. Ond yn fuan dyma ferch ieuanc brydferthaf erioed yn gwneyd ei hymddangosiad; tarawodd bawb â rhyw swyn ar unwaith. Yr oedd boneddigeiddrwydd fel pe buasai yn gyfansoddiad ynddi, a phrydferthwch gwallt a gwynebpryd yn annghymharol; ei gruddiau cochion, ac eto heb

fod yn rhy goch, yn ddigon i arwain dyn i feddwl fod natur wedi bod yn hytrach yn afradus o'i rhagoriaethau yn nghreadigaeth hon. Yr oedd ei gwenau prydferth fel yn ddangoseg o galon dyner a holl berffeithiau merch. Yr oedd y pethau hyn, gyda rhes brydferth o ddanedd fel ifori gwyn i'w gweled pan y gwenai, wedi swyno cryn lawer ar y rhan fwyaf; ond nid oeddynt wedi peri i neb fyned yn wallgof gan gariad ond Count de Pargo. Yr oedd efe wedi ei daraw i'r fath raddau fel yr ydoedd yn methu mewn modd yn y byd a meddianu ei hun. Penderfynodd ar unwaith wneyd ymosodiad, a cheisio ei llaw, ac os oedd modd yn y byd, drwy arian neu gariad, neu bob un o'r ddau, ei mynu yn wraig iddo ei hun.

Wedi myned trwy y seremoniau arferol mewn cysylltiad â'r fath bethau, y mae y Count yn llwyddo yn ei amcan; y mae yn teimlo ei hun yn fuddugoliaethwr mawr, ac wedi gwneyd ei hun yn llwyr ddedwydd. Ar ol gwneuthur y darpariadau angenrheidiol i gyfarfod â'r amgylchiadau, y maent yn cychwyn, gyda lluaws o gyfeillion, mewn rhwysg mawr i eglwys St. Ann's, ac yn ymuno mewn glân briodas, "er gwell ac er gwaeth." Y mae yr haul yn dysgleirio heddyw, er hyny y mae yn ymddangos fod cwmwl du yn codi, a bod argoel gwlaw mawr yn fuan. Y mae yn debyg fod y Count yn godwr boreu; ac yn ol ei arferiad, cododd yn foreu dranoeth wedi y briodas; ac, O rhyfedd! y peth cyntaf y mae yn ei weled yw y foneddiges hardd ag oedd wedi tynu ei galon yn un o'r gwynebau salwaf a welodd ei ddau lygad erioed. Yr oedd yn felyn ac yn druanaidd, heb ddim o'r lliw coch ag oedd ddoe yn grasloni ei gruddiau; ei gên yn hir, a'i thrwyn yn tynu yn agos tua'r un gymydogaeth. Edrychodd eilwaith ac eilwaith, cyn dyweyd dim, fel pe buasai yn methu credu mai hi ydoedd. Gwarchod pawb! y fath droion sydd yn y byd, y fath siomedigaethau sydd i'w cyfarfod! Y mae y boneddwr, druan, yn syllu, yn ocheneidio, yn edrych o'i gwmpas, fel pe buasai wedi colli ei hun, ac yn methu yngan gair. Y mae yn edrych eto o'i amgylch yn bruddglwyfus, ac yna yn gweled ar y *dressing table* liwiau ardderchog, a'r holl offer tuag at ei osod ar y ddwyrudd, yn nghyda phâr o ddanedd ardderchog, càn wyned a'r ifori. Y pryd hyn y mae y dirgelwch yn dechreu dyfod yn amlwg; a chyda hyn y mae teimladau newyddion yn llanw y fynwes; yn lle cariad, cas; ac yn lle yr awydd blaenorol am ymrwymo mewn glân briodas, awydd am ymddatodiad mor gynted ag oedd bosibl. Y mae y Count wedi ei dwyllo; y mae wedi priodi gwraig heb na lliw na danedd, un o'r creaduriaid mwyaf anolygus yn y ddinas. Y mae efe yn taro ffwrdd at yr offeiriad, ac yn dyweyd ei gŵyn alaethus, ac yn dymuno arno ar yr un pryd i ddatod heddyw yr hyn a wnaeth efe ddoe. Nid oedd ei barchedigaeth yn gweled ei lwybr yn oleu i wneyd hyn; eithr yr oedd y Count o'r farn, yn gymaint a'i fod ef wedi priodi y lliw a'r danedd, a chan nad oedd y pethau hyny wedi troi allan i fod yn rhan o honi ei hun, nad oedd efe yn gweled fod rhwymau

arno ef i sefyll wrth y cytundeb. Ond ei barchedigaeth, wedi edrych ar y mater gyda manylwch, yn enwedig ar y rhan hono o'r gyfraith, "er gwell ac er gwaeth," a ddywedodd fod yn anhawdd os nid yn anmhosibl, ar dir cyfreithlawn, ei roi yn rhydd o'i rwymau; ac felly, ar ol gwneyd *bargen* ddrwg nad oedd dim i'w wneyd ond ceisio bod mor amyneddgar ag oedd yn bosibl, a gwneuthur y goreu o honi.

Wele, y mae yn amlwg, yn wyneb fel y mae pethau yn sefyll yn bresenol, y gellir gwneyd twyll mawr iawn o barth i'r danedd; a phe dygwyddasai amgylchiad y ddwy wraig a nodwyd yn y tymhor presenol, ni buasai fod y naill heb ddanedd yn ei phen yn ddigon o brawf dros ei dieuogrwydd o'r ymosodiad daneddol ar y llall, oblegyd gallasai y danedd brathol fod yn ei phoced. Yn yr amser hwnw nid oedd y geiriau *surgeon dentist* mewn un geiriadur yn y byd. Yn yr amser hwnw, deallwch, os na ddygwyddai i chwi weled danedd dyn yn ei ben, gallasech wneyd eich llw na welsech ddim o honynt yn un man arall. Barn gyffredinol yr oes hono oedd, unwaith y byddai dyn yn cael ei ymddifadu o'i ddanedd nad oedd dim posibl eu hadferu y tu yma i'r bedd mwy. Wel, yn gymaint mai felly yr oedd pethau yn myned yn y blaen yn y byd yn y dyddiau hyny, y mae yn ymddangos yn eithaf naturiol i'r cyfeillion ddyfod i'r penderfyniad, yn gymaint nad oedd dim danedd yn y pen, fod yn anmhosibl, o ganlyniad, mai ôl danedd oedd yn yr ysgwydd, a bod y peth wedi ei achosi gan gwymp neu ryw beth yn amser y *scuffle*.

Ond rhaid gadael hyn yn bresenol er mwyn teithio yn y blaen. Cyn gadael George Heycock y *diacon*, y mae un peth yn ysbaid ei ddiaconiaeth yn taro i'n meddyliau yn awr, ac yr ydym wedi meddwl mai gwell fyddai i ni wneyd adroddiad o hono mor fyr ag sydd bosibl. Y mae yn wybodus i bawb o honoch, heb i ni gymeryd amser i ymdroi gyda hyny, fod rhyw beth yn y Bibl ag sydd yn gwahardd "ieuo yn annghymharus gyda'r rhai digred." Y mae hyny wedi ei ddal a'i feddwl yn mhob oes, na ddylai dynion crefyddol briodi rhai annghrefyddol. Yr oedd ein brawd George, y mae yn debyg, drwy ryw foddion, wedi ei arwain i feddwl hyny hefyd. Yr oedd efe yn lled gryf ar y pwynt hwn, ac wedi treulio llawer iawn o amser i geisio datod cylymau ag oedd bron wedi eu cylymu yn rhy dŷn i un cnawd eu dadrys. Yr oedd merch yn yr eglwys yr hon a ddrwgdybid o fod yn cadw cwmni, neu yn caru fel ei gelwid, â dyn digrefydd, er hyny yn tueddu bob amser, pan y gofynid iddi, i wadu gwirionedd y peth. Eithr yr oedd rhyw bethau yn arwain meddyliau y bobl i feddwl mai gwir ydoedd, ac y dylesid ei galw hi i gyfrif. Y mae yn dygwydd ambell dro, fel y gwyddoch, fod ysbryd dysgyblaeth yn syrthio yn annghyffredin ar ddynion; a phan y byddont o dan ddylanwad yr ysbryd hwnw, y maent yn ddiorphwys yn chwilio allan am ryw fai, fel y gellir cael dysgyblu. Nid ydym wrth ddyweyd felly am i chwi feddwl fod yr eglwys yn y Dyffryn yn y cyfnod hwn yn bresenol mewn cysylltiad â'r ferch hon; ac yn

wir, ar y cwbl, y mae yn rhaid dyweyd nad oedd y bobl hyn yn rhyw *disciplinarians* mawr iawn, na'n harwr ychwaith mewn cysylltiad â hwynt. Yr oedd y ddysgyblaeth bresenol yn wahanol i ddysgyblaeth yn aml; yr oedd fel pe buasai reswm ar wyneb y peth. Beth bynag am hyny, daeth y mater ger bron, a siaradwyd yn bur ddifrifol hefyd, yn enwedig pan ystyrir yr holl amgylchiadau cysylltiol. Gobeithiwn na fydd ein darllenwyr ddim mor anfoesgar a pheidio cydymdeimlo â ni o dan amgylchiadau fel y presenol; oblegyd nis gellir dyweyd *pob peth*, deallwch. Fe allai ein bod ni yn cymeryd rhyddid i ddyweyd cymaint o *secrets* a nemawr, ond wed'yn y mae yn rhaid i chwi feddwl fod i ninau derfynau nad ellir myned drostynt. Gadewch i ni ar hyn o bryd, beth bynag, adael *secrets* naill ochr, a myned rhagom at bethau eglur a defnyddiol.

Wel, y mae yn debyg nad oedd dim profion digonol gan neb yn ei herbyn, ac yn gymaint a'i bod hi yn gwadu, nid oedd dim posibl gweinyddu dysgyblaeth ar y fath seiliau, a chaniatau bod syched angerddol yn y bobl am ddysgyblaeth ar y pryd. Y mae y diacon George yn codi, ac yn dywedyd fod yr eglwys yn ei drwgdybio hi er ys peth amser, ac y byddai yn iechyd i'r eglwys i gael gwybod yn sicr pa fodd yr oedd pethau yn sefyll. "Yn awr, dywedwch chwi y gwir yn onest, pa un a oes rhyw beth rhyngddoch chwi a'r dyn hwn ai peidio?" Nid oedd yn bosibl, er pob peth, i weithio cyfaddefiad allan o honi; eithr yr ydoedd yn gwadu "coed, maes, a mynydd," ys dywed yr hen ddywediad. "Yn awr," meddai ein diacon George, "nid oes genym ddim ond derbyn ei thystiolaeth hi, a gadael y cwbl i amser; y mae e yn amlygu y rhan fwyaf o bethau yn ei dro. Er hyny, y mae genyf fi ychydig o bethau ar fy meddyliau i'w ddyweyd wrthyt. Cofia di, fy merch i, y byddai yn well i ti lynu wrth yr hen Naomi na myned ar ol hwna. Fe allai, serch hyny, nad wyt ti wedi deall erioed i ba fath deulu yr wyt ti yn myned, os gwnei ei briodi ef; fe fyddai yn dda, fe allai, i ti chwilio i mewn i'r *family* yn gyntaf, canys y mae mwy o ganlyniad nag y mae llawer wedi ei ystyried i ba fath dylwyth y maent yn myned. A wyddost ti ryw beth am y tylwyth?" Na wyddai hi. Yr oedd gryn wyth neu ddeng milldir rhwng y dyn yma a'i le genedigol, ac yr oedd hyny y pryd hwnw gymaint agos a dau cant dan yr oruchwyliaeth bresenol. Yn gymaint a bod hanes go ganolig am yr ardal hono, yr oedd pawb yn meddwl fod George yn cyfeirio at rai o'r achau fel lladron pen ffordd, neu ladron defaid. Pe buasai rhyw ddyn yn myned oddicartref, a dyweyd mai un o'r ardal yr ydym ni yn awr yn cyfeirio ati ydoedd, buasai yn sicr o gael ei osod i lawr yn lleidr defaid, beth bynag am leidr pen ffordd. Gan fod son felly am y lle, a'n harwr yn holi yn nghylch y teulu, yr oedd yn naturiol i feddyliau y bobl redeg y ffordd hono yn uniongyrchol, yn enwedig y fenyw.

Y mae ein harwr yn myned rhagddo yn araf, ac yn dywedyd wrth y ferch, "Os priodi a wnewch, coeliwch fi, chwi ewch i *family* canolig; cewch dad yn nghyfraith diffaeth a brwnt iawn,

cymeriad yr hwn sydd yn warth ac yn ddychryn i'r gwledydd, ïe, yn ddianrhydedd i'w holl berthynasau, yn mhell ac yn agos." Eb efe wrth y ferch, "A glywsoch chwi hanes am dad y bachgen ryw bryd?" Naddo hi yn siwr, chlywodd hi ddim erioed ei fod yn waeth na rhyw un arall. "Wel," meddai yntau, "y cythraul yw ei dad ef; ac os priodi a wnewch, byddwch chwithau wrth gwrs yn ferch yn nghyfraith iddo." Cerddodd yr araeth hon, fel y gallesid dysgwyl, fel tân gwyllt, gan losgi y ffordd yr oedd yn cerdded. Daeth y ferch ato dranoeth, a dywedodd, "O George! yr wyf yn rhyfeddu pa fodd y gallasech ddyweyd neithiwr mai y cythraul oedd tad John; y mai efe yn dyweyd mai William Jones oedd enw ei dad ef, a'i fod wedi marw ac wedi cael ei gladdu yn mynwent eglwys y plwyf y ganwyd ef, a bod yno gareg yn awr uwchben y bedd, yn dyweyd ei enw a'i oedran." "O, mi welaf yn awr yn amlwg," meddai George; "yr wyt ti wedi bod gydag ef neithiwr wedi y cwrdd, onide ni buasit ti ddim yn gwybod yr holl hanesion yna. Gwrando, pa fodd y clywodd mor gynted fy mod i yn dyweyd mai y cythraul oedd dy dad yn nghyfraith? Cerdda ymaith, y fileines; y mae y diafol ynot tithau hefyd." Aroglodd ein harwr y llygoden yn y fynyd: ac yn wir, nid oedd yn anhawdd i un dyn, heb fod â ffroen deneu iawn, ei harogli, canys yr oedd ei sawyr wedi myned yn lled drymaidd.

Nid oedd hyn ond dechreu y ddawns yn nghylch y mater hwn, canys daeth y peth i glustiau yr holl deulu, gyda llawer iawn o ychwanegiadau ac esboniadau, fel y cyneuwyd tân mewn llawer o honynt, a llefarasant â'u tafodau. Heblaw y pechaduriaid oedd wedi eu cynhyrfu o herwydd yr ymadroddion hyn, yr oedd rhai o'r saint hefyd yn dyweyd na ddylesid rhoi y fath garitor i deulu cyfan o ddynion; os oedd George yn gwybod fod y tad o gymeriad canolig, y dylasai ymatal rhag rhestru yr holl *family* fel y cyfryw; canys y mae llawer o ddynion da wedi dyfod o deuluoedd digon drwg, ac nid oedd yn anmhosibl i'r bachgen hwn fod yn ddyn purion, serch fod ei dad, os oedd felly, y gwaethaf yn y byd. Byddai yn waith anorphenol i fyned dros yr holl siarad a fu yn nghylch hyn, oblegyd yr oeddynt yn dyweyd pob peth: rhai yn dywedyd fod George wedi rhoi ar ddeall fod tad y bachgen cynddrwg â'r cythraul; eraill mai y dyn tebycaf i'r gwr drwg ydoedd o neb yn y plwyf yr oedd yn byw, ac mai *family* cythreulig oedd yr holl deulu; eraill a ddywedasant ei fod yn ddiamheu yn awgrymu at ladrad yr hen le hwnw; a'r nesaf a ddywedasant iddo ddyweyd i dad y bachgen ysbeilio deuddeg dafad, a'u gwerthu yn ffair Castellnedd, ac hefyd fod un o'r teulu wedi lladd Ysgotiad, a'i gladdu yn yr ardd, ac wrth gwrs wedi myned â'i holl arian a chymaint ag a feddai. Fel hyn yr oedd yr hanes yn rhedeg, a pha bellaf yr ydoedd yn cerdded yr oedd yn cynyddu mewn maintioli o hyd. Ond y mae yn rhaid dychwelyd at y gwreiddiol, a gwneyd chwareu teg a phob peth. Dyna fel y dywedodd ein harwr, nid gwiw siarad—"Y cythraul yw ei dad ef, a bydd yn dad yn nghyfraith i tithau, os âi yn wraig iddo." Dyna fel y

mae y geiriau, gwnewch chwi beth a fynoch o honynt; eto dylai pawb gael chwareu teg oddiar ddwylaw eu beirniaid. Yr oedd y bachgen erbyn hyn o dan gryn gynhyrfiadau, ac yn methu gorphwys yn dawel yn ei wely y nos; yr oedd yn meddwl fod yn ddyledswydd arno geisio beth bynag amddiffyn cymeriad ei hen dad, yr hwn yn awr oedd yn gorwedd mewn bedd dystaw, ac yn analluog i ddyweyd dim drosto ei hun. Y mae ei ysbryd yn cynhyrfu wrth fyned at ei waith un boreu, nes y methodd â myned yn y blaen; penderfynodd golli diwrnod, a throi yn ol tua thŷ ein gwron i gael trin y mater. Chwi a welwch arwyddion synwyr yn y llanc; oblegyd, yn gymaint a bod y mater mor bwysig, y mae yn penderfynu myned yn ei gylch y peth cyntaf yn y boreu, fel y byddai, cyn gostyngiad haul, ddigon o amser i'w drin a'i drafod. Y mae yn hytrach yn gynhyrfus ei ysbryd; y mae hyn yn anfanteisiol; eto y mae yn rhaid ceisio gwneyd y goreu o honi o dan yr amgylchiadau.

Dacw ef yn troi yn sydyn yn ei wrthol, yn cyfeirio ei gamrau yn frysiog am draws cae glas, a'i wyneb ar dŷ George. Y mae yn myned, ac eto y mae rhyw beth yn ei symudiadau fel yn arwyddo ei fod yn colli ei nerth; nid yw yn gallu dal yn ei gryfder arferol; nid yw ei symudiadau mor chwimwth, er hyny y mae yn myned; a than gerdded felly, dacw ef yn cyrhaedd tŷ y gwr. Nid yw yn myned at y drws a chnocio, eithr yn sefyll yn syth o flaen *front* palas ein harwr, ac yn gwaeddi nerth ei geg, "Hoi, hoi, George Heycock! a oes rhyw un yn y tŷ?" Yr oedd amryw o dai heblaw tŷ Heycock yn yr ymyl, fel yr oedd yr holl bobl yn clywed y mwstwr. Erbyn hyny y mae drws Heycock yn agor, a neb llai nag efe ei hun yn gwneyd ei ymddangosiad. Yr oedd heb un het ar ei ben, ei siaced fach yn agored, a choler ei grys heb fod yn gryno iawn. Ar yr un pryd yr oedd ei olwg yn bwysig a difrifol, fel pe buasai newydd fod ar ddyledswydd. Y mae yn adnabod y dyn, yn rhagweled ystorm, ac yn ymbarotoi goreu y gallai i'w chyfarfod ar dir Cristionogol. "Wel," meddai wrth y bachgen, "beth sydd? a oes rhyw beth a fynoch â mi heddyw?" "A fynwyf â chwi," ebe y bachgen; "clywch y dyn! yr ydych yn siarad yn ddyeithr iawn; yr ydych wedi bod yn rhoi caritor cywilyddus i fi a'm holl *family* yn y capel pwy noson yma; ac yr wyf fi wedi penderfynu gwneyd i chwi brofi y peth a ddywedasoch, neu ynte bod yn y cywilydd eich hun. Nid oes genych chwi na neb arall ddim du eich ewin i ddyweyd am fy nhad i, nac am neb o fy nheulu ychwaith." "Cymerwch bwyll," ebe George; "gadewch i ni glywed pa beth a ddywedais i, rhag eich bod chwi wedi clywed rhyw beth, a minau heb ddywedyd hyny. Beth oedd y peth y darfu i chwi glywed i mi ddyweyd?" "Wel," meddai, "chwi ddywedasoch mai y cythraul oedd fy nhad, a bod yr holl *family* yn rhai drwg, a'r mwyaf gwarthus yn yr holl wledydd; a pha beth a all fod yn waeth na hyny?" "Wel, y mae yn wir ddigon i mi ddyweyd felly, ac nid wyf fi yn meddwl tynu fy ngeiriau yn ol ychwaith, canys felly yr oeddwn

i wedi deall am eich tad chwi, a hyny ar awdurdod da hefyd. A pheth arall, y dyn, y mae yr holl *family* yn ddrwg, gwreiddyn a changen." Y mae'r siarad yn myned yn uchel, pobl y tai nesaf yn dyfod allan. Cymerwch bwyll, hawyr, peidiwch a thynu yr holl gymydogaeth yn nghyd. Y mae Thomas yn nesu yn y blaen i gyfryngu, ac yn dywedyd yn ddystaw wrth George, "Byddai yn well i ti wneyd y mater i fyny na myned yn mhellach; bydd yn fwy gweddus i achos crefydd o lawer iawn." Y mae y dyn ieuanc yn dyweyd ei fod yn eithaf parod i adael pob peth i fyned heibio, ond yn unig i George dynu ei eiriau yn ol, nad oedd efe ddim yn ceisio dim ychwaneg na hyny.

Dyma George yn cauad ei ddwrn erbyn hyny, ac yn dywedyd yn eu gwydd hwynt oll, "Na wnaf byth; y mae y gwirionedd o blaid y peth yr wyf fi yn ddyweyd." Ebe y bachgen, mewn nwydau ffyrnig, "Chwi gewch chwi brofi y peth yr ydych yn ddyweyd o flaen Mr. Llewelyn. Ond nis gellwch chwi na neb arall brofi y fath beth; canys William Jones oedd enw fy nhad i, ac y mae efe wedi ei gladdu yn mynwent Cattwg; y mae ei feddrod yno i'w weled hyd y dydd hwn, a maen, am yr hwn y talasom ddwy bunt a phymtheg swllt, wedi ei osod wrth ei ben." "Cwymp, George," ebe William Thomas; "yr wyt yn sicr o fod wedi colli dy le." Nid oedd ein cyfaill William Thomas yn ddyn dwfn iawn, er y cyfrifid ef yn gymedrol gall fel gwladwr a dyn o *fus'ness*, eithr nid ydoedd erioed wedi dyfod yn ysbrydolwr campus. Yr oedd rhyw duedd ynddo ef yn hytrach i ddaearoli pob peth yn lle ei ysbrydoli. Y mae George yn dechreu siarad eilwaith fel pe buasai dim yn y byd wedi dygwydd, ac yn dyweyd mor ddiniwed, "O, William Thomas, yr wyf fi yn gweled y peth yn awr; y mae efe yn siarad am ei dad naturiol, yr hwn sydd wedi marw ac wedi ei gladdu, y mae yn debyg; ni chlywais i erioed am enw hwnw, am ddim a wn i. Nid am eich tad naturiol yr wyf fi yn son, y dyn, eithr am eich tad ysbrydol, eich tad diafol; ac, 'o'ch tad diafol yr ydych chwi, a gweithredoedd eich tad a fynwch eu gwneuthur.' Y mae eich tad chwi, y dyn, yn fyw ac yn iach, ac yr ydych chwi yn byw gydag ef; a gwaeth tad, a gwaeth *family*, nid oes o fewn ein byd ni. Beth a dâl i chwi fyned i wadu eich tad? oblegyd pe baech yn gwadu hyd eithaf eich dawn fe fyddai y berthynas yn parhau yr un peth. Yr wyf yn cofio merch yn Nghastellnedd, wedi priodi, a chael ychydig o ddyrchafiad; hi a wadodd ei mam ar ganol y dref, ddim yn y byd ond am ei bod yn hen wraig dlawd; ond beth oedd hi well? canys fe wyddai pawb mai ei mam hi ydoedd, ac yr oedd yn ddigon amlwg iddi hithau, neu o leiaf dylasai fod, nad oedd dim posibl tori a dileu y berthynas trwy ei gwadu. Yn awr, tra yr ydych chwi yn byw mewn pechod, yn byw yn ddigrefydd a diweddi, yr ydych yn fab diafol, a chyda diafol y byddwch byth. Oblegyd, 'pob un ag sydd yn gwneuthur pechod, o ddiafol y mae.'" Y mae pawb yn awr yn dechreu dyfod i'r tir goreu; y mae'r ffrae yn dechreu troi yn gymdeithas grefyddol, a chyng-

horion George yn effeithio yn bur ddaionus ar y bachgen, canys y mae yn dychwelyd o dan deimladau hollol wahanol, gan weled synwyr ysbrydol y peth, yn lle cymeryd y cwbl yn ddaearol, fel yr oedd yn arfer.

Bu ein harwr yn lled afler yn y gelfyddyd o ysbrydoli, ond fe ddaeth ef wedi hyny mor gampus fel nad oedd dim bron o fewn y greadigaeth nad allasai roi cyfeiriad ysbrydol iddo. Gallasai ysbrydoli y brain, adar y tô, ïe, a llawer ag sydd yn fwy anhawdd na hyny o lawer iawn. Y mae yn syn fod dynion mor gnawdol ag i fethu deall pethau fel hyn yn well; y mae yn achosi llawer o gam-ddealltwriaeth rhwng dynion, ac felly yn peri gofid blin lawer gwaith. Pan y byddo un yn llefaru yn y cnawd, a'r llall yn yr ysbryd, y mae yn anhawdd eu deall yn aml, er eu bod yn llefaru am yr un pethau. Haner y pwnc, a rhagor na hyny hefyd, bod dynion yn deall eu gilydd pan yn siarad.

Yr ydym wedi bod yn lled faith eto; ni a ddybenwn ein penod yn y fan hon; er gwneyd hyny dipyn yn ddisymwth.

# PENOD VI.

GADAWSOM ein harwr yn ymdrybaeddu yn nghanol bywyd diaconaidd. Yr olwg ddiweddaf a gawsom arno oedd mewn synfyfyrdod a phryderwch dwfn yn chwilio i mewn i faterion eglwysig, ac yn ceisio datod cylymau dysgyblaeth. Yr oedd y pryd hwnw, yn esbonio yr oraclau, yn wyneb achosion penodol, ac yn gosod saim ar yr olwynion, fel ag i fyned yn y blaen yn fwy hwylus yn y dyfodol. Wel, y ffordd debycaf i ni ei gyfarfod yw troi ein golwg y ffordd hono, a thrwy gerdded yn hwylus, byddwn yn debyg o gyrhaedd y man y mae yn trigo cyn yr hwyr. Dacw ein harwr yn dyfod i'r golwg; y mae yn edrych yn ddifrifol, fel pe bai rhyw beth mawr yn y myfyrdodau. Y mae hefyd; canys fel yr ydym yn deall, y mae wedi bod yn y clafdy gyda yr hen frawd Thomas Roberts, yn trin clwyfau diriaid Shôn y gof. Eithr, yn gymaint nad ydym yn bwriadu ond rhoddi engreifftiau er dangos y cymeriad, meddyliem mai gwell fyddai gadael y ddiaconiaeth ar yr hyn a ddywedwyd, a myned rhagom i'n taith, oblegyd y mae i ni lawer o ffordd. Digon yw dywedyd, pa le bynag y byddai poethder y frwydr, yno y gwelsech George, yn frwd chwys, yn nghanol y mwg a'r tân, yn arwain y fyddin yn y blaen i fuddugoliaeth. Pe adroddid bob yn un ac un yr holl weithredoedd rhyfedd a wnaeth efe mewn cysylltiad â'r ddiaconiaeth, y mae yn anhawdd gwybod a gynwysai eich amynedd y penodau angenrheidiol. Gobeithio ein bod wedi rhoi cymaint ag a wna y tro i egluro elfenau cymeriad y brawd a'r blaenor Heycock, ac y gwnewch, yn eich oriau hamddenol, ymhelaethu yn eich myfyrdodau.

Ni a welwn, wrth fyned yn y blaen, fod ein harwr yn ddyn o dyfiant cyflym iawn. Nid hir y byddai yn gallu troi mewn un cylch, heb fyned yn ormod iddo. Y mae y ddiaconiaeth yn awr wedi myned yn gylch rhy fach iddo; y mae'r gwely wedi myned yn rhy fyr iddo allu ymestyn ynddo, a'r cwrlid yn rhy gul iddo ymdroi; gan hyny clywir ef yn gruddfan ac yn tuchan, ac yn gwaeddi allan yn ngwsg ac yn effro, "Cyfyng yw y lle hwn, dod le i mi fel y preswyliwyf." Y mae ei enaid yn ymeangu i'r fath raddau, fel ag y mae yn tori cylch y ddiaconiaeth yn fil o gatiau, ac yn bloeddio, fel cadarn wedi gwin, am gylch sydd yn fwy. Yn gymaint a bod y cylchoedd yn aros yr un fath, a'n gwron yn tyfu mor gyflym, yr oedd mewn cyfyngderau enbyd yn barhaus. Ceisiodd Rees, a Dafydd, a Richard, yn nghyda llawer eraill, ei rwymo; ond yr oedd efe yn tori yr holl rwymau yn yfflon, ac yn gwaeddi yn uwch o lawer, "Dod le i mi i breswylio." Yn fuan yr ydym yn gweled y cawr wedi dryllio yr holl gadwynau, ac yn rhodio yn rhydd, mewn cylch newydd, a mwy anrhydeddus. "Atolwg, pa le y mae yn awr? dywedwch yn fuan, cenys y mae brys arnom glywed. Pa le yr ydym i edrych am dano mwy?" Yr ydym yn sicr y byddwch yn synu yn aruthr, pan y byddwn yn dywedyd wrthych am y cylch y mae ein harwr yn troi ynddo

yn awr. Eithr gobeithiwn na fyddwch mor anffortunus ag annghredu, yn wyneb ein bod yn myned i ddywedyd gwirionedd wrthych. Clywch! byddwch yn glustiau i gyd. Beth sydd yn bod? Y mae digon yn bod, tebygem ni—y mae George Heycock yn offeiriad y plwyf.Ië, y plwyf y ganwyd ac y magwyd ef ynddo. Efe sydd yn gwisgo y crys. Efe yw y ficer. Bobl anwyl! pa fodd y gall pethau fel hyn fod? Wel, yn wir, y mae yn rhaid cyffesu anhawsdra mawr i ddyweyd pa fodd y gall llawer o bethau fod ag sydd mewn cysylltiad â George Heycock, chwaithach dim arall; eto gallwn eich sicrhau mai felly y maent yn bod. Gwyddoch yn burion fod yn haws dyweyd am bethau, na rhoddi cyfrif am bob peth mewn cysylltiad â hwynt. Mewn gwirionedd, yn awr, gobeithio y gwnewch ein credu pan yn dyweyd yn ddifrifol fel yna; efe sydd yn gwasanaethu y plwyf yn bresenol. Y mae llawer o wirioneddau y mae yn rhaid eu credu, fel y gwyddoch, er nad ydym yn alluog idd eu deall i foddlonrwydd yn eu gwahanol gysylltiadau; ac os nad allwn ni fod mor ffortunus a chyfrif am fynediad ein harwr i'r swydd offeiriadol, yr ydym yn rhwym o gredu y ffaith, canys y mae hyn yn hunan-dystiol—*efe sydd yn* gwasanaethu yr allor. Yr oedd y codiad yn fawr, y mae yn wir, o fod yn dipyn o ddiacon i fod yn berson urddasol; a buasai yn ddigon i droi pen ambell un, ïe, yn wir, llawer un hefyd, a'i wneyd i edrych can hurted a dylluan y diffaethwch; eithr diangodd ein hen gyfaill yn weddol dda, ar y cwbl, oddiwrth effeithiau felly. Ymddygodd fel ficer, yn bur foneddigaidd yn ei holl symudiadau swyddol; ac y mae traddodiad yn dyweyd mai ychydig, hyd yn oed o feibion Aaron, oedd yn fwy cymeradwy a pharchus na'r Ficer Heycock.

Fe gytuna ein darllenwyr, yn ddiamheu, i feddwl fod yn rhaid cael rhyw beth lled fawr mewn dyn, cyn y gallai droi mewn cynifer o gylchoedd mawrion mor anrhydeddus. Y mae yn drugaredd fawr cael bod yn weddol mewn lleoedd felly; cael y fraint o beidio pendroni a myned yn ddwl sydd yn beth go fawr, debygem ni. Eithr dyn yn gallu troi fel gwr boneddig yn nghanol yr holl bethau hyn, a chodi i anrhydedd, hyd yn oed yn nghanol yr urddasolion parchedig, sydd allan o bob cwestiwn yn rhyw un mawr. Gadewch i ni yn awr, cyn myned yn mhellach, daflu golwg adolygiadol ar gyfnewidiadau bywyd ein gwron, a chymerwn addysg, ac efelychwn ei benderfyniad. Gwelsom ef, os ydych yn cofio, yn fachgen drygionus yn ysgol Mr. Davies, yn uwch o'i ysgwydd i fyny mewn ystranciau na'r holl fechgyn; yr oedd efe yn enwog yno. Wedi hyny, gwelsom ef yn ddyn ieuanc ofer, yn grwth a thelyn pob man y byddai. Gwelsom ef yn brif ymladdwr y gwledydd, fel y gwnelid cyfaill ag ef gan luaws rhag ei ofn. Gwelsom ef wed'yn yn un o brif gonsurwyr y gwledydd; nad oedd neb o'r Arabiaid na'r Aiphtiaid yn gyffelyb iddo am ddyweyd ffortun. Dywedodd ffortunau lawer gwaith nes yr oedd dynion yn credu ei fod yn dyweyd y gwir. Gwelsom ef hefyd o dan argyhoeddiadau cryfach na nemawr a adwaenom

ni; yn ymdreiglo mewn llwch a lludw ar hyd y caeau a'r tomenau. Gwelsom ef eilwaith yn dyfod allan o'r tywyllwch yn mynydd Sinai, i oleuni llachar mynydd Sïon, ac yn gwaeddi buddugoliaeth ar ael y bryn. Gwelsom ef yn Gristion gloyw, diwyd, a ffyddlon, a pharchus gan bawb a'i hadwaenai. Ar ol hyn, gwelsom ef yn ddiacon medrus; lawer uwchlaw, deallwch, y mân ddiaconiaid sydd ar hyd y wlad. Yr oedd efe fel rhyw un ar ei ben ei hun yn mhob man. Ac wele, dyma ni yn ei weled yn berson ei blwyf genedigol! Nid yn aml, mewn oes fer fel hon, y gwelsoch ddyn yn myned o dan gymaint o gyfnewidiadau, ac yn gwasanaethu cymaint o swyddi anrhydeddus, a dysgleirio yn mhob un o honynt. Adnabyddid ef gynt yn ysgol Mr. Davies dan yr enw "George bach;" wed'yn dan yr enw "George y *bruiser;*" ar ol hyny, "George y *fortune teller,*" neu "George y *consuriwr.*" Cafodd grefydd, a daeth yn ddyn arall yn ei holl ymarweddiad, ac yn fuan daeth i'w adnabod fel "George Heycock, Taibach." Wedi ei neillduaeth i'r swydd uchel o fod yn ddiacon, byddai yn cael ei gydnabod fel "Mr. Heycock" yn aml, yn enwedig pan yr elai oddicartref i Gyfarfodydd Misol a Chymanfaoedd, canys yr oedd yn edrych, ar ol gwisgo ei ddillad goreu, yn gymhwys fel gwr boneddig. Wele y diacon eto yn darfod, a dacw glerigwr yn codi o'i lwch; ac y mae Mr. Heycock y diacon i gael ei alw y "Parchedig George Heycock, ficer y plwyf!" Y mae cyfnewidiadau y byd hwn yn ddigon i benfeddwi sant!

Y mae yn rhesymol dyweyd, wrth fyned yn y blaen, iddo ddyfod i'r ficeriaeth yn hollol ddygwyddiadol, can belled ag y mae dynion yn gweled, bid a fyno. Rhaid edrych pa fodd y dywedir y dyddiau hyn, onide bydd y beirniaid yn dyfod i edrych am danom, ac nid oes neb byw a ŵyr y canlyniad. Dywedasom iddo ddyfod i'r offeiriadaeth yn *ddygwyddiadol.* Y mae rhyw ystyr i ddyweyd felly hefyd; canys y mae yn rhesymol i ddynion feddwl, wrth y dull yna o ddyweyd, iddo ddyfod i'r swydd yn wahanol i'r arferiad cyffredin. Wel, felly y bu hefyd. Canys nid yn ol arferiadau dynol, nid trwy i'r Esgob ddodi ei law ar ei ben, y daeth efe yn offeiriad. Yr oedd ei urdd ef yn fwy tebyg i Melchisedec, brenin Salem, yr hwn oedd heb dad, heb fam, heb achau yn perthyn i'r swydd hono. Fe allai, wedi y cwbl, y byddai yn well i ni adael pethau fel hyn yn mhlith y dirgeledigaethau, a myned rhagom at y pethau amlwg ger ein bron. Beth bynag am reoleiddrwydd y swydd, y mae un peth yn ddigon amlwg, iddo ei gwasanaethu gyda deheurwydd mawr er boddlonrwydd i wreng a boneddig. Fe allai eich bod mewn ychydig o frys hefyd, i wybod pa fodd ac yn mha ddull y daeth ein harwr yn berson parchus, yn gymaint na ddaeth yn y llwybr cyffredin o wneyd personiaid.

Er ys llawer o flynyddoedd bellach torodd y geri marwol allan yn ein gwlad; ac fel y gŵyr llawer, ymweliad ofnadwy ydoedd. Nid oedd yr holl bobl y pryd hwnw yn gwneyd nemawr o ddim ond crynu uwch ben y bedd, gan ofni syrthio yno bob mynyd. Ymwelodd y *cholera* â'r ardal yn mha un y cartrefai ein gwron

yn drymach ac yn fwy ofnadwy na'r un yn Nghymru, na Lloegr ychwaith, yn ol rhifedi y trigolion. Symudwyd trigolion yr ardal hon i breswylio mewn pebyll i ben y mynydd o'r diwedd, gan mor echryslawn oedd y pla. Yr oedd y bobl er hyny yn meirw wrth y degau bob dydd. Daliodd yr offeiriad (rheolaidd) i gladdu hyd y gallai, eithr bychan iawn oedd y gallu hwnw. Aeth y ficer yn wan ac yn ofnus, ac ymdreiglodd i'w wely, ac yn y gwely yr arosodd nes oedd y cwbl drosodd, gan adael yr eglwys, y fonwent, a'r praidd i ofal rhagluniaeth, neu ryw beth arall. Dyma y bugail wedi ffoi, ac wedi gadael y praidd yn yr anialwch i drugaredd y bleiddiaid. Ond pwy sydd i ofalu am y praidd? pwy sydd i gladdu y meirwon? Nid oes neb yn ateb; y mae pob peth mor ddystaw a'r hen fonwent ei hun. Eithr cyn nemawr amser, dyma yr holl goelbrenau yn syrthio ar Mr. George Heycock. Wele y dynion oll yn ei eneinio i gyflawni y gwasanaeth cysegredig, ac i fod yn fugail arnynt. Gwnaed ef yn offeiriad, chwi welwch, fel y gwnaed Louis Napoleon yn ymerawdwr, "gan ewyllys y bobl." Yn wyneb fod y bobl yn parhau i feirw, a'r bugail wedi ffoi, a dyryswch o ganlyniad ar bob peth, ni a welwn ein harwr yn dechreu ymysgwyd fel cawr, ac yn cymeryd calon i ymaflyd yn wrol yn y swydd newydd a phwysig. Y plwyfolion, hwythau hefyd, sydd yn troi o'i gwmpas, ac yn dywedyd geiriau comfforddus er ei gynorthwyo i ymaflyd yn ei waith yn galonog, gan dalu ar yr un pryd "ddyledus barch," fel y dywedir, i'w barchedigaeth; canys yr oedd efe erbyn hyn, deallwch, yn ei gyflawn swyddogaeth, yn ol "ewyllys y bobl," ac o ganlyniad yn dal y teitl anrhydeddus hwnw—Y Parchedig George Heycock, y Ficer. Yn fuan, dacw angladd yn dyfod i'r fonwent; ac wele, edrychwch i gyd; dyna yn sefyll ar y ddaear gysegredig a santaidd, a'r llyfr yn ei law yn darllen ac yn gwneyd sylwadau uwch ben bedd yr ymadawedig, y Parchedig George Heycock. Yr oedd llawer yn ei edmygu yn fawr fel person plwyfol, o herwydd ei ddull boneddigaidd yn gweinyddu yn ei swydd. Yr oedd yn wr boneddig o'i ben i'w draed; ac fel y dywedodd un chwaer wrtho, "Yr wyt yn gymaint o anrhydedd i'r swydd ag yw y swydd i tithau." Yr oedd yr hen wraig wedi annghofio y parch dyledus i'r 'ffeir'ad wrth ddyweyd *ti;* eithr ymddangosodd fel gwr boneddig trwy beidio gwneyd sylw o hyny. Yr oedd ei gorph lluniaidd, ei wyneb llawn ac agored, a'i agweddiad syth, yn peri fod ei ymddangosiad yn fwy parchedig ac offeiriadol na llawer ag oedd wedi cael llaw esgob ar eu penau. Y mae yn debyg, fel yr ydym wedi cael ar ddeall, ei fod yn ei ddull yn gweinyddu ei swydd yn eithrio rhyw gymaint oddiwrth ei frodyr offeiriadol; canys yn lle Llyfr Gweddi Cyffredin, defnyddiai efe y Bibl noeth, gan wneyd sylwadau priodol wrth fyned heibio ar yr hyn a ddarllenai. Y mae yn debyg i'r clochydd gynyg y Llyfr Gweddi Cyffredin iddo; ond ni wnaeth dderbyniad o hono, gan ei fod yn ystyried ei hun at ei ryddid, yn gymaint a'i fod yn dal ei swydd wrth ewyllys y bobl.

Eto clywsom ef yn dywedyd ei fod yn gwneyd arferiad o'r frawddeg hono y rhan fynychaf—"Llwch i'r llwch, a lludw i'r lludw." Heblaw hyny nid ydym yn cofio ei glywed ef yn dyweyd am ddim arall. Nid oedd dim yn ngwasanaeth y gladdedigaeth yn groes i'w feddwl, ond yn unig y frawddeg hono—"mewn gwir ddyogel obaith"—yr hon nis gallasai ei dyweyd uwch ben pawb. Chwi a welwch yn amlwg wrth y pethau a ddywedwyd fod y 'ffeir'ad Heycock yn arfer ryw gymaint o gydwybod, hyd yn oed yn ei newydd-swydd uchel hon; canys ni allai efe ddyweyd pob peth a ddywedwyd gan ddynion o'i flaen.

Un tro yn benodol, pan yn gweinyddu ei swydd mewn gwasanaeth angladdol, cafodd gryn hwyl, a'r bobl hwythau a gawsant flas, hyd yn oed uwch ben y culfedd tywyll. Wrth fyned adref, dyma ddwy wraig yn dyfod i fyny, ac yn ddrylliog iawn yn ei gyfarch, gan ddywedyd, "O George, cofia di yn awr mai ti sydd i'n claddu ni, ac nid neb arall." Nid oedd neb ar hyn o bryd yn meddwl am ddim braidd ond am farw. *Manners*, fenywod! cofiwch èich bod yn siarad â pherson; nid y *ti George* a ddylech ddyweyd mwyach, eithr Mr. Heycock y 'ffeir'ad. Ond dyna, yr oedd yn hawdd ddigon maddeu iddynt, druain, canys yr oeddynt yn y fath deimladau fel yr oeddynt yn annghofio pob peth o'r natur yna; ac nis gwyddent yn iawn pa bethau yr oeddynt yn ddywedyd. Y mae yn ymddangos fod ei ddullweddiad offeiriadol, yn nghyda'r hwyl ryfeddol a gafodd, wedi effeithio i'r fath raddau ar y benywod ac eraill, fel ag yr oeddynt yn dymuno am iddo ef, ac ef yn unig, gyflawni y gwasanaeth olaf uwchben eu beddau.

Wedi bod yn gweinyddu y claddedigaeth ryw ddiwrnod yn nghlyw tyrfa luosog iawn o bobl, wrth ddychwelyd adref cyfarfyddodd ag un o foneddigion mwyaf yr ardal, yr hwn hefyd oedd yn y teimladau dwysaf, fel y trigolion yn gyffredin, yn nghanol bro marwolaeth. "George," meddai y boneddwr mewn cyffro a gwylltineb mawr, "nis gwn beth sydd i'w ddyweyd yn y byd; canys yr wyf yn deall fod y bobl yn cael eu claddu heb un 'ffeir'ad, ac felly maent, druain, yn amddifad o gladdedigaeth Gristionogol." Ni wyddai y gwr da hyd yn hyn fod ein harwr wedi ei alw at y swydd yn ol ewyllys y bobl, ac yn ei gweini gydag urddas hefyd. "Nid wyf fi yn cofio y fath beth erioed o'r blaen," ebe y boneddwr, "fod dynion yn cael eu claddu fel anifeiliaid, ac nid fel Cristionogion; yn syrthio i'r bedd yn ddibarch heb un 'ffeir'ad i ddarllen uwchben eu gweddillion marwol." Gyda hyn y mae George wedi cyfleu ei lawffon yn drefnus, ac wedi ei gosod yn gynorthwyol i'r goes wan, yn dechreu llefaru yn groyw o flaen y boneddwr yn nghylch y materion hyn. "Syr," eb efe, "peidiwch gofidio dim yn nghylch y pethau hyn, canys y mae y cwbl yn myned yn y blaen yn eithaf rheolaidd; yr wyf fi yn edrych at hyny, ac yn cyflawni y gwasanaeth angenrheidiol uwchben yr holl gymydogion; nid ydynt yn cael claddedigaeth annghristionogol trwy eu taflu i'r

bedd heb wasanaeth crefyddol. Ac hefyd, syr, yr wyf fi yn meddwl nad oes eisiau ar neb i ofidio yn nghylch y meirw hyn fwy na'r lleill, canys y maent yn sicr o ddyfod i fyny yn yr adgyfodiad cyffredin gystal a neb sydd yn y fonwent." "O wel," ebe y boneddwr, "os ydych yn gwneyd felly, fe allai y gwna hyny y tro yn wyneb amgylchiadau o'r fath ag sydd ar y byd yn awr." "Gwna," ebe George, "y tro yn burion, syr; dygwydd i chwi glywed dim mwy yn nghylch hyny."

Er fod y gwr boneddig crybwylledig yn un o'r rhai mwyaf selog dros olyniaeth apostolaidd, a santeiddrwydd lleoedd cysegredig, a phethau felly, eto, o dan deimladau ag oedd ar y pryd hwn yn meddianu dynion, yr oedd yr athrawiaethau pwysig hyny fel yn rhoddi ffordd ac yn encilio i'r cysgod am ychydig. Gellid meddwl hefyd mai athrawiaethau tywydd teg ydynt, a'u bod fel y grefydd amserol yn gyffredin, "yn amser profedigaeth yn cilio." Pe buasai rhyw un yn anturio gwneyd fel hyn ar amseroedd cyffredin, pa beth fuasai ei hynt yn Llys yr Esgob? Bobl anwyl! y fflangellu fuasai ar ei gnawd! Buasai "deugain gwialenod ond un" yn rhy fach o lawer am drosedd mor anferthol a hyn. O rhyfedd byth! cawsai ei fflangellu yn ol ac yn y blaen—ïe, ei drin, ei droi, ac yn y diwedd ei ddyosg o'r cwbl, a'i ollwng i'r heol yn noethlymyn i ddihoeni i farwolaeth. Y mae yn ddigon drwg syrthio i ddwylaw y crach-gyfreithwyr sydd ar hyd a lled y wlad; ond gwarchod pawb rhag y proctoriaid, y canghelloriaid, y comisariaid, yr arch-ddiaconiaid, y prebendariaid, y deoniaid, a'r lleill sy'n "trin awdurdod eglwysig," ys dywed y canonau! Y mae y gyfraith wladol yn gostus, eithr y mae y cyfreithiau eglwysig yn ddinystriol! Beth bynag, yr oedd cyfreithiau y tymhor hwn, yn wladol ac yn eglwysig, fel pe buasent wedi myned i gysgu hûn, neu ynte, wedi marw, a myned i orwedd gyda'r deiliaid i briddellau y dyffryn. Er yr holl amgylchiadau a nodwyd, pwy ond ein gwron George a fuasai yn beiddio ymgymeryd â'r fath orchwyl? pwy ond Heycock ei hun a anturiai sefyll i fyny yn y lle santaidd? Onid yw hyn yn profi fod rhyw beth ynddo ef nad yw mewn dynion yn gyffredin? Oni bai, paham nad allai pawb wneyd yr un pethau?

Y mae y meirw a gladdwyd yn y tir santaidd gan y Parchedig George Heycock yn gorwedd yn dawel; y maent, hyd yr ydym ni yn gallu barnu, mor esmwyth arnynt â'r meirwon eraill; y maent yn cydorwedd yn ddigyffro, a'u cwsg sydd felus. Nid oes neb wedi gweled angenrheidrwydd am ddarllen uwch eu penau eilwaith; beth bynag, os oes rhyw un wedi teimlo peth felly yn ei feddwl, nid oes dim erioed wedi ei gyflawni. Helaethwyd y fonwent yn ddiweddar; gwelsom yr esgob yn myned yno gyda rhwysg dirfawr, a buwyd gryn amser yn cerdded ar hyd y tir, er ei gyfaddasu yn orweddle y natur ddynol. Ar ol myned trwy ryw orchestion, anadnabyddus i ni, cyhoeddwyd y ddaear yn dymherus o fur i fur; eto ni wnaed dim i'r ddaear y bu y Parchedig George Heycock yn claddu ynddi. Onid yw hyn fel yn cyd-

nabod cyfreithlonrwydd offeiriadaeth ein harwr? Nid ydym yn beiddio cymeryd arnom ddyweyd beth yw barn yr Eglwys Wladol yn nghylch pethau fel hyn; nid ydym yn gwybod beth y maent yn dybied am sefyllfa y meirw a gladdwyd yn y dull dywededig. Nid ydym ychwaith yn gydnabyddus â'u syniadau am y tir hwn, pa un a annghysegrwyd ef ai peidio; ond hyn a wyddom, mai felly y mae pethau yn sefyll. Nid oes genym ni ddim gwell i'w wneyd, ar a wyddom, na gadael y materion yna i'r sawl y maent yn perthyn, a myned rhagom i chwilio am ben draw. Gan mai rhoddi yr hanes yw ein gorchwyl ni, nid ydyw yn briodol ymyraeth yn nghylch pethau felly; y maent yn perthyn yn fwy i'r duwinyddion nag i'r haneswyr.

O'r diwedd, fel ystormydd mawrion eraill a welsom neu a ddarllenasom am danynt, aeth hon heibio. Y mae y gwynt cryf yn tawelu, a'r nefoedd fel pe byddai yn awr yn tynu y gorchudd du oddiar ei gwyneb; y cymylau tywyll yn ffoi, gwyneb y ffurfafen yn adnewyddu, yr haul yn dyfod allan o'i ystafell, a'r olwg arno yn fwy llawen yn rhedeg ei yrfa nag a welwyd er ys llawer dydd. O, y mae pob peth yn cyfnewid; y mae y byd yn dechreu gwisgo sirioldeb eto; y mae gwenau ar wynebau dynion, ac y mae angau, er maint ei wanc, fel pe bai wedi cael digon o ymborth am dipyn. Y mae masnach weithian yn dechreu adfywio, a'r byd fel cynt yn cychwyn yn frysiog gyda marsiandiaeth o arian. Dacw longau yn y porthladd gyferbyn wedi codi yr hwyliau; y maent yn cychwyn i Peru i chwilio am drysorau cuddiedig. Y mae clwyfau y brawd a'r chwaer, ïe, y weddw a'r amddifaid, yn dechreu gwella; y mae y meirw allan o olwg, am hyny yn cael eu hannghofio yn rhwydd ar dir y rhai byw. Aroswch fynyd; dacw hen offeiriad y plwyf. Ië, efe ydyw hefyd; y mae yntau, druan, yn dechreu dyfod i'r golwg, wedi i'r ystorm fyned yn dawel. Y mae pawb yn dyfod allan ar dywydd teg. Rhyw fath o wanwyn ar ol gauaf du ydoedd yn bresenol; yr adar yn dechreu canu, y ddaear yn taflu y blodau allan, a holl goed y maes megys yn cyduno i guro dwylaw. Dyma yr olwg sydd ar bethau yn awr; dynion yn dechreu teimlo adferiad iechyd, calonau trymion yn ysgafnhau, wylo ac ocheneidio yn rhoi lle i deimladau mwy cysurus, prudd-der wyneb yn colli tir, a'r grudd-iau gwlybion gan ddagrau yn sychu yn rhwydd i fyny, o dan dywyniad haul dydd gwell. Y mae y ficer parchedig, yntau, chwi welwch, yn dechreu dangos ei wyneb wedi i'r tywydd dori yn deg. Y mae peryglon yn effeithiol iawn i ddangos beth yw dynion. Aeth llawer i'r Crimea yn fawr eu ffrwst i ymladd dros eu gwlad hyd yr eithaf, eithr yr oedd rhyw amgylchiadau teuluaidd yn peri i lawer o honynt ddychwelyd yn bur fuan. Eithr beth bynag yw y byd am bethau felly, y mae hyn yn ddigon amlwg: os bu y clerigwr rheolaidd yn glaf, y mae efe yn awr wedi gwella; ac os bu yn ddall i lawer o bethau gynt, y mae yn awr yn gweled. Nid hir y bu y Parchedig George Heycock cyn cael ar ddeall nad oedd ei wasanaeth ef yn dderbyniol mwyach;

nad oedd dim rhyddid iddo ef fyned i'r tir cysegredig i gyflawni gwasanaeth crefyddol.

Y mae yn hawdd i bob perchen cnawd ddeall, heb gymeryd trafferth i ddywedyd rhyw lawer, i'n gwron deimlo yn ddwys yn wyneb cael ar ddeall ei fod yn cael ei fwrw allan o'r oruchwyliaeth. Gellir edrych ar beth fel hyn o bell yn ddigon digyffro, ond peth arall fyddai i ddyn fod o dan y fath driniaeth ei hun. Y mae y Parchedig Mr. Heycock yn ceisio ymresymu, gan ddywedyd, "Peth caled a diegwyddor yw troi dyn i ben yr hewl, wedi iddo ddyoddef pwys a gwres y dydd, a gwneyd yr holl galedwaith am amser maith, ac mewn tymhor mor anfanteisiol." Gellid meddwl fod yn anmhosibl i un dyn braidd beidio teimlo nerth yr ymresymiadau uchod. Y mae crefydd a dynoliaeth yn cyduno mewn cymeradwyaeth o honynt gyda llefau annhraethadwy. Y mae pawb a phob peth fel yn cydymdeimlo â sefyllfa annymunol ein harwr, eto nid oes gan neb hawl na gallu i estyn cynorthwy iddo yn ei sefyllfa gyfyng. Nid gwiw rhesymu, y mae y gorchymyn wedi myned allan; rhaid yw rhoi i fyny, canys y mae'r offeiriad yn sicrhau nad oes gan neb awdurdod i wasanaethu yr allor yn y fan hono ond efe ei hun. Yr oedd awdurdod yr apostolion a'r prophwydi, y ddeddf a'r efengyl, yr olew a'r eneiniad santaidd, y frenines a'r esgob, medd efe, o'i blaid. Dyna ddigon byth o awdurdod; beth dâl gwrthwynebu mwy? Er hyn oll, lled annaturiol a phrofedigaethus oedd colli swydd fel hyn, heb wybod yn y byd pa le y ceid un arall. Yr oedd ein harwr mewn rhyw ystyr yn debyg i'r goruchwyliwr hwnw, yn methu dyfalu beth i wneyd ar ol colli yr oruchwyliaeth. Y mae yn dywyll iawn; pa beth a ellir ei wneyd? Yr oedd un peth yn ei daro fel peth rhesymol i'w ofyn; ac er nad oedd hyny ond peth bychan, eto gwell rhyw beth na dim. "Syr," meddai, "a welwch yn dda i mi gael rhyw gyfran o'r degwm am yr amser y gwasanaethais? Yr wyf wedi dal pwys a gwres y dydd, a gobeithio y gwelwch fod rhyw gyfran yn ddyledus i mi am hyny. Gwyddoch fy mod i wedi bod wrthi yn galed yn yr amser mwyaf peryglus, pan nad oeddech chwi yn dyfod allan o'ch tŷ; y mae yn deg, tebygwyf, i mi gael cymaint o ddegwm ag sydd yn syrthio am yr amser hwnw. Dyma lwdn dafad ger bron; yr wyf yn deall yn wyneb y gyfraith fod yn dyfod i chwi o hwn, yr 'ysgwyddog, a'r ddwy èn, a'r boten.' Yn awr, yr wyf fi yn meddwl, wrth ystyried y gwaith caled y bum i ynddo yn yr amser yr oeddech chwi yn methu dyfod, fod yn eithaf cyfiawn, rhwng dau frawd, i mi gael yr ysgwyddog, ac i chwithau gael y ddwy ên a'r boten." Y mae y person urddiedig yn cynhyrfu yn echrydus wrth y bregeth hon, ac yn llefain allan yn groch, nid dyweyd gan bwyll, ac yn araf deg,—"George," meddai, "yr ydych yn un o'r dynion mwyaf diegwyddor a welais erioed; am clywch, y dyn dwl, beth yr ydych yn ei feddwl? Yr ydych am gymeryd fel yna y rhan oreu o'r llwdn, a gadael yr *offals* i fi. Na, na, chwareu teg, yr hen fachgen; ni chei y balfais, a bod yn sicr hefyd. Y mae dau frawd,

saethyddion medrus, yn dyfod ataf yr wythnos hon, ac yr wyf wedi bwriadu y balfais erbyn yr adeg hono." Wrth wrando yr ymadroddion uchod, a gweled fod gan y ficer gwastadol y fath afael ar y balfais, tybiodd y ficer amserol fod y lle tecaf erioed am y "ddwy ên a'r boten;" felly dywedodd nad oedd efe ddim yn sefyll yn dŷn am yr "ysgwyddog," yn enwedig wedi clywed fod eu heisiau at bwrpas neillduol, y cymerai efe ynte y "y ddwy ên a'r boten." Ond, erbyn edrych oddeutu, yr oedd mab Lefi yn ngafael â'r rhai hyn hefyd; ac nis gollyngai hwynt mewn modd yn y byd. "Y ddwy ên a'r boten!" meddai; "am clyw y ffol, ar beth yr wyt yn meddwl i fi fyw yn y chwech mis dyfodol? A wyt yn meddwl fod y balfais yn ddigon ei hunan, yr holl amser hyn? Y llwdn llaith, dos ymaith yn union o fy ngolwg, a chais enill rhyw beth i ti dy hunan mewn ffordd onest, yn lle myned â rhan yr offeiriad. A dyweyd y gwir, y mae y cwbl yn ddigon bach i mi fy hun; ac yn wir, yn rhy fach hefyd, pe bai help yn bod."

Y mae yn ymddangos na fu ein harwr ddim gwell o ffraeo am y cig; canys, fel y deallasom wedi hyn, ni chafodd na rhan na chyfran o hono, a'i droi allan o'r swydd gyda llaw. Wel, nid oes dim i'w wneyd, George bach, ond dysgu bod yn foddlawn, oblegyd rhyw fyd cymylog a niwlog yw hwn ar y goreu, ac y mae yn dywyll iawn ar y gwaethaf! Ow, ow! dyna y Parchedig George Heycock yn awr wedi ei ddadwisgo, a'i holl ogoniant wedi ei adael mewn un diwrnod. Pwy genfigena wrth deitlau y byd hwn? "Ansefydlog ydynt fel dwfr." O, rhyfedd! y mae y byd yn troi, ac yr ydym ninau bron a dyrysu ar ein taith. I ba le yn awr? beth yn awr, George? Dyma ni eto â dim ond George noeth mewn llaw; y mae y Parchedig wedi ei golli, nid oes yma ond George Heycock wrtho ei hun ger ein bron. Aroswch ychydig, cymerwch bwyll, yr ydych yn rhedeg o flaen eich pwnc, y mae yn rhaid ail ystyried y mater eto; canys nis gellir dyweyd fod Mr. Heycock heb na swydd na theitl, er ei fod wedi ei droi o'r eglwys i ben y ffordd fawr. Pwy sydd yn dyweyd fel yna? Ond, dyna, gwaeth pwy yn y byd, gwyddom nad oes dim drwg i edrych dros bethau eilwaith ac eilwaith, eithr yn hytrach lles yn gyffredin. Yr ydym yn gweled yn awr wedi ystyried rhyw gymaint uwch ben y pwnc, ein bod wedi bod yn fyrbwyll; canys dywedasom, ei fod wedi ei droi allan heb na swydd na theitl, ond mewn amryfusedd y dywedasom hyny, y mae yn ddigon tebyg. Y mae hyn yn ddigon amlwg, collodd yr hen deitlau, ac, o ran ei berthynas â'r offeiriadaeth, collodd y cwbl. Ond y mae ei esgymundod, yn gymaint nad oedd pechod yn achos o hono, yn ei ddwyn i afael teitlau anrhydeddus eto. Y mae yr erledigaethau hyn wedi cysylltu teitlau uwch â'i enw na Pharchedig, ïe, ag na Gwir Barchedig ychwaith. Bwriwyd canoedd o ddynion allan o'r eglwys o'r blaen, y rhai sydd yn dysgleirio fel sêr ar ddalenau hanesyddiaeth, ac a ddysgleiriant hefyd hyd ddiwedd y byd, y rhai a adnabyddir wrth yr enw "*Ejected Ministers.*"

Ar yr un pryd, peth ffol fyddai meddwl am fynyd y gallai dyn fel hyn ymfoddloni ar enwau a theitlau heb ryw beth sylweddol i wneyd. Fe allai y dylem ddyweyd na roddodd efe i fyny y Ddiaconiaeth Ymneillduol yn yr amser y bu yn gwasanaethu swydd offeiriad gwladol; yr oedd yn gwneyd rhyw gymaint gyda hyny o hyd. Felly y mae efe yn troi ei olwg o'r eglwys gysegredig at ddiaconiaeth y capel, i'r dyben o ymroi yn fwy llwyr ati o'r newydd, gan ystyried fod cylch o ddefnyddioldeb yn hyny. Gwelir ef yn awr yn llafurio yn ddiwyd gyda hyn. Eithr y mae rhai yn dyweyd, ag sydd yn dra adnabyddus o hono, nad yw mor gartrefol ag arfer yn gweinyddu y swydd hono. Ymddengys nad yw yn cael cymaint o flas â chynt; y mae ei feddyliau fel pe byddent wedi myned o dan gyfnewidiad dirfawr yn y tymhor y bu yn yr offeiriadaeth. Ofnir ei fod wedi myned i edrych ar y ddiaconiaeth yn lled isel—fe allai yn *rhy* isel; neu ynte, y mae llawer yn edrych arni yn rhy uchel—un o'r ddau; nis gallwn benderfynu pa un; barned pawb drosto ei hun, a bydded sicr yn ei feddwl ei hun. Hefyd, mae yn amlwg ddigon y byddwn ni yn myned allan o'n cylch eto wrth fyned i drin dadleuon; canys hanesyddiaeth sydd genym mewn llaw, ac nid dim arall.

Pwy sydd ar fai; ai y brawd George Heycock am edrych arni yn rhy isel, neu ynte rhyw rai eraill am edrych arni yn rhy uchel, a thrwy hyny ei hanrhydeddu yn ormodol.Ië, dyna'r tir; dyma olwg eto arni. Ond beth yw hyny i ni? fel y dywedasom o'r blaen; gadewch rhyngddynt â'u gilydd, neu ynte gwnewch fel y gwneir yn gyffredin mewn materion o'r fath—gosodwch y bai yn gyfartal bob ochr. Dyna y ffordd gyntaf i ddyfod i ben â phethau felly. Yr ydym yn cofio am yr hen Heddynad Williams—parch fyddo i'w goffadwriaeth, druan; ni fu erioed ddyn yn fwy diniwed o dan y ser. Yr oedd efe bob amser yn awyddus am wneyd heddwch; nid oedd yr un aberth yn ormod i wneyd er mwyn cyrhaedd y dyben hwnw. Gwnaeth heddwch lawer gwaith, yn ddiau, ar draul cyfiawnder—y fath heddwch ag ydoedd; ond yr oedd yn cael gwneyd y tro y pryd hwnw, yr ydym yn cofio o'r goreu. Taflu y bai ar bob ochr y byddai yr hen Ynad Williams bob amser, beth bynag yn y byd fuasai natur yr ymdrafodaeth; ac y mae yn ymddangos fod llawer un wedi cael dwyn, nid yn unig ei faich ei hun, ond yr eiddo ei gymydog troseddol hefyd rai gweithiau. "Ni bu ffrae erioed," meddai, "nad oedd bai bob ochr; am hyny cerddwch adref yn gariadus, a dechreuwch eich byd o'r newydd." Felly y byddai efe bron bob amser yn dyweyd; ac y mae yn amlwg, yn enwedig i'r meddylgar, fod y ffordd hon yn arbed llawer o drafferth i chwilio y gyfraith ar wahanol achosion. Yn ddifrifol, y mae yn anhawdd credu fod dynion mor ddigrifol ag y byddai yr Ynad Williams ar brydiau. Yr oedd dyn yn y gymydogaeth, yr hwn a adwaenid wrth yr enw Wil o'r Twmpath; dyn diniwed ddigon, a pharchus yn y gymydogaeth. Prif ddifyrwch y cyfaill William ydoedd trin coed afalau; ac yr oedd ganddo un o'r perllanau goreu yn

yr holl wlad. Byddai gwreng a boneddig yn methu peidio edrych wrth fyned heibio, yn enwedig yn amser ffrwythau. Un haf, yn benodol, yr oedd perllan Wil yn edrych yn ysplenydd, yr oedd y coed yn plygu gan doraeth y ffrwythau; byddai yn anmhosibl myned heibio heb edrych yn ddyfal, ac wedi myned heibio, o braidd y gallesid peidio troi yn ol i edrych wed'yn. Bid a fyno, y mae yn debyg fod rhyw rai gerllaw yn methu gwrthsefyll y demtasiwn, canys ar ryw noson torwyd i mewn, a gwnawd galanastra afresymol ar y ffrwythau; ac nid ychydig oedd y cynhwrf boreu dranoeth, a bod yn sicr i chwi.

Yr oedd yr *hue and cry* fawr drwy yr holl wlad, hwn a'r llall yn cael eu cyhuddo, a phawb, "coed, maes, a mynydd," yn gwadu. Eithr, wrth edrych yn fanylach, a chyda mwy o bwyll, i'r amgylchiadau, cafwyd allan i foddlonrwydd pwy oedd y lleidr. Mewn tŷ cyfagos, ar ael y bryn, yr hwn a elwid y Tŷ Draw, yr oedd dyn o gymeriad lled amheus yn byw, yr hwn fyddai yn chwiwladrata drwy y blynyddau, meddent hwy. Nid oedd yn rhyw leidr mawr, serch hyny, canys nid ydym yn cofio clywed erioed iddo ladrata buwch na cheffyl, ond yn unig byddai ambell ddafad yn myned yn eisiau, ac ychydig o ieir a gwyddau, a rhyw bethau felly. Y mae William yn drwgdybio Shon o'r Tŷ Draw; ac wedi cael gafael ar hen gwnstabl—y maent yn taro i bant, i chwilio meddianau Shon. Chwiliasant y tŷ o'i gylch, heb gael dim; ond wrth edrych i mewn i dwlc mochyn gerllaw, dyma y dirgelwch yn dyfod i'r golwg; dacw guddfa o dan y gwellt o ddau gwd o afalau o leiaf. Dyma y mater ar ben; cyhuddwyd Shon, a dygwyd ef allan o law o flaen yr Ynad Williams. Dyma fater o bwys, meddai pawb; fe ddaw rhyw beth go ddifrifol o hwn, cewch weled. Yr oedd canoedd wedi myned i glywed y treial, canys yr oedd ysgolfeistr y pentref wedi dyweyd, "*It is a case of transportation.*" Profwyd i foddlonrwydd pwy oedd y lleidr; ac nid hir ychwaith y bu Shon cyn cyffesu ei euogrwydd. Fe fydd rhyw beth yn awr heb roi y bai ar bob ochr. Aeth Mr. Williams o'r neillldu i ystyried ei ddedfryd; ac wedi cryn dipyn o amser o ystyriaeth bwyllog uwchben y mater, y mae yn dychwelyd i'r llys i ddarllen y *sentence.* Y mae pob peth mor ddystaw â'r bedd; clywsech nodwydd ddur yn syrthio i'r llawr; oblegyd yr oedd pawb, heb eithriadu, yn dysgwyl yn awr am farn bwysig ar y troseddwr. Ust! dacw yr Ynad Williams yn dyfod â phapyr yn ei law, ac yn darllen ffrwyth ei ymchwiliad i'r gyfraith wladol fel y canlyn. "Y mae Shon Tŷ Draw wedi ei brofi yn euog yn wyneb y gyfraith o yspeilio perllan William o'r Twmpath. Y mae yn eglur yn wyneb y gyfraith na ddylasai Shon fyned i mewn ac yspeilio afalau William; y mae hyny yn beth na ddylid wneyd, canys y mae yn groes i gyfraith ein tir wneuthur y cyfryw weithredoedd; ac hefyd yn gamwedd yn erbyn meddiant dyn arall, canys y mae gan bob dyn hawl yn ol cyfansoddiad Ynys Prydain i gadw y peth sydd gydag ef."

Wrth wrando ar yr esboniad medrus a goleu hwn o'r gyfraith,

yr oedd pob perchen anadl yn gweled yn amlwg ei bod yn troi yn ddihafarch yn erbyn y gwr o'r Tŷ Draw, ac o blaid y gwr o'r Twmpath, ac y buasai yr olaf yn cael iawn am ei golled yn ddioed. Eithr y mae Mr. Williams yn myned rhagddo, ac yn dwyn egwyddorion newyddion i'r golwg, na feddyliodd y werin gyffredin am danynt o'r blaen. Y mae yr Ynad yn myned yn y blaen, ac yn dywedyd, "Y mae egwyddor arall yn nghyfansoddiad Ynys Prydain ag sydd yn lleddfu llawer ar yr hyn a ddywedwyd, sef, na ddylai neb, hyd y mae yn bosibl yn y byd, osod temtasiynau o flaen ei gymydog, a thrwy hyny ei *lithio*, ac felly achosi y bai. Yn awr, yn ol yr egwyddor oruchel hon, mae yn eithaf amlwg, yn wyneb ysbryd y gyfraith, na ddylasai y gwr o'r Twmpath blanu y coed afalau yn ngolwg y ffordd fawr, ond y dylasai eu dirgelu yn fwy, trwy eu gosod mewn congl o'r neilldu y tu draw i'r piniwn pellaf; ac hefyd, ar y cwbl, buasai y lle hwnw yn llawer mwy cysgodol. Gan hyny, yn gymaint a bod y coed wedi eu gosod mewn lle profedigaethus, a bod yn anhawdd, yn amser ffrwythau, fyned heibio heb deimlo dymuniad i'w profi, barn y llys ydyw fod bai bob ochr, ac mai cyfiawnder yw rhoi y costau yn gyfartal." Fel hyn y byddai yr Ynad Williams yn penderfynu materion, o ba natur bynag, fel ag y daeth pawb drwy y wlad bron mor gyfarwydd yn nghyfreithiau Ynys Prydain ag yntau. Mewn gwirionedd, yr oedd hyd yn oed y gwragedd a'r plant wedi dyfod i ddeall y manylion yn y gyfraith wladol.

Bellach, nid oes genym ninau ddim gwell na mabwysiadu yr un llwybr â'r ynad dysgedig, yn nghylch y pwnc o dan sylw; ac yna penderfynir y cwestiwn yn fyr, yn gryno, ac yn bur ddiddolur i bawb, ond yn unig y rhai hyny ag sydd yn dyoddef cam a cholled. Bydded pethau fel hyn, neu fel arall, gadewch iddynt, er mwyn myned yn y blaen; un peth sydd yn ddigon amlwg, fod ein harwr wedi myned i edrych i lawr gyda rhyw gymaint o ddirmyg ar y ddiaconiaeth, gan ystyried fod hyny yn rhy fach o beth iddo ef mwyach, ac felly yn dyheu am gylch helaethach o ddefnyddioldeb. Ymddengys fod yn anhawdd bellach beidio teimlo "yr hen 'ffeir'ad" yn y fynwes; y mae yn anhawdd bob amser annghofio yr enw anrhydeddus, y Parchedig George Heycock. Wrth ddywedyd felly, nid ydym yn bwriadu rhoi ar ddeall mai pethau felly oedd y cwbl, ac nad oedd dim ond teimlad o ddarostyngiad yn effeithio dymuniad ac ymgais i godi wed'yn. Na, na; pell ydym rhag meddwl felly. Ar yr un pryd, tra y mae dyn yn ddyn, neu yn fwy penodol, fe allai, tra y mae dyn yn dal perthynas a'r byd hwn, go anhawdd yw iddo yn aml ddianc yn llwyr rhag teimladau o'r natur yma. Canys byd go gymysglyd, fel y gwyddoch, ydyw hwn; a rhwng y drwg a'r da mewn ymgyfarfyddiad â'u gilydd, "nid pur dim."

Gadewch yn awr bob peth fel y mae, bydded dda bydded ddrwg, ac awn yn y blaen, o gam i gam, goreu y gallom.

BODLEIANA

## PENOD VII.

YR oedd George yn ddiacon o radd uchel iawn; nid edrychid arno ef fel y diaconiaid cyffredin ar hyd y wlad; eithr byddai yn sefyll ar dir mwy anrhydeddus na hyny, a mynych y cyferchid ef fel yr *archddiacon.* Er hyn oll yr ydoedd yn methu gweled y cylch hwnw yn ddigon eang iddo ef droi ynddo heb daraw yn erbyn yr ochrau. Y mae dynion yn dechreu siarad y peth hyn a'r peth arall, a drwg ewyllys yn dyweyd mai chwant ymddyrchafu sydd ynddo, a bod yn ddyn mawr. Yn wyneb rhyw ymddyddanion yn nhŷ y capel—deallodd y llygadgraff fod pregethu o dan gopa ein harwr; a dyma y swn yn myned allan, a mawr y syndod oedd mewn rhai cylchoedd. Eithr nid oedd sicrwydd am hyny eto, dim ond *'specto.* Beth bynag, ryw dro wedi cyfarfod yn nhŷ y capel, dywedodd George yn ddystaw ac mewn ymddiried wrth ychydig o benaethiaid y bobl, gan ddymuno arnynt ei gadw yn ddystaw am dipyn bach, nes cael amser i ystyried, a gweddio hefyd uwchben y mater, am ddim a wyddom ni. Felly fe ymadawyd, a phawb yn addaw selio y weledigaeth. Eithr boreu dranoeth, dyma y gath yn cael ei gollwng o'r cwd, a'r *hue and cry* rhyfeddaf a glywsoch erioed ar ei hol. Mor gynted ag i'r creadur wneyd ei hymddangosiad, dacw yr holl bentref yn codi, ac ar ei hol o dŷ i dŷ, ac o heol i heol, a'r gwragedd a'r plant yn gwaeddi nes oedd y plwyf yn adsain. Dacw Dafydd Domos, chwaithach hyny, yn neidio i fyny, a phastwn dychrynllyd yn ei law, yn ddigon mawr i lorio tarw, a chyfarfod ag ef ar ei ben yn iawn; dacw Betti y wraig yn ei ganlyn, a phedwar o blant yn rhedeg nerth eu traed. Y mae Bess o'r Constant yn neidio o ganol yfed tê, fel creadur gwallgof, wrth glywed y gwaeddi, ac allan â hi ar ffrwst, gan edrych fel pe na wyddai o herwydd y peth. Dacw y gath, druan, yn myned heibio tŷ Wil Rosser, a chan gymaint y mwstwr, wele Pegi Rosser yn neidio yn ddifyfyr, ac yn anffortunus yn tynu yr holl llestri oedd ar y ford yn ganddryll i'r llawr; a Wil y gwr yn rhedeg tua y drws mewn syndod, a chlwt o fara a chaws yn ei law, i edrych beth oedd y mater. Hawyr bach! y fath gynhwrf sydd yn y pentref! a welwch chwi? edrychwch, edrychwch, dyna Mari o'r Glais yn taro allan drwy y drws, yn fwy tebyg i ellyll nag i ddyn, a'r ysgubell yn ei llaw, ac yn gwaeddi yn groch, "Tarewch ymenydd y gath." Diangodd y bwystfil, beth bynag, tua chymydogaeth y Cwrt uchaf, ac mewn hen ysgubor cafodd loches mewn rhyw dwll, ac felly hi a ddiangodd o'u dwylaw hwynt. Aeth yr helfa hon heibio; ac fel y rhan fwyaf o gynhyrfiadau eraill, mewn ychydig amser tawelodd, a daeth pob peth i'w ddull arferol. Daeth y bobl i'w synwyr â'u hiawn bwyll unwaith eto; oblegyd erbyn ystyried, yr oeddynt yn gweled yn eglur eu bod yn rhedeg yma a thraw heb wybod yn y byd am beth. Felly y bydd dynion yn aml yn nghynhyrfiad y foment; ond wedi yr elont i'w tai, a myfyrio ar eu ffolineb, nid mor

hawdd yw eu twyllo allan wed'yn. Canys ymddangosodd y gath eilwaith, pan y deallwyd mai nid cath wyllt ydoedd, ac mai rhyw greadur dyhir a gododd *hue and cry* o bwrpas i daflu yr holl ardal i derfysg. Fe fydd pethau fel hyn yn dygwydd yn awr ac eilwaith, ond na chymerwch fraw, gadewch iddynt, nid ydynt o nemawr barhad, fel afon yn gorlifo wedi diwrnod o wlaw, eithr yn fuan y gwelwch hi yn ei ffordd arferol.

At y pwnc eto. Ië, at y pwnc yn sicr. Nid oes neb yn fwy na ni am gadw at y testun; er ar yr un pryd yr ydym yn barod i gredu ein bod yn methu weithiau. Ar yr un pryd, cofiwch mai nid nyni yw yr unig rai ag sydd yn dyweyd *llawer*, ac yn methu gwneyd ond ychydig wedi'n. Na, na; ni a wyddom am eraill fel hyny, cynddrwg llawn a ninau, os nid rhyw gymaint yn waeth. Ond dyna, gofaled pob un am ei waith ei hunan, fe ddichon y gall hyny fod yn ddigon o waith. Dywedyd yr oeddem i'r gath ddyfod allan o'r cwd, yn nghyda'r helfa ddychrynllyd a gafodd ar ei hymddangosiad cyntaf. Fe allai mai gwell yw ar y cwbl ddywedyd yn amlwg, heb na drych na dameg, gan y dichon y bydd yn haws i bawb ddeall. Y mae ein harwr yn awr yn dechreu son am bregethu yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd; ac nid ychydig o syndod y darfu hyny greu pan y dechreuodd yr hanes ymledu. Yr oedd y bobl yn agor eu llygaid, nid o bwrpas, i'r dyben o wneyd rhyw olwg hyll, eithr yn annghydwybodol, heb yn wybod iddynt eu hunain. Ië, nid yn unig eu llygaid, ond eu penau hefyd, fel pe buasai hyny yn gwneyd ryw help. Ond o dan yr amgylchiadau, ni wyddent beth yr oeddent yn ei wneuthur; canys yr oedd eu cyfansoddiadau fel pe buasent o dan effeithiau y peiriant gwefrol. Pan yn dechreu dyfod i'w synwyroldeb a'u teimladau naturiol, dyma hwynt yn dechreu gofyn pob math o gwestiynau yn y byd; yn union fel y bydd rhai yn siarad trwy eu cwsg—"Beth, George yn myned i bregethu! George Heycock yn son am fyned i bwlpud! Hawyr! George yn son am fyned i blith y prophwydi! Pa fodd y darfu iddo feddwl am y fath beth yn awr? Peth rhyfedd, os ydyw wedi ei alw i bregethu, nad alwesid ef yn gynt. Y mae yn gryn ddiweddar bellach i feddwl am y cyfryw orchwyl. Pa reswm yw dechreu gweithio y pryd hyn o'r dydd? Pwy, meddech chwi, sydd yn dechreu ar orchwyl mawr yn hwyr y dydd?" Fel hyn yr oedd y bobl yn siarad; a chwaneg o lawer na hyn. Fe fydd ryw lawer o siarad yn nglŷn â phethau fel hyn, ar y goreu; ni welsoch chwi erioed na fuasai llawer o ddadleu, *pro and con*, yn ol ac yn y blaen, o chwith ac o dde, o blaid ac yn erbyn, mewn cysylltiad â mater o'r natur hwn; eithr yr oedd yr achos hwn yn ymddangos yn fwy rhyfedd, ac yn cynwys ynddo fwy o hynodrwydd nag achosion o'r fath yn gyffredin; yn un peth am ei fod wedi ei adael mor ddiweddar cyn cychwyn. Nid rhyfedd mewn rhyw ystyr, fod y bobl yn rhyfeddu cymaint; ar yr un pryd, pe baem yn treulio amser maith i wneyd ymholiadau, paham hyn a pha fodd y llall, fe ddichon na fyddai genym nemawr

ychwaneg i'w ddyweyd uwch ben pwnc dyrys fel hyn, ond yn unig mai felly yr ydoedd. Y mae hyn, fel llawer, ïe, y rhan fwyaf o ddirgeledigaethau eraill, yn ymddangos lawn cystal, os nid gwell, wrth eu gadael yn llonydd.

Beth bynag yw y dirgeledigaethau sydd yn ngwahanol amgylchiadau y pregethu, y mae un peth yn ddigon amlwg i bawb a adwaenai George, nad oedd na byw na bywyd heb ei fyned i bregethu, bydded cam, bydded cymhwys. Yr oedd pregethu wedi meddianu ei enaid yn llwyr; a thybiai y gallai wneyd gwyrthiau yn y ffordd hono, gan droi ein byd bach ni wyneb i waered yn mhen ychydig iawn. Yr oedd wedi clywed llais yn dywedyd, "Pregetha y gair," ac iddo ef yr oedd yn seinio fel yr alwedigaeth nefol; a theimlai ei hun o dan rwymedigaeth uniongyrchol i dalu ufudd-dod iddo. Pan yn gwasanaethu swydd offeiriad, byddai yn arfer dyweyd, "Myfi sydd wedi fy ngalw, eithr arall sydd yn gwisgo y crys." Felly, nid yw yn petruso dim eto yn nghylch yr alwedigaeth; o ganlyniad mae yn ystyried yn gydwybodol mai dyledswydd pawb yw troi oddiar y ffordd, a pheidio sefyll yn ei erbyn, gan "wingo yn erbyn y symbylau." Y mae yn yr adeg bresenol yn annyoddefol i wrthwynebiad, gan ystyried nad oedd hyny yn ddim ond gelyniaeth yn ei erbyn. Nid gwiw cynghori, y mae yn taflu y rhai hyny y tu ol i'w gefn, gyda dirmyg; nid oeddynt yn werth dim, canys gwyddai yn well na phawb; yr oedd yn benderfynol ei fod wedi clywed yr "alwedigaeth nefol." Yr oedd cyfaill lled awdurdodol, yr hwn a dybiai ei hun yn rhyw un mawr--ac yn wir, yr oedd yn fawr hefyd, mewn llawer ffordd—yn siarad â George yn nghylch y pregethu, ac yn ei orchymyn, nid ei gynghori, i beidio siarad am y fath beth byth mwy, gan awgrymu ar yr un pryd, y byddai efe yn defnyddio ei awdurdod yn y lle priodol i'w orfodi at hyny, os na wnai trwy foddion tyner a theg. "Wel, syr," ebe yntau, "fe allai yr â eich awdurdod mor bell a dodi George yn ngharchar; ond nid wyf yn teimlo cymaint yn nghylch hyny; gallaf fi oddef carchar a rhwymau yn burion; eithr yr wyf yn gallu wylo y fynyd hon fod y fath awdurdod yn nwylaw gweilch o'ch bath chwi â rhwymo gair Duw. Cofiwch, syr, nas gellwch rwymo George Heycock heb rwymo gair Duw; am hyny edrychwch beth yr ydych yn ei wneyd. Yr ydych fel y ci yn y preseb yn union; nid ydych yn gallu pregethu eich hunan, ac yr ydych yn sefyll yn erbyn dynion all ei phregethu." Nid oes dim i'w wneyd bellach ond cymeryd y llwybr arferol, a gadael i'r achos ddyfod ger bron yn rheolaidd. Felly y penderfynwyd; ac yn awr dacw y mater yn dechreu cychwyn yn araf, ac yn dyfod yn y dull arferol ger bron y gynulleidfa. Erbyn hyn, yn gymaint a bod y peth yn agored i ymchwiliad, y mae hwn a'r llall yn cymeryd eu rhyddid i'w drin a'i droi, a thrwy hyny y mae gwahanol feddyliau yn dyfod i'r golwg. Y mae un brawd yn petruso yn ddirfawr yn nghylch yr alwedigaeth; un arall yn amheu a oes cymhwysderau priodol; y nesaf yn gweled y dyddiau wedi rhedeg

yn mhell; ac ambell un yn dyweyd nad oedd yn dewis sefyll yn erbyn, rhag ofn gwrthwynebu rhyw ddaioni. Eithr yr oedd y rhan amlaf o lawer yn ddystaw, fel pe buasent mewn syndod dwfn, yn llygadrythu, yn dylyfu gên, ac yn ymestyn megys pe am ymaflyd mewn rhyw wrthddrychau anweledig. A welsoch chwi gynulleidfa o ddynion yn y fath agweddau o'r blaen? Wfft byth i'r fath gwrdd! Er hyn oll yr oedd agwedd ein gwron fel y graig, yn ddisigl drwy y cwbl; nid oedd na gaing, morthwyl, na gordd, yn effeithio dim yn y byd arno. Dacw efe yn awr yn nghanol y côr, yn sefyll fel cawr, yn taflu ei fraich chwith allan, tra y byddai y llall yn trin y llawffon, ac yn dyweyd, "Meddyliwch chwi y peth a fynoch, y mae yn rhaid i mi ufuddhau i'r alwedigaeth nefol." Yr oedd wedi penderfynu bod yn bregethwr; beth dâl siarad?

Yn unol â'r arferiad cyffredin yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd, penderfynwyd cyflwyno yr achos, yn ei holl ddyryswch ymddangosiadol, i sylw y Cyfarfod Misol, gan feddwl, fel y byddis yn gyffredin, fod yno fwy o oleuni i gael ar faterion fel hyn nag sydd yn mhlith y werin. Felly fe gyflwynwyd y mater yno; eithr nid oedd yn ymddangos yn "weledigaeth eglur," hyd yn oed yn mysg yr henuriaid. Yr oedd y bobl hyn, er eu manteision a'u rhagorfreintiau uchel, yn debyg iawn i "ddeillion yn ymbalfalu ar bared," ac yn methu yn un wedd a chael gafael ar y drws. Y peth a darawodd un o'r henuriaid yn effeithiol oedd, os oedd yr alwedigaeth yn nefol, na fuasai yn gynt; fod yr adeg bron wedi darfod, amser gweithio wedi rhedeg yn mhell, a'r cynhauaf agos wedi myned heibio; ac yn wyneb pethau felly, nad oedd nemawr o reswm yn ymddangos yn y cais. Eithr wedi ychydig o ystyriaeth ychwanegol, a throi y peth wyneb a chefn, i gael edrych arno o bob cyfeiriad, a chaniatau fod dirgeledigaethau i'w cyfarfod yn mhob man braidd, daethpwyd i'r penderfyniad unfrydol i ddanfon cenadwri yn ol ato i ddyweyd, "Fod y cyfarfod hwn wedi synu peth wrth y cais; ei fod yn ystyried ei fod wedi myned yn bur hen i ddechreu ar y gwaith o bregethu; ar yr un pryd, nad oedd y mater yn cael ei daflu allan yn hollol, ond dymunir iddo gymeryd ychydig o amser yn mhellach i ystyried y peth, ac y gwnai y Cyfarfod Misol hyny hefyd; ac os byddai y teimlad yn parhau yn ei feddwl, y gallesid gwneyd ystyriaeth pellach o hono ryw amser dyfodol." Felly y mae'r penderfyniad.

Y mae yn debyg i'r cenadwyr, rhag nas gallasent gofio yn drefnus, gael y genadwri ar bapyr; ac felly cyflwynwyd hi iddo yn bur drefnus yn y ffurf hono. "Dyma genadwri y Cwrdd Misol, George," ebe un o honynt, a chyda hyny yn estyn y papyr iddo i'w ddarllen. Gallasech ganfod yr holl gyfansoddiad yn myned o dan gyfnewidiad cyflym; y wyneb yn troi yn welw, y llygaid yn bywiocâu, a chryndod yn ymaflyd yn y dwylaw, gan faint y pryder yn nghylch cynwysiad y papyr, yr hyn oedd fel dedfryd ar ei achos. Y mae dros ychydig, yn eglur, wedi colli

pob hunan-feddiant, ac yn methu yn un wedd a chael gafael ar y *spectol.* Ymddengys yn y gwylltineb mwyaf yn myned o boced i boced, ac wedi myned dros ei holl logellau, yn ffaelu rhoi ei law yn y diwedd ar y gwydrau. "Yn enw pob peth," meddai, "i ba le yr aeth y *glasses?*" Eithr erbyn chwilio drachefn, yn llogell y siaced fach, lle y gosododd ei law ar y cyntaf, yr oeddynt wedi y cwbl. Wel dyna, dacw'r *glasses* ar y llygaid; y mae yn darllen yn bryderus, y mae yn hawdd canfod, a phob llinell yn gwefru pob gewyn, ïe, yn gosod naturiaeth yn fflam. Wedi ei ddarllen drosodd, y mae yn ymddangos yn arafu, eithr nid ydoedd yn ddim ond cynhyrfiad yn cymeryd ffurf cyndynrwydd. Y mae yn tynu y gwydrau yn araf, yn eu cau i fyny, ac yn eu gosod yn ol yn ei logell, yn dal y papyr yn ei law, ac yn edrych yn llygaid y dynion, gan ddywedyd, "Wel, yr wyf wedi gweled llawer o bapyrau yn fy oes, yn Gymraeg ac yn Saesoneg, eithr hwn yw'r ffola' y darfu i fy llygaid i edrych arno, oddiar pan y ganwyd fi. Pe buasai rhyw synwyr ynddo, gallesid ymostwng yn weddol; ond pwy all ymostwng i farn cryg o ffyliaid?" "George," ebe un o'r cyfeillion, "ai felly yr ydych chwi yn siarad am eisteddle yr henuriaid? Fachgen, ymswyna!" "Ymswyn! nid oes rhaid i mi ymswyn," meddai; "yr wyf fi yn dywedyd, a mi ddywedaf tra f'wyf byw, mai hwn yw y llythyr ffola' a welais erioed. Gallesid meddwl na fuasai neb dynion yn eu maintioli, ac yn eu cyflawn synwyr, byth yn penderfynu peth mor ddwl a hyn. Cerddwch a dywedwch wrthynt am astudio *logic* cyn danfon eu penderfyniadau allan mwy, yn enwedig i ddynion ag sydd yn deall. Y mae rheswm yn cywilyddio ac yn gwisgo gorchudd ar ei wyneb o herwydd y fath afresymoldeb. Ni wnaf ymostwng byth i hyn."

Yr oedd brawd difrifol yn sefyll o'i flaen, yr hwn oedd yn teimlo cryn barch ac ymostyngiad i'r henaduriaeth, fel y mae yn gweddu i bawb wneyd, yn amneidio â'i law arno i dewi; eithr nid oedd hyny yn cael effaith briodol; yn y blaen yr oedd George yn myned, heb un gadwraeth ar ei enau. Ond o'r diwedd, dyna y brawd hwnw yn gwaeddi allan, "George, yr wyt yn myned yn rhy bell, fy ngwas i; cymer bwyll; yr wyt yn sicr o fod yn cablu urddas; nid yw yn beth tebyg y gelli di farnu gystal a hwynt, fy ngwas i, am hyny taw son, rhag dy gywilydd." Gwnaeth y bregeth hon ein harwr yn waeth o lawer; dyma efe yn dechreu taclu y *spectol* ar ei lygaid o'r newydd, yn edrych ar y penderfyniad eilwaith, yn ei ddadgymalu gymal oddiwrth gymal, gan brofi yn oleu ac yn eglur iawn, tebygem ni, nad oedd llwchyn o *logic* ynddo. "Yn awr, clywch ddarllen y penderfyniad," ebai. 'Yr ydym yn barnu eich bod yn rhy hen,' dyna y cymal cyntaf. 'Aroswch ychydig yn *hŵy*, nes y cawn weled yn mhellach, a gwnawn ninau gadw eich achos dan sylw yn y cyfamser.' A ydych chwi yn gweled rheswm yn hyn?" meddai. "Dywedyd fod dyn yn rhy hen ar hyn o bryd, ac ar yr un anadl yn dyweyd am aros ychydig yn hŵy? A ellwch chwi ddyweyd wrthyf pa un

ai henach neu yn ieuangach y bydd dyn yn myned wrth aros blwyddyn neu ddwy yn hwy? Os yn henach, gan yr ystyrir hyn yn annghymhwysder, pa reswm sydd mewn dyweyd wrth ddyn am aros dipyn eto? Onid yn rhy hen yr wyf fi eisoes, meddant; ac os gwnaf eu cynghor hwynt, byddaf yn henach eto cyn dechreu ar y gwaith. A oes *logic* yn hyn? Un tamaid erioed. Pe buasent yn deall *logic*, dywedasent, 'Y mae wedi myned yn lled hen, druan; dywedwch wrtho am ddechreu gynted byth ag fydd posibl, onide aiff y tymhor heibio cyn y gall wneyd nemawr o ddim. Ond y mae yn debygol fod y bobl hyn wedi meddwl i mi ddyfod yn ieuangach wrth aros i ystyried am flwyddyn neu ddwy eto. Pw, pw! *nonsense* i gyd, nid oes swmp tywodyn o *logic* yn hyna." Eithr *logic* neu beidio, fel yna gorfu iddi fod, a bu raid iddo blygu i'r penderfyniad, er mor anrhesymol yr ydoedd yn ymddangos iddo ef.

Dan gofio hefyd, rhyw ffurf o blygu ydoedd, canys yr oedd y brawd George yn pregethu o dŷ i dŷ, ac mewn angladdau, eisoes, a daliodd ati trwy y tew a'r teneu, er y penderfyniad a phob peth.Ië, ychwaneg na hyn; canys byddai y bobl yn danfon am dano ar hyd y wlad yn mhob man pan y byddent heb bregethwr, a byddai yntau yn myned ac yn cadw y gwasanaeth dair gwaith, fel pob pregethwr arall, ond yn unig ei fod ef yn sefyll yn y *seat* fawr yn lle y pwlpud, ac yn darllen ei destun, ond nid yn dyweyd yn mha benod ac adnod yr oedd. Yr oedd efe i bob dyben a phwrpas yn bregethwr, oddieithr yn y pethau a nodwyd. Byddai yn darllen fel pregethwr, yn rhoi gair i ganu fel pregethwr, yn gweddio fel pregethwr, yn pregethu fel pregethwr, eithr nid oedd yn sefyll fel pregethwr, nac yn dyweyd ei destun fel pregethwr; onide, yr ydoedd efe fel pregethwr yn mhob peth arall. Safai yn nghanol y côr, nid oedd hyny fel pregethwr; ni ddywedai y benod a'r adnod, ac nid oedd hyny ychwaith fel pregethwr; ac yntau a deimlai yn ddiflas iawn na chai fod yn bregethwr cyflawn, fel rhyw bregethwr arall. Y dull y byddai yn dyweyd ei destun oedd fel y canlyn, "Y mae'r adnod hono wedi taro ar fy meddwl, fy nghyfeillion, 'Haul Cyfiawnder a gyfyd i chwi, &c.'" Pregethodd lawer ar yr adnod hono cyn ei fod yn bregethwr; a phregethodd yn debyg yr un peth oddiwrthi eilwaith wedi dyfod yn bregethwr cyflawn. Yr oedd ganddo ragymadrodd lled gryno, yna esbonio ac egluro, yna rhanu y testun i dri phen cyffredinol, a phedwar pen neillduol ar bob un o'r penau cyffredinol, a thri phen eilwaith wrth ddybenu, y rhai a elwid yn gasgliadau. Yr oedd efe fel pob pregethwr arall, ond yn unig y ddau beth a nodasom uchod. Fel hyn y bu, am gryn amser, yn myned o fan i fan, ïe, i bob man y cai alwad, gan draddodi yr efengyl yn y wedd hon i bawb ag oedd yn ewyllysio gwrando, nes codi gryn gynhwrf yn ei gylch, canys, meddent, yr oedd yn rhodio yn afreolus. Byddai rhai yn dywedyd ei fod yn myned o amgylch i bregethu heb ganiatad; eraill yn taeru mai nid pregethu ydoedd, mai traddodi gair o gynghor y byddai, ac y gallasai diacon, neu

ryw un arall, wneyd hyny, heb droseddu yr un rheol yn y byd. Nid yn unig yr oedd cryn ystwr yn mhlith y bobl yn nghylch hyn, eithr yr oedd y duwinyddion hefyd yn petruso, ac yn methu gweled, fel y deallasom wedi'n, lygad yn llygad, pa un a oedd peth fel hyn yn cael ei gynwys yn y gair *pregethu* ai peidio.

Wedi bod uwchben y pwnc pwysig hwn am beth amser, tybiwyd mai gwell fyddai gosod Heycock o dan arholiad; ac os pregethu, pregethu yn rheolaidd fel pawb eraill. Mor ffol y mae dynion call weithiau yn myned! Myned i siarad am reolau mewn cysylltiad â George Heycock, yr hwn sydd wedi ei greu yn eithriad i bob rheolau mewn byd ac eglwys. Gwelsoch ef yn claddu y meirw er ys meityn, fel 'ffeir'ad parchus yn monwent yr eglwys, ac ni bu son am hyny byth mwyach; yr hyn beth, pan ei gwnawd gan dad yn ddiweddar uwch ben bedd ei blentyn, a ymwelwyd â chosp uniongyrchol. Eithriad oedd ein harwr; gan hyny beth dâl siarad am reolau mewn cysylltiad ag ef? Yr un peth yw ceisio "rhwymo yr unicorn â'i dîd mewn rhych, a'i wneyd i lyfnu y dolydd ar eich ol," neu "ddala y behemoth o flaen ei lygaid, a thyllu ei drwyn ef â bachau," neu "dynu y lefiathan allan â bach, a rhwymo ei dafod ef â rhaff," a cheisio darostwng yr hwn a fuasai gynt yn George y *bruiser* o dan unrhyw reolau sefydlog. Mynych y rhwymwyd ef â chadwynau, ac â llyffetheiriau, eithr efe a'i drylliai hwynt fel carth, ac ymaith ag ef i'r diffaethwch, gan waeddi, "Edifarhewch, parotowch ffordd yr Arglwydd." Nid allai neb ei rwymo. Beth bynag, cytunwyd ar ei osod, fel y dywedwyd, o dan arholiad, fel od oedd pregethu yn syrthio i'w goelbren, y gallai fel pob pregethwr arall deithio yn y blaen.

Noson yr arholiad a ddaeth, ac yn ffyddlawn i'w hymrwymiad dyma yr arholwyr yn dyfod hefyd. Y mae y ddau dduwinydd yn gosod achos yr ymweliad presenol yn drefnus o flaen yr eglwys; ac wedi gweled fod pawb yn ddarparedig i'w derbyn, y maent yn galw George Heycock ger bron. Y mae yntau, gyda phob parch, yn ufuddhau i'r alwad; a chan daflu ei goes a'i lawffon yn bur annibynol, dacw efe yn sefyll ger eu bron. Yr oedd yn teimlo yn bur gryf, canys yr oedd wedi bod er ys wythnosau yn myfyrio y "Gyffes Ffydd," ac wedi trysori y rhan fwyaf yn ei gof. Y mae yn debyg i'r arholwyr gymeryd llwybr tra anarferol, ac felly yn annysgwyliadwy i bawb, yn enwedig i'r darpar pregethwr tlawd. Yr oedd rhai yn meddwl, yn enwedig George ei hun, fod hyny wedi ei wneyd o fwriad i'w ddyrysu, er mwyn ei atal i bregethu trwy y ffordd hono. Os oedd hyn yn bod, yr oedd yn anfoneddigaidd iawn; ond braidd yr ydym yn credu hyny. Cwestiynau y Gyffes oedd y rhai y meddyliodd efe gael ei holi ynddynt; a phan welodd efe nad oedd y duwinyddion yn dyfod yn agos at y llyfr hwnw, meddyliodd bod rhyw ddrwg yn bod; a digon tebyg iddo golli ei hunan-feddiant i fesur helaeth iawn. Syrthiodd yn union i'r brofedigaeth o gredu eu bod yn bwriadu ei arwain i ddyryswch. Y mae meddwl dyn yn

dyner yn wyneb amgylchiadau cyfyng; ac mewn ychydig o aflwyddiant, y mae yn dueddol i feddwl y gwaethaf am bob peth.

Yn awr, gadewch i ni edrych am ychydig ar George Heycock o dan arholiad. Yr oedd dysgwyliad mawr yn y lle y noson hono; yr oedd yno wahanol deimladau yn ol natur dymuniadau a gobeithion pob un. Byddai rhai yn gweddio yn daer am iddi fyned i dywyllwch nosol; ac eraill, dan ofni a chrynu, yn dymuno iddi fyned yn ddydd goleu. Y mae y capel wedi ei oleuo yn gynt nag arfer, yr holl ragddarpariaethau yn fwy blaenllaw, a'r bobl yn dyfod i'r cyfarfod yn fwy prydlawn na chyffredin, fel yr oeddynt oll yn bresenol yn dysgwyl, ac nid fel yn aml, oll bron yn absenol, ac yn ymlusgo fel malwod. O ba le y daeth y rhai hyn? Wele yr holl ddefaid wedi eu crynhoi o bob man; y cloff, yr anafus, yr hen a'r fethedig, y darfedig a'r grwydredig, fel pe baent wedi dyfod i gael eu rhifo oll gyda'u gilydd. Y mae rhyw beth mawr i fod. Gellir dyweyd heno ar ddechreuad y cyfarfod, "Wele, yr ydym ni yma oll." Mae y cloc yn mron taro saith; fe allai tua thair mynyd sydd rhyngddo a tharaw. Y mae pob llygad arno, neu ar George, a dystawrwydd yn teyrnasu fel y bedd. Yr oedd yn rhy ddystaw i beswch; teimlodd rhai gryn annghyfleusdra oddiwrth hyn, yn gymaint a'u bod wedi cael anwyd trwm, eithr gwnaethant eu goreu i besychu i'w napcynau. Y mae yn taro saith; dyna wefriad! wele bawb yn cael eu trydanu! Dyma yr arholwyr yn gwneyd eu hymddangosiad; hwynt-hwy, dros enyd, yw canolbwynt sylw yr holl gynulleidfa. Aeth yn beswch gwyllt drwy yr holl le, fel pe buasai holl rwymynau dystawrwydd wedi tori ar unwaith. Y fath drugaredd yw i bethau gael eu cwrs weithiau! Eithr yn gymaint nad allesid parhau yn hir i besychu gyda'r nerth aruthrol hyny, adferwyd dystawrwydd yn fuan; a rhoddwyd ar ddeall gan un o'r arholwyr, fel yr awgrymwyd o'r blaen, natur a dyben yr ymgynulliad presenol. "Yn gymaint mai George Heycock a'i bregethu yw testun sylw y cyfarfod hwn," ebe un o'r brodyr parchus, "fe ddichon y byddai yn well iddo ef ddyfod yn y blaen ar unwaith, fel na byddo dim amser yn myned i golli." Gyda hyn, gyda phob parch i'r awdurdod, dacw'r hen gyfaill yn codi, dan bwyso yn gryn ddyogel ar y llawffon, a phlygu yn ei àr ddeheu yn fwy nag arferol braidd, yn estyn ei ben, yn gwneyd gwefl echrydus, ac yn gostwng ei war, fel pe buasai wedi cael ffonod eisoes. Y mae yn dyfod yn y blaen, yn gosod y llawffon yn gynaliaethol i'r goes wan, ac yn cymhwyso, gan sefyll yn syth ger eu bron. Yr oedd y cawr yn cyfaddef wedi'n ei fod y pryd hyn yn crynu peth. Yn awr, dacw bethau fel pe baent wedi dyfod at eu gilydd; gellir dysgwyl bellach iddynt ddechreu myned rhagddynt.

Wele un o'r arholwyr yn codi, ac yn gwneyd amryw o sylwadau rhagarweiniol, yn nghyda gosod ei hun o ran ei berson mewn agwedd briodol i urddas yr alwedigaeth, ac yna yn dechreu ar ei orchwyl pwysig gyda'r cwestiwn canlynol:—"Pwy oedd y brenin cyntaf?" Mae y cwestiwn cyntaf yn synu George bron i hurt-

wch; canys y mae yn agor ei lygaid, ac yn edrych fel pe buasai wedi dyrysu yn nghanol anialwch gwag erchyll. "Beth!" meddai, "pwy oedd y brenin cyntaf? Cyntaf yn mha le yr ydych yn gofyn? cyntaf yn y byd, neu y cyntaf yn Israel? Gofynwch yn *blain*, fel y gallo dyn ddeall beth yr ydych yn ei feddwl." Y mae George oddiar y goes eisoes. Y mae o dan yr argyhoeddiad fod yr amcan i'w ddyrysu, er mwyn ei rwystro y ffordd hono i bregethu. Y cwestiwn cyntaf yr oedd efe yn ei ddysgwyl oedd yn nghylch y bod o Dduw, fel y mae pethau yn sefyll yn rheolaidd yn y Gyffes; eithr yn lle hyny, dyma bwt o gwestiwn yn cael ei ofyn, fel pe buasid yn myned i holi plant yn y "Rhodd Mam," ac nid holi ymgeisydd am y weinidogaeth Gristionogol. Pa bai George yn gallu cadw ei dymher, fe fyddai yn well; ond yr ydym yn ofni ei fod yn y dechreu wedi ei daflu yn hollol oddiar y goes, fel y dywedir. Bu ei feddwl anffafriol am yr arholwyr yn anfantais iddo yn ddiamheu, canys collodd ei hunan-feddiant arferol agos yn llwyr.

Wedi bod am wythnosau cyn hyn yn darllen y Cyffes Ffydd, gan astudio duwinyddiaeth yn ddwfn, a meddwl yn ddibetrus mai dyna y cwestiynau a ofynid, yr hyn hefyd oedd yn ddigon naturiol i feddwl,—pan ofynwyd, Pwy oedd y brenin cyntaf? yn lle gofyn pwnc o dduwinyddiaeth, y mae yn myned yn drybylog, holl drefn y rhod yn dyrysu, a'r nefoedd yn duo gan gymylau a gwynt. Dechreuodd dywyllu ar y cyntaf, ac aeth yn dywyllach, dywyllach o gwestiwn i gwestiwn, canys yr oedd y naill gwestiwn ar ol y llall yn "arwain i dywyllwch ac nid i oleuni." Erbyn diwedd y cyfarfod, yr oedd y tywyllwch wedi ymdaenu dros yr holl bobl; yr oeddynt fel yn eistedd yn mro a chysgod angau, neu fel deillion yn ymbalfu a methu cael un drws. "Cauais fy llygaid," ebe un brawd, "ac yr oeddwn yn methu gweled dim." Y mae yn hawdd iawn credu y brawd uchod. Peth rhyfedd yw dechreu ymddyrysu; ac yn wir pan fyddo niwl tew wedi ymdaenu dros fynydd, peth anhawdd iawn yw ei groesi, canys y mae dynion cyfarwydd wedi dyrysu i'r fath raddau lawer gwaith, nes credu eu bod yn tynu agos gartref, pan ar yr un pryd y maent wedi troi eu cefnau ar y cyfeiriad hwnw er ys pedair awr. Y mae wedi myned yn niwl tew ar y mynydd hwn, ac mae y bobl yn ceisio hela Nimrod yn y tywyllwch, ac yn methu yn un wedd a chael gafael arno. Hawyr, pa le mae yr heliwr galluog wedi myned? Y mae lle i feddwl ei fod yn fwy cyfarwydd ar y tir hyn na chwi. Eto ymbalfalu yr oeddynt, a rhedeg yma a thraw i geisio cael gafael ar y brenin cyntaf; eithr yr oedd efe yn cadw y blaen arnynt o hyd drwy y tew a'r teneu. O'r diwedd, dyma *hue and cry* yn cael ei glywed fod Nimrod wedi ei ddal yn fyw mewn cell yn yr hen Fabilon. Gyda hyn gwelir gwyll y boreu yn dechreu ymagor, y niwl tew fel pe bai yn ymwasgaru yn raddol, a phob llygad yn dechreu gweled yn mhell ac yn eglur o'r newydd. Mawr mor hapus yw cael ychydig o oleuni ar bethau hefyd; y mae gymaint yn haws myned yn y blaen. Wfft byth, mor fuan

mae y byd hwn yn cyfnewid—y mae cysgodau yr hwyr yn dechreu ymdaenu eisoes o'r newydd :—

"Os tipyn bach o oleuni gawn,
Ar ol nosweithiau tywyll iawn,
Daw tymhestl eilwaith cyn prydnawn,
O ddychryn, aeth, a gwae."

Wedi cael gafael ar y brenin gwyllt, heliwr mawr y dyddiau gynt, dyma ein cyfeillion anwyl yn disgyn i'r Aipht; ac os tywyllwch o'r blaen wrth hela Nimrod, y mae yn saith dywyllach yn ngwlad yr Aipht. Dyma lle y buont o gŵr i'w gilydd o wlad Gosen, yn nghanol tywyllwch y gallesid ei deimlo, wedi colli pob amcan, hyd yn oed am fisoedd y flwyddyn. Yr ydym yn darllen am y rhai oedd wedi eu cau mewn daeardŷ yn Lucknow, eu bod wedi dyrysu yn hollol, nas gwyddent pa bryd yr oedd yn nos na pha bryd yr oedd yn ddydd, yn gymaint a'i bod yn nos yn wastad arnynt hwy. Yr oedd ein cyfeillion, hwythau, wedi crwydro yn ngwlad Gosen nes iddynt annghofio yn llwyr fisoedd y flwyddyn. Danfonwyd George gan yr arholwr i chwilio am blant Israel i dir yr Aipht; a rhwng ei fod ef yn gloff o glun, ac yn heneiddio hefyd, bu yn ymdrybaeddu yno getyn, yn nghanol y clai a'r gwellt, cyn dyfod o hyd iddynt. Yn ffortunus, beth bynag, y mae o'r diwedd yn taro wrth blant Israel yn eu caethiwed caled, ac yna yn gwaeddi allan fel cawr, "Gosen yw enw'r lle." Da annghyffredin; ychydig o ergydion cywir fel yna a ddaw â'r farn i fuddugoliaeth, er gwaethaf pawb. Yn awr, dyma ni yn ngwlad Gosen; i ba le yr awn nesaf? Y mae yr arholwr, debygem, a'i fryd ar ein harwain allan, yn gymaint mai y cwestiwn nesaf yw, "Pa bryd yr aeth Israel allan o'r Aipht?" "Pa bryd? beth yr ydych yn ei feddwl," meddai George; "holwch fel y gallo dyn wybod pa beth yr ydych yn holi, ac nid rhyw beth penagored fel yna." "Wel, ynte," ebe yr arholwr, "a ellwch chwi ddyweyd pa fis yr aethant allan?" "Pa fis? ai nid mis Abib oedd hi?" "Nage," meddai yr arholwr, "nid Abib oedd hi." "Ai ïe, yr oeddwn i yn credu mai Abib oedd hi," ebe George, "ac yr wyf yn credu y gallaf gymeryd fy llw mai Abib oedd hi." "Nage," meddai yr arholwr, "nid Abib oedd hi." Gyda hyn y mae George yn cynhyrfu yn aruthrol, yn taflu ei fraich ac yn gwaeddi allan, "Yr ydych wedi dyfod yma o bwrpas i fy nyrysu; ond nid wyf yn rhoi y goreu i chwi, canys yr wyf bron yn sicr mai Abib yw enw y mis yr aeth plant Israel allan o'r Aipht. Eithr gadewch i mi glywed pa fis yr ydych chwi yn dyweyd ei bod hi?" "Wel, mis Nisan oedd hi, George," meddai y duwinydd. "Nisan, Nisan, ni choeliaf nes cael gweled," ebe yntau; "ond dyna, Nisan neu beidio, dyfod yma a wnaethoch chwi eich dau o bwrpas i fy nyrysu; yr ydych wedi rhagfwriadu hyny cyn dyfod oddicartref; holwch fi yn y Gyffes Ffydd, a holwch a fynoch, mi a'ch atebaf hyd boreu yfory, yn yr holl athrawiaethau. Gwrandewch eich dau; mi ddaliaf un peth yn y byd y gofynaf i chwi ddeuddeg o gwestiynau o'r bron,

ac nad all un o honoch ateb yr un o honynt. Dyma'r cyntaf, Yn mha le y claddwyd Daniel? yn awr atebwch hwna." Gyda hyn, dyma yr arholwr arall, yr hwn oedd yn ddyn bach a gwallt melyngoch, dipyn yn almonaidd bellach, yn codi ar ei draed ac yn dywedyd gydag awdurdod, "*Halt*, George Heycock, cymerwch bwyll, yr ydych allan o drefn, canys nyni sydd i holi yn bresenol, a chwithau i ateb. Cofiwch chwi gan hyny mai dyna drefn y cwrdd heno i fod." "Mi wn hyny yn ddigon da," meddai George; "eithr chwi a ddylech holi yn deg, ac nid fel cnafiaid o bwrpas i ddyrysu dyn. Yr wyf fi yn gwybod y gallaf fi holi deuddeg o gwestiynau ysgrythyrol nad all yr un o honoch chwi ddim eu hateb; onide, os nad ydych yn credu, gadewch i fi fyned yn y blaen; atebed un o honoch y cyntaf yn awr, Yn mha le y claddwyd Daniel?"

Wel, wel, dyma dywyllwch; "Aipht yw'r lle y'm eto'n byw." Crwydriaid ydym yn nghanol gwlad yr Aipht, yn methu cyfarfod â'r drws i fyned allan, ac yn hurtio yn llwyr yn nghylch rhifedi y misoedd. Gadewch i ni weled a oes dim posibl dyfod â'r cyfeillion i gydweled, fel y gallom gychwyn i'n taith fel torf gariadus. Bydd cychwyn oddiyma yn gysurus, beth bynag, pa un a allwn daro wrth well man ai peidio; o leiaf y mae yn anhawdd meddwl y gallwn daro wrth le llawer gwaeth na hwn. Wel, y mae yn rhaid i ni roddi y goreu i'r llall, a chyffesu ei gamgymeriad, ac yna gallwn gychwyn; canys y mae yn anmhosibl fod y ddau yn iawn, gan eu bod fel yna, un yn dywedyd yn groes i'r llall. Wele yn sicr y mae rheswm ar wyneb hyna hefyd; eto, ar ar yr un pryd, y mae pethau ag y mae duwinyddion yn eu galw "yn annghysondeb ymddangosiadol," y rhai erbyn edrych o gwmpas a chymharu pethau â'u gilydd, y gwelir mai cysondeb ac nid annghysondeb sydd ynddynt. Yr ydym yn meddwl fod y brodyr hyn yn agosach at eu gilydd yn y diwedd nag y darfu iddynt feddwl eu hunain. Y mae un a allo roddi ei law ar y ddau yn fwy o fendith nag y mae llawer wedi meddwl. Bellach, gadewch i ni gael dyweyd wrthych yn garedig, "Yr ydych yn iawn eich dau. Bydd hyny yn gysur, onide fe ddylai fod, i chwi glywed. Mis Abib oedd hi, a mis Nisan hefyd; yr ydych eich dau yn gywir. Da iawn yn wir; nid oes eisiau i neb gywilyddio, yr ydych ogyfuwch." Yr un mis oedd y ddau hyn; sef y seithfed mis o'r flwyddyn wladol, a'r cyntaf o'r flwyddyn eglwysig,—Abib yn wladwriaethol oedd Nisan yn eglwysig. Yr ydym yn cael yr Iuddewon, wedi y dychweliad o Babilon, yn galw Abib yn Nisan yn ol y drefn gysegredig. Felly chwi a welwch, Abib y seithfed mis gwladwriaethol oedd Nisan, y mis eglwysig cyntaf. A welwch chwi? yr oedd y brodyr anwyl yn dal yr un peth heb yn wybod y naill i'r llall. Yr ychydig lleiaf erioed, y peth nesaf i ddim, o wahaniaeth oedd rhwng Abib a Nisan, eto bu cymaint a hyny bron yn arwain y cyfeillion i ddyryswch anadferadwy. Peidiwch a gadael i Abib a Nisan fyned rhyngoch mwy, frodyr, canys y ddau hyn yn un y maent.

Y mae yn gof genym am Gymro twymgalon yn myned i ffair gyfagos i werthu ceffyl, pris yr hwn oedd deg punt a chweugain, ac wedi cael ar ddeall cyn cychwyn o gartref mai deg punt a chweugain yn Saesoneg oedd *ten pound ten shillings*. Yr oedd deall y pris yn Saesoneg yn beth a ystyrid yn hollol angenrheidiol, o herwydd fod cynifer o Saeson yn dyfod i'r wlad fel masnachwyr ceffylau. Aeth y brawd, yn ol trefn y wlad, ar gefn un, a'r llall yn ei law, tua'r ffair. Nid hir y bu yno cyn i glamp o Sais o Northampton ddyfod i fyny a gofyn, "*What is the price of the horse?*" "*Ten pounds* chweugain," ebe ein cyfaill; canys yr oedd erbyn hyn, deallwch, yn methu yn un wedd â chofio beth oedd "chweugain" yn Saesoneg; yr oedd yn cofio peth, ac wedi annghofio peth, nes yr oedd yn y dyryswch mwyaf erioed. Yr oedd y Sais wedi syrthio mewn cariad â'r ceffyl, yn dylyn y Cymro yn agos, yn estyn ei law, ac yn dywedyd, "*I say, I will give you ten guineas for that horse.*" "*No, no,*" meddai ein cyfaill, "*Ten pounds* chweugain." Wel, fel yna y bu hi am beth amser, y Sais yn cynyg â'i holl nerth *ten guineas*, a'r Cymro yn gwrthod gwerthu yn un wedd heb *ten pounds* chweugain. Eithr, tra y maent yn y weithred o droi eu cefnau ar eu gilydd, ac annghytuno am byth, dyma Mr. Davies, Tŷ coch, yn dyfod yn ddamweiniol yn y blaen; ac wedi edrych ar y mater gyda chymedrolder a phwyll, darganfyddodd nad oedd dim rhwng y Cymro a'r Sais, ond yn unig fod un yn siarad yn Gymraeg a'r llall yn Saesoneg. Wedi i Mr. Davies egluro hyn, tarawyd llaw mewn llaw yn union, ac i bant yr aeth yr anifail i dir Lloegr. Ein dyben wrth ddywedyd y pethau hyn, yw dangos fod llawer o bethau diflas yn cymeryd lle yn fynych o herwydd fod dynion yn ffaelu deall eu gilydd.

Bellach, beth bynag, y mae ein cyfeillion wedi deall eu gilydd yn nghylch Abib a Nisan, ac o ganlyniad gallwn fyned yn y blaen. Mwy dymunol gan ein harwr a fuasai cael ei holi yn y pethau ysbrydol, y pynciau athrawiaethol, y rhai sydd ar lawr yn y Gyffes Ffydd, nag yn nghylch rhyw fanion hanesyddol. Y mae efe yn teimlo chwant angerddol i fyned rhagddo at berffeithrwydd, a chael digon o ddwfr i nofio, ac nid taro yn erbyn a glynu wrth y glenydd fel hyn. Wel, bellach, dystawrwydd! peidiwch ag ymryson rhagor yn nghylch geiriau, a misoedd y flwyddyn, o herwydd y mae pethau felly yn myned heibio yn gyflym; ewch rhagoch at berffeithrwydd ar unwaith, ac ymddyddenwch bellach yn nghylch yr ysbrydol. Y mae yr arholydd yn cydsynio, ac yn dechreu trwy ofyn y cwestiwn canlynol:—"Pa gymal sydd yn cael ei dori yn meddwl dyn er ei gymhwyso i deyrnas Dduw?" Dyma ofyniad eto nad yw yn taro archwaeth ein brawd George i'r blewyn, tebygem. Y mae yn edrych ar y gair "*cymalau*" yn rhy ddynol o lawer wrth siarad am yr ysbrydol. "Pa gymal a dorir yn meddwl dyn? pa reswm sydd yn hyny?" meddai; "pwy glywsoch erioed yn siarad am gymalau y meddwl? Gofynwch mewn ffordd ddealladwy, a gwnaf ateb eich cwest-

iynau bob un." "George, yr ydych yn myned i natur ddrwg eto, gofalwch am eich tymherau," ebe cyfaill; "canys peth drwg ac anfanteisiol yw i ddyn fyned i natur ddrwg wrth siarad rhyw beth, yn enwedig wrth siarad yn nghylch pethau ysbrydol; peidiwch a bod yn rhy wyllt, oblegyd fel y dywed yr hen ddiareb, Y mae pwyll yn well nag aur." "Y mae y cynghor yn burion," ebe George; "ond pwy all fod yn araf a phwyllog o dan ryw driniaeth fel hyn? Y dynion hyn yn son am 'gymalau' y meddwl! pa gymalau all fod mewn meddwl? y mae dywediadau o'r natur hyn yn hollol anysgrythyrol." "Na, na, yn y blaen â chwi, Mr. Arholydd," ebe ei gyfaill; "yr ydych ar ganol ysgrythyrau; canys y mae yr apostol Paul yn defnyddio yr un ymadroddion pan yn dywedyd, 'trwy bob cymal cynaliaeth;' y mae y *terms* yn eithaf ysgrythyrol; cerddwch yn y blaen." Gwaeddodd George allan gyda hyn, yn fwy tebyg i gawr na dim arall, "*Halt*, syr, chwareu teg! yr ydych yn gwneyd cam â'r apostol Paul; nid am y meddwl y mae efe yn dyweyd yn yr adnod yna, eithr am y corph; am gymalau y corph y mae yr adnod yna yn dyweyd; yr ydych yn gŵyrdroi yr ysgrythyrau. Yr wyf fi yn dyweyd nad oes y fath beth yn yr holl Fibl â chymalau y meddwl. Darllenwch yr adnodau i gyd, ac yna cewch weled yn amlwg; fel hyn y mae yr apostol yn dyweyd, 'O'r hwn y mae yr holl gorph,' nid yr holl enaid, 'wedi ei gydymgynull a'i gydgysylltu, trwy bob cymal cynaliaeth, yn ol y nerthol weithrediad yn mesur pob rhan, yn gwneuthur cynydd y corph.' Dyna brawf diamheuol i chwi o feddwl yr apostol, mai am y corph, ac nid am y meddwl, y mae efe yn siarad. Ond holwch fi yn deg, a mi a atebaf eich holl gwestiynau, eithr nid oes yr un o honoch chwi a all ateb fy nghwestiynau i, onide, atebwch hwn yn awr ——." Eithr cyn gofyn o hono, dyma ryw un yn gwaeddi yn groch, "*Order, order*, George!" ac felly, syrthiodd i'r llawr. Ychydig o *order* oedd yn y cyfarfod hwn, y mae yn rhaid cyffesu; eto y mae yn dda genym ddyweyd, er yr holl gythrwfl, iddo gael ei ddybenu mewn *order*, yn ol y dull arferol o ddiweddu cyrddau, trwy fawl a gweddi. Y mae y cenadau yn ymadael, gyda y penderfyniad yn gymaint ag na ddaeth y brawd Heycock i fyny i'r safon yn ei arholiad, mai gwell fyddai ei atal rhag myned i waith y weinidogaeth. Felly y penderfynwyd hefyd mewn pwyllgor yn y Cyfarfod Misol dylynol, ac felly y rhoddwyd ar ddeall iddo yntau.

Ond ni waeth beth yn y byd, pregethu yn y blaen yr oedd George Heycock yma a thraw ar hyd pentrefydd y wlad yn mhob man. Eithr, fel y dywedasom o'r blaen, nid oedd yn cymeryd testun—hyny yw, nid oedd yn dyweyd yn mha le yr oedd y testun. Tra yr oedd y pwyllgor yn eistedd, ac yn ffurfio penderfyniad i'w atal, yr oedd George yn pregethu; tra yr oedd y genadwri i'r perwyl hyny yn cael ei danfon ato, yr oedd efe ar gyhoeddiad yn ngwaelod y wlad; ac wedi derbyn y genadwri, byddai efe dranoeth, fe allai, mewn rhyw *seat* fawr, yn dywedyd

fod yr adnod hono wedi taro ar ei feddwl, "Haul cyfiawnder a gyfyd i chwi," ac yn pregethu ei chalon hi, er gwaethaf yr holl awdurdodau. "Nis gallai neb ei rwymo." Canys gwnawd y cadwynau cryfaf a welwyd erioed yn morthwylfa Abertawy, eithr nis gallasai y rhai hyny ei ddal. Nid oedd cadwen ddur yn amgenach na rheffyn carth; pan y byddai ysbryd pregethu yn ei gymeryd, darniai y cadwynau, a drylliai y llyffetheiriau yn ganddryll. Wrth weled nad oedd dim posibl ei rwymo, penderfynwyd o'r diwedd ei ollwng yn rhydd, trwy roddi caniatad iddo gymeryd testun, fel pob pregethwr arall. Yr ydym yn annghofio o hyd, nid cymeryd testun ddim, ond caniatad i ddyweyd yn mha le yr oedd y testun, fel pob pregethwr arall. Hefyd, mewn cysylltiad â hyn, cytunwyd iddo gael dosbarth penodol i lafurio ynddo, hyd nes y ceid gwneyd sylw pellach ar yr achos. Cyn pen ychydig, clywid fod George yn mhob dosbarth trwy y sir, os caffai gymhelliad. Felly gorfu i'r cyfeillion ddyfod i'r penderfyniad i'w adael yn llonydd.

Yn awr, mae ein gwron yn bregethwr rheolaidd, chwi a welwch, pe bai reol hefyd ynddi, oblegyd nid yw yn dechreu fel neb arall. Yn lle dechreu mewn lleoedd gweddol ddirgel, fel pob pregethwr arall, ni a'i gwelwn ef mewn lle a elwir Pen y bryn yn traddodi un o'i bregethau rheolaidd cyntaf, mewn cwrdd mawr. Syndod! y mae yn naturiol meddwl fod rhyw beth annhraethol ynddo, cyn ei fod yn cael galwad i le felly mor fuan. Bydded hyny fel hyn neu fel arall, nid oes dim a fynom ni ag ef ar hyn o bryd, yn gymaint mai â ffeithiau y mae a wnelom fel haneswyr. Wrth gwrs gall yr athronydd dynu y casgliadau a welo efe yn dda oddiwrth y ffeithiau hyny. Y ffaith yw, bid a fyno, i Mr. Heycock draddodi un o'i bregethau cyntaf mewn cwrdd pregethu yn Pen y bryn, heb fod nepell oddiwrth ei le cartrefol. Gellid meddwl fod rhyw beth yn hyny. Gan ein bod yn ymwneyd â ffeithiau, fel y dywedasom, y mae yn ddyledswydd arnom gofnodi, na throdd y bregeth hon allan y peth y mae y Saeson yn ei alw "*a great success.*" Anhap oedd hyn hefyd. Yr oedd efe wedi astudio y bregeth yn fanylaidd, ac yn ei chofio yn rhagorol, fel y dywedai; eithr dygwyddodd fod yn y tŷ lle yr oedd yn aros cyn y cwrdd *canary bird*, yr hwn a dynodd gryn lawer o'i sylw. Ac yn gymaint a bod pwnc yn y bregeth yn nghylch rhyfeddodau y Creawdwr yn ngwaith y greadigaeth, temtiwyd ef yn nghanol y bregeth i wneyd cyfeiriad at yr aderyn *canary* oedd yn y cawell yn y tŷ cyfagos; a rhyw fodd, erbyn dybenu son am yr aderyn *canary*, y mae yn methu cofio y rhan arall o'r bregeth; torwyd y cysylltiad wrth gyfeirio at yr aderyn, a methwyd yn un wedd wed'yn cael gan y ddeupen gwrdd; felly, fel y mae yn rhesymol meddwl, taflwyd ein harwr i'r tywyllwch a'r dyryswch mwyaf erioed.

Pe buasai yn dylyn y bregeth yn y blaen, heb ddyfod â'r *canary* i mewn iddi o gwbl, y mae yn ddigon tebyg y cyrhaeddasai yr Amen yn weddol lwyddianus; eithr yn anffortunus, taflodd yr

aderyn bach melyn y cwbl i fethiant ac aflwyddiant y tro hwn. Y mae Pen y bryn uwchben ac ar gyfer porthladd bychan. Yr oedd y gynulleidfa oll yn gyfarwydd â'r môr, ac wedi gweled ymdrech galed lawer gwaith i geisio dyfod i mewn i'r porthladd; eithr ni welsant erioed, meddant hwy, ymdrechfa galetach am hafan na'r tro hwn. Cododd yn ystorm mor sydyn, fel taro dwylaw yn nghyd, yn mron; y llong yn cael ei thaflu yma ac acw mor ddidrugaredd gan wyntoedd cryfion a thonau geirwon, fel yr oedd pawb, ïe, hyd yn oed y rhai mwyaf cyfarwydd, "yn edrych ar forio yn enbyd weithian." Yr oedd yr olwg ar Heycock mewn llong fechan wrtho ei hun, wedi syrthio bron ar ddeufor-gyfarfod, yn nghanol ystormydd ofnadwy, heb na llyw na hwyl-bren, yn dra chynhyrfus. Gyrwyd y llong fach yn ol ac yn y blaen, am draws ac ar hyd, ac yn mhob ffordd annymunol, nes ofni fwy nag unwaith y syrthiai yn ddiarbed ar "leoedd geirwon," ac y byddai llongddrylliad ar y pregethu. Ust! y mae gobaith eto; dacw y morwr gwan yn cael presenoldeb meddwl i ysgafn-hau y llong. Wele y *canary*, er ei dlysed, yn cael myned dros y bwrdd yn un o'r pethau cyntaf, yn nghyda thunelli lawer o alcan; yna y mae yn llwyddo i wthio y bad, trwy lawer o drafferth, i dir sych. Ystorm galed oedd hi. Y mae yn wir i'r hynt hon beri cryn fraw ar lywydd y bad; er hyny fe allai iddi wneyd lles hefyd; canys penderfynodd George fod yn fwy gochelgar, a pheidio cymeryd llawer o adar tramor i mewn byth mwy. Y mae gweled *canary* yn effeithio yn agos gymaint arno ef yn awr ag oedd caniad y ceiliog ar yr hen frawd Pedr gynt. "Pe buasai wedi ei alw i bregethu," ebe un o'i elynion, "a ydych yn meddwl y buasai tamaid o *ganary* yn cael y fath effaith a yna?" Yr oedd y brawd hwn yn siarad yn ddoniol, ac yn eithaf gwybodus a phenderfynol, fel y bydd rhai o'r fath yn siarad yn aml. Ond pa beth yr oedd ef yn ddeall am fater fel yna, gan na fu efe yn ceisio pregethu erioed? Ond y rhai na fu yn gwneuthur rhyw beth erioed, sydd yn cymeryd arnynt wybod fwyaf, y rhan amlaf. Y mae peth fel hyn yn gamwedd, debygid hefyd; eto beth sydd i'w wneyd ond dyoddef? Bydd pethau bychain iawn, fel y gwyddoch, yn rhwystro pethau mawrion yn aml. Aelod bychan yw'r tafod, eto yn ffrostio pethau mawrion—ïe, yn "*fyd* o annghyfiawnder." Ond beth dâl siarad â chenfigenwyr a thuchanwyr? gwell yw eu gadael yn ddisylw i grasbobi yn eu sain eu hunain. Yr ydym yn cofio clywed am offeiriad parchus yn syrthio i brofedigaeth o herwydd fod llai gair na *chanary* wedi ymlusgo i'w bregeth. Yr oedd y gwr da yn ysgrifenu ei bregeth, a thra yn rhoi tro allan, rhedodd y garddwr i mewn, yr hwn oedd yn tynu pytatws yn yr ardd, ac ysgrifenodd y gair "caib," ac ymaith ag ef. Aeth y person yn y blaen â'r ysgrifell heb sylwi dim; ond wrth ddarllen y Sabbath, hawyr da, dyma y cwbl yn myned i ddyryswch. Yr oedd y person parchus wedi gorphen y frawddeg cyn myned allan â'r geiriau, "Cymerwch afael ar yr addewidion,"—a'r garddwr wedi dyfod "a chaib" ar ol hyny. Wrth ddarllen yn frysiog, y

mae'r person yn dyweyd, "Cymerwch afael ar yr addewidion â chaib." "Beth?" eb efe, "â chaib? ïe, caib wyt ti yn sicr, ond o ba le y daethost yma, nis gwn." Taflwyd yr holl wasanaeth i annibendod. Cododd gwaed y person i'w wyneb; chwarddodd y clochydd, gyda Modryb Pegi o'r Green, a Marged Griffith, nes yr oeddynt yn siglo, er gwneyd eu goreu i beidio. Felly chwi welwch, afradwyd pregeth ragorol, dim yn y byd ond taflu caib i'w chanol. Yr oedd hyny, tebygem ni, yn llai peth o lawer na bod *canary* yn ehedeg i ganol pregeth pan y byddai dyn yn y weithred o'i thraddodi. Byddai profedigaethau yn cyfarfod â'n harwr, fel yr Apostol Paul, yn mhob dinas; er hyny, yr oedd yn myned drwyddynt yn anrhydeddus. Er yr holl helbul yn nghylch y bregeth hon, bydd yn dda gan ein darllenwyr glywed iddo allu dybenu gan ddyweyd Amen ar ei diwedd yn gystal a'r goreu.

Am y rhan arall o hanes George Heycock, a'r gweithredodd a wnaeth efe, y mae amgylchiadau yn ein gorfodi i'w adael yn bresenol; fe allai i ddwylaw mwy medrus a chelfyddgar, y rhai a dynant y portread gyda mwy o gywreinrwydd. Yr ydym, gan hyny, yn crefu caniatad i encilio yn ddystaw i'r cysgod, a gorphwyso.

# PENOD VIII.

PAN yn ysgrifenu y penodau blaenorol ar George Heycock, yr ydym yn cofio dywedyd fod rhan arall o'i hanes i fod, a'n bod yn gadael hyny hyd rhyw amser arall, ac fe allai i law arall mwy cywrain i'w ddarlunio. Ni feddyliasom y buasai y rhan hyny mor fyr ag y trodd allan i fod. Pan yr oeddem yn ysgrifenu, yr oedd llawer yn meddwl fel hyn ac fel arall; ac heb ond ychydig yn meddwl yn gywir. Byddai rhai yn meddwl mai ffug-chwedl ydoedd, eraill mai hanes rhyw hen gymeriad yn y canrifoedd o'r blaen, pan yr oedd Cymru oll yn farfog ac yn wyllt; a rhyw ychydig yn beiddio dyweyd mai caboliad, heb sail digonol, ydoedd. Ychydig oedd y cyfeillion hyn; ac y mae yn dda genym ddeall eu bod wedi edifarhau a dychwelyd oddiar yr amser hyny. Ein cyfeillion anwyl ni ydynt, serch hyny; a gobeithiwn y gwna yr undeb barhau hyd y diwedd. Cymeriad gwirioneddol oedd George Heycock, ac, fel y gwelir, hynod iawn; a gellir cael llawer o wersi oddiwrth ei ymlwybriad drwy y byd.

Ni chafodd fyw ond ychydig wedi i ni orphen yr hanes blaenorol; eto dygwyddodd amryw o bethau yn yr ardal y ceisiwyd ganddo gymeryd rhan ynddynt, gan gydnabod wrth hyny mai efe oedd yr unig ddyn cymhwys i gario unrhyw beth mawr allan. Ni wnawn ond enwi un yn bresenol.

Yr oedd etifedd Margam yn dyfod i'w oed, sef mab C. R. M. Talbot, yswain, un o farchogion Morganwg; a mawr oedd mwstwr pawb a phob cymdeithas am wneyd rhyw beth i anrhydeddu yr etifedd a'r teulu. Penderfynodd y gymdeithas elusengar yn y Taibach i roi rhyw gymaint o lestri arian i'r etifedd. Ond y pwnc nesaf oedd, pwy allesid gael i wneyd araeth briodol, ac i gynnrychioli y gymdeithas ger bron y *lord-lieutenant*. Wedi edrych o amgylch, a gweled nad oedd neb yn addas a theilwng, cododd rhyw frawd ag oedd yn fwy llygeidiog na'r lleill, a dywedodd, "George Heycock yw y dyn; os gellir ei berswadio i ddyfod." "Gwir iawn," ebe un; "gwir iawn," meddai y llall. Penderfynwyd ar unwaith i ddanfon dirprwyaeth at Mr. Heycock i ddymuno arno gymeryd y mater mewn llaw. Cydsyniodd yn ddinag i gymeryd at y gorchwyl, ond yn unig iddo gael rhyw beth i'w gario; canys rhwng y goes fach ac adfeiledigrwydd erbyn heddyw, teimlai yn anhawdd i gerdded. "O," ebe amaethwr, "y mae genyf fi geffyl gwyn *first-rate;* mi ddeuaf â hwnw i'ch cario." "Wel, o'r goreu; dyna wnaiff y tro," ebe George. Cyfansoddodd yr araeth ag oedd i'w darllen yn ngwydd y gwr boneddig wrth gyflwyno yr anrheg, a darllenodd hi yn y gymdeithas cyn cychwyn, yr hyn a roddodd foddlonrwydd mawr i'r holl aelodau. Penderfynwyd fod George Heycock i farchogaeth y ceffyl gwyn o flaen y gymdeithas, ac i gyfarfod â'r gwr boneddig ieuanc a'i dad yn y neuadd, i ddarllen yr araeth a chyflwyno yr anrheg yn enw Cymdeithas Elusengar Taibach. Daeth y ceffyl gwyn â chyfrwy a ffrwyn newydd, pob peth yn dysgleirio, at

ddrws y "Somerset." Cynorthwywyd George i fyny, a marchogodd yn ardderchog o flaen yr orymdaith at y palas. Cynorthwywyd ef i ddisgyn; ac y mae yn myned i fyny i'r grisiau sydd yn arwain i'r *entrance hall* yn dra mawreddus,—y ffon yn un llaw yn cynorthwyo y goes fach, a'r araeth yn y llall i'w darllen i'r boneddigion. Cyfarfyddasant yn y neuadd; a dywedir fod George braidd yn fwy boneddigaidd na'r boneddigion eu hunain. Yn gymaint a bod y papyr mewn un llaw, a'r ffon yn y llall, cafodd beth drafferth i dynu ei het; ond wrth bwyso yn erbyn y mur, daeth i ben â hyn yn weddol, a darllenodd yr araeth, yr hon oedd yn gyfansoddiad Seisnig, gydag urddasolrwydd mawr. Wedi derbyn cydnabyddiaeth y boneddigion, dychwelwyd mewn gorymdaith yn ol i'r ystafell, yn cael ei blaenori gan Mr. Heycock ar y march gwyn.

Gallem ddyweyd llawer ychwaneg; eto y mae hyn yn ddigon i ddangos a chadarnhau yr hyn yr ydym wedi bod yn dal allan yn y llyfr,—fod rhyw beth hynod, yn mhell tu hwnt i'r cyffredin, yn y dyn hwn. Os nad oedd, pa fodd yr oedd y gymdeithas hon yn ei roi ef yn y fath sefyllfa, yn fwy na neb arall? Ond er ei holl hynodion, gwelir yn amlwg ei fod yn tynu yn awr yn frysiog tua'r bedd; y cyfansoddiad sydd yn tori fyny, y nerth sydd yn pallu; bydd priddellau y dyffryn yn felus iddo yntau yn y man. Gwaelodd mewn corph a meddwl yn gyflym yn awr; aeth yn glaf iawn; cyfyngwyd ef rhwng erchwynion y gwely; gobeithiodd yn yr Iesu am bob peth perthynol i'r dyfodol, ac hunodd ynddo. Er ei fod yn ddyn o amgylchiadau tlawd, ymgynullodd llonaid capel y Taibach i'w angladd; a phan oedd y pregethwr yn dyweyd, "Bobl anwyl, y mae George wedi marw; a phe gofynid i chwi oll, er ei holl droion dyrys yn y byd, i ba le yr aeth, ni fyddai genych ond un lle iddo. Yr wyf yn gwybod," meddai y pregethwr, "nad oes yr un dyn o fewn y capel yn meddwl i George fyned i uffern." "Nac oes," ebe un o'r gynulleidfa; ac wylasant fel cawod o wlaw. Felly terfynwyd taith Heycock yn y glyn; a rhoddwyd ef i orwedd gyda'i dadau.

---

[Gwnaethom gamsynied bychan trwy ddyweyd i wrthddrych y llyfr gael ei eni yn gloff. Mae yn debyg i hyny ddyfod oddiamgylch trwy ddygwyddiad yn nyddiau ei fabandod.]

BODLEIANA

---

Argraffwyd gan J. Rosser, Heol Heathfield, Abertawy.

# LLYFRAU

CYHOEDDEDIG

## Gan J. Rosser, Heol Heathfield, Abertawy.

GEIRLYFR YSGRYTHYROL, wedi ei fwriadu at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol. Amcenir iddo fod i ddeiliaid yr Ysgol ... yr hyn yw y Geiriadur Ysgrythyrol, gan y Parch T. Charles, i ddynion mewn oedran. (Yn y Wasg.)

BYWGRAFFIAD Y PARCH. THOMAS RICHARD. Gan E. Matthews, Eweni.

"Gwr hynod, ... wir, fel y gŵyr ein darllenwyr, oedd gwrth-ddrych y bywgraffiad hwn; ac nid gwr anhynod, fel y gwyddant hefyd, yw yr Awdwr. Fe debygid fod tebygolrwydd mawr mewn llawer o bethau rhwng Thomas Richard ag Edward Matthews ac fel un o gyffelyb anian, ac heb fod hefyd yn un o annghyffelyb ddawn, yr oedd yn dra phriodol i'r olaf fod yn fywgraffiedydd y cyntaf. Llanwodd Mr. Richard yn ei oes le mawr yn nghyfundeb Methodistiaid Cymru; ac nid bywgraffiad bychan a chyffredin fyddai yn gweddu i'r fath wr.

* * * * * * * * * *

Rhaid i ni adael ar hyna y waith hon, gan addaw rhoddi adolygiad pellach ar y llyfr nodedig hwn yn ein rhifyn nesaf. Yn y cyfamser hyderwn y bydd y rhan fwyaf o'n cyfeillion wedi ei feddianu a'i ddarllen eu hunain."—*Y Drysorfa.*

"Y mae yn llawenydd genym allu hysbysu ein darllenwyr fod y llyfr hwn allan o'r wasg. Yr oedd dysgwyliad mawr am dano, ond y mae yr hyn a ddarllenasom o hono wedi rhoddi prawf digonol i ni ei fod mewn gwirionedd yr hyn y dysgwyliasom iddo fod. Dyn hollol ar ei ben ei hun oedd Mr. Richard—annhebyg i bawb eraill. * * * Nis gallwn lai na dymuno gwerthiant helaeth i'r fath lyfr. Diau genym y bydd yn cael y croesaw anwylaf gan gyfeillion a theuluoedd perthynol i enwadau eraill." —*Yr Arweinydd.*

Pris 4s., mewn Llian, gyda Darlun hardd. Y Darlun ar wahan, pris 1s., a 6ch.

LLYFR Hymnau Trefnyddion Calfinaidd Deheudir Cymru. Mewn *Roan, gilt edge,* 2s. 3c.; *Calf, gilt edge,* 3s.

HANES Bywyd Siencyn Penhydd. Gan Edward Matthews, Eweny. (Trydydd Argraffiad) Pris Swllt.

GWEITHIAU y diweddar Barch. Morgan Howells. Dan olygiad E. Matthews. Rhifynau, 4s. 6ch., Llian, 5s. 6ch.

ARGRAFFIAD Rhad o'r Bibl Teuluaidd, gyda Sylwadau y Parch. P. Williams. Mewn Rhifynau 21s., Croen Llo, 28...

JOSEPH ROSSER, ARGRAFFYDD, HEOL HEATHFIELD, ABERTAWY.